# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mawrth, 16 Hydref 2012**
**Tuesday, 16 October 2012**

**Cynnwys**
**Contents**


3 Cwestiynau i’r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

29 Cwestiwn Brys: Asbestos yn Ysgol Uwchradd Cwmcarn
Urgent Question: Asbestos at Cwmcarn High Council

33 Cwestiwn Brys: Y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol
Urgent Question: The Agricultural Wages Board

37 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

43 Datganiad: Y Cynnydd wrth Weithredu Ymateb Llywodraeth Cymru i Gau Ffatrïoedd Remploy
Statement: Progress in Implementing the Welsh Government Response to the Remploy Closures

49 Datganiad: Y Diweddaraf am Twf Swyddi Cymru
Statement: Update on Jobs Growth Wales

63 Datganiad: Diogelwch Cymunedol a Chynnydd ar Bennod 7 y Rhaglen Lywodraethu
Statement: Community Safety and Progress on Chapter 7 of the Programme for Government

81 Cynnig i Gymeradwyo Egwyddorion Cyffredinol Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)
Motion to Approve the General Principles of the Food Hygiene Rating (Wales) Bill

99 Yr Adroddiad ar Ddinas-Ranbarthau
The City Regions Report


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Blaenoriaethau (y De-ddwyrain)

***1. Mohammad Asghar:*** *Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer de-ddwyrain Cymru dros y chwe mis nesaf. OAQ(4)0705(FM)*

### Priorities (South-east Wales)

***1. Mohammad Asghar:*** *What are the Welsh Government's priorities for south-east Wales for the next six months. OAQ(4)0705(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** They are set out in the programme for government.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Maent wedi eu nodi yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu.

**Mohammad Asghar:** Thank you very much for the sharp and short answer, First Minister. Your programme for government aims to strengthen the conditions that will enable businesses to create jobs and sustainable economic growth. Following the recent meeting of the council for economic renewal, will the First Minister commit his Government to publishing an export strategy for Wales and to undertaking the necessary analysis to determine the export capacity of Wales's small and medium-sized businesses? Does the First Minister agree that such a strategy, with the necessary analysis and benchmarking, would provide him with the required level of details to demonstrate whether the Welsh Government's relationship with UK Trade and Investment is delivering for Wales?

**Mohammad Asghar:** Diolch yn fawr am yr ateb cryno a byr, Brif Weinidog. Nod eich rhaglen lywodraethu yw cryfhau'r amodau a fydd yn galluogi busnesau i greu swyddi, a galluogi twf economaidd cynaliadwy. Yn dilyn cyfarfod diweddar o'r cyngor ar gyfer adnewyddu'r economi, a wnaiff y Prif Weinidog ymrwymo ei Lywodraeth i gyhoeddi strategaeth allforio ar gyfer Cymru ac i ymgymryd â'r dadansoddiad angenrheidiol i fesur gallu allforio busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru? A yw'r Prif Weinidog yn cytuno y byddai strategaeth o'r fath, gyda'r dadansoddiad a'r meincnodi angenrheidiol, yn darparu'r lefel angenrheidiol o fanylion iddo i ddangos a yw perthynas Llywodraeth Cymru â Masnach a Buddsoddi y DU yn cyflawni dros Gymru?

**The First Minister:** We are, at present, going through a process of examining the need for representation overseas to ensure that we can maximise Wales's profile abroad, while at the same time—[*Inaudible*.]

**Y Prif Weinidog:** Rydym ar hyn o bryd, yn mynd drwy broses o edrych ar yr angen am gynrychiolaeth dramor i sicrhau y gallwn sicrhau'r proffil gorau i Gymru dramor, ac ar yr un pryd—*[Anghlywadwy.]*

### Newidiadau mewn Budd-daliadau

***2. Simon Thomas:*** *Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith newidiadau mewn budd-daliadau ar economi Cymru. OAQ(4)0719(FM)*

### Changes in Benefit Payments

***2. Simon Thomas:*** *What assessment has the First Minister made of the effects that changes in benefit payments have had on the Welsh economy. OAQ(4)0719(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r dadansoddiad dros

**The First Minister:** Provisional analysis

dro, a gwblhawyd gan fy swyddogion, o effeithiau diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar economi Cymru yn dangos nifer o effeithiau negyddol. Mae rhagor o waith dadansoddi'n mynd rhagddo i edrych ar y dadansoddiad sydd wedi cymryd lle er mwyn sicrhau ein bod yn deall mwy amdano.

undertaken by my officials of the impact of the UK Government's welfare reforms on the Welsh economy shows a range of negative effects. Further analysis is under way to refine and extend the analysis that has taken place in order to ensure that we understand more about it.

**Simon Thomas:** Diolch i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. Wrth gwrs, mae budd-daliadau, a deddfwriaeth o gwmpas budd-daliadau, eisoes wedi'u datganoli yng Ngogledd Iwerddon, ac oherwydd hynny mae trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd rhwng Llywodraeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth San Steffan i wneud y newidiadau i fudd-daliadau yn fwy hyblyg yng Ngogledd Iwerddon i ateb y galw lleol. O gofio bod cytundeb hanesyddol Caeredin wedi ei gytuno—ac rydym yn falch o weld refferendwm ar annibyniaeth yn yr Alban—pa gamau a ydych chi'n eu cymryd nawr i ddiogelu safle Llywodraeth Cymru a hawl Llywodraeth Cymru i negodi rhai o'r budd-daliadau hyn wrth fynd ymlaen?

**Simon Thomas:** I thank the First Minister for that response. Of course, benefits and legislation surrounding benefits have already been devolved to Northern Ireland and, as a result, negotiations are ongoing between the Government of Northern Ireland and the Government at Westminster to make the changes to benefits more flexible in Northern Ireland to respond to local need. Bearing in mind that the historic Edinburgh agreement was reached—and we are pleased to see a referendum on independence in Scotland—what steps will you take now to safeguard the Welsh Government's position and the Welsh Government's right to negotiate some of these benefits for the future?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf o blaid datganoli—

**The First Minister:** I am not in favour of devolution—

**The Presiding Officer:** First Minister, your microphone does not appear to be working. Could we move Jane Hutt's and Edwina Hart's microphones closer, please?

**Y Llywydd:** Brif Weinidog, nid yw'n ymddangos bod eich meicroffon yn gweithio. A allwn ni symud meicroffonau Jane Hutt ac Edwina Hart yn nes, os gwelwch yn dda?

**The First Minister:** I might be received in stereo now, Presiding Officer. [*Laughter*.]

**Y Prif Weinidog:** Efallai y byddwch yn fy nghlywed mewn stereo yn awr, Lywydd.[Chwerthin.]

**The Presiding Officer:** Yes; you can give us a song if you like. [*Laughter.*]

**Y Llywydd:** Ie, gewch chi roi cân i ni, os hoffech chi.[Chwerthin.]

**Y Prif Weinidog:** Ni fyddwn o blaid datganoli budd-daliadau. Beth sy'n bwysig yw bod y polisïau iawn yn dod i mewn o ran budd-daliadau, nid bod budd-daliadau yn cael eu datganoli. Pam? Oherwydd ein bod yn gwybod bod llawer o arian yn cael ei drosglwyddo dros y Deyrnas Unedig o achos y system budd-daliadau.

**The First Minister:** I would not be in favour of devolving benefits. What is important is that the right policies are in place with regard to benefits, not that benefits should be devolved. Why? That is because we know that a great deal of money is transferred across the whole of the United Kingdom due to the benefits system.

**Kenneth Skates:** First Minister, the Fair Share for Wrexham group has this week begun examining the possibility of setting up a scheme to collect food and to distribute it to

**Kenneth Skates:** Brif Weinidog, mae'r grŵp Cyfran Deg i Wrecsam yr wythnos hon wedi dechrau edrych ar y posibilrwydd o sefydlu cynllun i gasglu bwyd a'i ddosbarthu

charities and families. It comes alongside the reappearance of food banks in Wrexham, Deeside, Caernarfon, Pwllheli and Mold. Do you agree that no matter how humble and noble these emergency programmes, they stand as a damning indictment of Tory-Lib Dem economic policy?

i elusennau a theuluoedd. Mae'n dod ochr yn ochr ag ailymddangosiad banciau bwyd yn Wrecsam, Glannau Dyfrdwy, Caernarfon, Pwllheli a'r Wyddgrug. A ydych chi'n cytuno, ni waeth pa mor ddiymhongar a haelfrydig yw’r rhaglenni brys hyn, maent yn cynrychioli condemniad llwyr o bolisi economaidd y Torïaid-Democratiaid Rhyddfrydol?

**The First Minister:** It will come as no secret to the Member that we do not agree with the UK Government’s current economic policy; we believe there needs to be a change of course. Unfortunately, the food banks are an indication of what has happened over the past two years and are a warning to the UK Government that there needs to be a change of course before there are even more food banks and even more recipients from them.

**Y Prif Weinidog Cymru:** Bydd yr Aelod yn gwybod nad yw’n gyfrinach ein bod yn anghytuno â pholisi economaidd presennol Llywodraeth y DU; rydym yn credu bod angen newid cwrs. Yn anffodus, mae'r banciau bwyd yn arwydd o'r hyn sydd wedi digwydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac maent yn rhybudd i Lywodraeth y DU fod angen newid cwrs cyn bod hyd yn oed mwy o fanciau bwyd a hyd yn oed mwy o bobl sy’n gorfod derbyn bwyd ganddynt.

**Janet Finch-Saunders:** The introduction of a benefit cap will not affect the disabled or those who are in work and receiving tax credit. At a rate of £26,000 per year, in real terms this will be the equivalent of some £35,000 before tax. A recent YouGov poll showed that 70% of the public, and 60% of your own supporters, backed the principle of this cap. In opposing UK Government welfare changes, are you saying to this Chamber that your own supporters are wrong?

**Janet Finch-Saunders:** Ni fydd cyflwyno uchafswm budd-daliadau yn effeithio ar bobl anabl na'r rhai sydd mewn gwaith ac yn derbyn credyd treth. Ar gyfradd o £26,000 y flwyddyn, bydd hyn mewn gwirionedd yn cyfateb i tua £35,000 cyn treth. Mae arolwg barn diweddar YouGov yn dangos bod 70% o'r cyhoedd, a 60% o'ch cefnogwyr chi, yn cefnogi egwyddor yr uchafswm. Wrth wrthwynebu newidiadau lles Llywodraeth y DU, a ydych yn dweud wrth y Siambr hon bod eich cefnogwyr chi eich hun yn anghywir?

**The First Minister:** I can say very much to the people of Wales that I do not believe that it is right that low-income families should be penalised by your Government. I will give you an example of that: only this morning, we heard that some 2 million people will lose their entitlements to benefits with regard to their council tax payments, and will end up paying £247 a year more than they pay now. Therefore, when the party opposite talks about council tax freezes, they do not apply to the lowest paid.

**Y Prif Weinidog:** Gallaf ddweud yn bendant wrth bobl Cymru nad wyf yn credu ei bod yn iawn bod teuluoedd incwm isel yn cael eu cosbi gan eich Llywodraeth. Fe roddaf enghraifft o hynny i chi: dim ond y bore yma, clywsom y bydd tua 2 filiwn o bobl yn colli eu hawl i fudd-daliadau o ran eu taliadau treth gyngor, a byddant yn talu £247 y flwyddyn yn fwy nag y maent yn ei dalu yn awr. Felly, pan fydd y blaid gyferbyn yn sôn am rewi’r dreth gyngor, nid ydynt yn berthnasol i’r rhai ar y cyflogau isaf.

**Peter Black:** You will know that local authorities have the right to issue discretionary housing payments, to help with problems with housing benefit. However, these budgets are often underspent by local councils. Given the changes in housing

**Peter Black:** Byddwch yn gwybod bod gan awdurdodau lleol yr hawl i gyflwyno taliadau tai dewisol, i helpu gyda phroblemau yn ymwneud â budd-dal tai. Fodd bynnag, ceir tanwariant yn aml o’r cyllidebau hyn gan gynghorau lleol. O ystyried y newidiadau yn

benefit, what guidance will you be issuing to local councils as to how to make best use of the budgets that they have available for discretionary housing payments, to help people with the transition?

y budd-dal tai, pa ganllawiau fyddwch chi'n eu rhoi i gynghorau lleol ar sut i wneud y defnydd gorau o'r cyllidebau sydd ganddynt ar gael ar gyfer taliadau tai dewisol, i helpu pobl â'r trawsnewid?

**The First Minister:** It is crucial that local authorities are able to maximise discretionary housing benefit payments at a time when we know that so many people are feeling the squeeze that has been imposed by the UK Government.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn gallu talu cymaint â phosibl o daliadau budd-dal tai dewisol ar adeg pan rydym yn gwybod bod cymaint o bobl yn teimlo'r wasgfa sydd wedi ei gorfodi gan Lywodraeth y DU.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** First Minister, there are reports today from the higher education sector that there are doubts as to the validity of the marking of foreign student papers. What are your thoughts on these allegations?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Brif Weinidog, mae adroddiadau heddiw gan y sector addysg uwch yn nodi bod amheuon ynghylch dilysrwydd marcio papurau myfyrwyr tramor. Beth yw eich barn chi am yr honiadau hyn?

**The First Minister:** As far as I am aware, no evidence has been brought forward to support those allegations. If there is such evidence, it will of course be considered.

**Y Prif Weinidog:** Cyn belled ag yr wyf yn ymwybodol, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi ei dwyn ymlaen i gefnogi'r honiadau hynny. Os oes tystiolaeth o'r fath yn bod, bydd, wrth gwrs, yn cael ei hystyried.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for those thoughts, First Minister. There has been a train of thought in the higher education sector about this practice being undertaken. Some 11% of the student population comes from overseas, yet 32% of the income of universities is derived from foreign students. Therefore, there has been a perception, and now these allegations have appeared in the press. Do you not believe that, unless these allegations are taken seriously, and are addressed, there is a real issue that the Welsh brand in higher education could be devalued? Furthermore, do you not believe that there is a need to get into this issue, to address the concerns that have been raised by people and students in the higher education sector, and to ascertain whether there is any truth in these allegations?

**Andrew R.T. Davies:** Diolch i chi am y farn yna, Brif Weinidog. Bu rhyw syniad yn y sector addysg uwch bod yr arfer hwn ar waith. Tua 11% o'r boblogaeth myfyrwyr sy'n dod o dramor, ac eto mae 32% o incwm prifysgolion yn dod oddi wrth fyfyrwyr tramor. Felly, bu dirnadaeth, ac mae'r honiadau hyn wedi ymddangos yn y wasg erbyn hyn. Onid ydych yn credu, oni bai bod yr honiadau hyn yn cael eu cymryd o ddifrif, ac yr ymdrinnir â hwy, mae gwir berygl y gallai brand Cymru mewn addysg uwch gael ei ddibrisio? Ar ben hynny, onid ydych chi'n credu bod angen ymdrin â'r mater hwn, i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan bobl a myfyrwyr yn y sector addysg uwch, ac i ganfod a oes unrhyw wirionedd yn yr honiadau hyn?

**The First Minister:** As I said, it is a UK issue, but if there is any evidence that supports such allegations, we will of course consider that evidence.

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedais, mater i'r DU yw hwn, ond os oes unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi honiadau o'r fath, byddwn wrth gwrs yn ystyried y dystiolaeth honno.

**Andrew R.T. Davies:** One thing that would

**Andrew R.T. Davies:** Un peth a fyddai o

be helpful would be for people to be able to see the dissertations—

gymorth fyddai i bobl fod yn gallu cael gweld y traethodau hir—

**Simon Thomas:** They are in the National Library for Wales.

**Simon Thomas:** Maent yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Lord Elis-Thomas:** They are published in the national library.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Maent yn cael eu cyhoeddi yn y llyfrgell genedlaethol.

**Andrew R.T. Davies:** —across the HE sector in Wales. Some universities do that, which is to be applauded.

**Andrew R.T. Davies:**— ar draws y sector AU yng Nghymru. Mae rhai prifysgolion yn gwneud hynny, sydd i'w ganmol.

**Lord Elis Thomas:** They do—

**Yr Arglwydd Elis Thomas:** Maent yn—

**Andrew R.T. Davies:** Someone obviously has some indigestion this afternoon. However, it is not common practice among all HE facilities in Wales. Would you not support such a move, so that those dissertations could be made available for public and open scrutiny, so that these allegations could be put to rest?

**Andrew R.T. Davies:** Mae’n amlwg fod gan rywun rywfaint o ddiffyg traul y prynhawn yma. Fodd bynnag, nid yw'n arfer cyffredin ymhlith yr holl gyfleusterau AU yng Nghymru. A fyddech chi ddim yn cefnogi symudiad o'r fath, fel y gallai'r traethodau hir dan sylw fod ar gael ar gyfer y cyhoedd a chraffu agored, fel y gellid rhoi taw ar yr honiadau hyn?

**The First Minister:** As I say, if there is any evidence to back up such allegations, it will be considered. I listened carefully to the interjections from a respected former Presiding Officer of the Assembly, and I am in no position to disagree with him.

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedais, os oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi honiadau o'r fath, bydd yn cael ei hystyried. Gwrandewais yn ofalus ar ebychiadau gan gyn Lywydd mawr ei barch y Cynulliad, ac nid wyf mewn sefyllfa i anghytuno ag ef.

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** First Minister, can you tell us what progress has been made by your Government in preventing the UK Government from introducing a regional cap on benefits?

**Mae Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Brif Weinidog, a allwch chi ddweud wrthym pa gynnydd sydd wedi'i wneud gan eich Llywodraeth o ran atal Llywodraeth y DU rhag cyflwyno uchafswm rhanbarthol ar fudd-daliadau?

**The First Minister:** We have made very clear our opposition to any regional cap on benefits.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi gwneud yn glir iawn ein gwrthwynebiad i unrhyw uchafswm rhanbarthol ar fudd-daliadau.

**Leanne Wood:** The Shadow Work and Pensions Secretary, Liam Byrne, said at the Labour Party Conference that it would make much more sense to have a different cap in different parts of the country. Do you agree with your party’s policy to introduce a regional benefits cap?

**Leanne Wood:** Dywedodd Ysgrifennydd Gwaith a Phensiynau yr Wrthblaid, Liam Byrne, yng Nghynhadledd y Blaid Lafur y byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr i gael uchafswm gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r wlad**. A y**dych chi'n cytuno â pholisi eich plaid i gyflwyno uchafswm budd-daliadau rhanbarthol?

**The First Minister:** I do not agree with a regional benefits cap. That is the policy of

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn cytuno ag uchafswm budd-daliadau rhanbarthol. Dyna

Welsh Labour and the Welsh Government.

yw polisi Llafur Cymru a Llywodraeth Cymru.

**Leanne Wood:** Welfare decisions are mainly non-devolved, and all you can do here is mitigate the decisions that are made. The Party of Wales would like to see the network of advice agencies in Wales strengthened, so that we have a fighting chance of mitigating the worst effects of Westminster's reactionary agenda. Can you outline what additional support your Government will be giving to welfare advice agencies over the next few years, as the need for advice is likely to grow?

**Leanne Wood:** Nid yw penderfyniadau lles wedi eu datganoli ar y cyfan, a'r cwbl y gallwch ei wneud yma yw lliniaru'r penderfyniadau a wneir. Byddai Plaid Cymru yn hoffi gweld cryfhau'r rhwydwaith o asiantaethau cynghori yng Nghymru, fel bod gennym rywfaint o obaith o liniaru effeithiau gwaethaf agenda adweithiol San Steffan. A allwch chi amlinellu pa gymorth ychwanegol y bydd eich Llywodraeth yn ei roi i asiantaethau cynghori ar les dros y blynyddoedd nesaf, gan fod yr angen am gyngor yn debygol o dyfu?

**The First Minister:** Indeed so. There is a review taking place of the level of support that is available, because we understand that, as people become more vulnerable, they will need more support and advice, and through the review, we intend to ensure that they get that.

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n wir. Mae adolygiad ar y gweill o lefel y gefnogaeth sydd ar gael, oherwydd rydym yn deall, wrth i bobl ddod yn fwy agored i niwed, y bydd angen mwy o gymorth a chyngor arnynt, a thrwy'r adolygiad, rydym yn bwriadu sicrhau eu bod yn cael hynny.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, the national clinical forum, a body set up by your Minister for Health and Social Services to advise on possible changes to the health service, stated that the plans, as published, of both Betsi Cadwaladr University Local Health Board and Hywel Dda Local Health Board, may not be deliverable and that hospital services will have to close because of a shortage of doctors. A year ago, you told me that the answer to this pressing problem was to launch a campaign that would 'fill most of those posts'. Could you tell this Chamber how that campaign is going?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, datganodd y fforwm clinigol cenedlaethol, corff a sefydlwyd gan eich Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynghori ar newidiadau posibl i'r gwasanaeth iechyd, ei bod yn bosibl na ellir cyflawni cynlluniau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr na rhai Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, fel y'u cyhoeddwyd, ac y bydd gwasanaethau ysbyty yn gorfod cau oherwydd prinder meddygon. Flwyddyn yn ôl, dywedasoch wrthyf mai'r ateb i'r broblem enbyd hon fyddai lansio ymgyrch a fyddai'n 'llenwi'r rhan fwyaf o'r swyddi hynny'. A wnewch chi ddweud wrth y Siambr hon sut mae'r ymgyrch yn mynd yn ei flaen?

**The First Minister:** Of course, it takes some time to assess a campaign; it has only been running for some months. However, the difference between us and the UK Government is that we are trying to be proactive in bringing doctors into Wales.

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, mae'n cymryd peth amser i asesu ymgyrch, nid yw ond wedi bod yn rhedeg am ychydig fisoedd. Fodd bynnag, y gwahaniaeth rhyngom ni a Llywodraeth y DU yw ein bod yn ceisio bod yn rhagweithiol wrth ddod â meddygon i Gymru.

**Kirsty Williams:** Let me assist the First Minister. Your Minister for health wrote to me on 9 October to say that, in January 2012, there were 214 medical vacancies in Wales. I

**Kirsty Williams:** Gadewch i mi gynorthwyo'r Prif Weinidog. Ysgrifennodd eich Gweinidog Iechyd ataf ar 9 Hydref i ddweud bod, ym mis Ionawr 2012, 214 o

am pleased to say that, in June, that figure had dropped, but only to 209 vacancies. You have managed to recruit an additional five doctors in six months. At this rate, it would take you 20 years to address the shortage of medics in Wales. When do you expect your campaign to bear fruit?

swyddi meddygol gwag yng Nghymru. Yr wyf yn falch o ddweud, erbyn mis Mehefin, bod y ffigwr hwnnw wedi gostwng, ond dim ond i 209 o swyddi gwag. Rydych wedi llwyddo i recriwtio pum meddyg ychwanegol mewn chwe mis. Ar y raddfa hon, byddai'n cymryd 20 mlynedd i chi fynd i'r afael â'r prinder meddygon yng Nghymru. Pryd ydych chi'n disgwyl i'ch ymgyrch ddwyn ffrwyth?

**The First Minister:** The first point is that you are talking about a net gain: people are still leaving their posts and moving elsewhere, and that happens within the NHS and elsewhere. It would be immensely helpful if the perception that exists among the medical profession abroad—that the UK is not a welcoming place to come if you are a doctor—could be addressed. We have relied, historically, on doctors from other countries to staff the NHS in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Y pwynt cyntaf yw eich bod yn sôn am gynnydd net: mae pobl yn dal i adael eu swyddi ac yn symud i rywle arall, ac mae hynny'n digwydd yn y GIG ac mewn mannau eraill. Byddai'n hynod o ddefnyddiol pe gellid mynd i'r afael â'r canfyddiad sy'n bodoli ymhlith y proffesiwn meddygol dramor—nad yw'r DU yn lle croesawgar i ddod iddo os ydych yn feddyg. Rydym wedi dibynnu, yn hanesyddol, ar feddygon o wledydd eraill i staffio'r GIG yng Nghymru.

**Kirsty Williams:** The First Minister will be well aware that any changes to the immigration rules that allowed doctors, in the past, to come from other countries were changed by the previous Government. First Minister, the worrying figures have a real impact on patient care. Betsi Cadwaladr University health board has admitted recently that patients have experienced significant waiting times at emergency departments, for instance, at Glan Clwyd Hospital, because of problems in recruiting senior medics. That lack of recruitment has led to a lack of clinical leadership. Five doctors recruited in six months and over 200 existing vacancies. When will Welsh patients have the doctors that they need to treat them in their hospitals?

**Kirsty Williams:** Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol iawn bod unrhyw newidiadau a wnaed i'r rheolau mewnfudo a ganiataodd i feddygon ddod o wledydd eraill yn y gorffennol, wedi eu gwneud gan y Llywodraeth flaenorol. Brif Weinidog, mae'r ffigurau hyn sy'n peri pryder yn cael gwir effaith ar ofal cleifion. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyfaddef yn ddiweddar bod cleifion wedi profi amseroedd aros sylweddol mewn adrannau achosion brys, er enghraifft, yn Ysbyty Glan Clwyd, oherwydd problemau mewn recriwtio meddygon uwch. Mae'r diffyg recriwtio hwnnw wedi arwain at ddiffyg arweinyddiaeth glinigol. Pum meddyg wedi eu recriwtio mewn chwe mis a dros 200 o swyddi gwag ar hyn o bryd. Pryd y bydd gan gleifion Cymru y meddygon y maent eu hangen i'w trin yn eu hysbytai?

**The First Minister:** We know that this is an issue that affects the whole of the UK. It is not simply a Welsh issue. As I have said, we have taken steps to address the issue of recruitment. It is still in its early days, in terms of analysing its success. We want to sell Wales to doctors as not just a place to work, but a place in which to specialise and to innovate; that has been the key to what we have been doing as a Government. I cannot accept this argument that the immigration rules were changed by a previous

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gwybod bod hwn yn fater sy'n effeithio ar y DU gyfan. Nid yw'n fater i Gymru'n unig. Fel yr wyf wedi dweud, rydym wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater o recriwtio. Mae'n dal yn ei ddyddiau cynnar, o ran dadansoddi ei lwyddiant. Rydym yn awyddus i werthu Cymru i feddygon, nid yn unig fel lle i weithio, ond lle i arbenigo ac i arloesi; dyna sydd wedi bod yn allweddol o ran yr hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud fel Llywodraeth. Ni allaf dderbyn y ddadl bod y rheolau

Government: your party has been in power for two and a half years, you cannot simply say, ‘Sorry, but it was done by a previous Government and there is nothing we can do’. It is about time your party delivered in Government.

mewnfudo wedi eu newid gan Lywodraeth flaenorol: mae eich plaid chi wedi bod mewn grym am ddwy flynedd a hanner, ni allwch ddweud, ‘Mae'n ddrwg gennym, ond cafodd ei wneud gan Lywodraeth flaenorol ac nid oes unrhyw beth y gallwn ei wneud’. Mae'n hen bryd i'ch plaid gyflawni mewn Llywodraeth.

**Corff Adnoddau Naturiol Cymru**

**The Natural Resources Body for Wales**

***3. William Powell:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd sydd wedi cael ei wneud i ddatblygu corff adnoddau naturiol Cymru. OAQ(4)0711(FM)*

***3. William Powell:*** *Will the First Minister make a statement on the progress made in developing the natural resources body for Wales. OAQ(4)0711(FM)*

**The First Minister:** The chair and the chief executive of the new body have both been appointed, interviews for non-executive directors have taken place and staff and stakeholders have been involved in shaping the body’s visions, values and ways of working, so it is very much on track.

**Y Prif Weinidog:** Mae cadeirydd a phrif weithredwr y corff newydd wedi eu penodi, mae cyfweliadau ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol wedi eu cynnal ac mae staff a rhanddeiliaid wedi bod ynghlwm mewn ffurfio gweledigaethau, gwerthoedd a ffyrdd o weithio’r corff, felly mae’n sicr ar y trywydd iawn.

**William Powell:** Thank you for that answer, First Minister. Presently, the Environment Agency Wales holds surveillance and monitoring powers that are derived from sections 28 and 29 of the Regulation of Investigatory Powers Act 2000, which it uses to monitor activities such as fly-tipping. In the draft order for the establishment of the resources body, these powers have naturally been transferred. However, given the wider scope of the new body, there is nothing in the draft that specifies any limitations to the use of those powers. Will you please clarify this troublesome ambiguity and specify whether your Government intends to limit these surveillance powers to only those activities that relate to the Environment Agency’s previous functions, or whether you intend to extend them to the functions and purposes of the whole body?

**William Powell:** Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Ar hyn o bryd, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru sydd â’r pwerau gwyliadwriaeth a monitro sy'n deillio o adrannau 28 a 29 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, ac mae’n eu defnyddio i fonitro gweithgareddau fel tipio anghyfreithlon. Yn y gorchymyn drafft ar gyfer sefydlu'r corff adnoddau, mae'r pwerau hyn wedi eu trosglwyddo yn naturiol. Fodd bynnag, o ystyried cwmpas ehangach y corff newydd, nid oes unrhyw beth yn y drafft sy'n nodi unrhyw gyfyngiadau ar y defnydd o'r pwerau hynny. A wnewch chi egluro’r amwysedd trafferthus hwn a nodi pa un a yw eich Llywodraeth yn bwriadu cyfyngu ar y pwerau gwyliadwriaeth hyn i ddim ond y gweithgareddau hynny sy'n berthnasol i swyddogaethau blaenorol Asiantaeth yr Amgylchedd, neu a ydych yn bwriadu eu hymestyn i swyddogaethau a dibenion y corff cyfan?

**The First Minister:** All the powers have to be proportionate and have to be exercised reasonably. We would expect any body to do that. We want to ensure that the new body has sufficient powers at its disposal, in order for it to be able to ensure that we have a vibrant environment and that economic

**Y Prif Weinidog:** Mae'n rhaid i’r holl bwerau fod yn gymesur ac mae'n rhaid iddynt gael eu harfer yn rhesymol. Byddem yn disgwyl i unrhyw gorff wneud hynny. Rydym eisiau sicrhau bod gan y corff newydd ddigon o bwerau ar gael iddo, er mwyn iddo allu sicrhau bod gennym amgylchedd bywiog ac y

development can take place, while at the same time ensuring that there is no unacceptable environmental damage.

1.45 p.m.

**Russell George:** Given the imminent creation of a new single environment body for Wales, can the First Minister tell me what level of resource will be available for the Welsh Government to ensure the delivery of marine policy and legislative objectives?

**The First Minister:** There will be sufficient resources. We have the marine consents unit, which is involved in ensuring that where there are applications at sea they are dealt with. I foresee no difficulties in terms of the resource that will be made available. Indeed, the objective of the new body is to ensure that there is less duplication and greater simplification of environmental advice to businesses.

**Elin Jones:** Brif Weinidog, wrth i chi greu un corff mawr ar gyfer adnoddau naturiol, mae rhai sectorau'n gofidio y bydd eu lleisiau'n cael eu colli o fewn y corff newydd hwnnw. Mae rhai pysgotwyr, er enghraifft, wedi datgan pryder o'r fath i mi. A wnewch ystyried rhoi cyfrifoldeb unigol ar aelodau bwrdd y corff newydd i hyrwyddo meysydd penodol fel pysgota?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r cynnig hwnnw'n un diddorol, a byddaf yn edrych arno. Byddwn yn erfyn i bob aelod gymryd pob rhan o'r amgylchedd o ddifrif. Fel rhywun sydd wedi pysgota llawer yn y gorffennol, rwy'n deall bod rhaid sicrhau afonydd a llynnoedd glan er mwyn sicrhau bod pysgotwyr yn gallu pysgota, a sicrhau eu bod yn teimlo bod y corff newydd yn gweithio dros eu hawliau.

### Sefydlu Comisiynydd Anabledd

***4. Lindsay Whittle:*** *Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i sefydlu Comisiynydd Anabledd. OAQ(4)0707(FM)*

**The First Minister:** Our immediate priority is to consult on and then implement the framework for action on independent living. We believe that this will deliver positive gains for disabled people in the near future.

gall datblygiad economaidd ddigwydd, ac ar yr un pryd, sicrhau nad oes unrhyw ddifrod annerbyniol i'r amgylchedd.

13.45

**Russell George:** O ystyried ein bod ar fin creu corff amgylcheddol sengl newydd i Gymru, a all y Prif Weinidog ddweud wrthyf beth fydd y lefel o adnoddau a fydd ar gael i Lywodraeth Cymru i sicrhau y darperir polisi morol ac amcanion deddfwriaethol?

**Y Prif Weinidog:** Bydd digon o adnoddau. Mae gennym yr uned caniatâd morol, sy'n ymwneud â sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau pan eu bod ar y môr. Nid wyf yn rhagweld unrhyw anawsterau o ran yr adnoddau a fydd ar gael. Yn wir, amcan y corff newydd yw sicrhau bod llai o ddyblygu a mwy o symleiddio ar gyngor amgylcheddol i fusnesau.

**Elin Jones:** First Minister, as you create one large body for natural resources, some sectors are concerned that their voices will be lost within that new body. Some fishermen, for example, have expressed such concerns to me. Will you consider giving specific responsibility to members of the new body's board for promoting specific areas, such as fishing?

**The First Minister:** That is an interesting idea, and I will look at that. I would expect every member to take every aspect of the environment seriously. As someone who used to do a lot of fishing, I understand that we must ensure clean rivers and lakes in order to ensure that fishermen can fish, and ensure that that they feel that the new body works on their behalf.

### Establishing a Disability Commissioner

***4. Lindsay Whittle:*** *What consideration has the Welsh Government given to establishing a Disability Commissioner. OAQ(4)0707(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Ein blaenoriaeth gyntaf yw ymgynghori ar y fframwaith gweithredu ar gyfer byw'n annibynnol, ac yna ei weithredu. Rydym yn credu y bydd hyn yn sicrhau manteision cadarnhaol ar gyfer pobl

anabl yn y dyfodol agos.

**Lindsay Whittle:** That response is relatively positive, First Minister, and this Government has been keen—rightly so—to establish commissioners for older people, children and, most recently, the Welsh language. However, is it not time to put party politics aside and show this Assembly’s commitment to providing a national voice for our disabled citizens, particularly after the amazing performance of so many Welsh athletes in the recent Paralympics? Are you going to take more positive action or not?

**Lindsay Whittle:** Mae’r ymateb yna yn gymharol gadarnhaol, Brif Weinidog, ac mae'r Llywodraeth hon wedi bod yn awyddus—yn hollol gywir felly—i sefydlu comisiynwyr ar gyfer pobl hŷn, plant ac, yn fwyaf diweddar, yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, onid yw'n bryd i roi gwleidyddiaeth bleidiol o'r neilltu a dangos ymrwymiad y Cynulliad hwn i ddarparu llais cenedlaethol ar gyfer ein dinasyddion anabl, yn enwedig ar ôl perfformiad anhygoel cymaint o athletwyr o Gymru yn y Gemau Paralympaidd diweddar? A ydych chi'n mynd i gymryd camau gweithredu mwy cadarnhaol neu beidio?

**The First Minister:** It is not a party-political issue; I do not see that there are political dividing lines on it. It is a question of what can be done as quickly as possible to help disabled people. In the extensive engagement that has taken place with disability groups, they have been clear that they want practical action that can change the lives of disabled people living in Wales. That is why the framework is the next step.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw'n fater pleidiol-wleidyddol; nid wyf yn gweld bod llinellau gwahanu gwleidyddol yn berthnasol. Mae'n gwestiwn o beth ellir ei wneud cyn gynted ag y bo modd i helpu pobl anabl. Yn yr ymgysylltu helaeth sydd wedi digwydd gyda grwpiau anabledd, maent wedi bod yn eglur eu bod am weld gweithredu ymarferol a all newid bywydau pobl anabl sy'n byw yng Nghymru. Dyna pam mai’r fframwaith yw'r cam nesaf.

**Mark Isherwood:** What discussions have you or the Welsh Government had with the Department for Work and Pensions further to its announcement in July that it was recruiting a disabled people’s ambassador for Wales?

**Mark Isherwood:** Pa drafodaethau yr ydych chi neu Lywodraeth Cymru wedi'u cael gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau yn dilyn ei gyhoeddiad ym mis Gorffennaf ei fod yn recriwtio llysgennad i bobl anabl Cymru?

**The First Minister:** We would welcome anything that helps the rights of disabled people. Unfortunately, we know that that is more than balanced in the other direction by what has happened with Remploy, when the UK Government took a decision to make redundant some of the most vulnerable workers that exist in society. So, we welcome anything positive, but, sadly, we know that the closure of Remploy factories is tremendously negative news for many people.

**Y Prif Weinidog:** Byddem yn croesawu unrhyw beth sy'n helpu hawliau pobl anabl. Yn anffodus, gwyddom y ceir effaith mwy na chytbwys i’r cyfeiriad arall drwy’r hyn sydd wedi digwydd gyda Remploy, pan gymerodd Llywodraeth y DU benderfyniad i ddiswyddo rhai o'r gweithwyr mwyaf agored i niwed sy'n bodoli yn y gymdeithas. Felly, rydym yn croesawu unrhyw beth cadarnhaol, ond yn anffodus, rydym yn gwybod bod cau ffatrïoedd Remploy yn newyddion hynod o negyddol i lawer o bobl.

**Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu**

**Police and Crime Commissioners**

***5. Julie Morgan:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn*

***5. Julie Morgan:*** *Will the First Minister outline how the Welsh Government plans to*

*bwriadu gweithio gyda Chomisiynwyr newydd yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. OAQ(4)0712(FM)*

*work with the new Police and Crime Commissioners in Wales. OAQ(4)0712(FM)*

**The First Minister:** The Minister for Local Government and Communities intends to meet the new commissioners on a quarterly basis. The first of these meetings is scheduled for 3 December; he will be meeting them hot off the press, as it were.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn bwriadu cwrdd â'r comisiynwyr newydd ar sail unwaith bob chwarter. Mae'r cyntaf o'r cyfarfodydd hyn wedi ei drefnu ar gyfer 3 Rhagfyr; bydd yn cyfarfod â hwy ar y cyfle cyntaf.

**Julie Morgan:** Thank you for that answer, First Minister. I am sure that we look forward to that meeting. On 17 September, South Wales Police announced the closure of more front-office desks in south Wales, including in Llanishen in my constituency of Cardiff North, which leaves no front desks there. Do you think that police and crime commissioners will have a role in discussing this sort of cut to the service with local communities, local government and the Welsh Government? Would you see that as part of their role?

**Julie Morgan:** Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Yr wyf yn siŵr ein bod yn edrych ymlaen at y cyfarfod hwnnw. Ar 17 Medi, cyhoeddodd Heddlu De Cymru eu bod yn cau mwy o ddesgiau swyddfeydd derbyn yn ne Cymru, gan gynnwys yn Llanisien yn fy etholaeth, sef Gogledd Caerdydd, sy'n golygu nad oes desgiau derbyn yno. A ydych chi o'r farn y bydd gan gomisiynwyr yr heddlu a throseddau rôl wrth drafod y math hwn o dorri ar y gwasanaeth gyda chymunedau lleol, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru? A fyddech chi'n gweld hynny yn rhan o'u rôl?

**The First Minister:** Yes, I would. The obvious role of the commissioners is first to ensure that there is a broad direction of policy and secondly to ensure that people feel that they have somebody to whom they can talk and make representations when decisions such as these are taken. So, yes, I would see the commissioners having a role in this regard.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn, mi fyddwn. Yn amlwg, rôl y comisiynwyr yw, yn gyntaf, sicrhau bod cyfeiriad polisi eang ac yn ail, sicrhau bod pobl yn teimlo bod ganddynt rywun y gallant siarad â hwy a gwneud sylwadau pan fydd penderfyniadau fel y rhain yn cael eu cymryd. Felly, byddwn, fe fyddwn yn gweld bod gan y comisiynwyr rôl yn hyn o beth.

**Byron Davies:** First Minister, I am sure that you will join me in welcoming the role of the police and crime commissioners, and that you will congratulate the Government on giving policing to the people and giving them a clear and accountable representative who they can ask questions. Will you commit to bringing forward a more formal charter between the Welsh Government, police commissioners and local authorities in Wales with a view to working together in a co-ordinated fashion to tackle crime in Wales and to rehabilitate those lost within the criminal justice system?

**Byron Davies:** Brif Weinidog, yr wyf yn siŵr y gwnewch ymuno â mi wrth groesawu rôl comisiynwyr yr heddlu a throseddau, ac y gwnewch longyfarch y Llywodraeth ar roi plismona i'r bobl a rhoi iddynt gynrychiolydd amlwg ac atebol fel y gallant ofyn cwestiynau. A wnewch chi ymrwymo i gyflwyno siarter mwy ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru, comisiynwyr yr heddlu, ac awdurdodau lleol yng Nghymru gyda'r bwriad o gydweithio mewn ffordd gydgysylltiedig i fynd i'r afael â throseddu yng Nghymru ac i adsefydlu'r rhai a aeth ar goll yn y system cyfiawnder troseddol?

**The First Minister:** There is scope for all levels of Government to work together to seek to reduce crime and I am sure that the

**Y Prif Weinidog:** Mae cyfle i bob lefel o'r Llywodraeth gydweithio i geisio lleihau trosedd ac rwy'n siwr y bydd y comisiynwyr

commissioners will raise this and other issues in meetings that they will hold with the Minister.

yn codi’r mater hwn a materion eraill mewn cyfarfodydd y byddant yn eu cynnal gyda'r Gweinidog.

**Christine Chapman:** First Minister, the recent decision by South Wales Police Authority to, effectively, shut Aberdare police station and instead establish a new central ‘Bridewell’ facility in Merthyr Tydfil to cover the whole of Rhondda Cynon Taf is a matter of concern for many of my constituents. Taking two police officers per arrest off the beat to transport offenders to Merthyr will not only have a detrimental impact on community safety, but also threaten the progress made in tackling crime and anti-social behaviour in the area. First Minister, what discussions have you had with South Wales Police Authority on this, and would you agree that the root of the problem is the cuts to policing imposed by the UK coalition Government?

**Christine Chapman:** Brif Weinidog, mae penderfyniad diweddar Awdurdod Heddlu De Cymru i fwy neu lai cau gorsaf heddlu Aberdâr a sefydlu cyfleuster ‘Carchar’ canolog newydd ym Merthyr Tudful yn ei lle i ymdrin â Rhondda Cynon Taf gyfan yn fater o bryder i lawer o fy etholwyr. Bydd cymryd dau swyddog yr heddlu ar gyfer pob arest oddi ar eu rhawd i gludo troseddwyr i Ferthyr, nid yn unig yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch cymunedol, ond hefyd yn bygwth y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal. Brif Weinidog, pa drafodaethau a ydych chi wedi'u cael ag Awdurdod Heddlu De Cymru ar hyn, ac a fyddech chi’n cytuno mai gwraidd y broblem yw’r toriadau i blismona a orfodwyd gan Lywodraeth glymblaid y DU?

**The First Minister:** Yes, I would. I will ask the Minister to write to South Wales Police Authority to seek an explanation for the decision taken. While police officers in cars are far more able to get quickly to the scene of the crime than those on foot, the presence of a police officer on foot in a community acts as a deterrent to crime in itself. To remove officers from the front line in order to transfer suspects to other places clearly would not assist in dealing with crime on the front line.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn, mi fyddwn. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu at Awdurdod Heddlu De Cymru i geisio eglurhad am y penderfyniad a wnaed. Er bod swyddogion yr heddlu mewn ceir yn llawer mwy abl i fynd yn gyflym i leoliad y drosedd na'r rhai ar droed, mae presenoldeb swyddog yr heddlu ar droed mewn cymuned yn gweithredu fel rhwystr i drosedd ynddo'i hun. Mae’n amlwg na fyddai tynnu swyddogion o'r rheng flaen er mwyn trosglwyddo pobl dan amheuaeth i fannau eraill o gymorth wrth ymdrin â throsedd ar y rheng flaen.

### Memoranda Cyd-ddealltwriaeth

### Memoranda of Understanding

***6. Angela Burns:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu’r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pa femoranda cyd-ddealltwriaeth sy’n bodoli ar hyn o bryd rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill. OAQ(4)0713(FM)*

***6. Angela Burns:*** *Will the First Minister provide an update on what memorandums of understanding are currently in existence between the Welsh Government, UK Government and other devolved administrations. OAQ(4)0713(FM)*

**The First Minister:** Yes. A memorandum of understanding, supplemented by three concordats and a disputes resolution protocol, was recently revised by the joint ministerial committee, and laid before the Assembly on 27 September.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Mae memorandwm o ddealltwriaeth, a ategir gan dri concordat a phrotocol datrys anghydfodau, wedi ei ddiwygio yn ddiweddar gan y pwyllgor gweinidogol ar y cyd, a'i gyflwyno gerbron y Cynulliad ar 27 Medi.

**Angela Burns:** Thank you very much for that answer, First Minister. You will be aware that the concordat deals with dispute resolutions. Have any disputes been formally put to the joint ministerial committee by this Government, the Westminster Government or any of the other devolved administrations on any issues covered by the current memorandum of understanding?

**Angela Burns:** Diolch yn fawr iawn am yr ateb yna, Brif Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod y concordat yn ymdrin â datrys anghydfodau. A oes unrhyw anghydfod wedi ei gyflwyno'n ffurfiol i'r pwyllgor gweinidogol ar y cyd gan y Llywodraeth hon, Llywodraeth San Steffan neu unrhyw un o'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ar unrhyw faterion a gwmpesir gan y memorandwm o ddealltwriaeth presennol?

**The First Minister:** No, not since it has been revised, but issues have been referred to the disputes resolution process in the last year or two and, through that process, matters have been resolved.

**Y Prif Weinidog:** Nac oes, nid ers iddo gael ei ddiwygio, ond mae materion wedi eu hatgyfeirio i'r broses datrys anghydfodau yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, a, thrwy'r broses honno, mae materion wedi eu datrys.

**Ieuan Wyn Jones:** A yw'r Prif Weinidog yn derbyn nad yw'r broses o benderfynu ar unrhyw anghydfod ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trysorlys yn ddigonol ar hyn o bryd? Gan fod y Trysorlys yn ben ar bopeth, oni fyddai'n gwneud synnwyr cael broses annibynnol er mwyn datrys unrhyw anghydfod ariannol o hyn ymlaen?

**Ieuan Wyn Jones:** Does the First Minister accept that the process of deciding on any financial dispute between Wales and the Treasury is not adequate at present? Given that the Treasury is supreme in all things, would it not make sense to have an independent system of resolving any dispute from now on?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n rhywbeth rydym wedi ei drafod gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, oherwydd ar hyn o bryd mae'n iawn i ddweud bod y Trysorlys yw'r barnwr a'r rheithgor ar faterion fel hyn. Mae proses yn ei le yn awr sy'n fwy annibynnol, ond nid yw mor annibynnol â'r hyn y byddem yn hoffi ei weld.

**The First Minister:** It is something that we have discussed with the UK Government, because at present it is true to say that the Treasury is the judge and jury on such issues. There is a process in place now that is more independent, but it is not as independent as we would like it to be.

### Y Cyflenwad Tai

### Housing Supply

***7. Ann Jones:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a thai cymdeithasol yn Nyffryn Clwyd. OAQ(4)0716(FM)*

***7. Ann Jones:*** *What is the Welsh Government doing to increase the supply of affordable and social housing in the Vale of Clwyd. OAQ(4)0716(FM)*

**The First Minister:** We have set an ambitious target of 7,500 additional affordable homes to be delivered during this administration. We are providing £1.2 million this year from the social housing grant programme to Denbighshire and £16 million of funding over 2012 to 2015 to support the west Rhyl housing improvement project.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi gosod targed uchelgeisiol o 7,500 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol i'w gyflwyno yn ystod y weinyddiaeth hon. Rydym yn darparu £1.2 miliwn eleni o'r rhaglen grant tai cymdeithasol i Sir Ddinbych a £16 miliwn o gyllid dros 2012-2015 i gefnogi prosiect gwella tai gorllewin y Rhyl.

**Ann Jones:** Thank you very much for that, First Minister; that is encouraging to know. I have been contacted by many concerned constituents within my area that are worried and frightened by the Tory-led coalition Government's welfare reform. Tenants of social housing deemed to be under-occupied will be hit with a bed tax, and, rightly, feel that they are being penalised through no fault of their own. Added to this is the recent announcement that young people will find that housing benefit will no longer apply to them if they are under 25. Do you agree, First Minister, that these callous acts provide yet further evidence that the Tories are not to fit to govern anywhere?

**Ann Jones:** Diolch yn fawr iawn am hynna, Brif Weinidog; mae'n galonogol clywed hynny. Mae llawer o etholwyr pryderus yn fy ardal wedi cysylltu â mi am ei bod yn poeni ac wedi eu dychryn gan fesurau diwygio lles Llywodraeth y glymblaid a arweinir gan y Torïaid. Bydd tenantiaid tai cymdeithasol yr ystyrir eu bod wedi'u tan-feddiannu yn gorfod talu treth gwely, ac, yn gwbl briodol, maent yn teimlo eu bod yn cael eu cosbi heb fod unrhyw fai arnynt. Yn ychwanegol at hyn cafwyd y cyhoeddiad diweddar y bydd pobl ifanc yn canfod nad ydynt yn gymwys i gael budd-dal tai bellach os ydynt dan 25 oed. A ydych yn cytuno, Brif Weinidog, fod y gweithredoedd dideimlad hyn yn darparu mwy fyth o dystiolaeth nad yw'r Torïaid yn gymwys i lywodraethu unrhyw fan?

**The First Minister:** We know that from April next year the UK Government is introducing stringent rules for working-age tenants that are 'deemed', as it would put it, to be under-occupying their homes. According to the Department for Work and Pensions' own statistics, this will impact on 40,000 people across Wales, with an average loss of income of £11 per week. I cannot for the life of me understand why it is that people under a certain age should be penalised in the benefits system. There seems to be an assumption that they can go to live with their parents. What about those who have been in care? What about those who come from homes that are dysfunctional and who have nowhere to go? It is inevitable that this will lead to an increase in the number of homeless young people.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gwybod, o fis Ebrill y flwyddyn nesaf ymlaen, fod Llywodraeth y DU yn cyflwyno rheolau llym ar gyfer tenantiaid oedran gweithio yr 'ystyrir' eu bod yn tan-feddiannu eu cartrefi. Yn ôl ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau eu hunain, bydd hyn yn effeithio ar 40,000 o bobl ledled Cymru, a fydd yn colli £11 o incwm yr wythnos ar gyfartaledd. Ni allaf yn fy myw ddeall pam y dylai pobl sydd dan oedran penodol gael eu cosbi yn y system fudd-daliadau. Mae'n ymddangos bod rhagdybiaeth y gallant fynd i fyw gyda'u rhieni. Beth am y rhai sydd wedi bod yn derbyn gofal? Beth am y rhai sy'n dod o gartrefi camweithredol ac nad oes ganddynt unrhyw le i fynd? Mae'n anochel y bydd hyn yn arwain at gynnydd yn y nifer o bobl ifanc digartref.

**Mark Isherwood:** Last year, the Welsh Government supported just 33 people to purchase houses under the Homebuy first-time buyers' scheme, although, in March last year, the UK Government First Buy scheme announced funding for 10,000 first-time buyers. On that occasion, the Welsh Government chose not to put the money into housing. Now that another £280 million has been announced to provide another 16,500 first-time buyers with support, will the Welsh Government put the money in that direction this time so that a few noughts can be added on to the end of that figure of 33?

**Mark Isherwood:** Y llynedd, dim ond 33 o bobl a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru i brynu tai o dan gynllun Cymorth Prynu y prynwyr tro cyntaf, er bod cynllun Prynu y Tro Cyntaf Llywodraeth y DU, ym mis Mawrth y llynedd, wedi cyhoeddi cyllid ar gyfer 10,000 o brynwyr tro cyntaf. Ar yr achlysur hwnnw, dewisodd Llywodraeth Cymru i beidio â rhoi'r arian i mewn i dai. Nawr bod £280 miliwn arall wedi ei gyhoeddi i ddarparu cymorth i 16,500 o brynwyr tro cyntaf, a fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r arian i'r cyfeiriad hwnnw y tro hwn fel y gellir ychwanegu ambell i 0 ar ddiwedd y ffigur o 33?

**The First Minister:** Let us see what the UK Government actually delivers. There is a difference between delivering something and claiming you are going to deliver something, and that is where it is at the moment. We have set out our targets for affordable homes—7,500 affordable homes—and, of course, we have great concern about those people, particularly young people, who will be made homeless. There is no question about it: people will be on the streets as a result of the changes that will be made from April onwards.

**Y Prif Weinidog:** Gadewch i ni weld beth y mae Llywodraeth y DU yn ei ddarparu mewn gwirionedd. Mae gwahaniaeth rhwng darparu rhywbeth a honni eich bod yn mynd i ddarparu rhywbeth, a dyna ble rydym ni ar hyn o bryd. Rydym wedi nodi ein targedau ar gyfer cartrefi fforddiadwy—7,500 o gartrefi fforddiadwy—ac, wrth gwrs, rydym yn pryderu'n fawr am y bobl hynny, yn enwedig pobl ifanc, a fydd yn cael eu gwneud yn ddigartref. Nid oes unrhyw gwestiwn am y peth: bydd pobl ar y strydoedd o ganlyniad i'r newidiadau a fydd yn cael eu gwneud o fis Ebrill ymlaen.

**Llyr Huws Gruffydd:** Gyda miloedd o dai ychwanegol yn cael eu gorfodi ar awdurdodau lleol gan yr arolygiaeth dai—yn erbyn ewyllys nifer o awdurdodau lleol, os caf dweud hynny—beth mae eich Llywodraeth yn mynd i'w gwneud i sicrhau bod cynifer o'r tai ychwanegol hynny ag sydd yn bosibl yn fforddiadwy ac yn ateb anghenion tai lleol?

**Llyr Huws Gruffydd:** With thousands of additional homes being forced on local authorities by the housing inspectorate—against the will of many local authorities, if I may say so—what is your Government going to do to ensure that as many of those additional homes as possible are affordable and meet local housing needs?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bwysig dros ben bod hynny'n digwydd ac mae'n bwysig dros ben bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod nifer o sylweddol o dai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu. Mae hynny'n gwneud synnwyr mewn sawl ffordd, wrth gwrs. Rydym yn gwybod bod tai fforddiadwy yw'r tai mae pobl eu heisiau ar hyn o bryd. Mae'n bwysig dros ben sylweddoli bod prinder o dai yng Nghymru, felly mae'n bwysig dros ben bod pobl yn cael cyfle i fyw mewn tŷ, ond hefyd yn bwysig dros ben eu bod yn gallu fforddio rhentu neu dalu am dŷ yn y dyfodol.

**The First Minister:** It is extremely important that that happens, and it is extremely important that local authorities ensure that a substantial number of affordable houses are built. That makes sense in a number of ways, of course. We know that affordable houses are the ones that people want at the moment. It is extremely important to realise that there is a shortage of housing in Wales, therefore it is extremely important that people have the opportunity to reside in a house, but it is also extremely important that they can afford to rent or pay for a house in future.

### Cefnogi Pobl Ddi-waith

### Support for Unemployed People

***8. Jenny Rathbone:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth sydd ar gael i bobl ddi-waith yng Nghaerdydd. OAQ(4)0717(FM)*

***8. Jenny Rathbone:*** *Will the Minister make a statement on the support available to unemployed people in Cardiff. OAQ(4)0717(FM)*

**The First Minister:** Through the programme for government, we have schemes such as Jobs Growth Wales, apprenticeships and ReAct.

**Y Prif Weinidog:** Drwy'r rhaglen ar gyfer llywodraethu, mae gennym gynlluniau megis Twf Swyddi Cymru, prentisiaethau a ReAct.

**Jenny Rathbone:** I appreciate the important work being done by Jobs Growth Wales. I am appalled that one community in England that

**Jenny Rathbone:** Yr wyf yn gwerthfawrogi'r gwaith pwysig sy'n cael ei wneud gan Twf Swyddi Cymru. Yr wyf yn arswydo bod un

I read about had only 4% of its young people leaving school going on to work, training or further education. We have not reached that state in Wales, happily, but I wonder how we can galvanise the public, private and voluntary sectors across our country to ensure that no young person is without a job, training or education. In particular, I commend the work being done by Barnardo's, working with a variety of employers, to offer apprenticeships to young people to enable them to have a chance of getting a job. Can you tell us whether there are any other such schemes that we can celebrate and publicise?

gymuned yn Lloegr y darllenais amdani lle mai dim ond 4% o'i phobl ifanc sy'n gadael yr ysgol sy'n mynd ymlaen i waith, hyfforddiant neu addysg bellach. Yn ffodus, nid ydym wedi cyrraedd y sefyllfa honno yng Nghymru, ond tybed sut y gallwn ysgogi'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ar draws ein gwlad i sicrhau nad oes unrhyw berson ifanc heb swydd, hyfforddiant neu addysg. Yn arbennig, rwyf yn cymeradwyo'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Barnardo's, sef gweithio gydag amrywiaeth o gyflogwyr, i gynnig prentisiaethau i bobl ifanc i'w galluogi i gael cyfle i gael swydd. A allwch chi ddweud wrthym a oes unrhyw gynlluniau eraill o'r fath y gallwn eu dathlu a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt?

**The First Minister:** I congratulate Barnardo's on what it is doing, but I refer again to Jobs Growth Wales, a scheme that is delivering, that is well on track and that will give young people—4,000 young people a year—the opportunity to take up training or a job. We know that, in such practical ways, more young people will have the chance to make a living. Inevitably, it means that the number of young people in Wales who are unemployed will drop.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn llongyfarch Barnardo's ar yr hyn mae'n ei wneud, ond cyfeiriaf eto at Twf Swyddi Cymru, cynllun sy'n cyflawni, sy'n sicr ar y trywydd iawn ac a fydd yn rhoi cyfle i bobl ifanc—4,000 o bobl ifanc y flwyddyn—i gael hyfforddiant neu swydd. Rydym yn gwybod, drwy ffyrdd ymarferol o'r fath, y bydd mwy o bobl ifanc yn cael y cyfle i wneud bywoliaeth. Yn anochel, mae'n golygu y bydd gostyngiad yn nifer y bobl ifanc yng Nghymru sy'n ddi-waith.

**Andrew R.T. Davies:** First Minister, I asked you last week about the central business district in Cardiff and the enterprise zone, which form a key plank of the Government's support to Cardiff in attracting jobs and creating job opportunities. However, I would suggest that there is now a real issue because of the council's plans for the central business district and the lack of information to date on the enterprise zone. Is it still a commitment of the Welsh Government to develop a central business district and continue its support for that or is it now the case that the enterprise zone is the body that will deliver the aspirations of the Government and the council and that, therefore, the central business district initiative falls by the wayside?

**Andrew R.T. Davies:** Brif Weinidog, gofynnais i chi yr wythnos diwethaf am yr ardal fusnes canol Caerdydd a'r parth menter, sy'n ffurfio elfen allweddol o gefnogaeth y Llywodraeth i Gaerdydd o ran denu swyddi a chreu cyfleoedd i gael gwaith. Fodd bynnag, byddwn yn awgrymu bod problem wirioneddol wedi codi erbyn hyn oherwydd cynlluniau'r cyngor ar gyfer ardal fusnes canol Caerdydd a'r diffyg gwybodaeth hyd yma am y parth menter. A yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu ardal fusnes canol Caerdydd a'i gefnogaeth i hynny yn parhau neu a yw bellach yn wir mai'r parth menter yw'r corff a fydd yn cyflawni dyheadau'r Llywodraeth a'r cyngor, gan anghofio felly, am y fenter ardal busnes canol Caerdydd?

**The First Minister:** Our aspiration is still to develop the enterprise zone and that is what we will be looking to do. We know that the enterprise zone will have a heavy focus on

**Y Prif Weinidog:** Ein dyhead o hyd yw datblygu'r parth menter, a dyna beth y byddwn yn gobeithio ei wneud. Rydym yn gwybod y bydd y parth menter yn

financial services industries. Cardiff City Council is well aware of this and is working with us on this point of the need to ensure that Cardiff becomes a major centre of finance in future.

canolbwyntio'n drwm ar ddiwydiannau gwasanaethau ariannol. Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn ymwybodol iawn o hyn ac yn gweithio gyda ni ar y pwynt bod angen sicrhau bod Caerdydd yn dod yn ganolfan ariannol bwysig yn y dyfodol.

2.00 p.m.

14:00

**Leanne Wood:** First Minister, the number of people in Cardiff claiming the jobseeker’s allowance for more than a year has jumped from 1,700 in 2011 to nearly 2,900 this year. The Party of Wales favours apprenticeships that lead to sustainable full-time work over schemes that offer short periods of work experience that then lead people, potentially, back to square one. Considering last week’s news of job losses at the AA in Cardiff, which was a target for the Cardiff enterprise zone, it does not look as though the backward trend will reverse any time soon. What changes will your Government make to its strategy on unemployment, therefore?

**Leanne Wood:** Brif Weinidog, mae nifer y bobl yng Nghaerdydd sy’n hawlio'r lwfans ceisio gwaith am fwy na blwyddyn wedi neidio o 1,700 yn 2011 i bron i 2,900 eleni. Mae Plaid Cymru yn ffafrio prentisiaethau sy'n arwain at ddatblygu gwaith llawn amser cynaliadwy yn hytrach na chynlluniau sy'n cynnig cyfnodau byr o brofiad gwaith sydd wedyn yn arwain pobl, o bosibl, yn ôl i’r dechrau. O ystyried newyddion yr wythnos diwethaf o golli swyddi yn yr AA yng Nghaerdydd, a oedd yn darged ar gyfer parth menter Caerdydd, nid yw'n edrych yn debyg y bydd y duedd at yn ôl yn gwrthdroi yn fuan iawn. Pa newidiadau y bydd eich Llywodraeth yn eu gwneud i'w strategaeth ar ddiweithdra, felly?

**The First Minister:** The leader of Plaid Cymru has merely neatly encapsulated what the Government is already doing with Jobs Growth Wales. She says that it is her party’s policy to ensure that people have an apprenticeship, training or a job, but that is precisely what we have been doing since Jobs Growth Wales was launched. On top of that, we have the all-age apprenticeship programme. We invested £76 million in that in 2011-12, and we know that that has helped many thousands of people to get apprenticeships. I have to agree with what she has said, mainly because she has basically described what the Government is already doing.

**Y Prif Weinidog:** Y cwbl mae arweinydd Plaid Cymru wedi'i wneud yw crynhoi yn daclus yr hyn y mae'r Llywodraeth eisoes yn ei wneud gyda Twf Swyddi Cymru. Mae hi'n dweud mai polisi ei phlaid yw sicrhau bod pobl yn cael prentisiaeth, hyfforddiant neu swydd, ond dyna'n union yr hyn yr ydym ni wedi bod yn ei wneud ers i Twf Swyddi Cymru gael ei lansio. Ar ben hynny, mae gennym y rhaglen prentisiaeth i bob oedran. Buddsoddwyd £76 miliwn gennym yn 2011-12, a gwyddom fod hynny wedi helpu miloedd lawer o bobl i gael prentisiaeth. Mae’n rhaid i mi gytuno â'r hyn y mae wedi'i ddweud, yn bennaf oherwydd ei bod yn y bôn wedi disgrifio’r hyn y mae'r Llywodraeth eisoes yn ei wneud.

### Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith

### Helping Young People into Employment

***9. Sandy Mewies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu’r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu pobl ifanc yng Nghymru i gael gwaith. OAQ(4)0714(FM)*

***9. Sandy Mewies:*** *Will the First Minister outline the steps the Welsh Government is taking to help young people in Wales into employment. OAQ(4)0714(FM)*

**The First Minister:** Again, I would refer to Jobs Growth Wales as one way, among many, of effectively ensuring that young

**Y Prif Weinidog:** Unwaith eto, rwyf yn cyfeirio at Twf Swyddi Cymru fel un ffordd, ymhlith llawer, o sicrhau yn effeithiol bod

people have a job or training.

gan bobl ifanc swydd neu eu bod yn cael hyfforddiant.

**Sandy Mewies:** It is encouraging to hear about the Jobs Growth Wales programme and how it is helping young people in Wales to gain employment. However, there are many other youngsters in Wales who also benefit from apprenticeship schemes. These are as diverse as one that I know is running in Flint High School, in my constituency, where school leavers have been taken on, twice, into the work that is done, and as those that are running in global enterprises. As we know, apprenticeships are important to improve the skills base of our young workforce, so can we continue to endeavour to do the best that we can as a Government to encourage more businesses to take part in apprenticeship schemes, and to give more young people in Wales hope for the future?

**Sandy Mewies:** Mae'n galonogol clywed am raglen Twf Swyddi Cymru a sut y mae'n helpu pobl ifanc yng Nghymru i gael gwaith. Fodd bynnag, mae llawer o bobl ifanc eraill yng Nghymru sydd hefyd yn elwa o gynlluniau prentisiaeth. Mae'r rhain yn amrywiol iawn, fel yr un y gwn i amdano sy’n cael ei redeg yn Ysgol Uwchradd y Fflint, yn fy etholaeth i, lle y rhoddwyd cyfle, ddwywaith, i rai sy’n gadael ysgol i gymryd rhan yn y gwaith a wneir yno, ac eraill sy’n cael eu rhedeg mewn mentrau byd-eang. Fel y gwyddom, mae prentisiaethau yn bwysig i wella sylfaen sgiliau ein gweithlu ifanc, felly gawn ni barhau i ymdrechu i wneud y gorau y gallwn fel Llywodraeth i annog mwy o fusnesau i gymryd rhan mewn cynlluniau prentisiaeth, ac i roi gobaith ar gyfer y dyfodol i fwy o bobl ifanc yng Nghymru?

**The First Minister:** Absolutely. Young people need opportunity, skills and, ultimately, jobs. We have been encouraged by the level of engagement that we have had from the private sector in Jobs Growth Wales. There are many businesses that do want to offer apprenticeships to young people but that find themselves in a position where they are unable to afford it by themselves. That is why Jobs Growth Wales and the other schemes that I have mentioned are so important.

**Y Prif Weinidog:** Yn sicr. Mae pobl ifanc angen cyfle, sgiliau ac, yn y pen draw, swyddi. Rydym wedi cael ein calonogi gan y lefel o ymgysylltu yr ydym wedi'i gael gan y sector preifat yn Twf Swyddi Cymru. Mae llawer o fusnesau sydd eisiau cynnig prentisiaethau i bobl ifanc, ond sydd mewn sefyllfa lle nad ydynt yn gallu fforddio hynny ar eu pennau eu hunain. Dyna pam mae Twf Swyddi Cymru a'r cynlluniau eraill yr wyf wedi eu crybwyll mor bwysig.

**Antoinette Sandbach:** First Minister, do you agree that among the most important assets for a young person in finding employment are core skills in numeracy and literacy? That is the foundation that employers build on with on-the-job training. Can you explain why the GCSE grades achieved in core subjects by the poorest students in Wales have been less than half the rate of their other classmates, and why, under five years of the Labour-Lib administrations, that gap in attainment has widened?

**Antoinette Sandbach:** Brif Weinidog, a ydych yn cytuno bod sgiliau craidd mewn rhifedd a llythrennedd ymhlith yr asedau mwyaf pwysig er mwyn i berson ifanc allu dod o hyd i waith? Dyna’r sylfaen y mae cyflogwyr yn adeiladu arno wrth hyfforddi yn y gwaith. A allwch chi egluro pam y mae’r graddau TGAU a gyflawnwyd yn y pynciau craidd gan y myfyrwyr tlotaf yng Nghymru wedi bod yn llai na hanner cyfradd eu cyd-ddisgyblion, a pham, o dan bum mlynedd o weinyddiaethau Llafur-Rhyddfrydol, y mae’r bwlch hwnnw mewn cyrhaeddiad wedi ehangu?

**The First Minister:** We have put in place the pupil deprivation grant, and I give due credit to the Liberal Democrats for that. I do not want to be too territorial on this. The

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi rhoi’r grant amddifadedd disgyblion ar waith, ac rwyf am roi clod dyledus i’r Democratiaid Rhyddfrydol am hynny. Nid wyf eisiau bod

criticism would carry more weight if it did not come from a party that did not support the regrading of GCSEs in the English language. On this side of the Chamber, and not just in this party, we supported the view that there should be fairness for Welsh students, while the Conservative Party decided that it would take the side of Michael Gove instead.

yn rhy diriogaethol ynglŷn â hyn. Byddai'n haws derbyn beirniadaeth o'r fath pe na byddai'n dod gan blaid nad oedd yn cefnogi ailraddio TGAU iaith Saesneg. Ar yr ochr hon i'r Siambr, ac nid yn unig yn y parti hwn, rydym yn cefnogi'r farn y dylai fod tegwch i fyfyrwyr Cymru, tra bod y Blaid Geidwadol wedi penderfynu y byddai'n cymryd ochr Michael Gove yn hytrach.

**Julie Morgan:** An important consideration for helping some young people into work is the availability of affordable childcare. First Minister, will you join me in congratulating First Friends Nursery in Llanishen, which has managed to overturn HMRC's decision to close the nursery thereby saving 35 jobs and 105 places for children? I also wish to thank the First Minister for his help in achieving this outcome.

**Julie Morgan:** Un ystyriaeth bwysig ar gyfer helpu rhai pobl ifanc i gael gwaith yw faint o ofal plant fforddiadwy sydd ar gael. Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Meithrinfa First Friends yn Llanisien, sydd wedi llwyddo i wrthdroi penderfyniad Cyllid a Thollau EM i gau'r feithrinfa a thrwy hynny arbed 35 o swyddi a 105 o leoedd i blant? Hoffwn hefyd ddiolch i'r Prif Weinidog am ei help wrth gyflawni'r canlyniad hwn.

**The First Minister:** That is marvellous news. I congratulate the Member on the undoubted work that she put in to save the facility at the HMRC office. Again, the point has to be made that, where Government encourages people to stay in work or to go to work, it is important that there are facilities in place to remove any obstacles that might prevent them from staying in work, and the First Friends Nursery is one such example. I am glad that the decision has been overturned as a result of the hard work put in by the Member and others.

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n newyddion gwych. Hoffwn longyfarch yr Aelod ar y gwaith y mae'n ddiamheuol wedi'i wneud i achub y cyfleuster yn swyddfa Cyllid a Thollau EM. Unwaith eto, ma'n rhaid gwneud y pwynt, sef pan fo'r Llywodraeth yn annog pobl i aros mewn gwaith neu i fynd i weithio, mae'n bwysig bod cyfleusterau ar gael i oresgyn unrhyw rwystrau a allai eu hatal rhag aros mewn gwaith, ac mae Meithrinfa Friends First yn un enghraifft o hyn. Rwyf yn falch bod y penderfyniad wedi ei wrthdroi o ganlyniad i'r gwaith caled a wnaed gan yr Aelod ac eraill.

**Prosiect Cysylltiad Canolbarth Cymru**

**The Mid Wales Connection Project**

***10. Russell George:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Brosiect Cysylltiad Canolbarth Cymru. OAQ(4)0706(FM)*

***10. Russell George:*** *Will the First Minister make a statement regarding the Mid Wales Connection Project. OAQ(4)0706(FM)*

**The First Minister:** Yes. The new grid infrastructure and any decisions about it are the responsibility of UK Government Ministers.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Gweinidogion Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y seilwaith grid newydd ac unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud ag ef.

**Russell George:** As you will appreciate, this project is progressing only because of technical advice note 8 and your Government's insistence on having large-scale windfarm developments in three strategic search areas across mid Wales. You

**Russell George:** Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, mae'r prosiect hwn yn symud ymlaen dim ond oherwydd nodyn cyngor technegol 8 a'r ffaith fod eich Llywodraeth wedi mynnu cael datblygiadau ffermydd gwynt ar raddfa fawr mewn tair ardal o

have publicly said that, if consent is given to large developments, you expect there to be significant benefits to the affected communities. However, with the scarring of the landscape, the years of transport misery, the damage to mid Wales tourism, and the devaluation of property prices, I see very little in the way of community benefit from such projects going ahead. Therefore, First Minister, what do you perceive to be the benefits for communities in Montgomeryshire if this project goes ahead?

chwilio strategol ar draws canolbarth Cymru. Rydych wedi dweud yn gyhoeddus, os rhoddir caniatâd i ddatblygiadau mawr, eich bod yn disgwyl y bydd manteision sylweddol i'r cymunedau yr effeithir arnynt. Fodd bynnag, gyda chreithio’r tirlun, y blynyddoedd o darfu ar drafnidiaeth, y niwed i dwristiaeth canolbarth Cymru a’r gostyngiad yng ngwerth prisiau eiddo, ni welaf fawr ddim budd cymunedol i ddatblygu prosiectau o'r fath. Felly, Brif Weinidog, beth yn eich barn chi fydd y manteision i gymunedau Sir Drefaldwyn os bydd y prosiect hwn yn mynd rhagddo?

**The First Minister:** It would certainly be of benefit for Montgomeryshire if the UK Government respected TAN 8. It has made it absolutely clear that TAN 8 is an irrelevance in its thinking and that it will ignore the limits that are imposed in TAN 8. Let us remember that, in England, there are no limits at all on the development of windfarms in particular areas, but there are in Wales. Unfortunately, the UK Government has decided that it will be the English lack of limits that are imposed on Wales. I take the view that Welsh people deserve sufficient control over their resources, and I ask the Member opposite and his party to support the Welsh people in that endeavour.

**Y Prif Weinidog:** Byddai'n sicr o fudd i Sir Drefaldwyn petai Llywodraeth y DU yn parchu TAN 8. Mae wedi ei gwneud yn gwbl glir fod TAN 8 yn amherthnasol i’w syniadau ac y bydd yn anwybyddu'r cyfyngiadau a osodir yn TAN 8. Gadewch i ni gofio nad oes, yn Lloegr, unrhyw gyfyngiadau o gwbl ar ddatblygu ffermydd gwynt mewn ardaloedd penodol, ond mae hynny yn digwydd yng Nghymru. Yn anffodus, mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu mai‘r diffyg cyfyngiadau a welir yn Lloegr a fydd yn cael ei orfodi ar Gymru. Rwyf o’r farn fod pobl Cymru yn haeddu rheolaeth ddigonol dros eu hadnoddau, a gofynnaf i'r Aelod gyferbyn a'i blaid i gefnogi pobl Cymru yn yr ymdrech honno.

**Simon Thomas:** First Minister, until recently, you only wanted the devolution of power over projects generating more than 100 MW, which would not have done anything for the people of mid Wales. Nevertheless, do you share my disappointment that there has not been more effort to bury some of this cabling in some of the more sensitive areas? This is a long-term infrastructure project, and much more could be done to bury the cabling and to save some of the unsightliness that people are concerned about in those areas, as well as the effects that the Member listed, to some extent. What effects will the proposals for the Irish development, which would take the electricity through Pembrokeshire and north Wales, have on the mid Wales development? Does this call into question all the connection developments throughout Wales?

**Simon Thomas:** Brif Weinidog, tan yn ddiweddar, dim ond eisiau datganoli pŵer dros brosiectau cynhyrchu mwy na 100 MW, yr oeddech, na fyddai wedi gwneud unrhyw beth i bobl y canolbarth. Serch hynny, a ydych chi’n rhannu fy siom na fu mwy o ymdrech i gladdu rhai o'r ceblau hyn yn rhai o'r ardaloedd mwyaf sensitif? Mae hwn yn brosiect seilwaith tymor hir, a gellid gwneud llawer mwy i gladdu'r ceblau, ac i osgoi rhan o’r hagrwch y mae pobl yn pryderu amdano yn yr ardaloedd hynny, yn ogystal â'r effeithiau a restrwyd gan yr Aelod, i ryw raddau. Pa effaith a fydd y cynigion ar gyfer y datblygiad yn Iwerddon, a fyddai'n mynd â’r trydan drwy Sir Benfro a gogledd Cymru, yn ei chael ar y datblygiad yng nghanolbarth Cymru? A yw hyn yn codi amheuaeth ynglŷn â’r holl ddatblygiadau cysylltiadol ledled Cymru?

**The First Minister:** It is difficult to know

**Y Prif Weinidog:** Mae'n anodd gwybod beth

what the effect would be. What I hope does not happen is, somehow, for there to be no longer any developments in England, but Wales has the lot, without benefit. It is clear that, where Wales's resources are used, the people of Wales deserve to see the benefits of that. There is no question about that, to my mind. The Welsh Government's preferred position is undergrounding, but we have been talking to the national grid because, of course, it is not our decision. Through the discussions that we have had with the national grid, it has moved to a position where, if this goes ahead, there will be significant mitigation from what it was originally proposing. That is without prejudice to our position that we would prefer to see undergrounding.

fyddai'r effaith. Beth yr wyf yn obeithio na fydd yn digwydd yw, rywsut, na fydd bellach unrhyw ddatblygiadau yn Lloegr, ond fod y cwbl gan Gymru, heb i ni elwa o gwbl. Mae'n amlwg, lle mae adnoddau Cymru yn cael eu defnyddio, fod pobl Cymru yn haeddu gweld manteision hynny. Nid oes amheuaeth am hynny, yn fy marn i. Y sefyllfa ddewisol o safbwynt Llywodraeth Cymru yw'r dewis tanddaearol, ond rydym wedi bod yn siarad â'r grid cenedlaethol oherwydd, wrth gwrs, nid ein penderfyniad ni yw hwn. Drwy'r trafodaethau yr ydym wedi'u cael gyda'r grid cenedlaethol, rydym mewn sefyllfa erbyn hyn lle, os yw hyn yn mynd yn ei flaen, y bydd lliniaru sylweddol ar yr hyn a gynigiwyd yn wreiddiol. Mae hynny heb ragfarn at ein safbwynt y byddai'n well gennym weld gwaith tanddaearol.

The Member rightly raises the issue of projects of more than 100 MW. That was because, for offshore developments, that was where the borderline lay between decisions made by the marine management organisation and the Department of Energy and Climate Change. There is no reason in principle why there should be a limit. The more resistance there is by the UK Government to the principle that the people of Wales should take control of their own resources, like those of Scotland, Northern Ireland and, indeed, England, the less force any such limit has.

Mae'r Aelod yn iawn i godi'r mater o brosiectau sy'n fwy na 100 MW. Roedd hynny oherwydd, ar gyfer datblygiadau ar y môr, mai dyna lle'r oedd y ffin rhwng penderfyniadau a wneir gan y sefydliad rheoli morol a'r Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd. Nid oes unrhyw reswm mewn egwyddor pam y dylai fod cyfyngiad. Po fwyaf fydd gwrthwynebiad Llywodraeth y DU i'r egwyddor y dylai pobl Cymru reoli eu hadnoddau eu hunain, fel yn yr Alban, Gogledd Iwerddon ac, yn wir, yn Lloegr, lleia'n y byd yw grym unrhyw gyfyngiad o'r fath.

**Gofal Newyddenedigol yn y Gogledd**

**Neonatal Care in North Wales**

***11. Antoinette Sandbach:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal newyddenedigol yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0710(FM)*

***11. Antoinette Sandbach:*** *Will the First Minister outline the Welsh Government's priorities for neonatal care in North Wales. OAQ(4)0710(FM)*

**The First Minister:** Yes. Our priorities are to achieve the best and most evidence-based outcomes possible for babies.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Ein blaenoriaethau yw cyflawni'r canlyniadau gorau a mwyaf seiliedig ar dystiolaeth â phosibl ar gyfer babanod.

**Antoinette Sandbach:** Unfortunately, what you are delivering in Wales is a downgrading of level 3 neonatal services. I have attended over six public meetings on the fate of neonatal units in north Wales. Two counties in north Wales have the highest rate of infant mortality in the whole of Wales. Do you

**Antoinette Sandbach:** Yn anffodus, yr hyn yr ydych yn ei ddarparu yng Nghymru yw israddoli gwasanaethau newyddenedigol lefel 3. Rwyf wedi mynychu mwy na chwe chyfarfod cyhoeddus ar dynged unedau newyddenedigol yng ngogledd Cymru. Mae dwy sir yng ngogledd Cymru sydd â'r

agree, therefore, that it would be wrong to lose a level 3 neonatal service in north Wales and export it across the border to England, leaving no level 3 neonatal care within the north Wales health authority, Betsi Cadwaladr University Local Health Board?

gyfradd uchaf o farwolaethau babanod yng Nghymru gyfan. A ydych chi'n cytuno, felly, na fyddai'n iawn i golli gwasanaeth newyddenedigol lefel 3 yng ngogledd Cymru a'i allforio ar draws y ffin i Loegr, gan adael awdurdod iechyd gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr heb ddim gofal newyddenedigol lefel 3.

**The First Minister:** As the Member knows, these are matters for consultation at the moment, and Ministers cannot comment on them for fear of prejudicing the consultation process.

**Y Prif Weinidog:** Fel y mae'r Aelod yn gwybod, mae'r rhain yn faterion ar gyfer ymgynghori ar hyn o bryd, ac ni all Gweinidogion wneud sylwadau arnynt rhag ofn i hynny amharu ar y broses ymgynghori.

**Llyr Huws Gruffydd:** Mewn ymateb i gwestiwn gan fy swyddfa yn holi am nifer y babanod newyddanedig, dywedodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn ddiweddar:

**Llyr Huws Gruffydd:** In response to a question from my office asking about the number of newborn babies, Betsi Cadwaladr University Local Health Board said recently that:

'Unfortunately the Health Board does not record the number of babies requiring intensive care.'

'Yn anffodus, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cofnodi nifer y babanod sydd angen gofal dwys'.

Dyna oedd ei ateb. Yn lle hynny, mae'n cyfrif nifer y babanod sy'n cael eu geni adeg 27 wythnos neu'n gynharach, ond, fel yr ydym i gyd yn gwybod, mae nifer o fabanod sy'n cael eu geni ar ôl hynny hefyd angen gofal dwys, felly mae'n codi cwestiwn sylfaenol am fwriad Betsi Cadwaladr i allanoli'r gofal dwys i Loegr. Felly, Brif Weinidog, a ydych yn hyderus bod rheolwyr Betsi Cadwaladr wedi seilio eu cynllun busnes ar ffeithiau cadarn?

That was its response. Instead, it keeps a record of the number of babies who are born at 27 weeks or earlier, but, as we all know, many babies who are born after that also require intensive care, and so that raises a fundamental question about Betsi Cadwaladr's intention to outsource intensive care to England. Therefore, First Minister, are you confident that the leadership at Betsi Cadwaladr has based its business case on facts and hard evidence?

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, ac mae'n bwysig dros ben fod bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn sicrhau ei fod yn gwrando ar safbwynt y cyhoedd a hefyd safbwynt doctoriaid cyn dod i gasgliadau o ran y ffordd ymlaen.

**The First Minister:** Of course, and it is extremely important that Betsi Cadwaladr health board ensures that it listens to the standpoint of the public and also of the doctors before coming to any conclusion on the way forward.

### Blaenoriaethau (Pobl Ifanc)

### Priorities (Young People)

***12. Rebecca Evans:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru. OAQ(4)0715(FM)*

***12. Rebecca Evans:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for young people in Wales. OAQ(4)0715(FM)*

**The First Minister:** Yes. We want all young people to have the opportunity to progress successfully through education and training to sustained employment, and our priorities

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Rydym yn dymuno i bob person ifanc gael y cyfle i symud ymlaen yn llwyddiannus trwy addysg a hyfforddiant i gyflogaeth gynaliadwy, ac

are to be found in the programme for government.

mae ein blaenoriaethau i'w gweld yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu.

**Rebecca Evans:** Last week, the children's commissioner warned that youth services may be pushed to the bottom of priority lists and be considered a soft target by local authorities facing financial pressure. Will you join me in sending out a strong message that youth services can play a vital role in helping young people to overcome obstacles and challenges and in helping them to reach their potential?

**Rebecca Evans:** Yr wythnos diwethaf, rhybuddiodd y comisiynydd plant y gallai gwasanaethau ieuenctid gael eu gwthio i waelod rhestrau blaenoriaeth a chael eu hystyried yn darged hawdd gan awdurdodau lleol sy'n wynebu pwysau ariannol. A wnewch chi ymuno â mi i anfon neges gref y gall gwasanaethau ieuenctid chwarae rhan hanfodol wrth helpu pobl ifanc i oresgyn rhwystrau a heriau a'u helpu i wireddu eu potensial?

**The First Minister:** Absolutely. I know that, in the 1980s, youth services were hammered to the point where they no longer existed. The last thing we want to see is the good work that has been done over the past decade and a half being undone. I can tell the Member that we will issue revised guidance on youth support services together with the new youth services strategy in September next year, and we would expect all levels of government to observe the new strategy and the guidance.

**Y Prif Weinidog:** Yn bendant. Gwn fod gwasanaethau, yn y 1980au, wedi eu dyrnu i'r pwynt lle nad oeddent yn bodoli mwyach. Y peth olaf yr ydym ei eisiau yw gweld y gwaith da sydd wedi'i wneud dros y degawd a hanner diwethaf yn cael ei ddadwneud. Gallaf ddweud wrth yr Aelod y byddwn yn cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar wasanaethau cymorth ieuenctid ynghyd â'r strategaeth gwasanaethau ieuenctid newydd ym mis Medi y flwyddyn nesaf, a byddwn yn disgwyl i bob lefel o lywodraeth ufuddhau i'r strategaeth newydd a'r canllawiau.

**Mohammad Asghar:** One way of offering job opportunities both here and abroad for our young children is to encourage the study of foreign languages in our schools. The latest examination results for Wales show that the number of pupils taking French, German or Spanish at A and AS-level fell by over 300 in 2012 compared with 2011. Does the First Minister agree that the ability to speak a foreign language is becoming ever more important if we are to grasp the opportunities presented by the global economy, and what is the Welsh Government doing to encourage that in Wales?

**Mohammad Asghar:** Un ffordd o gynnig cyfleoedd gwaith yma a thramor ar gyfer ein plant ifanc yw annog astudio ieithoedd tramor yn ein hysgolion. Mae canlyniadau'r arholiadau diweddaraf ar gyfer Cymru yn dangos bod nifer y disgyblion sy'n sefyll Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg ar lefel A a lefel UG wedi gostwng o gymaint â thros 300 yn 2012 o'i gymharu â 2011. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod y gallu i siarad iaith dramor yn dod yn fwyfwy pwysig os ydym am fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan yr economi fyd-eang, a beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog hynny yng Nghymru?

**The First Minister:** Work is being done by organisations such as CILT that look to promote modern foreign languages in our schools, but the Member is absolutely right that the more languages somebody speaks, the more employable they are and the bigger their window on the world. We know that, in many other countries in Europe and Africa, it is quite common for people to speak two, three or four languages as a matter of course.

**Y Prif Weinidog:** Mae gwaith yn cael ei wneud gan sefydliadau fel CILT sy'n ceisio hyrwyddo ieithoedd tramor modern yn ein hysgolion, ond mae'r Aelod yn llygad ei le wrth ddweud mai'r mwya'n y byd o ieithoedd y mae rhywun yn eu siarad, y mwyaf cyflogadwy ydynt a'r mwyaf yw eu cyfleoedd yn y byd. Rydym yn gwybod, mewn llawer o wledydd eraill yn Ewrop ac yn Affrica, ei bod yn eithaf cyffredin i bobl

There is a perception—not in Wales, I have to say, as someone who has always spoken two languages—that, somehow, it is enough to speak English. English is the dominant language in the world, there is no question about that, but it stands to reason that, where it is possible to communicate effectively with somebody in their own language, barriers are broken down and that means that there are more opportunities to conduct trade, to attract investment and for cultural exchanges.

siarad dwy, tair neu bedair o ieithoedd yn naturiol. Ceir canfyddiad—nid yng Nghymru, mae’n rhaid i mi ddweud, fel rhywun sydd wedi siarad dwy iaith erioed—ei bod rywsut yn ddigon i siarad Saesneg. Saesneg yw prif iaith y byd, nid oes amheuaeth am hynny, ond mae'n sefyll i reswm, pan ei bod yn bosibl i gyfathrebu'n effeithiol â rhywun yn eu hiaith eu hunain, mae rhwystrau’n cael eu torri i lawr ac mae hynny'n golygu bod mwy o gyfleoedd i gynnal masnach, denu buddsoddiad ac ar gyfer cyfnewid diwylliannol.

**Lindsay Whittle:** No-one in the Chamber would disagree with the statement that the vast majority of our young people are very good citizens and we are all proud of them. In what ways can the Welsh Government help to promote a more positive public image of young people in order to counteract the too many negative stereotypes that there are?

**Lindsay Whittle:** Ni fyddai unrhyw un yn y Siambr yn anghytuno â'r datganiad bod y mwyafrif helaeth o'n pobl ifanc yn ddinasyddion da iawn a’n bod i gyd yn falch ohonynt. Ym mha ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru helpu i hyrwyddo delwedd gyhoeddus mwy cadarnhaol o bobl ifanc er mwyn gwrthwynebu’r ormodaeth o stereoteipiau negyddol a geir?

**The First Minister:** The Member is right, but I wonder whether it was ever thus, because I seem to remember that when I was younger than I am now. There is sometimes a suspicion—and I find myself doing it, I must say—that the younger generations are somehow different in a negative way from the generations that went before. I am not sure whether that is the case. Yes, there are differences, but I know of plenty of young people who are fantastic volunteers, through GwirVol and volunteering services, and who care deeply about their communities and their futures. You are right to say that the last thing we should do is demonise young people, and that those young people who do go off the rails—and I have represented many in years gone by—should be helped to get back on track. In addition, their behaviour should not be seen as typical of all in that age group.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Aelod yn iawn, ond tybed a fu felly erioed, gan fy mod fel petawn i’n cofio hynny pan oeddwn yn iau nag yr wyf yn awr. Ceir amheuaeth weithiau—ac mae’n rhaid imi ddweud fy mod yn ei wneud fy hun—bod y cenedlaethau iau rywsut yn wahanol mewn ffordd negyddol i’r cenedlaethau a aeth o'u blaenau. Nid wyf yn siŵr a yw hynny'n wir. Oes, mae gwahaniaethau, ond gwn am ddigon o bobl ifanc sy'n wirfoddolwyr gwych, drwy GwirVol a gwasanaethau gwirfoddoli, ac sydd â meddwl mawr o’u cymunedau a'u dyfodol. Yr ydych yn iawn wrth ddweud mai'r peth olaf y dylem ei wneud yw pardduo pobl ifanc, a bod y bobl ifanc hynny sy'n mynd ar gyfeiliorn—ac rwyf wedi cynrychioli llawer ohonynt yn y blynyddoedd a fu—yn cael eu helpu i fynd yn ôl ar y trywydd iawn. Yn ogystal, ni ddylai eu hymddygiad gael ei ystyried yn nodweddiadol o bawb yn y grŵp oedran hwnnw.

**Simon Thomas:** Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â Phlaid Cymru wrth groesawu’r penderfyniad mewn egwyddor i estyn yr hawl i bleidleisio yn refferendwm annibyniaeth yr Alban i bobl ifanc 16 a 17 oed? Pa gamau y byddwch chi yn eu cymryd i geisio gweld a

**Simon Thomas:** First Minister, will you join the Party of Wales in welcoming the in-principle decision to extend the right to vote in the Scottish referendum on independence to young people aged 16 and 17? What steps will you be taking to see whether we can

allwn estyn yr hawl i bleidleisio i bobl ifanc o’r un oed yng Nghymru hefyd?

extend the right to vote to young people of the same age in Wales, too?

2.15 p.m.

14:15

**Y Prif Weinidog:** Mewn egwyddor, mae’n rhywbeth y byddwn yn ei gefnogi, ond mae pethau ymarferol y mae’n rhaid eu hystyried. Er enghraifft, os ydych yn 16 oed a bod gennych hawliau llawn yn debyg i rywun sy’n 18, a ydym yn siarad am newid yr oedran y mae rhywun yn troi’n oedolyn? Yn ymarferol, mae cwestiynau yn hynny o beth, ond, mewn egwyddor, mae’n rhywbeth y dylid ei ystyried.

**The First Minister:** In principle, I believe that it is something I would support, but there are practicalities that need to be considered. For example, if you are 16 years old and have the same rights and entitlements as someone aged 18, are we talking about changing the age at which a young person becomes an adult? In a practical sense, there are questions surrounding that point, but, in principle, it should be considered.

**The Presiding Officer:** As Rhodri Glyn Thomas is not present, question 13, OAQ(4)0709(FM), will not be asked. Question 14, OAQ(4)0708(FM), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Gan nad yw Rhodri Glyn Thomas yn bresennol, , ni fydd cwestiwn 13OAQ (4) 0709 (FM), yn cael ei ofyn. Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ (4) 0708 (FM), yn ôl.

### Gwella Cysylltiadau Trafnidiaeth

### Improving Transport Links

***15. Darren Millar:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr. OAQ(4)0704(FM)*

***15. Darren Millar:*** *What action is the Welsh Government taking to improve transport links between north Wales and the North West of England. OAQ(4)0704(FM)*

**The First Minister:** Our plans are laid out in the national transport plan.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein cynlluniau wedi eu nodi yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol.

**Darren Millar:** Thank you for that response, First Minister. You will be aware that I have on many occasions in this Chamber raised the issue of the need for better rail connectivity between the north Wales coastline and Liverpool. There has always been an impasse, in that some investment will be required in the Halton curve of around £15 million to achieve that. What work you doing with the Wales Office and the UK Government to inch this project forward, given that it will bring significant economic benefits to north Wales?

**Darren Millar:** Diolch i chi am yr ymateb yna, Brif Weinidog. Byddwch yn ymwybodol fy mod wedi codi mater yr angen am well cyswllt rheilffordd rhwng arfordir gogledd Cymru a Lerpwl sawl gwaith yn y Siambr hon. Mae hyn wastad wedi creu sefyllfa amhosibl oherwydd bod angen buddsoddiad o tua £15 miliwn yng nghromlin Halton i gyflawni hynny. Pa waith yr ydych chi’n ei wneud gyda Swyddfa Cymru a Llywodraeth y DU i symud y prosiect hwn yn ei flaen yn araf deg, o gofio y bydd hyn yn dod â manteision economaidd sylweddol i ogledd Cymru?

**The First Minister:** I hope that I am not breaching any confidences by informing the Chamber that the Secretary of State and I discussed this at length yesterday. We are very much on the same page. Clearly, it is important that the north Wales main line is

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn gobeithio nad wyf yn torri unrhyw gyfrinachedd drwy hysbysu'r Siambr fod yr Ysgrifennydd Gwladol a minnau wedi trafod hyn yn helaeth ddoe. Rydym o’r un fryd i raddau helaeth Yn amlwg, mae'n bwysig bod prif reilffordd y

electrified in the future, and we of course know that Wrexham to Bidston—the Halton curve—will give access to Liverpool Lime Street, if it can be dealt with. What will happen next is a close examination of the costings of electrification for the Wrexham-to-Bidston line, to see whether those figures are robust. The Secretary of State and I have agreed to work together in taking this forward.

gogledd yn cael ei thrydaneiddio yn y dyfodol, ac rydym wrth gwrs yn gwybod bod Wrecsam i Bidston—cromlin Halton—yn darparu mynediad i orsaf Lime Street, Lerpwl, pe gellid ymdrin â hynny. Beth fydd yn digwydd nesaf fydd archwiliad manwl o gostau'r gwaith trydaneiddio ar gyfer rheilffordd Wrecsam-Bidston, i weld a yw'r ffigurau hynny'n gadarn. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol a minnau wedi cytuno i weithio gyda'n gilydd wrth symud hyn yn ei flaen.

**Alun Ffred Jones:** Un o'r gwelliannau amlwg i reilffyrdd y gogledd fyddai trydaneiddio'r lein o Gaergybi i Gaer a'r tu hwnt, ac, yn y pen draw, edrych ar drydaneiddio i lawr i Gaerdydd. Un o'r dadleuon a fyddai'n cryfhau'r achos dros wneud hynny fyddai dynodi llinell y gogledd yn rhan o'r rhwydwaith traws-Ewropeaidd sy'n cysylltu Iwerddon â Llundain a Brwsel. Ar hyn o bryd, y lein a ddynodwyd yw honno o Lundain i Abertawe. Fel y gwyddoch yn dda, nid oes cyswllt ag Iwerddon o Abertawe, ac mae'r cyswllt yn sir Benfro yn un gwan iawn. Felly, a yw'ch Llywodraeth yn barod i gefnogi'r alwad i ddynodi llinell y gogledd yn rhan o'r rhwydwaith traws-Ewropeaidd?

**Alun Ffred Jones:** One of the obvious improvements as regards the north Wales line would be electrification from Holyhead to Chester and beyond, and, ultimately, to look at electrification down to Cardiff. One of the arguments that would strengthen the debate would be to designate the north Wales line as part of the trans-European network that links Ireland with London and Brussels. At present, the designated line is the one that links London and Swansea. As you well know, there is no link between Ireland and Swansea and the link in Pembrokeshire is very weak. Therefore, is your Government prepared to back the call to designate the north Wales line as part of the trans-European network?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n amlwg i mi fod dwy ffordd i Iwerddon. Os ydych am fynd i dde Iwerddon, sef Waterford a Cheri i lawr i Gorc, drwy Rosslare y byddech yn mynd. Os ydych am fynd i Ddulyn, y gogledd neu'r gogledd-orllewin, drwy Gaergybi y byddech yn mynd. Felly, nid oes rheswm y dylai fod un ffordd yn unig i Iwerddon o Gymru.

**The First Minister:** It is apparent to me that there are two routes to Ireland. If you want to go to southern Ireland, to Waterford, Kerry and down to Cork, then you would go through Rosslare. If you want to go to Dublin, the north or the north-west, you would go through Holyhead. Therefore, there is no reason why there should be one route to Ireland from Wales.

Er hynny, rwy'n gefnogol iawn i sicrhau bod trydaneiddio yn digwydd i brif lein y gogledd, achos nid ydym am weld gwasanaeth y trenau trwodd o Gaergybi i Euston yn cael ei beryglu.

Having said that, I am supportive of ensuring the electrification of the north Wales main line, because we do not want to see through-train services from Holyhead to Euston being jeopardised.

**Aled Roberts:** Brif Weinidog, mae nifer yn y gogledd yn poeni y bydd datblygiadau megis HS2 yn effeithio'n andwyol ar wasanaethau i Gaergybi gan y bydd mwy o alw am drenau a fydd yn defnyddio'r brif lein o Lundain i Fanceinion a Lerpwl. A ydych yn credu bod y trefniadau sydd gan eich Llywodraeth chi a Llywodraeth y DU, ynghyd â swyddfa

**Aled Roberts:** First Minister, many people in north Wales are concerned that developments such as HS2 will have a detrimental effect on services to Holyhead because there will be greater demand for trains using the main line from London to Manchester and Liverpool. Do you believe that the arrangements between your Government and the UK

newydd Network Rail yng Nghymru, yn ddigonol er mwyn gwneud yn siŵr na fydd Cymru ar ei cholled oherwydd datblygiadau yn Lloegr?

Government, along with the new Network Rail office in Wales, are adequate in order to ensure that Wales does not lose out because of developments in England?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn gweld y dylai hynny ddigwydd. Rydym yn gweld o rwydwaith y TGV yn Ffrainc rywbeth sy'n gallu gweithio fel un rhwydwaith, er i rai o leiniau'r TGV gael eu hadeiladu'n weddol ddiweddar.

**The First Minister:** I do not see why that should be the case. We see through the TGV network in France something that can work as a single network, even though some of the TGV lines were built relatively recently.

Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod gogledd Cymru yn cael ei ystyried fel rhan o rwydwaith prif reilffyrdd Prydain.

It is important that north Wales is considered part of the main railway network in Britain.

## Cwestiwn Brys
## Urgent Question

### Asbestos yn Ysgol Uwchradd Cwmcarn
### Asbestos at Cwmcarn High Council

***Gwyn R. Price:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr asbestos a ddarganfuwyd yn ddiweddar yn Ysgol Uwchradd Cwmcarn. EAQ(4)0188(ESK)*

***Gwyn R. Price:*** *Will the Minister make a statement on the recent discovery of asbestos at Cwmcarn High School. EAQ(4)0188(ESK)*

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** Caerphilly County Borough Council has decided to close Cwmcarn school temporarily due to asbestos concerns. The health and safety of pupils and staff is of paramount importance. Public Health Wales is providing a health-based risk assessment today. The authority is looking at a number of options to accommodate the pupils as a priority.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi penderfynu cau ysgol Cwmcarn dros dro oherwydd pryderon ynglŷn ag asbestos. Mae iechyd a diogelwch disgyblion a staff o'r pwys mwyaf. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu asesiad risg yn seiliedig ar iechyd heddiw. Mae'r awdurdod yn edrych ar nifer o opsiynau i ddarparu ar gyfer y disgyblion fel mater o flaenoriaeth.

**Gwyn R. Price:** Thank you for that answer. The closure of the school and the subsequent interruption of the children's education is difficult for both parents and pupils alike, as of course is the worry of the mention of asbestos. Minister, can you assure me that your department will give all the support possible—both in expertise and financial assistance if necessary—to ensure that this situation is resolved as quickly as possible and that parents and pupils are kept informed?

**Gwyn R. Price:** Diolch am yr ateb hwnnw. Mae'n anodd i rieni a disgyblion fel ei gilydd bod yr ysgol wedi cau gan darfu ar addysg y plant, ac wrth gwrs, mae'r pryder a ddaw yn sgil y sôn am asbestos hefyd yn anodd. Weinidog, a allwch fy sicrhau y bydd eich adran yn rhoi pob cymorth posibl—o ran arbenigedd a chymorth ariannol os oes angen—i sicrhau bod y sefyllfa hon yn cael ei datrys cyn gynted â phosibl a bod rhieni a disgyblion yn cael yr holl wybodaeth ddiweddaraf?

**Leighton Andrews:** My officials have been in contact with Caerphilly County Borough

**Leighton Andrews:** Mae fy swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â Chyngor

Council since Friday afternoon, when the decision was taken, and I myself spoke to the leader yesterday. I have spoken to him twice today to discuss the situation. The director of children, young people and schools from my department will be attending an emergency planning meeting in Caerphilly at 4.30 p.m. today, with another official, where all the relevant issues will be discussed. Clearly, the situation is a difficult one. I commend Caerphilly County Borough Council for taking swift action on Friday when it discovered the problem, but there are still some issues on which we await a report from Public Health Wales, and contingency arrangements are being put in place to secure the education of those young people.

Bwrdeistref Sirol Caerffili ers prynhawn dydd Gwener, pryd y gwnaed y penderfyniad, a siaradais innau â'r arweinydd ddoe. Rwyf wedi siarad ag ef ddwywaith heddiw i drafod y sefyllfa. Bydd y cyfarwyddwr plant, pobl ifanc ac ysgolion yn fy adran i yn mynd i gyfarfod cynllunio argyfwng yng Nghaerffili am 4.30 p.m. heddiw, gyda swyddog arall, lle bydd yr holl faterion perthnasol yn cael eu trafod. Yn amlwg, mae'r sefyllfa yn un anodd. Cymeradwyaf Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am gymryd camau cyflym ddydd Gwener pan sylweddolodd fod problem, ond rydym yn dal i aros am adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ynglŷn â rhai materion, ac mae trefniadau wrth gefn yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau addysg y bobl ifanc hyn.

**William Graham:** I am grateful to the Minister for his comments in answer to those questions. Would he support a specific directive from the Health and Safety Executive to clarify the measuring of levels of airborne asbestos, which would help to allay some fears? Given the potentially widespread use of asbestos in schools and public buildings throughout Wales, would he support a central register to identify where asbestos is present so that it can be monitored? The Minister will know that asbestos is the most common killer of tradespersons in Wales.

**William Graham:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei sylwadau wrth ateb y cwestiynau hynny. A fyddai'n cefnogi cyfarwyddyd penodol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i egluro sut y caiff lefelau asbestos yn yr aer eu mesur, er mwyn helpu i leddfu rhai pryderon? O ystyried y posibilrwydd y gallai asbestos fod wedi ei ddefnyddio'n eang mewn ysgolion ac adeiladau cyhoeddus ledled Cymru, a fyddai'n cefnogi cofrestr ganolog i nodi lle mae asbestos yn bresennol fel y gellir ei fonitro? Bydd y Gweinidog yn gwybod bod asbestos yn lladd mwy o fasnachwyr yng Nghymru na dim arall.

**Leighton Andrews:** There are clear duties on local authorities and others under the Control of Asbestos Regulations 2006 to survey asbestos in buildings on an annual basis. Those surveys have been carried out in Caerphilly on a regular basis, as they should. I have asked my director of schools to write to all local authorities asking for a response by Friday week in respect of what they see as the situation with regard to asbestos in their own schools, particularly in the light of the circumstances that have arisen in Caerphilly. Specifically in relation to Cwmcarn, of course, it is important that we get the report from Public Health Wales this afternoon and decisions can then be made on the basis of that.

**Leighton Andrews:** Ceir dyletswyddau clir ar awdurdodau lleol ac eraill o dan Reoliadau Rheoli Asbestos 2006 i gynnal arolwg blynyddol o asbestos mewn adeiladau. Mae'r arolygon hynny wedi eu cynnal yng Nghaerffili yn rheolaidd, fel y dylent. Rwyf wedi gofyn i'm cyfarwyddwr ysgolion ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am ymateb erbyn wythnos i ddydd Gwener ynglŷn â'r sefyllfa o ran asbestos yn eu hysgolion eu hunain, fel y maent yn ei gweld, yn enwedig yng ngoleuni'r amgylchiadau sydd wedi codi yng Nghaerffili. O ran Cwmcarn yn benodol, wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod yn cael yr adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru brynhawn heddiw, ac yna gellir gwneud penderfyniadau ar sail hynny.

**Simon Thomas:** Weinidog, mae'n siŵr bod penderfyniad cyngor Caerffili yn un doeth, ac mae'n dda gennyf glywed bod eich adran yn cynorthwyo'r cyngor ar hyn o bryd i wneud yn siŵr bod darpariaeth addysgol y plant yn mynd yn ei blaen mor fuan ac mor drwyadl â phosibl. A ydych chi wedi cael unrhyw gais am gynllun profi i'r staff neu'r plant? A yw hwn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel yr ydych newydd ei amlinellu, yn ei asesiad? I atgyfnerthu galwad a wnaed eisoes, byddwch yn ymwybodol bod Cenric Clement-Evans o gwmni NewLaw wedi bod yn gofyn am gyfnod hir yn awr am ryw fath o gofrestr o bresenoldeb asbestos ym mhob ysgol, ac rwy'n deall y gallai hyn effeithio ar gymaint â 75% o'n hysgolion. A fyddwch chi mewn sefyllfa yn fuan i ddal rhestr gyflawn o'r ysgolion hynny lle mae asbestos ac, yn fwy pwysig, lle mae angen gweithredu oherwydd yr asbestos? Yr hyn sy'n bwysig yw na ddylai asbestos fod yn *exposed* nac yn rhywle lle gallai fynd i'r awyr. Rwy'n gobeithio y bydd modd cael mwy o synnwyr cyffredin ynglŷn â hyn yn fuan iawn.

**Simon Thomas:** Minister, I am sure that the decision taken by Caerphilly council is a wise one, and I am pleased to hear that your department is assisting the council at present to ensure that educational provision for the children moves forward as early and as thoroughly as possible. Have you had any request for tests for the staff or the pupils? Is this something that is being considered by Public Health Wales, as you have just outlined, in its assessment? To reinforce a call that has already been made, you will be aware that Cenric Clement-Evans of NewLaw has been asking for quite some time for a register of asbestos in all schools, and I understand that this could be as many as 75% of our schools. Will you be in a position at an early stage to take a full schedule of those schools where there is asbestos and, more, importantly, where action needs to be taken because of asbestos? What is important is that asbestos should not be exposed or allowed to become airborne. I hope therefore that it will be possible to have some common sense on this at an early stage.

**Leighton Andrews:** I have not directly had any request of the kind that the Member mentioned at the outset of his question. In respect of questions such as registers, I have asked my director to write to all local authorities with regard to this issue across Wales, and to report by the end of next week. Clearly, there are a large number of schools built in the period from the 1950s to the 1980s where asbestos was used, and we know the implications of that, but we also know that, if the situation is dealt with appropriately, then it is best to leave that in place. It is when disruption occurs that these problems can develop. So, I think that people are clear about the guidance, but we will certainly be seeking reassurance from local authorities of their observations on their own situations immediately.

**Leighton Andrews:** Nid wyf i, yn uniongyrchol, wedi cael unrhyw gais o'r math y soniodd yr Aelod amdano ar ddechrau ei gwestiwn. O ran cwestiynau megis cofrestrau, rwyf wedi gofyn i'm cyfarwyddwr ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru ynglŷn â'r mater hwn, a chyflwyno adroddiad erbyn diwedd yr wythnos nesaf. Yn amlwg, defnyddiwyd asbestos mewn nifer fawr o ysgolion a adeiladwyd yn y cyfnod rhwng y 1950au a'r 1980au, ac rydym yn gyfarwydd â goblygiadau hynny, ond rydym hefyd yn gwybod, os ymdrinnir â'r sefyllfa'n briodol, mai'r peth gorau yw ei adael yn ei le. Yr adeg y gall y problemau hyn ddatblygu yw pan fydd rhywbeth yn tarfu arno. Felly, rwyf yn meddwl bod y canllawiau'n eglur i bobl, ond byddwn yn bendant yn ceisio sicrwydd gan awdurdodau lleol ar unwaith am yr hyn y maent wedi ei nodi ynglŷn â'u sefyllfaoedd eu hunain.

**Aled Roberts:** Rwy'n derbyn bod angen inni aros am yr adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn cymeradwyo'r gwaith a wnaed gan y cyngor sir, ond credaf fod angen i ni, fel Cynulliad, unwaith y bydd yr adroddiad wedi'i dderbyn, ystyried a oes angen inni fod

**Aled Roberts:** I accept that we must await the report from Public Health Wales and I commend the work done by the county council, but I believe that we, as an Assembly, once we receive the report, should consider whether we need to speak frankly to

yn blwmp ac yn blaen gyda rhieni a staff ysgolion o ran y sefyllfa yn genedlaethol, yn hytrach na gadael i awdurdodau lleol fod yn llwyr gyfrifol am y sefyllfa.

parents and school staff about the situation across Wales, rather than leave local authorities to assume complete responsibility for the situation.

**Leighton Andrews:** Local authorities have legal responsibilities. They must have asbestos management plans in place. That is their duty under statute. Therefore, they, as public authorities, have those legal responsibilities. However, clearly, we will seek further information from local authorities on a national basis and I expect to have that over the next fortnight.

**Leighton Andrews:** Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau cyfreithiol. Rhaid iddynt sefydlu cynlluniau rheoli asbestos. Dyna eu dyletswydd o dan y statud. Felly, mae ganddynt hwy, fel awdurdodau cyhoeddus, y cyfrifoldebau cyfreithiol hynny. Fodd bynnag, yn amlwg, byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth gan awdurdodau lleol ar sail genedlaethol, a disgwyliaf ei derbyn dros y pythefnos nesaf.

**Mohammad Asghar:** Minister, may I ask for clarification on one point only? It has been reported that Caerphilly council knew about asbestos being present in Cwmcarn High School before the decision to close it last Friday, and that it had removed some asbestos from the premises last summer. It is also alleged that the council is aware of asbestos being present in 30 other schools in the authority that have not been closed. You said that you are going to ask local authorities and others for information, but it is paramount that students do not miss out on their studies. Their safety is also paramount. As one of my colleagues just mentioned, over 70% of schools may be inundated with this asbestos problem, therefore how are you going to tackle that and do you have the funding to repair that large number of schools as soon as possible so that our children’s studies are not disturbed and so as to alleviate the anxiety of parents on this matter?

**Mohammad Asghar:** Weinidog, a gaf ofyn am eglurhad ar un pwynt yn unig? Cafwyd adroddiadau bod cyngor Caerffili yn gwybod bod asbestos yn bresennol yn Ysgol Uwchradd Cwmcarn cyn y penderfyniad i’w chau ddydd Gwener diwethaf, a’i fod wedi tynnu rhywfaint o asbestos o’r eiddo yr haf diwethaf. Ceir honiadau hefyd bod y cyngor yn ymwybodol bod asbestos yn bresennol mewn 30 o ysgolion eraill yn yr awdurdod nad ydynt wedi cael eu cau. Rydych wedi dweud eich bod yn mynd i ofyn i awdurdodau lleol ac eraill am wybodaeth, ond mae’n hollbwysig bod myfyrwyr yn gallu parhau â’u hastudiaethau. Mae eu diogelwch yn hollbwysig hefyd. Fel y mae un o’m cydweithwyr newydd ddweud, fe allai dros 70% o ysgolion fod yn dioddef o’r broblem hon gydag asbestos, felly sut rydych chi’n bwriadu mynd i'r afael â hynny ac a oes gennych yr arian i atgyweirio’r nifer fawr honno o ysgolion cyn gynted â phosibl rhag i ddim darfu astudiaethau ein plant ac er mwyn lleddfu pryder y rhieni ar y mater hwn?

**Leighton Andrews:** The key question is whether the situation in a particular school is safe or not. As I said, every local authority must have asbestos management plans in place. They have responsibilities under the Control of Asbestos Regulations 2006 and they are surveying annually. We know that many schools in Wales will have asbestos present. The issue is safety in a particular environment. In the case of Cwmcarn, there were concerns within the local authority, which is why it commissioned the report that it received on Friday and why it took the immediate action that it did.

**Leighton Andrews:** Y cwestiwn allweddol yw pa un a yw’r sefyllfa mewn ysgol benodol yn ddiogel ai peidio. Fel y dywedais, rhaid i bob awdurdod lleol fod â chynlluniau rheoli asbestos. Mae ganddynt gyfrifoldebau o dan Reoliadau Rheoli Asbestos 2006 ac maent yn cynnal arolwg bob blwyddyn. Gwyddwn y bydd asbestos yn bresennol mewn llawer o ysgolion yng Nghymru. Y peth pwysig yw diogelwch mewn amgylchedd penodol. Yn achos Cwmcarn, roedd pryderon o fewn yr awdurdod lleol, a dyna pam y comisiynwyd yr adroddiad a dderbyniodd ddydd Gwener a pham y cymerodd gamau ar unwaith, fel y

gwnaeth.

## Cwestiwn Brys
## Urgent Question

### Y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol
### The Agricultural Wages Board

***Mick Antoniw:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y goblygiadau i Gymru yn dilyn y cyhoeddiad y bore yma gan Lywodraeth y DU, yn cadarnhau ei bwriad i ddirwyn y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol i ben heb ymgynghori â Llywodraeth Cymru. EAQ(4)0180(BET)*

***Mick Antoniw:*** *Will the Minister make a statement on the implications for Wales following this morning's announcement by the UK Government, confirming their intention to wind up the Agricultural Wages Board without consulting the Welsh Government. EAQ(4)0180(BET)*

**The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** I am disappointed that the Department for Environment, Food and Rural Affairs decided to launch a public consultation exercise on the future of the Agricultural Wages Board without prior agreement with the Welsh Government regarding the timing and the content. I will be issuing a written statement shortly, when I have had an opportunity to fully consider DEFRA's announcement this morning.

**Y Dirprwy Weinidog dros Amaethyddiaeth, Rhaglenni Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies):** Yr wyf yn siomedig bod yr Adran Materion yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi penderfynu lansio ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar ddyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol heb gytundeb o flaen llaw gyda Llywodraeth Cymru ynghylch yr amseru a'r cynnwys. Byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn fuan, pan fyddaf wedi cael cyfle i ystyried cyhoeddiad DEFRA y bore yma yn llawn.

**Mick Antoniw:** I listened to the debate in the House of Commons this morning and I can only say that the coalition Government's attitude to agricultural workers was shameful. The response was shabby and, in fact, the treatment of these workers was shabbier. Will you, Deputy Minister, at some stage, give serious consideration to the Welsh Government using its own powers and agricultural responsibilities to maintain the responsibilities and standards set by the Agricultural Wages Board for the future?

**Mick Antoniw:** Gwrandewais ar y ddadl yn Nhŷ'r Cyffredin y bore yma ac ni allaf ond dweud bod agwedd y Llywodraeth glymblaid at weithwyr amaethyddol yn gywilyddus. Roedd yr ymateb yn wael ac, mewn gwirionedd, roedd y ffordd y triniwyd y gweithwyr hyn yn waeth fyth. A wnewch chi, Ddirprwy Weinidog, ar ryw bwynt, roi ystyriaeth ddifrifol i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei phwerau a'i chyfrifoldebau amaethyddol ei hun i gynnal y cyfrifoldebau a'r safonau a osodwyd gan y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer y dyfodol?

**Alun Davies:** It was shameful but not surprising. I met DEFRA and Wales Office representatives yesterday to discuss these matters. I made it clear—and DEFRA has accepted this in the past—that, under the Public Bodies Act 2011, Welsh Assembly assent is required for abolishing public bodies that fall within the legislative competence of the Welsh Government. DEFRA has also accepted in the past that for public bodies

**Alun Davies:** Yr oedd yn gywilyddus ond nid yw'n syndod. Cwrddais â DEFRA a chynrychiolwyr Swyddfa Cymru ddoe i drafod y materion hyn. Eglurais iddynt—ac mae DEFRA wedi derbyn hyn yn y gorffennol—o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, mae cydsyniad Cynulliad Cymru yn ofynnol ar gyfer diddymu cyrff cyhoeddus sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Mae DEFRA hefyd

outside the remit of legislative competence, consent from a Welsh Minister is required. The Welsh Government has not given its consent to this consultation. I discovered that a consultation would take place in a letter that was sent from the Secretary of State at DEFRA to the First Minister late on Friday afternoon, prior to a meeting I was to hold with DEFRA yesterday. This is unacceptable.

wedi derbyn yn y gorffennol fod caniatâd gan un o Weinidogion Cymru yn ofynnol ar gyfer cyrff cyhoeddus sydd y tu allan i gylch gwaith cymhwysedd deddfwriaethol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi ei ganiatâd i'r ymgynghoriad hwn. Darganfyddais y byddai ymgynghoriad yn digwydd mewn llythyr a anfonwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn DEFRA i Brif Weinidog Cymru yn hwyr brynhawn dydd Gwener, cyn y cyfarfod yr oeddwn i'w gynnal â DEFRA ddoe. Mae hyn yn annerbyniol.

2.30 p.m.

14:30

It is not the way that Governments should treat each other and is far removed from the respect agenda. While many of us here will be very concerned about the implications for agricultural workers of this consultation, and the moves that lie behind it, we are also concerned that this, at its heart, is an issue of competence.

Nid dyma'r ffordd y dylai llywodraethau drin ei gilydd ac mae ymhell iawn oddi ar yr agenda o barch. Er y bydd llawer ohonom yma yn bryderus iawn ynghylch goblygiadau'r ymgynghoriad hwn ar gyfer gweithwyr amaethyddol, a'r hyn sydd y tu ôl iddo, rydym hefyd yn pryderu mai, yn ei hanfod, mater o gymhwysedd yw hyn.

**Antoinette Sandbach:** Deputy Minister, have you carried out an assessment of the number of jobs that abolishing the Agricultural Wages Board could bring to Wales? DEFRA has estimated that 930 new jobs will be created. Are you prepared to comment on the position now where annual salaries, which are a common feature of day-to-day work arrangements, cannot be entered into under the rules of the Agricultural Wages Board? Can you also confirm that that would, in effect, bring to Wales regional pay in the private sector and a great deal of continued burden on small employers and employers who are very often employing only one or two people to work on their farm? I am certain that the definition of 'agriculture' under section 7 does not include wages control.

**Antoinette Sandbach:** Ddirprwy Weinidog, a ydych wedi cynnal asesiad o nifer y swyddi y gallai diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ei olygu i Gymru? Mae DEFRA wedi amcangyfrif y bydd 930 o swyddi newydd yn cael eu creu. A ydych chi'n barod i wneud sylw yn awr ar y sefyllfa lle na ellir ymwneud â chyflogau blynyddol, sydd yn nodwedd gyffredin o drefniadau gwaith o ddydd i ddydd, o dan reolau'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol? A allwch chi hefyd gadarnhau y byddai hynny, i bob pwrpas, yn dod â chyflog rhanbarthol i Gymru yn y sector preifat a llawer iawn o faich parhaus ar gyflogwyr bach a chyflogwyr sy'n aml iawn yn cyflogi dim ond un neu ddau o bobl i weithio ar eu fferm? Yr wyf yn sicr nad yw'r diffiniad o 'amaethyddiaeth' o dan adran 7 yn cynnwys rheoli cyflogau.

**Alun Davies:** A reading of the relevant Government of Wales legislation makes it quite clear that the situation in Wales is not entirely dissimilar to the situation in Scotland or Northern Ireland, where the Agricultural Wages Board is the responsibility of those devolved governments. There is no exemption. There are exemptions in the agriculture field of Government of Wales legislation for a number of issues—for example, some aspects of veterinary

**Alun Davies:** O ddarllen deddfwriaeth berthnasol Llywodraeth Cymru, mae'n gwbl glir nad yw'r sefyllfa yng Nghymru yn gwbl annhebyg i'r sefyllfa yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, lle mae'r llywodraethau datganoledig hynny yn gyfrifol am y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Nid oes unrhyw esemptiad. Ceir esemptiadau ym maes amaethyddiaeth yn neddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer o faterion—er enghraifft, rhai agweddau ar

medicines and other matters—but there is no exemption for the Agricultural Wages Board. In my view, and in the view of this Government, it is very clear that this lies within the competence of the National Assembly for Wales and the Welsh Government.

feddyginiaethau milfeddygol a materion eraill—ond nid oes unrhyw esemptiad ar gyfer y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Yn fy marn i, ac ym marn y Llywodraeth hon, mae'n amlwg iawn bod hyn yn gorwedd o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru.

I must say, Presiding Officer, that it is always good to have a representative of the UK Government here with us to join us in these debates. I say to the Conservatives that nobody has raised these matters with us, and certainly not with me in the 18 months that I have held this post. Last year, as you will be aware, we conducted a very thorough review of all the administrative functions and burdens exercised by the agriculture industry, which was led by Gareth Williams. Nobody at all raised the issue of the Agricultural Wages Board as a difficulty for them in the industry. Nobody raised it with Gareth Williams and nobody has raised it with me. I have just come from the dairy show in Carmarthen and nobody raised it there. The only people who have raised this as an issue are people in DEFRA.

Mae'n rhaid i mi ddweud, Lywydd, ei bod bob amser yn dda i gael cynrychiolydd o Lywodraeth y DU yma gyda ni i ymuno â ni yn y dadleuon hyn. Dywedaf wrth y Ceidwadwyr nad oes neb wedi codi'r materion hyn gyda ni, ac yn sicr nid gyda mi yn ystod y 18 mis yr wyf wedi bod yn y swydd hon. Y llynedd, fel y gwyddoch, cynhaliwyd adolygiad trylwyr iawn o'r holl swyddogaethau gweinyddol a’r beichiau a geir gan y diwydiant amaeth, a arweiniwyd gan Gareth Williams. Ni wnaeth neb o gwbl godi mater y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol fel anhawster iddynt yn y diwydiant. Does neb wedi ei godi gyda Gareth Williams ac nid oes neb wedi codi'r mater gyda mi. Yr wyf newydd ddod o'r sioe llaeth yng Nghaerfyrddin ac ni wnaeth neb ei godi yno. Yr unig bobl sydd wedi codi’r mater hwn yw’r bobl yn DEFRA.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** A gaf yn gyntaf ddiolch i chi, Lywydd, am ganiatáu’r cwestiwn brys hwn, sy’n amserol iawn ac yn enghraifft o bwysigrwydd cael Cynulliad etholedig yng Nghymru i amddiffyn gweithwyr Cymru? Mae dwy agwedd, Weinidog, y carwn holi amdanynt. A wnewch chi gadarnhau bod gwahaniaeth difrifol rhwng effeithiau’r Gorchymyn a fydd yn dileu’r bwrdd a grymoedd y bwrdd, os bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben, a’r hyn sydd ar gael mewn cyfraith gyflogaeth yn gyffredinol? Nid oes mewn cyfraith gyflogaeth yn gyffredinol yr un maint o drefniadau manwl ar gyfer gweithwyr ac, wrth gwrs, nid oes a wnelo cyflog crynswth y wladwriaeth ddim o gwbl â hawliau cyflogi ac amodau penodol gweithwyr amaethyddol. Dyna’r pwynt cyntaf.

**Lord Elis-Thomas:** May I first of all thank you, Presiding Officer, for taking this urgent question, which is very timely and is an example of the importance of having an elected Assembly in Wales to protect Welsh workers? There are two aspects, Minister, that I would like to question you on here. Will you confirm that there is a serious difference between the impacts of the Order that will abolish the board and the powers of the board, should this consultation conclude, and what is available in more general employment law? In employment law there are not the same detailed arrangements for workers and, of course, the gross wage paid in the state has nothing to do with the employment rights and the specific conditions of agricultural workers. That is the first point.

Deallaf fod gwahaniaeth barn ymhlith y rhanddeiliaid—rhwng yr undebau amaethyddol ac yn y blaen—ynglŷn â’r angen am y bwrdd hwn, ond, yn ail, rwyf am eich holi ynglŷn ag egwyddor bwysig.

I understand that there is a difference of opinion between stakeholders—between the agricultural unions and so on—about the need for this board, but, secondly, I want to question you about an important principle.

Rydych chi wedi dweud pethau difrifol iawn wrthym y prynhawn yma ynglŷn â diffygion Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sydd unwaith eto yn trin Cymru fel petai'n atodiad yn hytrach nag yn rhan briodol o ddatganoli yn y deyrnas hon. A gaf eich llongyfarch ar eich safiad, a diolch i Mick Antoniw am yr hyn y mae ei wedi'i wneud heddiw a'r wythnos diwethaf ar y mater hwn? Rwyf am eich sicrhau, er gwaethaf yr hyn y mae'r wrthblaid honedig yn ei ddweud yn y fan hon nad ydych yn siarad dros amaethwyr Cymru neu dros weithwyr amaethyddol Cymru. Onid yw hon yn enghraifft glir o'r modd y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn anghofio mai partneriaeth rhwng Cymru a Lloegr yw gweddillion y deyrnas hon, a allai fod ar wahân pe byddai refferendwm yr Alban yn llwyddiannus? Duw a'n helpo ni.

You have said some very serious things this afternoon about the deficiencies of the UK Government that is, once again, treating Wales as though it is an addendum rather than an appropriate part of devolution in this kingdom. May I congratulate you for the stance that you have taken, and thank Mick Antoniw for the stance that he has taken, both today and last week on this issue? I wish to assure you, whatever the alleged opposition says here about you not speaking for Welsh agriculture or Welsh agricultural workers. Is this not a very clear example of the way in which the UK Government forgets that the remnants of this kingdom is a partnership between Wales and England, which could be separate if a Scottish referendum should be successful? God help us.

**Alun Davies:** Rwyf yn hynod siomedig gyda'r ffordd y mae DEFRA wedi bihafio yn ystod y trafodaethau ar hyn. Rwyf wedi trafod y mater hwn gyda hyd at saith o Weinidogion gwahanol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw hyn yn adlewyrchu fy mhrofiad o weithio gyda DEFRA yn y gorffennol, ac nid yw'n adlewyrchu fy mhrofiad o weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar bob un achlysur. Fel arfer, mae gennym berthynas weithio dda. Fodd bynnag, o ran y drafodaeth hon, mae gwahaniaeth barn glir, ond hefyd mae ffordd o ddatrys hyn, ac mae ffordd o ddelio â gwahaniaeth barn rhwng llywodraethau gwahanol.

**Alun Davies:** I am exceptionally disappointed about the way DEFRA has behaved during these discussions. I have discussed this issue with up to seven different Ministers during the last year. This does not reflect my experience of working with DEFRA in the past, and it is not a reflection of my experience of working with the United Kingdom Government on other cases. Usually, we have a good working relationship. However, when it comes to this discussion, there is a clear difference of opinion, but also there is a way of resolving this, and there is a way of dealing with a difference of opinion between different governments.

Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 wedi gosod yn glir sut y gall Llywodraeth y Deyrnas Unedig barhau â'i pholisi i ddileu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol os mai dyna yw ei bwriad yn Lloegr. Yr wyf wedi ei gwneud yn glir i DEFRA, ac i'r Llywodraeth, nad wyf eisiau eu rhwystro rhag delifro ar eu mandad yn Lloegr. Fodd bynnag, yr wyf eisiau iddynt gydnabod a pharchu fy hawl i, a hawl y Llywodraeth hon, a'r Cynulliad hwn, i weithredu o ran ein blaenoriaethau ni yng Nghymru. Buasai'n hynod siomedig pe bai Llywodraeth y Deyrnas Unedig eisiau gweithredu yn y ffordd honedig hon ar hyn o bryd. Felly, rwy'n apelio at Weinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddod yn ôl atom i drafod y mater hwn, ac yr wyf yn sicr y gallaf ddatrys y broblem.

The Public Bodies Act 2011 has set out clearly the way in which the United Kingdom Government can continue with its policy of abolishing the Agricultural Wages Board, if that is its intention in England. I have made it clear to DEFRA, and to the Government, that I do not want to stop them from delivering their mandate in England. However, I want them to recognise and respect my right, and the right of this Government, and this Assembly, to act according to our priorities in Wales. It would be exceptionally disappointing if the United Kingdom Government wished to operate in the way that is claimed at present. Therefore, I appeal to the Ministers of the United Kingdom Government to return to us to discuss this issue, and I am sure that I will be able to

resolve it.

**Joyce Watson:** Thank you, Presiding Officer, for agreeing to this urgent question, because there is an urgency here, and the urgency is the loss of income. It is proposed, and it has been said in Westminster, that, if you remove the £6.86 per hour protection, you still have an alternative, which is the £6.16 per hour minimum wage protection. That takes £26.80 a week away from people who work, on average, 40 hours a week. I find it difficult to listen to the Conservatives here, and in Westminster, when they proclaim that they are the guardians and the custodians of Welsh farm workers and rural communities. Deputy Minister, will you press home the point that I have made on the loss of at least £26.80 a week to those people who work 40 hours a week in the farming community? Please press home the point that it is income lost not only to those people who work in the farming community, but to those who rely on those wages being spent in their communities to keep them alive.

**Joyce Watson:** Diolch, Lywydd, am gytuno i gynnwys y cwestiwn brys hwn, oherwydd ceir mater o frys yma, a'r brys hwnnw yw colli incwm. Mae'n cael ei gynnig, ac mae wedi cael ei ddweud yn San Steffan, pe byddech yn cael gwared ar y £6.86 yr awr a ddiogelir, fod dewis arall yn dal ar gael, sef y lleiafswm cyflog o £6.16 yr awr a ddiogelir. Mae hynny'n mynd â £26.80 yr wythnos oddi ar bobl sy'n gweithio, ar gyfartaledd, 40 awr yr wythnos. Rwyf yn ei chael hi'n anodd i wrando ar y Ceidwadwyr yma, ac yn San Steffan, wrth iddynt gyhoeddi mai hwy yw gwarcheidwaid a cheidwaid gweithwyr fferm Cymru a chymunedau gwledig. Ddirprwy Weinidog, a wnewch chi bwysleisio’r pwynt yr wyf wedi'i wneud ar y golled o £26.80 yr wythnos o leiaf i'r bobl hynny sy'n gweithio 40 awr yr wythnos yn y gymuned ffermio? Pwysleisiwch y pwynt fod hwn yn incwm a gollir nid yn unig gan y bobl hynny sy'n gweithio yn y gymuned ffermio, ond hefyd y rhai hynny sy'n dibynnu ar i’r cyflogau hynny gael eu gwario yn eu cymunedau i'w cadw’n fyw.

**Alun Davies:** I certainly will pass on those remarks; indeed, I have already done so. I also have to say that I do not think that all Ministers in DEFRA care, quite frankly, about the impact of this potential legislation. I do not think that they care about impacts on some of the most vulnerable and lowest paid people in our communities, whether they are in rural or urban areas. However, in this field, and in this matter, there is clear competence for this place, and there is a clear responsibility for the Welsh Government; therefore, I ask DEFRA Ministers and the United Kingdom Government to recognise where the settlement lies.

**Alun Davies:** Byddaf yn sicr yn trosglwyddo’r sylwadau yna; mewn gwirionedd, yr wyf wedi gwneud hynny eisoes. Mae'n rhaid i mi ddweud hefyd nad wyf yn credu bod pob Gweinidog yn DEFRA a bod yn onest, yn poeni am effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig hon. Nid wyf yn credu eu bod yn poeni am yr effeithiau ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed ac a delir y lleiaf yn ein cymunedau, pa un a ydynt mewn ardaloedd gwledig neu drefol. Fodd bynnag, yn y maes hwn, ac yn y mater hwn, ceir cymhwysedd clir ar gyfer y lle hwn, ac mae cyfrifoldeb clir ar Lywodraeth Cymru; ac felly, gofynnaf i Weinidogion DEFRA a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gydnabod ble y mae’r setliad yn gorwedd.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I have one change to report to this week’s planned business. The Minister for Education and Skills will make a statement shortly on progress in

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae gennyf un newid i’w adrodd i fusnes yr wythnos hon a gynlluniwyd. Bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gwneud datganiad yn fuan ar

implementing the Welsh Government's response to the Remploy closures. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

**William Graham:** I thank the Leader of the House for her statement. Could she ask her colleague with responsibility for transport to bring forward a rather timely statement on the future of the Ebbw Vale railway line? The Minister will be well aware that Ebbw Vale now has a splendid facility in terms of the new Gwent archives building, the hospital has recently opened there, and there is also Ebbw Vale College. Transport experts tell me that it would be relatively easy to run a line from Ebbw Vale through Newport, taking in the Severn Tunnel Junction, and perhaps going to Bristol, which would then link the two enterprise zones. Alternatively, there could be a second line, which would also run from Ebbw Vale to Newport, and then go on to take those stations up to Cheltenham.

**Jane Hutt:** I am glad that William Graham has highlighted some of the major investments that the Welsh Government has made, across all portfolios, in Ebbw Vale. Future prospects in terms of the rail line are being considered by the Minister.

**Rebecca Evans:** Following the announcement by the UK Government on the subject last week, I would welcome a statement by the Welsh Government on how Wales will commemorate the centenary of the start of the first world war. I am keen to hear how we will honour and remember the contribution of Welsh men and women to the war effort, both at home and abroad, and how we will engage children with this particularly important part of our country's past.

**Jane Hutt:** There is respect across the Chamber for the opportunities that we have to ensure that we fully commemorate, as a Welsh Government and as the Assembly, the ultimate sacrifice of the people who died during the first world war. That conflict changed Wales and the world for ever. You will be aware that the First Minister

gynnydd wrth weithredu ymateb Llywodraeth Cymru i gau Remploy. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ar gael ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

**William Graham:** Diolch i Arweinydd y Tŷ am ei datganiad. A allai hi ofyn i'w chydweithiwr sydd â chyfrifoldeb am drafnidiaeth i gyflwyno datganiad eithaf amserol ar ddyfodol rheilffordd Glyn Ebwy? Bydd y Gweinidog yn ymwybodol iawn bod Glynebwy yn awr yn cynnwys cyfleuster ardderchog o ran adeilad archifau newydd Gwent, mae'r ysbyty wedi agor yn ddiweddar yno, ac mae Coleg Glyn Ebwy hefyd. Mae arbenigwyr trafnidiaeth yn dweud wrthyf y byddai'n gymharol hawdd rhedeg lein o Lyn Ebwy drwy Gasnewydd, gan gynnwys Cyffordd Twnnel Hafren, a mynd i Fryste efallai, a fyddai wedyn yn cysylltu'r ddwy ardal fenter. Fel arall, gallai fod ail lein, a fyddai hefyd yn rhedeg o Lyn Ebwy i Gasnewydd, ac yna'n mynd ymlaen drwy'r gorsafoedd hyd at Cheltenham.

**Jane Hutt:** Rwyf yn falch bod William Graham wedi tynnu sylw at rai o'r buddsoddiadau mawr y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud, ar draws pob portffolio, yng Nglyn Ebwy. Mae rhagolygon y dyfodol o ran y rheilffordd yn cael eu hystyried gan y Gweinidog.

**Rebecca Evans:** Yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU ar y pwnc yr wythnos diwethaf, byddwn yn croesawu datganiad gan Lywodraeth Cymru ar sut y bydd Cymru'n dathlu canmlwyddiant cychwyn y rhyfel byd cyntaf. Rwyf yn awyddus i glywed sut y byddwn yn anrhydeddu ac yn cofio cyfraniad dynion a menywod Cymru at ymdrech y rhyfel, gartref a thramor, a sut y byddwn yn ymgysylltu plant â'r amser arbennig o bwysig hwn yng ngorffennol ein gwlad.

**Jane Hutt:** Mae parch ar draws y Siambr at y cyfleoedd sydd gennym i sicrhau ein bod yn dathlu'n llawn, fel Llywodraeth Cymru ac fel y Cynulliad, aberth eithaf y bobl a fu farw yn ystod y rhyfel byd cyntaf. Newidiodd y gwrthdaro hwnnw Gymru a'r byd am byth. Byddwch yn ymwybodol bod y Prif Weinidog wedi cyhoeddi ym mis Mawrth y

announced in March that Professor Sir Deian Hopkin will advise him on commemorative activities to mark the centenary between 2014 and 2018. The First Minister has also spoken publicly about his ambition for those activities to have a lasting legacy for Welsh children to better understand how the war impacted on Wales.

**Simon Thomas:** Minister, you will have heard the question to the First Minister earlier on the alleged standards of MBAs for overseas students. This is a UK-wide issue that I feel very strongly about. It reflects everything that is happening throughout the UK. It is also an issue that is dealt with by the Quality Assurance Agency for Higher Education on behalf of Wales and the constituent parts of the United Kingdom. It would be good, nevertheless, to have a statement from the Minister, written or oral, at some stage, to assess what contact he has had with the QAA around these issues. Members need to have a question and answer session with the Minister around some of the overall issues that unite us, we hope, in attaining the best standards of higher education in Wales.

**Jane Hutt:** I am glad that the Member recognises that this is a UK-wide issue. Clearly, we want to see the highest standards at Welsh universities. Quality academic standards and rigour at our institutions are matters for the Higher Education Funding Council for Wales and the QAA. Of course, it is clear that we have the highest standards that we celebrate, as well as recognising that this is a UK issue we need to consider carefully.

**Eluned Parrott:** Minister, I have been concerned to see questions raised over the evidence base for the reconfiguration of higher education in south-east Wales discussed in the press over the weekend. I thank the Minister for education for extending the consultation time on this important issue, but that does not address the lack of information. If the policy was, as has been previously stated, based on a clear evidence base, then providing that evidence to the universities in question should just be a question of hitting the print button on a file that has existed for more than a year. I ask

bydd yr Athro Syr Deian Hopkin yn ei gynghori ar weithgareddau coffa i ddathlu'r canmlwyddiant rhwng 2014 a 2018. Mae'r Prif Weinidog wedi siarad yn gyhoeddus hefyd am ei obeithion i'r gweithgareddau hynny gael etifeddiaeth barhaol i blant Cymru iddynt ddeall yn well sut yr effeithiodd y rhyfel ar Gymru.

**Simon Thomas:** Weinidog, byddwch wedi clywed y cwestiwn i'r Prif Weinidog yn gynharach ar safonau honedig MBA ar gyfer myfyrwyr tramor. Mae hwn yn fater y DU gyfan yr wyf yn teimlo'n gryf iawn amdano. Mae'n adlewyrchu popeth sy'n digwydd ledled y DU. Mae hefyd yn fater yr ymdrinnir ag ef gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch ar ran Cymru a rhannau cyfansoddol y Deyrnas Unedig. Byddai'n dda, serch hynny, i gael datganiad gan y Gweinidog, yn ysgrifenedig neu ar lafar, ar ryw adeg, i asesu pa gysylltiad y mae wedi cael gyda'r QAA ynghylch y materion hyn. Mae angen i aelodau gael sesiwn holi ac ateb gyda'r Gweinidog ynghylch rhai o'r materion cyffredinol sy'n ein huno, rydym yn gobeithio, wrth gyrraedd y safonau gorau o addysg uwch yng Nghymru.

**Jane Hutt:** Rwyf yn falch bod yr Aelod yn cydnabod bod hwn yn fater i'r DU gyfan. Yn amlwg, rydym am weld y safonau uchaf ym mhrifysgolion Cymru. Mae safonau academaidd o ansawdd a thrylwyredd yn ein sefydliadau yn faterion i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r QAA. Wrth gwrs, mae'n amlwg bod gennym y safonau uchaf yr ydym yn eu dathlu, yn ogystal â chydnabod bod hwn yn fater i'r DU mae angen i ni ei ystyried yn ofalus.

**Eluned Parrott:** Weinidog, rwyf wedi bod yn bryderus i weld cwestiynau a godwyd dros y sylfaen dystiolaeth ar gyfer ad-drefnu addysg uwch yn ne-ddwyrain Cymru yn cael eu trafod yn y wasg dros y penwythnos. Diolch i'r Gweinidog dros Addysg am ymestyn yr amser ymgynghori ar y mater pwysig hwn, ond nid yw hynny'n mynd i'r afael â'r diffyg gwybodaeth. Os yw'r polisi, fel y nodwyd yn flaenorol, yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth glir, yna dylai darparu'r dystiolaeth i'r prifysgolion dan sylw fod yn fater o daro'r botwm argraffu yn unig ar ffeil sydd wedi bodoli am fwy na blwyddyn.

the Minister to end this uncertainty by publishing that evidence as a matter of urgency or, if he does not have the evidence to hand, to provide the Chamber with a statement, detailing the means by which he intends to collect it.

Gofynnaf i'r Gweinidog roi terfyn ar yr ansicrwydd hwn drwy gyhoeddi'r dystiolaeth fel mater o frys, neu, os nad oes ganddo'r dystiolaeth i law, darparu datganiad i'r Siambr, yn manylu ar y modd y mae'n bwriadu ei chasglu.

**Jane Hutt:** I assure Eluned Parrott that the Minister will make an oral statement next week on higher education reconfiguration.

**Jane Hutt:** Rwyf yn sicrhau Eluned Parrott y bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad llafar yr wythnos nesaf ar ad-drefnu addysg uwch.

**Andrew R.T. Davies:** Minister, could we have two statements, please? First, I ask for a statement from the Minister for local government with responsibility for armed services on the Royal British Legion covenant. I know that he had a meeting with the Royal British Legion last week, as did I. How does the Government propose to take the covenant forward by working with local government to increase support for local services for veterans in our communities? I understand that there was a positive response from the Government. Sadly, the Vale of Glamorgan Council is the only Welsh council identified in that covenant. I hope that other councils will come on board in support of it. A statement from the Minister for local government would be greatly appreciated on the way forward for that issue.

**Andrew R.T. Davies:** Weinidog, a allem ni gael dau ddatganiad, os gwelwch yn dda? Yn gyntaf, gofynnaf am ddatganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol sy'n gyfrifol am wasanaethau arfog ar gyfamod y Lleng Brydeinig Frenhinol. Rwy'n gwybod ei fod wedi cael cyfarfod gyda'r Lleng Brydeinig Frenhinol yr wythnos diwethaf, fel y gwnes i. Sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu symud y cyfamod ymlaen drwy weithio gyda llywodraeth leol i gynyddu cefnogaeth i wasanaethau lleol ar gyfer cyn-filwyr yn ein cymunedau? Deallaf fod ymateb cadarnhaol gan y Llywodraeth. Yn anffodus, Cyngor Bro Morgannwg yw'r unig gyngor yng Nghymru a nodwyd yn y cyfamod hwnnw. Gobeithio y bydd cynghorau eraill yn ystyried ei gefnogi. Byddai datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol yn cael ei werthfawrogi'n fawr ar y ffordd ymlaen ar gyfer y mater hwnnw.

Secondly—I know that I have raised it on several occasions with you—I seek a statement on animal welfare and fly-grazing in particular. To date, we have still not had that statement, despite the fact that, at the end of the summer term, you, as Leader of the House, indicated that the statement would be forthcoming. I draw the Leader of the House's attention to the incident in Colwinston, in her constituency, where horses were turned on to the public highway. There is a risk to public safety here. It is time for the Government to get its act together and bring that statement forward. Winter is pending and we need to know what action the Government is taking to support the agencies.

Yn ail—rwy'n gwybod fy mod wedi ei godi ar sawl achlysur gyda chi—gofynnaf am ddatganiad ar les anifeiliaid a phori anghyfreithlon yn enwedig. Hyd yma, rydym yn dal heb gael y datganiad hwnnw, er gwaethaf y ffaith eich bod chi, ar ddiwedd tymor yr haf, fel Arweinydd y Tŷ, wedi dweud y byddai'r datganiad ar gael yn fuan. Tynnaf sylw Arweinydd y Tŷ at y digwyddiad yn Nhregolwyn, yn ei hetholaeth, lle cafodd ceffylau eu troi ar y briffordd gyhoeddus. Mae risg i ddiogelwch y cyhoedd yma. Mae'n bryd i'r Llywodraeth gael trefn ar bethau a chyflwyno'r datganiad hwnnw Mae'r gaeaf ar y ffordd, ac mae angen i ni wybod pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i gefnogi'r asiantaethau.

2.45 p.m.

14:45

**Jane Hutt:** I am grateful to Andrew R.T.

**Jane Hutt:** Rwy'n ddiolchgar i Andrew R.T.

Davies for recognising the work that the Welsh Government has done. The meeting with the Royal British Legion last week demonstrated the progress that has been made from a Welsh Government perspective, and by local authorities such as the Vale of Glamorgan Council, at the forefront, coming on board with covenanting opportunities. That is now being shared and taken up by local government across Wales.

Davies am gydnabod y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud. Mae'r cyfarfod gyda'r Lleng Brydeinig Frenhinol yr wythnos diwethaf wedi dangos y cynnydd sydd wedi'i wneud o safbwynt Llywodraeth Cymru, a gydag awdurdodau lleol megis Bro Morgannwg, ar flaen y gad, yn gefnogol gyda chyfleoedd cyfamodi. Mae hynny bellach yn cael ei rhannu a'i defnyddio gan lywodraeth leol ledled Cymru.

On fly-grazing, you are quite right to say that now is the time when the pressures will emerge. We are well aware of local incidents from our constituents. We supported a summit arranged by the National Equine Welfare Council and the Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals on 12 September. That has been relevant to us in coming forward with a statement, which will be made in due course.

O ran pori anghyfreithlon, rydych yn hollol gywir i ddweud mai nawr yw'r amser pan fydd y pwysau yn dod i'r amlwg. Rydym yn ymwybodol iawn o ddigwyddiadau lleol gan ein hetholwyr. Rydym yn cefnogi uwchgynhadledd a drefnwyd gan Gyngor Cenedlaethol Lles Ceffylau a'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid ar 12 Medi. Mae hynny wedi bod yn berthnasol i ni i gyflwyno datganiad, a fydd yn cael ei wneud maes o law.

**Mick Antoniw:** Minister, could you make a statement outlining the steps that could be taken to ensure that the UK Government's cuts to the Equality and Human Rights Commission and their effects are minimised in Wales?

**Mick Antoniw:** Weinidog, a allech wneud datganiad yn amlinellu'r camau y gellid eu cymryd i sicrhau bod toriadau Llywodraeth y DU i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'u heffeithiau yn cael eu lleihau yng Nghymru?

**Jane Hutt:** This is a matter of great concern. I was pleased to visit the Equality and Human Rights Commission last week, when I presented it with our equality impact assessment. We work very closely with the Equality and Human Rights Commission. It was sad to go to its offices and see the number of empty desks as a result of the cuts that have been made by the UK Government, which have had an impact on the services provided. We are working very closely with the Equality and Human Rights Commission to deliver the services, but, of course, concerns in relation to non-devolved responsibilities are key and I have written to Maria Miller, the new UK Government Minister for women, and we are due to talk about these issues as a result.

**Jane Hutt:** Mae hwn yn fater o bryder mawr. Roeddwn yn falch o ymweld â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yr wythnos diwethaf, pan gyflwynais fy asesiad o effaith ar gydraddoldeb iddo. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Roedd yn drist mynd i'w swyddfeydd a gweld y nifer o ddesgiau gwag o ganlyniad i'r toriadau a wnaed gan Lywodraeth y DU, sydd wedi cael effaith ar y gwasanaethau a ddarperir. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ddarparu gwasanaethau, ond, wrth gwrs, mae pryderon mewn perthynas â chyfrifoldebau nad ydynt wedi'u datganoli yn allweddol ac rwyf wedi ysgrifennu at Maria Miller, Gweinidog newydd dros Fenywod Llywodraeth y DU, ac rydym i fod i siarad am y materion hyn o ganlyniad.

**Antoinette Sandbach:** Could we have two statements? The first would be from you, I suspect, in your role as Minister for Finance, on the Welsh Government's handling of

**Antoinette Sandbach:** A allem ni gael dau ddatganiad? Byddai'r cyntaf gennych chi, yr wyf yn amau, yn eich rôl fel y Gweinidog Cyllid, ar driniaeth Llywodraeth Cymru o

charitable bequests. As you will know, there has been a great deal of concern about a piece of land in my constituency that was left by a constituent to the local health board and then taken in-house by the Welsh Government and sold for £1. It is important that members of the public, when they give to charity, know how it is going to be handled by the Welsh Government. The second statement would be a statement from the Minister for energy on the north Wales grid connection project and technical advice note 8. We have heard a number of times from the First Minister in this Chamber that TAN 8 has no impact on or relevance to energy projects in mid Wales. That statement is effectively inaccurate, and it is perhaps time that the Minister for energy brought forward a debate in this Chamber, given the importance of energy in Wales.

gymynroddion elusennol. Fel y gwyddoch, bu cryn dipyn o bryder ynglŷn â darn o dir yn fy etholaeth a adawyd gan etholwr i'r bwrdd iechyd lleol ac yna a gymerwyd yn fewnol gan Lywodraeth Cymru a'i werthu am £1. Mae'n bwysig bod aelodau'r cyhoedd, pan fyddant yn rhoi i elusen, yn gwybod sut mae'n mynd i gael ei drin gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r ail ddatganiad yn ddatganiad gan y Gweinidog Ynni ar brosiect cysylltiad grid gogledd Cymru a nodyn cyngor technegol 8. Rydym wedi clywed nifer o weithiau gan y Prif Weinidog yn y Siambr hon nad yw TAN 8 yn cael unrhyw effaith ar neu berthnasedd i brosiectau ynni yng nghanolbarth Cymru. Mae'r datganiad hwnnw yn anghywir mewn gwirionedd, ac efallai ei fod yn bryd i'r Gweinidog Ynni gyflwyno dadl yn y Siambr hon, o gofio pwysigrwydd ynni yng Nghymru.

**Jane Hutt:** Any examples of issues concerning charitable arrangements are not necessarily within the powers and responsibilities of the Welsh Government. I am aware of that particular piece of land, which you have also raised with me in a written question. I have responded and, looking into this in greater detail, it is important that we can honour and respect charitable donations. That applies across the public sector. We also have powers and responsibilities in relation to the future use and safeguarding of that land for public and charitable purposes.

**Jane Hutt:** Nid yw unrhyw enghreifftiau o faterion yn ymwneud â threfniadau elusennol o reidrwydd o fewn pwerau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru. Rwyf yn ymwybodol o'r darn penodol o dir, yr ydych hefyd wedi ei godi gyda mi mewn cwestiwn ysgrifenedig. Rwyf wedi ymateb ac, o edrych i mewn i hyn yn fanylach, mae'n bwysig ein bod yn gallu anrhydeddu a pharchu rhoddion elusennol. Mae hynny'n wir ar draws y sector cyhoeddus. Mae gennym hefyd bwerau a chyfrifoldebau mewn perthynas â defnydd yn y dyfodol a diogelu'r tir hwnnw at ddibenion cyhoeddus ac elusennol.

The First Minister responded to the points that were raised previously across this Chamber on the grid connection, and I know that the Minister for Environment and Sustainable Development is also handling that appropriately.

Ymatebodd y Prif Weinidog i'r pwyntiau a godwyd yn flaenorol ar draws y Siambr hon ar y cysylltiad grid, a gwn fod Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy hefyd yn trafod hynny'n briodol.

**Paul Davies:** I would be grateful if the Leader of the House could ask the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science to bring forward a statement on the delivery of broadband as soon as possible. I appreciate that the Minister has already announced public and private investment of £425 million into broadband services earlier in the year. However, I am receiving representations from my constituents who are still not able to receive a broadband service, or who receive a poor broadband service. It is

**Paul Davies:** Byddwn yn ddiolchgar pe gallai Arweinydd y Tŷ ofyn i'r Gweinidog Menter, Busnes, Technoleg a Gwyddoniaeth gyflwyno datganiad ar ddarparu band eang cyn gynted ag y bo modd. Rwyf yn gwerthfawrogi bod y Gweinidog eisoes wedi cyhoeddi buddsoddiad cyhoeddus a phreifat o £425 miliwn i wasanaethau band eang yn gynharach yn y flwyddyn. Fodd bynnag, rwyf yn cael sylwadau gan fy etholwyr nad ydynt yn dal i allu cael gwasanaeth band eang, neu sy'n cael gwasanaeth band eang gwael.

crucial that notspot areas are addressed as quickly as possible, and that areas in my constituency that receive poor broadband are not left behind at the expense of delivering super-fast broadband. Therefore, I would be grateful if the Leader of the House would ask the Minister to bring forward a statement, because it is important that my constituents and people across Wales are aware of how they will benefit from this additional investment.

Mae'n hanfodol bod mannau gwan yn cael sylw cyn gynted ag y bo modd, ac nad yw ardaloedd yn fy etholaeth sy'n cael band eang gwael yn cael eu gadael ar ôl ar draul cyflwyno band eang cyflym iawn. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe byddai Arweinydd y Tŷ yn gofyn i'r Gweinidog gyflwyno datganiad, oherwydd mae'n bwysig bod fy etholwyr a phobl ledled Cymru yn ymwybodol o sut y byddant yn elwa o'r buddsoddiad ychwanegol hwn.

**Jane Hutt:** I appreciate that the Member—like other Members across the Chamber—has examples brought to him by constituents on this matter. We want to hear about those examples—as does the Minister—where we are improving the reach of broadband. You mentioned the considerable investment that we are making, which is key to our public, private and community infrastructure.

**Jane Hutt:** Rwyf yn gwerthfawrogi bod yr Aelod—fel y mae Aelodau eraill ar draws y Siambr—yn derbyn enghreifftiau wedi'u cyflwyno iddo gan etholwyr ar y mater hwn. Rydym yn awyddus i glywed am yr enghreifftiau hynny—fel y mae'r Gweinidog—lle'r ydym yn gwella cyrhaeddiad band eang. Soniasoch am y buddsoddiad sylweddol yr ydym yn ei wneud, sy'n allweddol i'n seilwaith cyhoeddus, preifat a chymunedol.

**Darren Millar:** Minister, will you bring forward a statement from the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science on the business rates review that Professor Brian Morgan has been conducting? I went to visit Castle-Tech, which makes diamond-cutting wheels and other industrial goods in my constituency and which is struggling, but surviving, even during the economic downturn. One of the things that it has raised as a priority is the need to get its business rates down and the huge benefit that that would give it as a small business that is struggling during the current economic downturn. When will the Minister be able to bring forward a statement? I would be very grateful if she could do so as soon as possible.

**Darren Millar:** Weinidog, a wnewch chi gyflwyno datganiad gan y Gweinidog Menter, Busnes, Technoleg a Gwyddoniaeth ar yr adolygiad o ardrethi busnes y mae'r Athro Brian Morgan wedi bod yn ei gynnal? Es i ymweld â Castle-Tech, sy'n gwneud olwynion torri diemwnt a nwyddau diwydiannol eraill yn fy etholaeth ac sy'n ei chael yn anodd, ond sy'n goroesi, hyd yn oed yn ystod y dirywiad economaidd. Un o'r pethau y mae wedi eu codi fel blaenoriaeth yw'r angen i gael ei gyfraddau busnes i lawr a'r budd enfawr fyddai hynny'n ei roi fel busnes bach sy'n ei chael yn anodd yn ystod y dirywiad economaidd presennol. Pryd fydd y Gweinidog yn gallu cyflwyno datganiad? Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai wneud hynny cyn gynted ag y bo modd.

**Jane Hutt:** I can assure the Member that the Minister will bring forward a statement on her response to the review of business rates in Wales.

**Jane Hutt:** Gallaf sicrhau'r Aelod y bydd y Gweinidog yn cyflwyno datganiad am ei hymateb i'r adolygiad o ardrethi busnes yng Nghymru.

## Datganiad: Y Cynnydd wrth Weithredu Ymateb Llywodraeth Cymru i Gau Ffatrïoedd Remploy
## Statement: Progress in Implementing the Welsh Government Response to the Remploy Closures

**The Minister for Education and Skills**

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton**

**(Leighton Andrews):** In March, the UK Government announced its intention to close the majority of Remploy factory sites across the UK, among them seven out of nine sites in Wales. Welsh Ministers have opposed any factory closures throughout. We do not believe that closing the factories will improve the lives of disabled people. While mainstream employment should be the aim for most, we believe there is a place for supported and sheltered employment, skills development and other public service provisions to take into account the wide range of disabilities people live with. However, on 10 July, the UK Government announced the closure of five Remploy factories in Wales, with the loss of over 180 staff. A further decision was taken in September to close a sixth Remploy factory and another has proceeded to the final stage of Remploy’s commercial process following approval of business cases, but may yet lose staff.

**Andrews):** Ym mis Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i gau’r rhan fwyaf o safleoedd ffatri Remploy ar draws y DU, yn eu plith saith allan o naw safle yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi gwrthwynebu unrhyw gau ffatrïoedd drwyddi draw. Nid ydym yn credu y bydd cau’r ffatrïoedd yn gwella bywydau pobl anabl. Er y dylai cyflogaeth prif ffrwd fod yn nod ar gyfer y rhan fwyaf, credwn fod lle i gyflogaeth â chymorth a chysgodol, datblygu sgiliau a darpariaethau gwasanaeth cyhoeddus eraill i ystyried yr ystod eang o anableddau y mae pobl yn byw gyda nhw. Fodd bynnag, ar 10 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU bod pum ffatri Remploy yng Nghymru i gau, gyda cholli dros 180 o staff. Cymerwyd penderfyniad pellach ym mis Medi i gau chweched ffatri Remploy ac mae un arall wedi mynd ymlaen i gam terfynol proses fasnachol Remploy yn dilyn cymeradwyo achos busnes, ond gall golli staff o hyd.

Since the UK Government announced its intentions, we have suggested a number of alternatives, including devolving the Remploy budget and factories to the Welsh Government, but it refused to consider our proposals. In July, I therefore announced our intention to make available an employer support grant for public, private and third sector organisations that can offer suitable, sustainable employment to those disabled workers from Remploy who are victims of the UK Government’s latest cuts. The grant will provide a package of tapered, financial employment support for up to four years for each eligible Remploy worker.

Ers i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei bwriadau, rydym wedi awgrymu nifer o ddewisiadau eraill, gan gynnwys datganoli cyllideb a ffatrïoedd Remploy i Lywodraeth Cymru, ond gwrthododd ystyried ein cynigion. Ym mis Gorffennaf, felly cyhoeddais ein bwriad i sicrhau bod cymorth grant cyflogwr ar gael i sefydliadau yn y sector cyhoeddus, preifat a’r trydydd sector sy’n gallu cynnig cyflogaeth addas, gynaliadwy i’r gweithwyr anabl hynny o Remploy sydd wedi dioddef gan doriadau diweddaraf Llywodraeth y DU. Bydd y grant yn darparu pecyn o gymorth ariannol i gyflogaeth yn lleihau’n raddol, am hyd at bedair blynedd ar gyfer pob gweithiwr cymwys Remploy.

Over the last three months, officials have engaged with a large number of businesses that have expressed an interest in providing employment for disabled Remploy workers. I am pleased to announce today that funds for a total of 45 potential job opportunities have been approved to date, and I am pleased to announce that the first employees to benefit from the employer support grant have now started work with their new employer. Further applications are in the pipeline and work continues to match individuals to the available job opportunities.

Dros y tri mis diwethaf, mae swyddogion wedi ymgysylltu â nifer fawr o fusnesau sydd wedi mynegi diddordeb mewn darparu cyflogaeth ar gyfer gweithwyr anabl Remploy. Rwyf yn falch o gyhoeddi heddiw bod cyllid ar gyfer cyfanswm o 45 o gyfleoedd swyddi posibl wedi cael ei gymeradwyo hyd yn hyn, ac rwy’n falch o gyhoeddi bod y gweithwyr cyntaf i elwa ar y cymorth grant cyflogwr wedi dechrau gweithio gyda’u cyflogwr newydd. Mae ceisiadau pellach ar y gweill ac mae gwaith yn parhau i baru unigolion â’r cyfleoedd


44

gwaith sydd ar gael.

This is evidence in action of the Welsh Government's commitment to providing fulfilling and accessible employment to people of all skills and abilities and, in doing so, safeguarding their futures. It is testament to this Government's willingness to challenge the decisions of the UK Government and their impact on individuals and communities in Wales, and we will continue to do so in this constructive way to ensure that we find suitable employment for as many of the redundant disabled Remploy workers as possible.

Mae hyn yn dystiolaeth weithredol o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu cyflogaeth foddhaus a hygyrch i bobl o bob sgil a gallu, ac wrth wneud hynny, diogelu eu dyfodol. Mae'n destament i barodrwydd y Llywodraeth hon i herio penderfyniadau Llywodraeth y DU a'u heffaith ar unigolion a chymunedau yng Nghymru, a byddwn yn parhau i wneud hynny yn y ffordd adeiladol hon er mwyn sicrhau ein bod yn dod o hyd i gyflogaeth addas ar gyfer cymaint o weithwyr anabl Remploy a ddiswyddwyd ag y bo modd.

**Mark Isherwood:** Thank you for your statement with regard to providing support for disabled people to gain employment—whether the Remploy workers who have been made redundant, or more widely. You referred to the Welsh Government's employer support grant and concluded your statement by referring to challenging the decisions made by the UK Government and their impact on individuals and communities in Wales. Of course, the previous UK Labour Government closed Remploy factories at the height of the credit crunch, when more people lost their jobs and were not given the support package currently being provided by the UK Government. Of course, the UK Government did not close the factories; Remploy made those decisions based on an independent report that was supported by the Disability Rights Partnership, which represents over 500 local and national organisations led by disabled people, which said that the Sayce review shifts the debate and is based on disabled people's experiences highlighting how to tackle barriers to work. Therefore, how are you integrating and avoiding duplication of your programme with the UK Government programme, under which the £320 million budget for disability employment services is fully protected and the access to work programme, giving disabled people and their employers advice and support with extra costs, which may arise because of their needs, is in place and growing?

**Mark Isherwood:** Diolch i chi am eich datganiad mewn perthynas â darparu cymorth i bobl anabl i gael gwaith—boed nhw'n weithwyr Remploy sydd wedi cael eu diswyddo, neu yn fwy eang. Cyfeiriasoch at gymorth grant cyflogwr Llywodraeth Cymru a gwnaethoch orffen eich datganiad drwy gyfeirio at herio'r penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth y DU a'u heffaith ar unigolion a chymunedau yng Nghymru. Wrth gwrs, caeodd Llywodraeth Lafur flaenorol y DU ffatrïoedd Remploy yn anterth y wasgfa gredyd, pan gollodd mwy o bobl eu swyddi ac nid oeddent yn cael y pecyn cymorth a ddarperir ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU. Wrth gwrs, ni wnaeth Llywodraeth y DU gau'r ffatrïoedd; Remploy wnaeth y penderfyniadau hynny yn seiliedig ar adroddiad annibynnol a gefnogwyd gan y Bartneriaeth Hawliau Anabledd, sy'n cynrychioli dros 500 o fudiadau lleol a chenedlaethol a arweinir gan bobl anabl, a ddywedodd fod adolygiad Sayce yn symud y ddadl ac sy'n seiliedig ar brofiadau pobl anabl yn amlygu sut i fynd i'r afael â rhwystrau i waith. Felly, sut ydych chi'n integreiddio ac yn osgoi dyblygu eich rhaglen gyda rhaglen Llywodraeth y DU, lle mae'r gyllideb o £320 miliwn ar gyfer gwasanaethau cyflogaeth anabledd wedi ei gwarchod yn llawn a lle mae'r rhaglen mynediad at waith, sy'n rhoi cyngor a chymorth gyda chostau ychwanegol i bobl anabl a'u cyflogwyr, a allai godi oherwydd eu hanghenion, wedi'i sefydlu ac yn tyfu?

Remploy helped 2,000 people in Wales and 220 in my patch, in Wrexham, into employment in 2010-11. Those figures have

Mae Remploy wedi helpu 2,000 o bobl yng Nghymru a 220 yn fy ardal i, yn Wrecsam, i gyflogaeth yn 2010-11. Mae'r ffigurau hynny

gone up to nearly 2,400 in Wales and 240 in Wrexham in 2011-12, through access to work programmes, Work Choice, and the wider support provided. In addition to providing this support, how are you ensuring that it complements what the UK Government is doing, rather than simply giving the impression that it is doing nothing or somehow addressing this as part of the wider cuts agenda? How are you working with the UK Government on its proposed appointment of a disabled people's user-led organisation ambassador to work with businesses to ensure that they know about the support available for disabled people in the workplace in Wales and across the United Kingdom? How do you respond to the statement made by user-led organisations at this morning's consultation meeting with the cross-party disability group? That statement referred to the £3.5 million, I think, in support announced by the UK Government for disabled people's user-led organisations, supporting them, through financial and non-financial ways, to be a representative voice for disabled people and to deliver better services. They hope that Wales will replicate this, but they emphasise that this is only a wish among user-led organisations at present.

wedi codi i bron 2,400 yng Nghymru a 240 yn Wrecsam yn 2011-12, drwy fynediad at raglenni gwaith, Dewis Gwaith, a'r cymorth ehangach a ddarperir. Yn ogystal â darparu'r cymorth hwn, sut ydych chi'n sicrhau ei fod yn ategu'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud, yn hytrach na dim ond rhoi'r argraff ei fod yn gwneud dim neu rywsut yn mynd i'r afael â hyn fel rhan o'r agenda doriadau ehangach? Sut ydych chi'n gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ei phenodiad arfaethedig o lysgennad mudiad pobl anabl a arweinir gan ddefnyddwyr i weithio gyda busnesau i sicrhau eu bod yn gwybod am y cymorth sydd ar gael i bobl anabl yn y gweithle yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig? Sut ydych chi'n ymateb i'r datganiad a wnaed gan fudiadau a arweinir gan ddefnyddwyr yng nghyfarfod ymgynghori y bore yma gyda'r grŵp anabledd trawsbleidiol? Cyfeiriodd y datganiad hwnnw at y £3.5 miliwn, rwy'n meddwl, mewn cymorth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer mudiadau pobl anabl a arweinir gan ddefnyddwyr, gan eu cefnogi, drwy ffyrdd ariannol ac anariannol, i fod yn llais cynrychioliadol ar gyfer pobl anabl ac i ddarparu gwell gwasanaethau. Maent yn gobeithio y bydd Cymru yn ailadrodd hyn, ond maent yn pwysleisio mai dim ond dymuniad ymhlith defnyddwyr a arweinir gan sefydliadau yw hwn ar hyn o bryd.

**Leighton Andrews:** I think that the Member only asked me two questions: one was about how we are addressing the issue of duplication with Department for Work and Pensions schemes and the second was a specific question, and I invite him to write to me on the second question that he asked right at the end, simply because I do not think that we have had those proposals put to us by those organisations. In respect of duplication with the DWP, we have regular discussions with it. It is aware of our employer support grant programme that we are operating. We continue to have discussions with the senior management of Remploy as well in respect of particular facilities and assets that could be used to ensure a phoenix business in at least one of the sites going forward. Therefore, we have regular conversations and it is aware of our schemes. What we have put in place is a package that has been well-supported across

**Leighton Andrews:** Credaf mai dau gwestiwn ofynnodd yr Aelod i mi: un oedd ynglŷn â sut ydym yn mynd i'r afael â'r mater o ddyblygu gyda chynlluniau'r Adran Gwaith a Phensiynau ac roedd yr ail yn gwestiwn penodol, ac rwyf yn ei wahodd i ysgrifennu ataf ar y ail gwestiwn iddo ofyn ar y diwedd, dim ond oherwydd nad wyf yn meddwl ein bod wedi cael y cynigion hynny gan y sefydliadau hynny. O ran dyblygu gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, rydym yn cael trafodaethau rheolaidd gyda hi. Mae'n ymwybodol o'n rhaglen grant cefnogi cyflogwyr yr ydym yn ei gweithredu. Rydym yn parhau i gael trafodaethau gydag uwch reolwyr Remploy yn ogystal o ran cyfleusterau ac asedau penodol y gellid eu defnyddio i sicrhau busnes ffenics mewn o leiaf un o'r safleoedd o hyn ymlaen. Felly, rydym yn cynnal sgyrsiau rheolaidd ac mae'n ymwybodol o'n cynlluniau. Yr hyn yr ydym

Wales and well-regarded by the Remploy workers who have been made redundant and by their trade unions.

wedi ei roi ar waith yw pecyn sydd wedi cael cefnogaeth dda ledled Cymru ac wedi ei ystyried yn dda gan weithwyr Remploy sydd wedi cael eu diswyddo a gan eu hundebau llafur.

**David Rees:** Minister, I, too, welcome the statement supporting the Remploy workers who have had to find new employment because of the UK Government’s decision to close Remploy factories. However, I want to look at the two factories that are at phase 2 and ask how your officials are working with those two factories to ensure that they remain viable and operational, because there are difficult situations still facing them and those employees feel very vulnerable in the current situation.

**David Rees:** Weinidog, rwyf finnau hefyd yn croesawu’r datganiad yn cefnogi gweithwyr Remploy sydd wedi gorfod dod o hyd i gyflogaeth newydd oherwydd penderfyniad Llywodraeth y DU i gau ffatrïoedd Remploy. Fodd bynnag, rwyf am edrych ar y ddwy ffatri sydd ar gam 2 a gofyn sut y mae eich swyddogion yn gweithio gyda’r ddwy ffatri hyn er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn hyfyw a gweithredol, gan fod sefyllfaoedd anodd yn dal i’w hwynebu ac mae’r gweithwyr hynny’n teimlo’n agored iawn i niwed yn y sefyllfa bresennol.

**Leighton Andrews:** My colleague, the Member for Aberavon, is right to raise the issue of the factories in phase 2: one of which is in his constituency and one of which is in mine. We have continued to have conversations with the management and workforce in both of those factories. We discussed the future of the phase 2 factories last week in my Remploy advisory group, with the trade unions and others involved. Proposals are being advanced by the management in the Remploy factory in Baglan, which he will be familiar with. We have been able to offer advice—through the Wales Co-op Centre and Social Firms Wales—on the development of business plans and other support where necessary. We are continuing to have conversations also with the workforce in the Porth factory. I was in the Porth Remploy factory on Friday afternoon to discuss some of these issues. We are still a little in the dark on the outcome of phase 2 and some of the timings. We are working with those groups to ensure that we have concrete proposals to help them to develop businesses. However, it is still quite possible that, as a result of action taken by others, we may need to have a further employer support grant mechanism in place for phase 2.

**Leighton Andrews:** Mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Aberafan, yn iawn i godi mater y ffatrïoedd yng ngham 2: un sydd yn ei etholaeth ef ac un yn fy etholaeth i. Rydym wedi parhau i siarad â rheolwyr a’r gweithlu yn y ddwy ffatri hyn. Buom yn trafod dyfodol y ffatrïoedd cam 2 yr wythnos ddiwethaf yn fy ngrŵp cynghori Remploy, gyda’r undebau llafur ac eraill sy’n gysylltiedig. Mae cynigion yn cael eu gwneud gan y rheolwyr yn ffatri Remploy ym Maglan, y bydd yn gyfarwydd â nhw. Rydym wedi gallu cynnig cyngor—drwy Ganolfan Co-op Cymru a Chwmnïau Cymdeithasol Cymru—ar ddatblygu cynlluniau busnes a chymorth arall lle bo angen. Rydym yn parhau i gael sgyrsiau hefyd â’r gweithlu yn ffatri’r Porth. Roeddwn i yn ffatri Remploy yn y Porth brynhawn dydd Gwener i drafod rhai o’r materion hyn. Rydym yn dal i fod ychydig yn y niwl o ran canlyniad cam 2 a rhai o’r amseriadau. Rydym yn gweithio gyda’r grwpiau hynny i sicrhau bod gennym gynigion pendant i’w helpu i ddatblygu busnesau. Fodd bynnag, mae’n dal yn eithaf bosibl, o ganlyniad i gamau a gymerwyd gan eraill, efallai y bydd angen cael mecanwaith grant cymorth cyflogwr pellach wedi’i sefydlu ar gyfer cam 2.

3.00 p.m.

15:00

**Lindsay Whittle:** Minister, the Party of Wales—Plaid Cymru is opposed to the

**Lindsay Whittle:** Weinidog, mae Plaid Cymru—The Party of Wales yn

closure of Remploy factories, and we will continue to press for the further devolution of powers to support disabled people against Westminster's reactionary agenda on disability. Thank you for the statement, Minister. I cannot fault it at all, and it certainly seems like good news for the 45 people whom you hope to help. However, not all Remploy workers will be lucky enough to find employment in the current climate, and many of them will be navigating the minefield of the work capability assessment and discovering why 'Atos' is regarded as a new four-letter word in Wales. What additional support will the Welsh Government give to those workers who do not find employment and who will find themselves victims of the Westminster Government not once, but twice, when the Atos assessment denies them the appropriate support?

gwrthwynebu cau ffatrïoedd Remploy, a byddwn yn parhau i bwyso am ddatganoli rhagor o bwerau i gefnogi pobl anabl yn erbyn agenda adweithiol San Steffan ar anabledd. Diolch i chi am y datganiad, Weinidog. Ni allaf weld bai ynddo o gwbl, ac mae'n sicr yn ymddangos i fod yn newyddion da i'r 45 o bobl yr ydych yn gobeithio eu helpu. Fodd bynnag, ni fydd pob gweithiwr Remploy yn ddigon ffodus i ddod o hyd i gyflogaeth yn yr hinsawdd bresennol, a bydd llawer ohonynt yn llywio drwy dir peryglus asesiad o allu i weithio a darganfod pam fod 'Atos' yn cael ei ystyried yn air pedair llythyren newydd yng Nghymru. Pa gymorth ychwanegol fydd Llywodraeth Cymru yn ei roi i'r gweithwyr hynny nad ydynt yn dod o hyd i gyflogaeth a fydd yn cael eu hunain yn dioddef oherwydd Llywodraeth San Steffan nid unwaith, ond ddwywaith, pan fydd asesiad Atos yn gwadu'r cymorth priodol iddynt?

**Leighton Andrews:** I am sure that, like many of us in our constituencies and regions of the Assembly, the Member will provide support to people who have to go through the assessment process as a result of action by Atos or others. I am relatively optimistic about the number of job opportunities in the pipeline under the employer support grant arrangements. A significant number of proposals are coming through from private sector, public sector and third sector organisations for the further employment of Remploy workers, so I do not think that we have reached the end of the line yet.

**Leighton Andrews:** Rwy'n siŵr, fel llawer ohonom yn ein hetholaethau a'n rhanbarthau o'r Cynulliad, y bydd yr Aelod yn darparu cefnogaeth i bobl sy'n gorfod mynd drwy'r broses asesu o ganlyniad i weithredu gan Atos neu eraill. Rwyf yn gymharol obeithiol am y nifer o gyfleoedd gwaith ar y gweill o dan drefniadau'r grant cymorth i gyflogwyr. Mae nifer sylweddol o gynigion yn cyrraedd o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a mudiadau trydydd sector ar gyfer cyflogi rhagor o weithwyr Remploy, felly nid wyf yn credu ein bod wedi cyrraedd y terfyn eto.

**Peter Black:** I congratulate the Minister again on the action that he is taking in response to the closure of Remploy factories. It would have been good if that action had been taken when the previous Government closed those factories; nevertheless, we are where we are. I have a quick question in relation to the first paragraph of the Minister's statement, where he says that another factory

**Peter Black:** Rwyf yn llongyfarch y Gweinidog unwaith eto ar y camau y mae'n eu cymryd mewn ymateb i gau ffatrïoedd Remploy. Byddai wedi bod yn dda pe byddai'r camau wedi'u cymryd pan gaeodd y Llywodraeth flaenorol y ffatrïoedd hynny; er hynny, rydym lle'r ydym. Mae gennyf gwestiwn cyflym mewn perthynas â pharagraff cyntaf datganiad y Gweinidog, lle mae'n dweud bod ffatri arall

'has proceeded to the final stage of Remploy's commercial process following approval of business cases but may yet lose staff.'

wedi mynd ymlaen i gam terfynol proses fasnachol Remploy yn dilyn cymeradwyo achosion busnes, ond gall golli staff o hyd.

I understand that that will be the Bridgend

Deallaf mai ffatri Pen-y-bont ar Ogwr fydd

factory. Will the Minister inform us of what support is being offered by his department to the Bridgend factory to ensure that that business case is approved and that the factory is able to proceed as hoped?

honno. A wnaiff y Gweinidog roi gwybod inni pa gefnogaeth sy'n cael ei chynnig gan ei adran i ffatri Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn sicrhau bod yr achos busnes wedi'i gymeradwyo a bod y ffatri yn gallu symud ymlaen fel y gobeithiwyd?

**Leighton Andrews:** I do not know how far I can go, given some of the commercial issues surrounding that. My officials have had regular discussions with the workforce and managers at that factory. However, the bid being discussed there is not from the existing workers and management, but from an external company. Therefore, our engagement in that is perhaps more limited than it would have been had the proposal come from the workforce and management. Nevertheless, we stand ready to give support to ensure that the maximum numbers of Remploy workers are taken on.

**Leighton Andrews:** Nid wyf yn gwybod pa mor bell y gallaf fynd, o ystyried rhai o'r materion masnachol sy'n ymwneud â hynny. Mae fy swyddogion wedi cael trafodaethau rheolaidd gyda'r gweithlu a rheolwyr yn y ffatri. Fodd bynnag, nid gan y gweithwyr a'r rheolwyr presennol y mae'r cais sy'n cael ei drafod yno, ond gan gwmni allanol. Felly, mae ein rhan ni yn hynny efallai yn fwy cyfyngedig nag y byddai wedi bod pe bai'r cynnig yn dod gan y gweithlu a'r rheolwyr. Serch hynny, rydym yn barod i roi cymorth i sicrhau bod y nifer fwyaf o weithwyr Remploy yn cael eu cyflogi.

## Datganiad: Y Diweddaraf am Twf Swyddi Cymru
## Statement: Update on Jobs Growth Wales

**The Deputy Minister for Skills (Jeff Cuthbert):** I am pleased to provide an update on the performance of Jobs Growth Wales six months after its launch in April of this year.

**Y Dirprwy Weinidog Sgiliau (Jeff Cuthbert):** Rwy'n falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad Twf Swyddi Cymru chwe mis ar ôl ei lansio ym mis Ebrill eleni.

Jobs Growth Wales is one of our key programme for government commitments, and was designed to respond to the worrying level of youth unemployment facing us as a result of continued difficult economic conditions across the whole of the UK. The latest statistics present a troubling picture, both here in Wales and across the rest of the UK. The number of young unemployed people has increased by around 1,000 in Wales over the year to June of this year, and is currently at 50,500 for people aged 16 to 24. Addressing this challenge is a key priority of our programme for government.

Mae Twf Swyddi Cymru yn un o'n rhaglenni allweddol ar gyfer ymrwymiadau llywodraeth, ac fe'i cynlluniwyd i ymateb i'r lefel bryderus o ddiweithdra ymysg pobl ifanc sy'n ein hwynebu o ganlyniad i amodau economaidd anodd parhaus ar draws y DU gyfan. Mae'r ystadegau diweddaraf yn cyflwyno darlun gofidus, yma yng Nghymru ac ar draws gweddill y DU. Mae nifer y bobl ifanc ddi-waith wedi cynyddu gan tua 1,000 yng Nghymru dros y flwyddyn hyd at fis Mehefin eleni, ac ar hyn o bryd mae'n 50,500 ar gyfer pobl 16 i 24 oed. Mae mynd i'r afael â'r her hon yn flaenoriaeth allweddol ein rhaglen ar gyfer llywodraeth.

We know that opportunities for young people are being limited by the overall supply of jobs, as well as by who else is competing for them. Jobs Growth Wales has been designed to tackle a key issue that young people face in their search for work, namely how they can secure the relevant work experience that

Rydym yn gwybod bod cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc yn cael eu cyfyngu gan y cyflenwad cyffredinol o swyddi, yn ogystal â phwy arall sy'n cystadlu amdanynt. Mae Twf Swyddi Cymru wedi cael ei gynllunio i fynd i'r afael â mater allweddol y mae pobl ifanc yn ei wynebu wrth chwilio am waith, sef sut

employers require when they are recruiting.

y gallant sicrhau'r profiad gwaith perthnasol y mae cyflogwyr yn gofyn amdano pan fyddant yn recriwtio.

Jobs Growth Wales is helping to meet the youth employment challenge by creating 4,000 job opportunities per year between now and March 2015, targeting unemployed young people aged 16 to 24 for a six-month period and in collaboration with employers. Young people are paid at least the relevant national minimum wage rate and must work for a minimum of 25 hours per week. The programme caters for young people who are job-ready but who have had difficulty securing employment. It provides a supportive environment for those who need it and a valuable opportunity enabling progression into sustained employment. Not only does Jobs Growth Wales create opportunities for unemployed young people, who have suffered more than most in the recession, but the posts are also new jobs, helping Welsh businesses to expand.

Mae Twf Swyddi Cymru yn helpu i wynebu her cyflogaeth ieuenctid drwy greu 4,000 o gyfleoedd swyddi bob blwyddyn rhwng nawr a mis Mawrth 2015, gan dargedu pobl ifanc ddi-waith 16 i 24 oed am gyfnod o chwe mis ac mewn cydweithrediad â chyflogwyr. Mae pobl ifanc yn cael eu talu cyfradd berthnasol yr isafswm cyflog cenedlaethol o leiaf ac mae'n rhaid gweithio am o leiaf 25 awr yr wythnos. Mae'r rhaglen yn darparu ar gyfer pobl ifanc sy'n barod ar gyfer swydd ond sydd wedi cael anhawster sicrhau cyflogaeth. Mae'n darparu amgylchedd cefnogol ar gyfer y rhai sydd ei angen ac yn gyfle gwerthfawr sy'n galluogi dilyniant i gyflogaeth gynaliadwy. Nid yn unig y mae Twf Swyddi Cymru yn creu cyfleoedd i bobl ifanc ddi-waith, sydd wedi dioddef mwy na'r rhan fwyaf yn y dirwasgiad, ond mae'r swyddi hefyd yn swyddi newydd, gan helpu busnesau Cymru i ehangu.

Jobs Growth Wales is a made-in-Wales response to the youth unemployment issue. We have looked at previous initiatives that have attempted to tackle the problem and that have had some success in providing young people with relevant work experience, such as the Future Jobs Fund, which worked well in Wales. Jobs Growth Wales builds on these programmes by providing young people with the invaluable experience of work and with the possibility of sustained employment. It is important that we are clear that this is not a work placement programme; it is about responding to the needs of our young unemployed and providing them with opportunities to enter real, sustainable jobs. It also joins up our youth employment opportunities, bridging a gap between our traineeship programme and our apprenticeship offers, providing a clearer route-way into employment for young people in Wales.

Mae Twf Swyddi Cymru yn ymateb a wnaed-yn-Cymru i fater diweithdra ieuenctid. Rydym wedi edrych ar fentrau blaenorol sydd wedi ceisio mynd i'r afael â'r broblem ac a gafodd rhywfaint o lwyddiant o ran darparu profiad gwaith perthnasol i bobl ifanc, fel Cronfa Swyddi'r Dyfodol, a oedd yn gweithio'n dda yng Nghymru. Mae Twf Swyddi Cymru yn adeiladu ar y rhaglenni hyn drwy roi'r profiad amhrisiadwy o waith i bobl ifanc gyda'r posibilrwydd o gyflogaeth barhaus. Mae'n bwysig ein bod yn glir nad rhaglen lleoliad gwaith yw hon, mae'n ymwneud ag ymateb i anghenion ein pobl ifanc ddi-waith a darparu cyfleoedd iddynt fynd i gael swyddi go iawn, cynaliadwy. Mae hefyd yn cyfuno ein cyfleoedd cyflogaeth ieuenctid, gan bontio'r bwlch rhwng ein rhaglen hyfforddeiaeth a'n cynigion prentisiaeth, gan ddarparu llwybr cliriach i gyflogaeth ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.

It is not surprising, therefore, that our approach is receiving attention from other parts of the UK. I am sure that Members will have heard Ed Miliband's positive references to our programme at the Labour Party conference recently. We are now just over six

Nid yw'n syndod, felly, bod ein hymagwedd yn derbyn sylw o rannau eraill o'r DU. Rwyf yn siŵr y bydd Aelodau wedi clywed cyfeiriadau cadarnhaol Ed Miliband at ein rhaglen yng nghynhadledd y Blaid Lafur yn ddiweddar. Mae ychydig dros chwe mis


50

months into the delivery of the programme, and it is an opportune time to reflect upon our performance to date. As with any new initiative, we have had to set up new processes and arrangements for delivery, but I am confident that we are in a strong position to deliver real opportunities for young people going forward. In fact, we are currently exceeding a number of our profiled delivery targets. To date we have created 3,161 job opportunities through the programme, and 1,705 young people are now in work as a result of Jobs Growth Wales.

bellach ers i ni ddechrau cyflwyno'r rhaglen, ac mae'n amser da i fyfyrio ar ein perfformiad hyd yn hyn. Fel gydag unrhyw fenter newydd, rydym wedi gorfod sefydlu prosesau newydd a threfniadau ar gyfer cyflwyno, ond rwy'n hyderus ein bod mewn sefyllfa gref i gyflwyno cyfleoedd go iawn i bobl ifanc o hyn ymlaen. Yn wir, rydym ar hyn o bryd yn rhagori ar nifer o'n targedau cyflwyno a broffiliwyd. Hyd yma rydym wedi creu 3,161 o gyfleoedd swyddi drwy'r rhaglen, ac mae 1,705 o bobl ifanc bellach mewn gwaith o ganlyniad i Twf Swyddi Cymru.

As you may know, there are four separate but interlinked strands of the programme, and I would like to mention briefly each in turn. The private sector strand is the largest of the programme and is offering at least 2,500 job opportunities for young people per year. A key criterion for businesses to participate is their ability to create additional posts outside their current staffing. The job opportunities are being sourced through a network of managing agents from our contracted work-based learning providers, and we have experienced an overwhelmingly positive response to date. Some 2,560 job opportunities have been created, with 1,483 young people taking up jobs through this strand. As I mentioned previously, one of the success criteria for the programme will be the sustainability of the jobs that we have helped to create. As we have only just passed the six-month point, we are currently examining the destination details relating to the young people who entered the programme in April. The early signs are that employers are doing their best to keep their new staff on, and a number of them are creating apprenticeship opportunities, which is a successful outcome for all concerned.

Fel y gwyddoch efallai, mae pedwar llinyn ar wahân ond rhyng-gysylltiedig i'r rhaglen, a hoffwn sôn yn fyr bob un yn ei dro. Y llinyn sector preifat yw'r mwyaf yn y rhaglen ac mae'n cynnig o leiaf 2,500 o gyfleoedd swyddi i bobl ifanc y flwyddyn. Maen prawf allweddol ar gyfer busnesau i gymryd rhan yw eu gallu i greu swyddi ychwanegol y tu allan i'w staffio presennol. Mae'r cyfleoedd swyddi yn cael eu cyrchu drwy rwydwaith o asiantau rheoli o'n darparwyr dysgu seiliedig yn y gwaith a gontractiwyd, ac rydym wedi profi ymateb cadarnhaol hyd yn hyn. Mae rhyw 2,560 o gyfleoedd swyddi wedi eu creu, gyda 1,483 o bobl ifanc yn cymryd swyddi drwy'r llinyn hwn. Fel y soniais o'r blaen, un o feini prawf llwyddiant y rhaglen fydd cynaliadwyedd y swyddi yr ydym wedi helpu eu creu. Gan mai dim ond newydd basio'r pwynt chwe mis yr ydym, rydym ar hyn o bryd yn edrych ar fanylion y gyrchfan ynghylch pobl ifanc sydd wedi ymuno â'r rhaglen ym mis Ebrill. Mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod cyflogwyr yn gwneud eu gorau i gadw eu staff newydd ymlaen, ac mae nifer ohonynt yn creu cyfleoedd prentisiaeth, sy'n ganlyniad llwyddiannus i bawb dan sylw.

The third sector strand will provide around 1,000 job opportunities in the third sector for young people. As an acknowledgement of the third sector's expertise, through this strand, we provide opportunities for a number of young people who may require a more supported employment environment as they enter the labour market for the first time. I am encouraged to hear that this is having an impact. One of the participants in this strand of the programme mentioned that they would

Bydd y llinyn trydydd sector yn darparu tua 1,000 o gyfleoedd gwaith yn y trydydd sector ar gyfer pobl ifanc. Fel cydnabyddiaeth o arbenigedd y trydydd sector, drwy'r llinyn hwn, rydym yn darparu cyfleoedd ar gyfer nifer o bobl ifanc a allai fod angen amgylchedd gwaith gyda mwy o gefnogaeth gan eu bod yn mynd i mewn i'r farchnad waith am y tro cyntaf. Rwyf yn cael fy nghalonogi i glywed bod hyn yn cael effaith. Soniodd un o'r cyfranogwyr yn y llinyn hwn

never have been able to develop the skills and experiences that they had gained had it not been for the opportunity afforded them by the programme. Therefore, when young people tell me that participation in a programme of this nature reminds them that they are valued and useful, we know that we are doing the right thing.

o’r rhaglen na fyddent byth wedi gallu datblygu’r sgiliau a’r profiadau y maent wedi eu hennill oni bai am y cyfle a roddwyd iddynt gan y rhaglen. Felly, pan fydd pobl ifanc yn dweud wrthyf fod cymryd rhan mewn rhaglen o’r fath yn eu hatgoffa eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn ddefnyddiol, rydym yn gwybod ein bod yn gwneud y peth iawn.

The graduate strand works to provide dedicated job opportunities for Welsh graduates. We remain concerned about the level of graduates struggling to secure employment, and we see this as important enough to warrant a dedicated focus through the programme. While the other strands will be open to graduates, this strand is providing a more tailored approach, building on the existing GO Wales programme.

Mae’r llinyn i raddedigion yn gweithio i ddarparu cyfleoedd gwaith pwrpasol i raddedigion Cymru. Rydym yn dal yn bryderus am lefel y graddedigion sy’n ei chael yn anodd sicrhau cyflogaeth, ac rydym yn ystyried bod hyn yn ddigon pwysig i warantu ffocws penodol drwy’r rhaglen. Er y bydd y meysydd eraill yn agored i raddedigion, mae’r llinyn hwn yn darparu dull mwy pwrpasol, gan adeiladu ar y rhaglen GO Wales bresennol.

The self-employment strand helps young people to start their own businesses, working within existing packages of support available through our business start-up programmes, managed by the Directorate for Business, Enterprise, Technology and Science under the young entrepreneur bursary. I was pleased to be able to visit one young person recently who has benefitted from this opportunity, and I was encouraged by his enthusiasm, dedication and drive to succeed. He is an inspiration and an example to us all.

Mae’r llinyn hunangyflogaeth yn helpu pobl ifanc i ddechrau eu busnesau eu hunain, gan weithio mewn pecynnau presennol o gymorth sydd ar gael trwy ein rhaglenni cychwyn busnes, a reolir gan y Gyfarwyddiaeth ar gyfer Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth o dan y bwrsari entrepreneur ifanc. Roeddwn yn falch o fod yn gallu ymweld ag un person ifanc yn ddiweddar sydd wedi elwa o’r cyfle hwn, a chefais fy nghalonogi gan ei frwdfrydedd, ei ymroddiad a’i benderfyniad i lwyddo. Mae’n ysbrydoliaeth ac yn esiampl i ni i gyd.

I am pleased to say that our managing agents have told us that they are experiencing a high level of interest from employers to create job opportunities for young people, and these have been created in each of the 22 local authority areas across Wales. We have also experienced a high level of interest from young people in the jobs available. To date, we have received over 28,000 applications from over 9,000 individual applicants—an average of three applications per individual.

Rwy’n falch o ddweud bod ein hasiantau rheoli wedi dweud wrthym eu bod yn profi lefel uchel o ddiddordeb gan gyflogwyr i greu cyfleoedd gwaith i bobl ifanc, ac mae’r rhain wedi cael eu creu ym mhob un o’r 22 ardal awdurdod lleol ledled Cymru. Rydym hefyd wedi profi lefel uchel o ddiddordeb gan bobl ifanc yn y swyddi sydd ar gael. Hyd yma, rydym wedi derbyn dros 28,000 o geisiadau gan dros 9,000 o ymgeiswyr unigol—cyfartaledd o dri chais yr unigolyn.

The vast majority of applicants, some 92%, are in the 18 to 24 age range. We are satisfied that that is the case since we would expect most 16 and 17-year-olds to continue in full-time education or training and only a small proportion to seek employment.

Mae’r mwyafrif helaeth o ymgeiswyr, rhyw 92%, yn 18 i 24 oed. Rydym yn fodlon mai dyna’r sefyllfa oherwydd byddem yn disgwyl i’r rhan fwyaf o rai 16 a 17 mlwydd oed i barhau mewn addysg amser llawn neu hyfforddiant a dim ond cyfran fach i fod yn chwilio am waith.

As I have already mentioned, we are currently ahead of schedule with regard to the number of job opportunities being created and filled. However, we cannot rest on our laurels, as the success of this programme will be partly evidenced through the number of young people remaining in employment after the six-month opportunity has come to an end. We must ensure that we grow our programme over the coming years, engaging with employers across Wales from all sectors and of all sizes, and encourage them to participate. We must also ensure that the young people of Wales are encouraged to apply for and take up the opportunities available, as the evidence to date is suggesting that we are having the right impact and changing lives in a very positive way.

Fel yr wyf wedi crybwyll eisoes, rydym ar hyn o bryd o flaen yr amserlen o ran y nifer o gyfleoedd am swyddi sy’n cael eu creu a’u llenwi. Fodd bynnag, ni allwn orffwys ar ein rhwyfau, gan y bydd llwyddiant y rhaglen yn cael ei dangos yn rhannol drwy nifer y bobl ifanc sy’n parhau mewn cyflogaeth ar ôl i’r cyfle chwe mis ddod i ben. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn tyfu ein rhaglen dros y blynyddoedd nesaf, gan ymgysylltu â chyflogwyr ar draws Cymru o bob sector ac o bob maint, a’u hannog i gymryd rhan. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod pobl ifanc Cymru yn cael eu hannog i wneud cais am y cyfleoedd sydd ar gael ac yn manteisio arnynt, gan fod y dystiolaeth hyd yma yn awgrymu ein bod yn cael yr effaith iawn ac yn newid bywydau mewn modd cadarnhaol iawn.

**Nick Ramsay:** I thank the Deputy Minister for Skills for his statement to Plenary today. I would like to make a couple of points and ask questions on the back of the statement. I appreciate that the Jobs Growth Wales strategy was designed to deal with unemployment, and I suppose that the underlying concern here is whether it is actually doing that on the ground. We must bear in mind that there is a £75 million cost to the scheme to date, and we need to be sure that we are getting value for money for that.

**Nick Ramsay:** Diolchaf i’r Dirprwy Weinidog Sgiliau am ei ddatganiad i’r Cyfarfod Llawn heddiw. Hoffwn wneud un neu ddau o bwyntiau a gofyn cwestiynau yn sgil y datganiad. Rwyf yn gwerthfawrogi bod strategaeth Twf Swyddi Cymru wedi’i chynllunio i ddelio â diweithdra, ac mae’n debyg mai’r pryder sylfaenol yma yw p’un a yw’n gwneud hynny mewn gwirionedd. Mae’n rhaid i ni gadw mewn cof fod cost o £75 miliwn i’r cynllun hyd yn hyn, ac mae angen i ni fod yn sicr ein bod yn cael gwerth am arian am hynny.

The statistics that you quoted to the Chamber are, indeed, worrying: the number of young unemployed people has increased by 1,000 over the year. I think, and I am sure you would agree, that the current figure of 50,500 is way too high. What are you doing to ensure that all-important permanent jobs are being created by Jobs Growth Wales? I am sure that you are aware that the Federation of Small Businesses has identified permanent placements as being the key to overall economic success in Wales for the long term. Without the long-term nature of that, we cannot rely on economic growth being as we would like it to be. How are you monitoring the situation so that young people are not abandoned once the transition phase has finished?

in place the infrastructure needed to facilitate these multi-agency responses with the opening of three strategic co-ordination centres in September 2011. These centres are symbols of our commitment to build a safer Wales and are platforms for local resilience fora to move forward. The fire and rescue service is taking a leading role in improving safety in our communities for those most at risk, targeted with prevention activity. This has been supported by grants of £2.7 million for arson reduction and home fire safety checks.

asiantaeth agos yn bodoli wrth ymateb i argyfyngau, ac rydym wedi sefydlu'r seilwaith sydd ei angen i hwyluso'r ymatebion aml-asiantaeth hyn gydag agor tair canolfan gydgysylltu strategol ym mis Medi 2011. Mae'r canolfannau hyn yn symbolau o'n hymrwymiad i greu Cymru sy'n fwy diogel ac maent yn llwyfannau ar gyfer fforymau gwrthsefyll lleol i symud ymlaen. Mae'r gwasanaeth tân ac achub yn cymryd rôl flaenllaw mewn gwella diogelwch yn ein cymunedau ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn perygl, wedi'i dargedu gyda gweithgarwch atal. Mae hyn wedi cael ei gefnogi gan grantiau o £2.7 miliwn ar gyfer lleihau tanau bwriadol ac archwiliadau diogelwch tân.

Making roads safe for all users is a key priority for the Welsh Government, and we have seen significant improvements in recent years due to many of the road safety interventions that we have supported, including: £6.5 million to local authorities to help reduce road casualties; £5 million for the Safe Routes in Communities schemes implemented in every local authority across Wales, introducing 20 mph zones and traffic calming measures; and £3 million to the Welsh road casualty reduction partnership. The facts speak for themselves: the number of people killed or seriously injured has fallen by 46%, and the number of children killed or seriously injured has fallen by 63% based on the 1994-98 average. This exceeds the targets we set ourselves in 2000. I am currently consulting on the road safety delivery plan, setting out our strategic approach to 2020, including proposed targets for casualty reduction and specific actions for the Welsh Government and our partners.

Mae gwneud ffyrdd yn ddiogel i holl ddefnyddwyr yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru, ac rydym wedi gweld gwelliannau sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i lawer o ymyriadau diogelwch ar y ffyrdd yr ydym wedi eu cefnogi, gan gynnwys: £6.5 miliwn i awdurdodau lleol i helpu i leihau damweiniau ar y ffyrdd , £5 miliwn ar gyfer y cynlluniau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ar waith ym mhob awdurdod lleol ar draws Cymru, gan gyflwyno parthau 20 m.y.a. a mesurau tawelu traffig a £3 miliwn i'r bartneriaeth lleihau damweiniau ar y ffyrdd yng Nghymru. Mae'r ffeithiau'n siarad drostynt eu hunain: mae'r nifer o bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol wedi gostwng gan 46%, ac mae nifer y plant a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol wedi gostwng gan 63% yn seiliedig ar gyfartaledd 1994-98. Mae hyn yn rhagori ar y targedau a osodwyd gennym yn 2000. Rwyf hefyd yn ymgynghori ar y cynllun darparu diogelwch ar y ffyrdd, yn nodi ein dull strategol hyd at 2020, gan gynnwys targedau arfaethedig ar gyfer lleihau anafiadau a chamau gweithredu penodol ar gyfer Llywodraeth Cymru a'n partneriaid.

I cannot end this statement without highlighting the significant challenges facing policing and community safety with the introduction of police and crime commissioners in November. While opposing this move in principle, we have worked with the Home Office and our partners to put in place measures to maintain and build on the effective partnership arrangements that exist

Ni allaf orffen y datganiad hwn heb dynnu sylw at yr heriau sylweddol sy'n wynebu plismona a diogelwch cymunedol gyda chyflwyno comisiynwyr heddlu a throseddu ym mis Tachwedd. Er ein bod yn gwrthwynebu'r symudiad hwn mewn egwyddor, rydym wedi gweithio gyda'r Swyddfa Gartref a'n partneriaid i roi mesurau ar waith i gynnal ac adeiladu ar y trefniadau

and have benefitted the citizens of Wales. We have enjoyed a productive working relationship with the four police authorities in Wales and I plan to build similar relationships with the commissioners to ensure that Wales's best interests are recognised. I will be writing to them once they have been elected to highlight the priorities of the Welsh Government in terms of policing, criminal justice and community safety, and I will stress the key role of victim services at the local level. To ensure that our aims in improving community safety and tackling issues such as violence against women, domestic abuse and substance misuse continue to be prioritised, Welsh Government funding allocated to PCCs will be ring-fenced.

partneriaeth effeithiol sy'n bodoli ac wedi cael budd i ddinasyddion Cymru. Rydym wedi mwynhau perthynas waith gynhyrchiol gyda'r pedwar awdurdod heddlu yng Nghymru ac rwy'n bwriadu adeiladu perthynas debyg gyda'r comisiynwyr i sicrhau bod buddiannau gorau Cymru yn cael eu cydnabod. Byddaf yn ysgrifennu atynt unwaith y byddant wedi cael eu hethol i dynnu sylw at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran plismona, cyfiawnder troseddol a diogelwch cymunedol, a byddaf yn pwysleisio rôl allweddol gwasanaethau dioddefwyr ar y lefel leol. Er mwyn sicrhau bod ein nodau o ran gwella diogelwch cymunedol a mynd i'r afael â materion fel trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau yn parhau i fod yn flaenoriaeth, bydd cyllid Llywodraeth Cymru a ddyrennir i gomisynwyr heddlu a throseddu yn cael ei neilltuo.

Policing in Wales faces many challenges, not least of which are the cuts in funding that it has experienced in the past few years. Indeed, as a result of the 2010 comprehensive spending review, the police service has to reduce spending by some 20% in cash terms over the four years of the current spending review period. The police service has to manage a larger reduction in funding compared with any other public sector body in Wales, and therefore support from the Welsh Government on Operation Tarian, schools liaison, safety camera partnerships and the recent significant funding for community support officers is welcomed by the forces.

Mae plismona yng Nghymru yn wynebu llawer o heriau, nid y lleiaf ohonynt yw'r toriadau mewn cyllid y mae wedi ei brofi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn wir, o ganlyniad i adolygiad cynhwysfawr o wariant 2010, rhaid i'r gwasanaeth heddlu leihau gwariant gan tua 20% mewn termau arian parod dros bedair blynedd y cyfnod adolygu gwariant presennol. Rhaid i'r gwasanaeth heddlu reoli gostyngiad mwy mewn cyllido o'i gymharu ag unrhyw gorff sector cyhoeddus arall yng Nghymru, ac felly mae cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ar Ymgyrch Tarian, cyswllt ag ysgolion, partneriaethau camerâu diogelwch a'r cyllid sylweddol diweddar ar gyfer swyddogion cymorth cymunedol yn cael ei groesawu gan yr heddluoedd.

3.45 p.m.

15:45

We have a long and positive history of working in partnership with the police forces, and I have outlined the key examples. I am very pleased to highlight the continued progress on one of our top five commitments, with over 350 of our 500 community support officers already appointed. All 500 will be in training or deployed by September 2013. These additional officers are already providing great value in tackling anti-social behaviour, providing reassurance and making our communities feel safer. This is evidence

Mae gennym hanes hir a chadarnhaol o weithio mewn partneriaeth â'r heddlu, ac rwyf wedi amlinellu'r enghreifftiau allweddol. Rwyf yn falch iawn i dynnu sylw at y cynnydd parhaus ar un o'n pum prif ymrwymiad, gyda dros 350 o'n 500 o swyddogion cymorth cymunedol wedi'u penodi eisoes. Bydd pob un o'r 500 mewn hyfforddiant neu wedi'u defnyddio erbyn mis Medi 2013. Mae'r swyddogion ychwanegol hyn eisoes yn rhoi gwerth mawr wrth fynd i'r afael ag ymddygiad

of the real difference that this Government is making in taking action to keep our communities safe and reassure the public.

gwrthgymdeithasol, darparu sicrwydd a gwneud ein cymunedau deimlo'n fwy diogel. Mae hyn yn dystiolaeth o'r gwahaniaeth go iawn y mae'r Llywodraeth hon yn ei wneud wrth gymryd camau i gadw ein cymunedau'n ddiogel a sicrhau'r cyhoedd.

**The Deputy Presiding Officer:** I have a lot of speakers who want to ask a question on this important statement, so I ask everyone to be succinct, including the party spokespeople.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae gen i lawer o siaradwyr sydd am ofyn cwestiwn ar y datganiad pwysig hwn, felly, gofynnaf i bawb fod yn gryno, gan gynnwys llefarwyr y pleidiau.

**Mark Isherwood:** Thank you for your statement, Minister. I asked you last week, I believe, a question regarding the minutes of the Wales Association of Community Safety Officers meeting in Llandrindod Wells in July. I think you indicated that you were not at that point aware of the minutes, but they referred to a dialogue with a Welsh Government representative. How do you respond to the statement in those minutes that there appears to be a widening gap between ministerial statements and actual delivery on the safer communities fund, with delays in funding being released and submissions being responded to? The association said that the proposal would:

**Mark Isherwood:** Diolch i chi am eich datganiad, Weinidog. Gofynnais i chi yr wythnos diwethaf, rwy'n credu, gwestiwn ynghylch cofnodion cyfarfod Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru yn Llandrindod ym mis Gorffennaf. Rwy'n credu eich bod wedi nodi nad oeddech ar y pwynt hwnnw yn ymwybodol o'r cofnodion, ond maent yn cyfeirio at ddeialog gyda chynrychiolydd Llywodraeth Cymru. Sut ydych chi'n ymateb i'r datganiad yn y cofnodion hynny ei bod yn ymddangos bod bwlch cynyddol rhwng datganiadau gweinidogol a chyflwyno gwirioneddol ar y gronfa cymunedau diogelach, gydag oedi mewn rhyddhau arian ac ymateb i gyflwyniadau? Dywedodd y gymdeithas y byddai'r cynnig yn:

'remove local connectivity and add to tensions building around the regionalism and localism agenda'.

cael gwared ar gysylltedd lleol ac yn ychwanegu at densiynau sy'n tyfu o gwmpas yr agenda rhanbartholdeb a lleoliaeth.

In this context, reference was made to problems being experienced by area planning boards in the field of substance misuse fund management. How do you respond to concerns that, with substance misuse action team, or SMAT, funding moving from local authorities to regional funding under area planning boards, moneys could be prioritised elsewhere? I believe that £10 million is allocated for substance misuse action across north Wales, for example, by the health board. There are no elected representatives on the area planning boards. I understand that you are proposing guidance to allow local authority scrutiny committees to require members of planning boards to attend their meetings and give evidence to them; I wonder whether you can advise what progress you have achieved on that.

Yn y cyd-destun hwn, cyfeiriwyd at broblemau a brofwyd gan fyrddau cynllunio ardal ym maes rheoli cronfa camddefnyddio sylweddau. Sut ydych chi'n ymateb i bryderon, gyda chyllid tîm gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau, neu SMAT, yn symud oddi wrth awdurdodau lleol i ariannu rhanbarthol o dan fyrddau cynllunio ardal, y gellid blaenoriaethu arian mewn mannau eraill? Credaf fod £10 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau ar draws gogledd Cymru, er enghraifft, gan y bwrdd iechyd. Nid oes unrhyw gynrychiolwyr etholedig ar y byrddau cynllunio ardal. Rwy'n deall eich bod yn cynnig arweiniad i ganiatáu i bwyllgorau craffu awdurdodau lleol i fynnu bod aelodau byrddau cynllunio yn mynychu eu cyfarfodydd a rhoi tystiolaeth iddyn nhw;

tybed a allwch ddweud pa gynnydd yr ydych wedi'i gyflawni ar hynny.

You make positive and encouraging reference to action to end violence against women and domestic abuse. How are you engaging with the actions of the UK Government to lower the age at which domestic violence can be recognised from 18 to 16, to include coercive control in the definition of domestic violence, and to create new NSPCC young persons panels to inform the UK Government on tackling domestic violence, particularly by and against young people? Is the Welsh Government engaging with that, or might it do so?

Rydych yn cyfeirio'n gadarnhaol a chalonogol at weithredu i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Sut ydych chi'n ymgysylltu â gweithredoedd Llywodraeth y DU i ostwng yr oedran y gall trais yn y cartref gael ei gydnabod o 18 i 16, gan gynnwys rheolaeth orfodol yn y diffiniad o drais domestig, ac i greu paneli pobl ifanc newydd NSPCC i lywio Llywodraeth y DU ynghylch mynd i'r afael â thrais domestig, yn enwedig gan ac yn erbyn pobl ifanc? A yw Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â hynny, neu allai hi wneud hynny?

Given that the UK Government has ring-fenced nearly £40 million of funding up to 2015 for specialist local domestic and sexual violence support services, including independent domestic violence advisers, independent sexual violence advisers, sexual assault referral centres and multi-agency risk assessment centres, how have you addressed the concerns that I previously raised with you over the funding from Wales for the IDVAs and the ISVAs and therefore the SARCs in Wales? As you know, I advised you that the Home Office had provided continued funding for those posts, particularly in north Wales, but also across Wales, but the relevant agencies have had to cut the hours to 14.8 a week for IDVAs and 24 a week for the ISVAs who support the sexual assault referral centres. You concluded by saying that you were asking your head of violence against women and domestic abuse to meet the relevant organisations; I understand that happened, but those organisations are still waiting to hear what has resulted. I would be grateful if you could tell us how the Welsh Government will continue to support those programmes, which were actually introduced by a Labour Government, but which we all support.

O gofio bod Llywodraeth y DU wedi neilltuo yn agos at £40 miliwn o gyllid hyd at 2015 ar gyfer gwasanaethau cymorth arbenigol lleol trais domestig a rhywiol, gan gynnwys cynghorwyr annibynnol ar drais domestig, cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol, canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol a chanolfannau asesu risg aml-asiantaeth, sut ydych chi wedi mynd i'r afael â'r pryderon a godais gyda chi o'r blaen ynglŷn â'r cyllid o Gymru ar gyfer Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais rhywiol ac felly y Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yng Nghymru? Fel y gwyddoch, rwyf wedi rhoi gwybod i chi bod y Swyddfa Gartref wedi darparu cyllid parhaus ar gyfer y swyddi hyn, yn enwedig yng ngogledd Cymru, ond hefyd ar draws Cymru, ond mae'r asiantaethau perthnasol wedi gorfod lleihau'r oriau i 14.8 yr wythnos ar gyfer IDVAs a 24 yr wythnos ar gyfer y ISVAs sy'n cefnogi canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol. Roeddech yn gorffen drwy ddweud eich bod yn gofyn i'ch pennaeth trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig gwrdd â'r sefydliadau perthnasol; rwy'n deall bod hynny wedi digwydd, ond mae'r sefydliadau hynny yn dal i aros i glywed beth fu'r canlyniad. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym sut y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r rhaglenni hynny, a gyflwynwyd mewn gwirionedd gan Lywodraeth Lafur, ond yr ydym oll yn eu cefnogi.

Turning to human trafficking, when you made a statement to the Assembly some

Gan droi at fasnachu mewn pobl, pan wnaethoch chi ddatganiad i'r Cynulliad rai

months ago on human trafficking, you highlighted that the major entry point into Wales was from Ireland—not just Northern Ireland, but from Irish ports generally. What engagement have you had with Eire on those matters and how are you working with organisations such as Black Association of Women Step Out in Wales, which is clearly leading on this agenda?

misoedd yn ôl ar fasnachu mewn pobl, roeddech yn pwysleisio mai'r prif bwynt mynediad i Gymru oedd o Iwerddon—nid Gogledd Iwerddon yn unig, ond o borthladdoedd Iwerddon yn gyffredinol. Pa gysylltiad ydych chi wedi'i gael gydag Eire ar y materion hynny a sut ydych chi'n gweithio gyda sefydliadau fel Black Association of Women Step Out yng Nghymru, sy'n amlwg yn arwain ar yr agenda hon?

We congratulate the emergency services, which you highlight, on the admirable multi-agency co-operation that they demonstrate in the emergency situations that you recognise.

Rydym yn llongyfarch y gwasanaethau brys, yr ydych yn tynnu sylw atynt, am y cydweithrediad aml-asiantaeth rhagorol y maent yn ei ddangos yn y sefyllfaoedd argyfwng yr ydych yn eu cydnabod.

In terms of the police and crime commissioners, how do you propose to ensure in your role, alongside the UK Government, that the elected persons, whoever they may be, if party political, put the people before the party politics? I understand that the Home Office will require them to swear to do that. How will you ensure that victims' services—domestic abuse, sexual violence, substance misuse and others—are prioritised by them and that they are not allowed to sideline them?

O ran comisiynwyr heddlu a throseddu, sut ydych chi'n bwriadu sicrhau yn eich rôl, ochr yn ochr â Llywodraeth y DU, fod y personau etholedig, pwy bynnag y bônt, os yn wleidyddol bleidiol, yn rhoi'r bobl o flaen gwleidyddiaeth plaid? Rwy'n deall y bydd y Swyddfa Gartref yn ei gwneud yn ofynnol iddynt dyngu i wneud hynny. Sut fyddwch chi'n sicrhau bod gwasanaethau dioddefwyr—cam-drin domestig, trais rhywiol, camddefnyddio sylweddau ac eraill—yn cael eu blaenoriaethu ganddynt ac nad ydynt yn cael eu rhoi o'r neilltu?

Finally, with regard to community support officers, in evidence to committee, and you have referred to this in the past, it was stated that in north Wales, for example, permissive powers have been granted to community support officers that enable them to carry out many meaningful roles. That is not replicated across Wales, therefore how will you ensure that those permissive powers are included to allow them to work alongside warranted constables and special constables to fill the gaps where required?

Yn olaf, o ran swyddogion cymorth cymunedol, mewn tystiolaeth i'r pwyllgor, ac rydych wedi cyfeirio at hyn yn y gorffennol, nodwyd yng ngogledd Cymru, er enghraifft, bod pwerau caniataol wedi cael eu rhoi i swyddogion cymorth cymunedol sy'n eu galluogi i gyflawni sawl rôl ystyrlon. Nid yw hynny wedi'i atgynhyrchu ar draws Cymru, felly sut fyddwch chi'n sicrhau bod y pwerau caniataol yn cael eu cynnwys er mwyn eu galluogi i weithio ochr yn ochr â chwnstabliaid â gwarant a chwnstabliaid arbennig i lenwi bylchau lle bo angen?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for the many questions that he posed. I will do my best to answer most of them, if I may, Deputy Presiding Officer.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am y cwestiynau niferus a ofynnodd. Byddaf yn gwneud fy ngorau i ateb y rhan fwyaf ohonynt, os caf, Ddirprwy Lywydd.

**The Deputy Presiding Officer:** You may answer the most important ones and then write to the Member, who asked, by my calculation, seven questions. I will leave that

**Y Dirprwy Lywydd:** Cewch ateb y rhai mwyaf pwysig ac yna ysgrifennu at yr Aelod, a ofynnodd, yn ôl fy nghyfrifiad i, saith cwestiwn. Gadawaf hynny i chi.

to you.

**Carl Sargeant:** I am grateful for your advice, Deputy Presiding Officer. The Member raises an issue around the safer communities fund. The safer communities fund will distribute £4.5 million to community safety partnerships in 2012-13, and there will be a move to a regional footprint model for delivery from April 2013. I was hopeful that the Member would support me, as the regional model will, I believe, offer better value in the delivery of services. The Member made reference to the possibility of service failure or changes, given the change in the way that funding is delivered. Changes bring new opportunities too, and I hope that the Member can be much more positive in his contributions in future with regard to the way that services are being delivered on a regional basis.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn ddiolchgar am eich cyngor, Ddirprwy Lywydd. Mae’r Aelod yn codi mater ynghylch y gronfa cymunedau diogelach. Bydd y gronfa cymunedau diogelach yn dosbarthu £4.5 miliwn i bartneriaethau diogelwch cymunedol yn 2012-13, a bydd yn symud i fodel ôl-troed rhanbarthol i’w ddarparu o fis Ebrill 2013. Roeddwn yn obeithiol y byddai’r Aelod yn fy nghefnogi, gan y bydd y model rhanbarthol, rwyf yn credu, yn cynnig gwell gwerth wrth ddarparu gwasanaethau. Roedd yr Aelod yn cyfeirio at y posibilrwydd o fethiant gwasanaeth neu newidiadau, o ystyried y newid yn y ffordd y mae cyllid yn cael ei ddarparu. Mae newidiadau’n dod â chyfleoedd newydd hefyd, ac rwy’n gobeithio y gall yr Aelod fod yn llawer mwy cadarnhaol yn ei gyfraniadau yn y dyfodol o ran y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu ar sail ranbarthol.

The Member referred to the continued funding of IDVA services in Wales. Let me give me him some reassurance. The Welsh Government continued to fund the 22 authorities across Wales in relation to those services, when the Home Office changed the way that it operated its formula so that some authorities did not receive any funding. It did not reduce the funding level, but the contributions to each individual authority. We continued with our commitment and we will continue to do so for the near future. However, let me be clear, given the £2.1 billion reduction in our funding from the Westminster Government, we will have to review all of our services to make sure that we are tackling this issue right at its heart and look at what best serves the people who need these services.

Cyfeiriodd yr Aelod at barhau i ariannu gwasanaethau IDVA yng Nghymru. Gadewch i mi roi ychydig o sicrwydd iddo. Parhaodd Llywodraeth Cymru i ariannu 22 o awdurdodau ar draws Cymru mewn perthynas â’r gwasanaethau hynny, pan newidiodd y Swyddfa Gartref y ffordd yr oedd yn gweithredu ei fformiwla fel bod rhai awdurdodau nad oedd yn derbyn unrhyw gyllid. Nid wnaeth ostwng lefel y cyllid, ond y cyfraniadau i bob awdurdod unigol. Rydym yn parhau â’n hymrwymiad a byddwn yn parhau i wneud hynny ar gyfer y dyfodol agos. Fodd bynnag, gadewch imi fod yn glir, o ystyried y £ 2.1 biliwn o ostyngiad yn ein cyllid gan Lywodraeth San Steffan, bydd yn rhaid i adolygu pob un o’n gwasanaethau i sicrhau ein bod yn mynd i’r afael â’r mater hwn lle mae fwyaf pwysig ac yn edrych ar beth sy’n gwasanaethu orau y bobl sydd angen y gwasanaethau hyn.

The Member referred to human trafficking, and I recognise the issue he raised with regard to trafficking across all our borders within the UK. This is an opportunity for us all to work together. I am glad that the Member recognises that Wales is taking the lead in the employment of an anti-human trafficking coordinator. That follows the lead by Joyce Watson in the report that she

Cyfeiriodd yr Aelod at fasnachu mewn pobl, ac rwyf yn cydnabod y mater a gododd mewn perthynas â masnachu ar draws ein holl ffiniau o fewn y DU. Mae hwn yn gyfle i ni i gyd weithio gyda’n gilydd. Rwyf yn falch bod yr Aelod yn cydnabod bod Cymru yn cymryd yr awenau mewn cyflogi cydlynydd atal masnachu mewn pobl. Mae hynny’n dilyn yr arweiniad gan Joyce Watson yn yr

brought to the Assembly many years ago. We acted on that report and we are leading the way. However, as the Member recognises, border control is a non-devolved function.

adroddiad a gyflwynodd i'r Cynulliad flynyddoedd lawer yn ôl. Rydym yn gweithredu ar yr adroddiad hwnnw ac rydym yn arwain y ffordd. Fodd bynnag, fel mae'r Aelod yn cydnabod, mae rheoli ffiniau yn swyddogaeth heb ei datganoli.

Community support officers are making a very positive contribution in all our communities, and there will be more than 500 officers around Wales by September 2013. The work that they are doing is changing the way that our communities operate. I have had discussions with chief officers who allocate the provision of powers to community support officers. I have asked them to consider ensuring that there is consistency across all the regions that they police. I mentioned in my statement my commitment, and this Government's commitment, to working with police and crime commissioners once they are elected. I will write to them early on to outline the Government's priorities and how we can work together. Despite the interesting way in which PCCs will be elected, we will put those issues behind us. Once they are in post, they must deliver for the people of Wales.

Mae swyddogion cymorth cymunedol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn ym mhob un o'n cymunedau, a bydd mwy na 500 o swyddogion ledled Cymru erbyn mis Medi 2013. Mae'r gwaith y maent yn ei wneud yn newid y ffordd y mae ein cymunedau yn gweithredu. Rwyf wedi cael trafodaethau gyda phrif swyddogion sy'n neilltuo darpariaeth pwerau i swyddogion cymorth cymunedol. Rwyf wedi gofyn iddynt ystyried sicrhau bod cysondeb ar draws yr holl ranbarthau y maent yn eu plismona. Soniais yn fy natganiad am fy ymrwymiad, ac ymrwymiad y Llywodraeth hon, i weithio gyda chomisiynwyr yr heddlu a throseddu unwaith y byddant yn cael eu hethol. Byddaf yn ysgrifennu atynt yn gynnar i amlinellu blaenoriaethau'r Llywodraeth a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd. Er gwaethaf y ffordd ddiddorol y bydd comisiynwyr heddlu a throseddu'n yn cael eu hethol, byddwn yn rhoi'r materion hynny y tu ôl i ni. Unwaith y byddant yn y swydd, rhaid iddynt gyflawni ar gyfer pobl Cymru.

**Leanne Wood:** Minister, thank you for your statement. Since my days as a practising probation officer I have maintained an interest in criminal justice and community safety matters. I have a number of questions on your statement. I will try my best to be succinct, Deputy Presiding Officer.

**Leanne Wood:** Weinidog, diolch i chi am eich datganiad. Ers fy nyddiau fel swyddog prawf gweithredol rwyf wedi cynnal diddordeb mewn cyfiawnder troseddol a materion diogelwch cymunedol. Mae gen i nifer o gwestiynau ar eich datganiad. Byddaf yn gwneud fy ngorau i fod yn gryno, Ddirprwy Lywydd.

I note with interest your consultation on youth justice in Wales and attempts to ensure greater accountability. You also ask whether legislation is needed. Are you open to the call for the full devolution of the youth justice service to Wales? If not, I would be grateful if you could explain why. If you are not, does that mean that you think that determinations regarding the future of young people in Wales should remain in the hands of the Tories, as opposed to being determined here?

Nodaf gyda diddordeb eich ymgynghoriad ar gyfiawnder ieuenctid yng Nghymru ac ymgeision i sicrhau mwy o atebolrwydd. Rydych hefyd yn gofyn a oes angen deddfwriaeth. A ydych yn agored i'r alwad am ddatganoli llawn ar y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid i Gymru? Os na, byddwn yn ddiolchgar pe gallech esbonio pam. Os nad ydych, ydi hynny'n golygu eich bod yn credu y dylai penderfyniadau ynglŷn â dyfodol pobl ifanc yng Nghymru aros yn nwylo'r Torïaid, yn hytrach na chael eu penderfynu yma?

I welcome the fact that you intend to legislate on domestic abuse. I declare an interest here as the chair of Cwm Cynon Women's Aid's board of trustees. Minister, nobody will oppose stronger leadership, better education or integrating services. However, the Bill is titled 'ending violence against women and domestic abuse'. I cannot understand how you hope to end violence against women without powers over the criminal justice system. Is the Bill not badly titled? Should it not say something about providing services to survivors? Why is there no mention of children in the title? I am sure that the Minister is aware of the impact of domestic abuse on children.

Croesawaf y ffaith eich bod yn bwriadu deddfu ar gam-drin domestig. Rwyf yn datgan diddordeb yma fel cadeirydd bwrdd ymddiriedolwyr Cymorth i Fenywod Cwm Cynon. Weinidog, fydd neb yn gwrthwynebu arweiniad cryfach, gwell addysg neu wasanaethau integreiddio. Fodd bynnag, mae'r Bil yn dwyn y teitl 'rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig'. Ni allaf ddeall sut yr ydych yn gobeithio rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod heb bwerau dros y system cyfiawnder troseddol. Onid yw teitl y Bil yn un gwael? Oni ddylai fod yn dweud rhywbeth am ddarparu gwasanaethau i oroeswyr? Pam nad oes sôn am blant yn y teitl? Rwyf yn siŵr bod y Gweinidog yn ymwybodol o effaith cam-drin domestig ar blant.

Your programme for government says that you will reduce rates of domestic abuse and violence against women by increasing the number of successful prosecutions and convictions in cases of violence against women. Minister, levels of rape convictions are woefully low—that is violence against women. How are you going to increase those prosecution levels? Is your delivery on that pledge on track?

Mae eich rhaglen ar gyfer llywodraeth yn dweud y byddwch yn lleihau cyfraddau cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod trwy gynyddu nifer yr erlyniadau llwyddiannus a chollfarnau mewn achosion o drais yn erbyn menywod. Weinidog, mae lefelau collfarnau trais rhywiol yn druenus o isel—hynny yw trais yn erbyn menywod. Sut ydych chi'n mynd i gynyddu'r lefelau erlyn hynny? A yw cyflawni'r addewid hwnnw ar y trywydd iawn gennych?

The numbers of drug-related deaths have increased 15% since 2009. What will you do to reduce those numbers and save those lives? Also, have you read the Runciman report, which came out yesterday, and can you tell us when we can expect a statement on the impact of this report on services in Wales?

Mae nifer y marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau wedi cynyddu 15% ers 2009. Beth fyddwch chi'n ei wneud i leihau'r niferoedd hynny ac arbed y bywydau hynny? Hefyd, ydych chi wedi darllen adroddiad Runciman a ddaeth allan ddoe, ac a allwch chi ddweud wrthym pryd y gallwn ddisgwyl datganiad ar effaith yr adroddiad hwn ar wasanaethau yng Nghymru?

I also wish to ask for your views on the forthcoming police commissioner elections. What level of voter turnout do you consider necessary to give legitimacy to a newly elected police commissioner? The Party of Wales believes that policing should be under the direct democratic control of the Assembly: do you? Finally, can you tell us how you will measure the success or otherwise of your spend on community support officers? How can you demonstrate that they have either reduced crime or the fear of crime?

Rwyf hefyd yn dymuno gofyn am eich barn ar yr etholiadau comisiynydd yr heddlu sydd i ddod. Pa lefel o ganran sy'n pleidleisio yn eich barn chi sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi cyfreithlondeb i gomisiynydd heddlu etholedig newydd? Mae Plaid Cymru - The Party of Wales yn credu y dylai plismona fod o dan reolaeth ddemocrataidd uniongyrchol y Cynulliad: a ydych chi? Yn olaf, a allwch chi ddweud wrthym sut y byddwch yn mesur llwyddiant neu fethiant eich gwariant ar swyddogion cymorth cymunedol? Sut allwch chi ddangos eu bod un ai wedi gostwng trosedd neu ofn trosedd?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for her contribution. Despite the negative tone in which the Member asked some of the questions, I assume that that she is very supportive of some of the issues, particularly given her work in youth justice.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei chyfraniad. Er gwaethaf y dinc negyddol oedd gan yr Aelod wrth ofyn rhai o'r cwestiynau, rwyf yn tybio ei bod yn gefnogol iawn o rai o'r materion, yn enwedig o ystyried ei gwaith ym maes cyfiawnder ieuenctid.

I brought forward the Green Paper on youth justice because I believe that the system fails to deliver what people really need. It concerns me that many young people enter the youth justice system when we could have dealt with those incidents appropriately at the time. Prevention is much better than delivering services after the events have happened. I do not understand why we have so many people going through the youth justice system when there are things in place. They slip through the net, and so we have to really test the system. That is why I am asking, through the Green Paper, to look at all the services that are provided, how they are delivered, whether they should be delivered in a different way, and whether that is enough. If it is, we do not need legislation, but if not, and there is something missing, we should bring in legislation.

Rwyf wedi cyflwyno'r Papur Gwyrdd ar gyfiawnder ieuenctid oherwydd fy mod yn credu bod y system yn methu â chyflwyno'r hyn mae pobl wir ei angen. Mae'n destun pryder i mi fod llawer o bobl ifanc yn mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid, pan allem fod wedi delio â'r digwyddiadau hynny yn briodol ar y pryd. Mae atal yn llawer gwell na darparu gwasanaethau ar ôl i'r digwyddiadau ddigwydd. Nid wyf yn deall pam fod gennym gymaint o bobl yn mynd drwy'r system cyfiawnder ieuenctid pan fo pethau ar waith. Maent yn llithro drwy'r rhwyd, ac felly mae'n rhaid i ni brofi'r system go iawn. Dyna pam yr wyf yn gofyn, drwy'r Papur Gwyrdd, am gael edrych ar yr holl wasanaethau sy'n cael eu darparu, sut y cânt eu darparu, a ddylent gael eu darparu mewn ffordd wahanol, ac a yw hynny'n ddigon. Os yw, nid oes angen deddfwriaeth, ond os na, ac mae rhywbeth ar goll, dylem gyflwyno deddfwriaeth.

4.00 p.m.

16:00

The Member raises the issue of whether we should have the power based in Wales to do that. I believe in powers for a purpose and not in devolving everything to Wales just because we should. If there is merit in having those powers, such as by delivering a better youth justice service, I would support that call, but it should be based on evidence about the delivery.

Mae'r Aelod yn codi'r mater ynghylch a ddylem gael y pŵer yng Nghymru i wneud hynny. Rwyf yn credu mewn pwerau i bwrpas ac nid mewn datganoli popeth i Gymru dim ond oherwydd y dylem. Os oes gwerth mewn cael y pwerau hynny, megis trwy ddarparu gwell gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, byddwn yn cefnogi'r alwad honno, ond dylai fod yn seiliedig ar dystiolaeth am y darparu.

The Member then raised issues about the ending violence against women Bill. I will bring the detail of that Bill to the Assembly when it is launched towards the end of this year. That will answer many of the questions that the Member raises about statutory services and about legislative provision to demand that services are delivered appropriately for people who are suffering the effects of violence. The Member raised an

Yna cododd yr Aelod faterion yn ymwneud â'r Bil dod i ben â thrais yn erbyn menywod. Byddaf yn dod â manylion y Bil i'r Cynulliad pan gaiff ei lansio tua diwedd y flwyddyn hon. Bydd hynny'n ateb llawer o'r cwestiynau y mae'r Aelod yn eu codi am wasanaethau statudol ac am ddarpariaeth ddeddfwriaethol i fynnu bod gwasanaethau yn cael eu darparu'n briodol ar gyfer pobl sy'n dioddef effeithiau trais. Cododd yr

important point about children. I have worked with Gwenda Thomas on the social services Bill to make sure that the two pieces of legislation—on ending violence against women and domestic abuse, and the social services Bill—will encompass the whole narrative for a safer Wales, and will encompass all people affected by violence or abuse in some form.

Aelod bwynt pwysig am blant. Rwyf wedi gweithio gyda Gwenda Thomas ar y Bil gwasanaethau cymdeithasol i wneud yn siŵr bod y ddau ddarn o ddeddfwriaeth—ar ddod i ben â thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig, a'r Bil gwasanaethau cymdeithasol—yn cwmpasu'r naratif cyfan ar gyfer Cymru ddiogelach, ac yn cwmpasu'r holl bobl yr effeithir arnynt gan drais neu gam-drin ar ryw ffurf.

The Member then asked about community support officer provision across Wales and how we identify the changes that they have made. This is a really difficult one to measure the intervention of a CSO or a police officer in the community. How do you measure that by the success of no crime? It is challenging for my team, but I have asked the chief police officers—as they are currently, but this will fall within the remit of the new police and crime commissioners—to present a framework for how they will demonstrate the value of CSOs in their communities. Anecdotally—and I do not know whether this is typical or not—when I go to communities across Wales and see CSOs working within those communities, I can see a clear difference and a receptiveness from the public, and they make a social difference to the make-up of the community. If the Member is asking me for hard, key facts about how many burglaries have they stopped, for example, we will work on the framework to make sure that we can develop that argument. However, I cannot see any negative connotations to having 500 additional CSOs in communities across Wales, to make them safer.

Yna gofynnodd yr Aelod am ddarpariaeth swyddogion cymorth cymunedol ledled Cymru a sut yr ydym yn nodi'r newidiadau y maent wedi'u gwneud. Mae hwn yn anodd ei fesur ymyriad CSO neu swyddog yr heddlu yn y gymuned. Sut ydych chi'n mesur hynny drwy lwyddiant dim trosedd? Mae'n her i fy nhîm, ond rwyf wedi gofyn i brif swyddogion yr heddlu—fel y maent ar hyn o bryd, ond bydd hyn yn dod o fewn cylch gwaith y comisiynwyr heddlu a throseddau newydd—i gyflwyno fframwaith ar gyfer sut y byddant yn dangos gwerth swyddogion cymorth cymunedol yn eu cymunedau. Yn anecdotaidd—ac nid wyf yn gwybod a yw hyn yn nodweddiadol ai peidio—pan fyddaf yn mynd i gymunedau ledled Cymru a gweld swyddogion cymorth cymunedol yn gweithio o fewn y cymunedau hynny, gallaf weld gwahaniaeth clir a derbynnedd gan y cyhoedd, ac maent yn gwneud gwahaniaeth cymdeithasol i gyfansoddiad y gymuned. Os yw'r Aelod yn gofyn i mi am ffeithiau caled, allweddol am faint o fyrgleriaeth y maent wedi'u hatal, er enghraifft, byddwn yn gweithio ar y fframwaith i wneud yn siŵr y gallwn ddatblygu'r ddadl honno. Fodd bynnag, ni allaf weld unrhyw arwyddocâd negyddol i gael 500 CSO ychwanegol mewn cymunedau ledled Cymru, i'w gwneud yn fwy diogel.

**Peter Black:** I thank the Minister for making this statement, and I wish that he could also encourage other Ministers to bring forward statements on their relevant chapters in the programme for government, as that would be very useful.

**Peter Black:** Diolchaf i'r Gweinidog am wneud y datganiad hwn, a hoffwn pe gallai hefyd annog Gweinidogion eraill i gyflwyno datganiadau ar eu penodau perthnasol yn y rhaglen lywodraethu, gan y byddai hynny'n ddefnyddiol iawn.

Minister, you have raised a number of issues in your statement in relation to the programme for government and, although I could question you on those, there are a couple of other things in chapter 7 that you

Weinidog, rydych wedi codi nifer o faterion yn eich datganiad mewn perthynas â'r rhaglen ar gyfer llywodraeth ac, er y gallwn eich holi am y rheini, mae un neu ddau o

have not mentioned, which I do want to question you on. In the key actions that the Welsh Government is undertaking to deliver improvements, you say that you are going to establish a Wales business crime unit. Could you give us a progress update on that particular action? You also say that you are working with community safety partnerships and trading standards departments to support the extension of no-cold-calling zones. Again, could you tell us what progress is being made on that?

bethau eraill ym mhennod 7 nad ydych wedi sôn amdanynt, yr wyf yn awyddus i’ch holi yn eu cylch. Yn y camau allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau gwelliannau, dywedwch eich bod yn mynd i sefydlu uned troseddu yn erbyn busnes Cymru. A allech chi roi adroddiad cynnydd inni ar y cam gweithredu penodol hwn? Rydych hefyd yn dweud eich bod yn gweithio gyda phartneriaethau diogelwch cymunedol ac adrannau safonau masnach i gefnogi ymestyn ardaloedd dim galw diwahoddiad. Unwaith eto, a allech chi ddweud wrthym pa gynnydd sy’n cael ei wneud ar hynny?

You mention in your statement the support for fire and rescue authorities to promote community safety and arson reduction and prevention, and I welcome the work that is going on. However, I have been approached by a number of serving fire officers who are concerned because, given the reduction in the number of officers in fire and rescue authorities because of the cuts to Government expenditure, they find that they spend a lot of time on prevention, and that is reducing the time and resources that they have to tackle fires, road traffic accidents and other mainstream activities. Have you looked at that, and are you satisfied that the balance is right for the fire authorities?

Rydych yn sôn yn eich datganiad am y gefnogaeth i awdurdodau tân ac achub i hyrwyddo diogelwch cymunedol a lleihau ac atal llosgi bwriadol, ac rwyf yn croesawu’r gwaith sy’n cael ei wneud. Fodd bynnag, mae nifer o swyddogion tân mewn gwasanaeth sy’n bryderus wedi cysylltu â mi oherwydd, o ystyried y gostyngiad yn nifer y swyddogion mewn awdurdodau tân ac achub oherwydd y toriadau i wariant y Llywodraeth, maent yn canfod eu bod yn treulio llawer o amser ar atal, ac mae hynny’n lleihau’r amser a’r adnoddau sydd ganddynt i fynd i’r afael â thanau, damweiniau traffig a gweithgareddau prif ffrwd eraill. A ydych chi wedi edrych ar hynny, ac a ydych yn fodlon bod y cydbwysedd yn iawn ar gyfer yr awdurdodau tân?

On the actions in chapter 7 and how we measure what you are doing, you state that you will make progress on the CCTV programme at railway stations. I would be grateful if you could tell me what your target is on that and what progress is being made on it.

Ar y camau gweithredu ym mhennod 7 a sut y byddwn yn mesur yr hyn yr ydych yn ei wneud, rydych yn nodi y byddwch yn gwneud cynnydd ar y rhaglen teledu cylch cyfyng mewn gorsafoedd rheilffordd. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthyf beth yw eich targed ar hynny a pha gynnydd sy’n cael ei wneud arno.

Finally, in relation to reducing harm associated with substance misuse, you will know that there is huge concern in my region at the moment about the impact that the drug meow meow is having on crime and on the health and safety of the youngsters and others who are using it. Do you have any insight into how that is being tackled? Issues have been raised with me about the amount of time that people have to wait for treatment for substance misuse, as it is still unacceptably

Yn olaf, mewn perthynas â lleihau niwed sy’n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, byddwch yn gwybod bod pryder mawr yn fy rhanbarth ar hyn o bryd am yr effaith y mae’r cyffur meow meow yn ei chael ar droseddu ac ar iechyd a diogelwch y bobl ifanc ac eraill sy’n yn ei ddefnyddio. A oes gennych unrhyw syniad sut yr ydym yn mynd i’r afael â hynny? Mae materion wedi’u codi gyda mi ynglŷn â faint o amser y mae’n rhaid i bobl aros am driniaeth ar gyfer

high. What exactly are your targets in relation to that? What progress is being made to meet those targets? How much extra resource can you put into that growing problem in our communities?

camddefnyddio sylweddau, gan ei fod yn dal yn annerbyniol o uchel. Beth yn union yw eich targedau mewn perthynas â hynny? Pa gynnydd sy’n cael ei wneud i gyrraedd y targedau hynny? Faint o adnoddau ychwanegol allwch chi eu rhoi i’r broblem gynyddol honno yn ein cymunedau?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his questions this afternoon, and I thank him for his support in reporting this. With the greatest of respect, the Member will recognise that the cross-cutting nature of the programme for government means that there are issues that the Member has raised with me that are within another Minister’s portfolio. I will ask the Minister to respond to those specific issues, particularly with regard to the business crime unit and the substance misuse element of the question, in relation to meow meow. During my meeting with the chief officers yesterday, the issues of substance misuse raised by the Member were raised with me, and I have passported them through to the Minister for Health and Social Services.

**Carl Sargeant:** Diolch i’r Aelod am ei gwestiynau y prynhawn yma, a hoffwn ddiolch iddo am ei gefnogaeth wrth adrodd hyn. Gyda’r parch mwyaf, bydd yr Aelod yn cydnabod bod natur drawsbynciol y rhaglen ar gyfer llywodraeth yn golygu bod materion y mae’r Aelod wedi’u codi gyda mi sydd o fewn portffolio Gweinidog arall. Byddaf yn gofyn i’r Gweinidog ymateb i’r materion penodol hynny, yn enwedig o ran yr uned troseddu yn erbyn busnes ac elfen camddefnyddio sylweddau y cwestiwn, mewn perthynas â meow meow. Yn ystod fy nghyfarfod gyda’r prif swyddogion ddoe, cafodd y materion sy’n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau a godwyd gan yr Aelod eu codi gyda mi, ac rwyf wedi’u cyfeirio at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

The other two questions raised by the Member related to the fire service, which I can answer. The statistics show that the service has changed significantly. Previously, it was predominantly a firefighting organisation, but through its work on prevention, we have changed the whole shape of the organisation and how it works. A lot more work on prevention and community safety is done by the fire service. Therefore, the nature of its business has changed, but it does not go unnoticed and I congratulate the forces in Wales on the fine work that they have done. To be perfectly open and honest with the Member, I have real concerns about the long-term future of the fire service in relation to its aspirations and opportunities and how it can operate within the budget envelope that it has. I have asked the fire service to work with me to ensure that we can maintain fire crews on the front line, which are often demanded by local communities for their safety. That work is ongoing.

Roedd y ddau gwestiwn arall a godwyd gan yr Aelod yn ymwneud â’r gwasanaeth tân, y gallaf ei ateb. Mae’r ystadegau yn dangos bod y gwasanaeth wedi newid yn sylweddol. Yn flaenorol, roedd yn bennaf yn sefydliad diffodd tân, ond trwy ei waith ar atal, rydym wedi newid holl ffurf y sefydliad a sut mae’n gweithio. Mae llawer mwy o waith ar atal a diogelwch cymunedol yn cael ei wneud gan y gwasanaeth tân. Felly, mae natur ei fusnes wedi newid, ond nid yw’n cael ei anwybyddu ac rwy’n llongyfarch y lluoedd yng Nghymru ar y gwaith da y maent wedi’i wneud. I fod yn hollol agored a gonest gyda’r Aelod, mae gennyf bryderon go iawn am ddyfodol hirdymor y gwasanaeth tân mewn perthynas â’i ddyheadau a chyfleoedd a sut y gall weithredu o fewn cwmpas y gyllideb sydd ganddo. Rwyf wedi gofyn i’r gwasanaeth tân weithio gyda mi i sicrhau y gallwn gynnal criwiau tân ar y rheng flaen, sy’n cael eu galw yn aml gan gymunedau lleol ar gyfer eu diogelwch. Mae’r gwaith hwnnw yn mynd rhagddo.

On the CCTV opportunities with stations, the Member will be aware of our joint work with

Ar y cyfleoedd CCTV gyda gorsafoedd, bydd yr Aelod yn ymwybodol o’n gwaith ar y cyd

the UK Government on station improvement plans, and I will be making an announcement very shortly about the next phase of station improvements. Once again, the question of whether that will include CCTV depends on the capacity of the bid and the shape of the business case. I will certainly write to the Member with the detail of which stations are included in the new programme and which have been included in the proposal for CCTV coverage for the future.

â Llywodraeth y DU ar gynlluniau gwella gorsafoedd, a byddaf yn gwneud cyhoeddiad yn fuan iawn am y cyfnod nesaf o wella gorsafoedd. Unwaith eto, mae'r cwestiwn a fydd yn cynnwys teledu cylch cyfyng yn dibynnu ar gapasiti'r cais a siâp yr achos busnes. Byddaf yn sicr yn ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion pa orsafoedd sy'n cael eu cynnwys yn y rhaglen newydd ac sydd wedi eu cynnwys yn y cynnig ar gyfer darpariaeth CCTV ar gyfer y dyfodol.

**Joyce Watson:** First, I want to welcome the Minister's statement in which he continues to commit to the protection of the domestic abuse budget and the Government's commitment to delivering 'The Right to be Safe' strategy and the 10,000 Safer Lives project. I am going to be brief. I am looking forward to the publication of the White Paper on the domestic abuse and violence against women Bill, but I want to know whether there are provisions in the budget for the cost of bringing forward and implementing that Bill. When does the Minister expect to publish that White Paper? Does the term 'better education' mean a programme of delivering some education in our schools or, maybe, our colleges?

**Joyce Watson:** Yn gyntaf, hoffwn groesawu datganiad y Gweinidog lle mae'n parhau i ymrwymo i amddiffyn y gyllideb cam-drin domestig ac ymrwymiad y Llywodraeth i gyflwyno'r strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' a'r prosiect 10,000 o Fywydau Diogelach. Rwyf am fod yn gryno. Rwy'n edrych ymlaen at gyhoeddi'r Papur Gwyn ar y Bil cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod, ond rwyf am wybod a oes darpariaethau yn y gyllideb ar gyfer y gost o gyflwyno a gweithredu'r Bil hwnnw. Pryd mae'r Gweinidog yn disgwyl cyhoeddi'r Papur Gwyn? A yw'r term 'addysg well' yn golygu rhaglen o ddarparu rhywfaint o addysg yn ein hysgolion, neu, efallai, yn ein colegau?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for her questions. Of course, the violence against women and domestic abuse Bill is groundbreaking. We believe that we are leading the way in Europe with the introduction of this Bill. There will be many levers built in to the legislation to ensure that we have control over some of the issues that, at the moment, to be quite frank, are left unchallenged by people who should be challenging this heinous crime. I am grateful for the Member's continued support in that.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei chwestiynau. Wrth gwrs, mae'r Bil trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig yn torri tir newydd. Rydym yn credu ein bod yn arwain y ffordd yn Ewrop gyda chyflwyniad y Bil hwn. Bydd llawer o ddulliau wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod gennym reolaeth dros rai o'r materion sydd, ar hyn o bryd, i fod yn gwbl onest, yn cael eu gadael heb eu herio gan bobl a ddylai fod yn herio'r drosedd erchyll hon. Rwyf yn ddiolchgar am gefnogaeth parhaus yr Aelod yn hynny.

On the educational element of this, there is clear evidence to suggest that, economically, there is a huge preventative spend mechanism. That is, if you can educate people about the reasons why this is not acceptable, in the longer term, you reap the rewards, both financially and morally. It changes the way in which communities and people live together. Therefore, that is something that I continue to work on with my Cabinet colleagues, and the Minister for

Ynghylch elfen addysgol hyn, mae tystiolaeth glir i awgrymu, yn economaidd, bod mecanwaith gwario ataliol enfawr. Hynny yw, os ydych yn gallu addysgu pobl am y rhesymau pam nad yw hyn yn dderbyniol, yn y tymor hirach, byddwch yn elwa, yn ariannol ac yn foesol. Mae'n newid y ffordd y mae cymunedau a phobl yn byw gyda'i gilydd. Felly, mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn parhau i weithio arno gyda fy nghydweithwyr yn y Cabinet, ac mae'r

Education and Skills is aware of those issues.

Gweinidog dros Addysg a Sgiliau yn ymwybodol o'r materion hynny.

I look forward to the publication of the White Paper, which I expect to be towards the end of November or early December, and I would welcome the Member's comments and any contributions from this sector on shaping the way forward for this Bill.

Rwyf yn edrych ymlaen at gyhoeddi'r Papur Gwyn, yr wyf yn disgwyl fydd tua diwedd mis Tachwedd neu ddechrau Rhagfyr, a byddwn yn croesawu sylwadau'r Aelod ac unrhyw gyfraniadau gan y sector hwn ar lunio'r ffordd ymlaen ar gyfer y Bil hwn.

**The Deputy Presiding Officer:** We are over time, so the remaining speakers need to be quick.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rydym dros ein hamser, felly rhaid i'r siaradwyr sy'n weddill fod yn gyflym.

**Suzy Davies:** Thank you, Minister, for your progress reports. I had hoped to hear something about safer routes to school but perhaps we can save that for another day. My question is a follow-up from Peter Black's question. What discussions will you have with the Minister for Health and Social Services about allegations that ambulance stations are closing routinely in my region due to budget cuts? I will be raising this with the Minister, but I am asking you this question, because the speedy availability of paramedics, particularly at the scene of an RTA, can affect the efficiency of the work carried out by fire and rescue authority personnel. Therefore, if you are going to be talking about performance indicators, you need to be sure that all factors are taken into account.

**Suzy Davies:** Diolch, Weinidog, am eich adroddiadau cynnydd. Roeddwn wedi gobeithio clywed rhywbeth am lwybrau mwy diogel i'r ysgol, ond efallai y gallwn gadw hynny ar gyfer diwrnod arall. Mae fy nghwestiwn yn dilyn ymlaen o gwestiwn Peter Black. Pa drafodaethau fyddwch chi'n eu cael gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch honiadau bod gorsafoedd ambiwlans yn cau fel mater o drefn yn fy rhanbarth oherwydd toriadau yn y gyllideb? Byddaf yn codi'r mater hwn gyda'r Gweinidog, ond rwyf yn gofyn y cwestiwn hwn i chi, oherwydd gall argaeledd gyflym y parafeddygon, yn enwedig mewn lleoliad damwain traffig ar y ffordd, effeithio ar effeithlonrwydd y gwaith a wneir gan staff yr awdurdod tân ac achub. Felly, os ydych yn mynd i fod yn siarad am ddangosyddion perfformiad, mae angen i chi fod yn sicr bod yr holl ffactorau yn cael eu hystyried.

**Carl Sargeant:** I have a very brief answer. Ambulance stations do not save people; it is the vehicles and the personnel that save people, which is why where they are positioned across an authority or region is important. However, a building itself does very little to save a person.

**Carl Sargeant:** Mae gen i ateb byr iawn. Nid yw gorsafoedd ambiwlans yn achub pobl; y cerbydau a'r personél sy'n achub pobl, a dyna pam fod lle maent yn cael eu lleoli ar draws awdurdod neu ranbarth yn bwysig. Fodd bynnag, ychydig iawn y mae'r adeilad ei hun yn ei wneud i achub person.

**Kirsty Williams:** The Minister will be aware that the development of sexual assault referral centres has led to an increase in the number of women coming forward to report sexual assaults and rapes. What discussions has the Minister had to ensure that women in mid Wales have easy access to a SARC, which is not the case at present?

**Kirsty Williams:** Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod datblygiad canolfannau atgyfeirio ymosodiad rhywiol wedi arwain at gynnydd yn y nifer o ferched sy'n dod ymlaen i roi gwybod am ymosodiadau rhywiol a threisio. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael i sicrhau bod menywod yng nghanolbarth Cymru yn cael mynediad hawdd i SARC, nad yw'n wir ar hyn o bryd?

**Carl Sargeant:** That is partly the reason for the introduction of the Bill. I am meeting with the Minister in London this week to further enhance the discussions about funding opportunities for us. However, I believe that the Bill will produce quality, consistent and accessible services across Wales. The Member from north Wales raised the point earlier about individual budgets going to individual authorities or people. What we have to do is work together better. By reviewing the whole service and introducing the Bill, I am confident that we can start to introduce accessible services for all the people across Wales and, hopefully, for the constituency that the Member represents.

**Carl Sargeant:** Dyna'n rhannol y rheswm dros gyflwyno'r Bil. Byddaf yn cyfarfod â'r Gweinidog yn Llundain yr wythnos hon i wella ymhellach y trafodaethau am gyfleoedd cyllido i ni. Fodd bynnag, credaf y bydd y Bil yn cynhyrchu gwasanaethau o ansawdd, cyson a hygyrch ar draws Cymru. Roedd yr Aelod o ogledd Cymru wedi codi'r pwynt yn gynharach am gyllidebau unigol yn mynd i awdurdodau neu bobl unigol. Yr hyn sy'n rhaid ei wneud yw gweithio gyda'n gilydd yn well. Drwy adolygu'r gwasanaeth cyfan a chyflwyno'r Bil, rwyf yn hyderus y gallwn ddechrau cyflwyno gwasanaethau hygyrch ar gyfer yr holl bobl ar draws Cymru a, gobeithio, ar gyfer yr etholaeth y mae'r Aelod yn ei chynrychioli.

**Byron Davies:** Minister, I want to ask a quick, specific question about safety on Welsh roads. I want to flag up what is an extremely distressing figure, showing a rise of 36%, year on year since 2009-10, in the number of deaths on Welsh roads. I am sure that you agree that every loss of life is devastating and an unnecessary tragedy for the victim's family and friends. While there has been a welcome fall in minor injuries, the sudden rise in serious and fatal road accidents is alarming, and is perhaps a cause to re-examine road safety procedures. Will you outline what specific measures you are taking forward to address the increase? I note the £6.5 million given to local authorities to help to reduce the number of road casualties, but will you expand on how that will be implemented and managed?

**Byron Davies:** Weinidog, rwyf am ofyn cwestiwn cyflym, penodol am ddiogelwch ar ffyrdd Cymru. Rwyf am dynnu sylw at yr hyn sydd yn ffigwr hynod o ofidus, sy'n dangos cynnydd o 36%, flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2009-10, yn nifer y marwolaethau ar ffyrdd Cymru. Rwyf yn siŵr eich bod yn cytuno bod pob colled bywyd yn ddinistriol ac yn drasiedi diangen i deulu'r dioddefwr a'i ffrindiau. Er y bu gostyngiad i'w groesawu mewn mân anafiadau, mae'r cynnydd sydyn mewn damweiniau ffordd difrifol ac angheuol yn ddychrynllyd, ac o bosibl, yn achos i ail-archwilio gweithdrefnau diogelwch ar y ffyrdd. A wnewch chi amlinellu pa fesurau penodol yr ydych yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r cynnydd? Nodaf y £6.5 miliwn a roddwyd i awdurdodau lleol i helpu i leihau nifer y damweiniau ar ffyrdd, ond sut fyddwch chi'n ymhelaethu ar sut y bydd hynny'n cael ei weithredu a'i reoli?

**Carl Sargeant:** As the Member is aware, we are consulting on the issue of road safety targets. That is something that the UK Government has dropped. I do not believe that that is appropriate. We believe in ensuring that we have a target to reduce the number of deaths or serious injuries in Wales. I hope that the Member will contribute to the consultation process that is ongoing.

**Carl Sargeant:** Fel mae'r Aelod yn ymwybodol, rydym yn ymgynghori ar y mater o dargedau diogelwch ar y ffyrdd. Mae hynny'n rhywbeth y mae Llywodraeth y DU wedi rhoi'r gorau iddo. Nid wyf yn credu bod hynny'n briodol. Rydym yn credu mewn sicrhau bod gennym darged i leihau'r nifer o farwolaethau neu anafiadau difrifol yng Nghymru. Gobeithiaf y bydd yr Aelod yn cyfrannu at y broses ymgynghori sydd ar y gweill.

## Cynnig i Gymeradwyo Egwyddorion Cyffredinol Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)
## Motion to Approve the General Principles of the Food Hygiene Rating (Wales) Bill

*Cynnig NDM5063 Lesley Griffiths*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:*

*Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru).*

*Motion NDM5063 Lesley Griffiths*

*To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:*

*Agrees to the general principles of the Food Hygiene Rating (Wales) Bill.*

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I move the motion.

I am pleased to have the opportunity to open the debate on the general principles of the Food Hygiene Rating (Wales) Bill. The Bill was introduced to the National Assembly for Wales in May and gives effect to the Welsh Government's proposals to introduce a statutory food hygiene rating scheme in Wales. The intention of the Bill is to ensure that consumers are provided with information on the food hygiene standards of food businesses in Wales in order that they can make better informed choices about where to eat or shop for food.

I am grateful to Mark Drakeford and members of the Health and Social Care Committee, as well as to David Melding and members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, for their thorough scrutiny of the Bill.

4.15 p.m.

I am also grateful for the evidence provided by witnesses during the Stage 1 committee sessions, and I welcome their agreement to the principle of the Bill and the need for legislation. I agree with the majority of the issues raised in the committees' reports, and I aim to respond to these by Government amendment to the Bill at Stage 2 or through guidance.

I would like to turn next to some of the points raised by the committees and provide Members with details of my view on these

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Cynigiaf y cynnig.

Rwyf yn falch o gael y cyfle i agor y ddadl ar egwyddorion cyffredinol Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru). Cyflwynwyd y Bil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai ac mae'n gwneud cynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun sgorio hylendid bwyd statudol yng Nghymru yn effeithiol. Bwriad y Bil yw sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth am safonau hylendid bwyd busnesau bwyd yng Nghymru er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau mwy gwybodus am ble i fwyta neu siopa am fwyd.

Rwyf yn ddiolchgar i Mark Drakeford ac aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn ogystal ag i David Melding ac aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, am eu gwaith craffu trylwyr o'r Bil.

16:15

Rwyf hefyd yn ddiolchgar am y dystiolaeth a ddarparwyd gan dystion yn ystod y sesiynau pwyllgor Cyfnod 1, a chroesawaf eu cytundeb ag egwyddor y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth. Rwy'n cytuno â'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd yn adroddiadau'r pwyllgorau, ac rwyf yn ceisio ymateb i'r rhain trwy welliant y Llywodraeth i'r Bil yng Nghyfnod 2 neu drwy gyfarwyddyd.

Hoffwn droi at rai o'r pwyntiau a godwyd gan y pwyllgorau a darparu manylion i'r Aelodau am fy marn ar y materion hyn.

issues. The Constitutional and Legislative Affairs Committee considered that the procedure associated with two of the regulation-making powers in the Bill should be changed. This is the power in section 6(2) to require the food authority to provide the Food Standards Agency with further information, and the power in Schedule 1 to prescribe different limits for the fixed and discounted penalties from those set out on the face of the Bill. I agree with the committee that the Assembly should have the ability to consider the detail and proportionality of these regulations before they are brought into force, and I therefore intend to seek to amend the Bill to require that the affirmative procedure applies.

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystyried y dylai'r drefn sy'n gysylltiedig â dau o'r pwerau gwneud rheoliadau yn y Bil gael ei newid. Y rhain yw'r pŵer yn adran 6 (2) i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod bwyd ddarparu Asiantaeth Safonau Bwyd gyda gwybodaeth bellach, a'r pŵer yn Atodlen 1 i bennu terfynau gwahanol ar gyfer cosbau sefydlog a disgownt i'r rhai a nodir ar wyneb y Bil. Cytunaf â'r pwyllgor y dylai'r Cynulliad gael y gallu i ystyried manylion a chymesuredd y rheoliadau hyn cyn iddynt gael eu dwyn i rym, ac rwyf felly'n bwriadu ceisio newid y Bil i'w gwneud yn ofynnol bod y weithdrefn gadarnhaol yn berthnasol.

Following its scrutiny of the Bill, the Health and Social Care Committee made two recommendations. The first related to the timescales for the right of appeal and the second to the independence of the appeal process. It is my intention to introduce a provision in the Bill to enable the timescales relating to the right of appeal to be amended. This will provide greater flexibility should there be a need to amend these timescales at a later date. However, I intend to go further than the committee's recommendation and introduce a provision to enable Welsh Ministers to amend any of the timescales detailed on the face of the Bill. While it is envisaged that this will be a fall-back power, it will provide flexibility and it will futureproof the Bill.

Yn dilyn craffu ar y Bil, gwnaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddau argymhelliad. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r amserlenni ar gyfer yr hawl i apelio a'r ail ag annibyniaeth y broses apelio. Fy mwriad yw cyflwyno darpariaeth yn y Bil er mwyn galluogi'r amserlenni sy'n ymwneud â'r hawl i apelio i gael ei ddiwygio. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd pe byddai angen newid y terfynau amser yn ddiweddarach. Fodd bynnag, rwyf yn bwriadu mynd ymhellach nag argymhelliad y pwyllgor a chyflwyno darpariaeth i alluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio unrhyw un o'r amserlenni a nodir ar wyneb y Bil. Er y rhagwelir y bydd hyn yn bŵer wrth gefn, bydd yn rhoi hyblygrwydd a bydd yn diogelu'r Bil at y dyfodol.

In relation to appeals, the committee recommended the introduction of an independent appeals process. I have discussed this issue with the committee, and I am still of the view that the requirements in the Bill regarding appeals are proportionate and fair to food businesses. However, I agree that the process should be more transparent.

Mewn perthynas ag apeliadau, argymhellodd y pwyllgor gyflwyno proses apelio annibynnol. Rwyf wedi trafod y mater hwn gyda'r pwyllgor, ac rwyf yn dal o'r farn bod y gofynion yn y Bil o ran apeliadau yn gymesur ac yn deg i fusnesau bwyd. Fodd bynnag, rwyf yn cytuno y dylai'r broses fod yn fwy tryloyw.

I have discussed the possible introduction of regional panels with the Health and Social Care Committee. These regional panels could comprise of officers from a region's food authorities, who would come together to collectively consider appeals. My officials are investigating the feasibility and affordability of establishing regional panels, or whether a food authority not responsible

Rwyf wedi trafod y posibilrwydd o gyflwyno paneli rhanbarthol gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gallai'r paneli rhanbarthol hyn gynnwys swyddogion o awdurdodau bwyd rhanbarth, a fyddai'n dod at ei gilydd i ystyried apeliadau ar y cyd. Mae fy swyddogion yn ymchwilio i ymarferoldeb a fforddiadwyedd sefydlu paneli rhanbarthol, neu a ddylai awdurdod bwyd nad yw'n

for issuing the original rating should consider the appeal. I am committed to ensuring that the process will provide scrutiny and independent monitoring of the use, by food authorities, of the appeals powers and enable me to monitor the use of these powers.

gyfrifol am gyhoeddi'r sgôr wreiddiol ystyried yr apêl. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau y bydd y broses yn craffu ac yn monitro'n annibynnol y defnydd, gan awdurdodau bwyd, o'r pwerau apeliadau ac yn fy ngalluogi i fonitro'r defnydd o'r pwerau hyn.

While I am confident that my proposal will strengthen the appeals process, as an additional safeguard I also intend to introduce a power to enable Welsh Ministers to amend the appeals process in the future if there is an evidence base to do so. This power will ensure that Welsh Ministers can take action if the appeals mechanism is not shown to be sufficient.

Er fy mod yn hyderus y bydd fy nghynnig yn cryfhau'r broses apelio, fel dull diogelu ychwanegol rwyf hefyd yn bwriadu cyflwyno pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r broses apelio yn y dyfodol os oes cronfa dystiolaeth i wneud hynny. Bydd y pŵer hwn yn sicrhau y gall Gweinidogion Cymru gymryd camau os dangosir nad yw'r mecanwaith apelio yn ddigonol.

The Health and Social Care Committee also made suggestions in its report about providing more information to consumers, including the publication of inspection reports and the display of food hygiene ratings on businesses' websites. While I have no plans to require the publication of full inspection reports at this time, I intend to introduce an explicit requirement for food authorities to provide full food hygiene inspection reports to consumers if requested. I also intend to amend the Bill to require food businesses to publish a statement on their websites regarding the food hygiene rating scheme, and direct consumers to the FSA website where the food business's rating can be viewed.

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd yn gwneud awgrymiadau yn ei adroddiad am ddarparu mwy o wybodaeth i ddefnyddwyr, gan gynnwys cyhoeddi adroddiadau arolygu ac arddangos sgoriau hylendid bwyd ar wefannau busnesau. Er nad oes gennyf gynlluniau i'w gwneud yn ofynnol cyhoeddi adroddiadau arolygu llawn ar hyn o bryd, rwyf yn bwriadu cyflwyno gofyniad penodol i awdurdodau bwyd i ddarparu adroddiadau arolygu hylendid bwyd llawn i ddefnyddwyr os gofynnir amdanynt. Rwyf hefyd yn bwriadu newid y Bil i'w gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd gyhoeddi datganiad ar eu gwefannau am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, a chyfeirio defnyddwyr i wefan yr ASB lle gellir gweld sgôr hylendid bwyd y busnes.

In conclusion, I thank the committees for their constructive recommendations and suggestions to improve the Bill. I am also greatly encouraged by the support shown for the Bill by stakeholders during the Stage 1 committee sessions. I urge Members to take the same view and support the Bill today.

I gloi, diolch i'r pwyllgorau am eu hargymhellion a'u hawgrymiadau adeiladol i wella'r Bil. Rwyf hefyd wedi fy nghalonogi'n fawr gan y gefnogaeth a ddangoswyd ar gyfer y Bil gan randdeiliaid yn ystod y sesiynau pwyllgor Cam 1. Anogaf yr Aelodau i gymryd yr un safbwynt a chefnogi'r Bil heddiw.

**Mark Drakeford:** Fel cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rwy'n falch o gyfrannu at ddadl Cyfnod 1 heddiw ar y Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru). Hoffwn ddiolch i aelodau'r pwyllgor am y gwaith y maent wedi ei wneud wrth ystyried y Bil. Hoffwn estyn diolch ar ran y Pwyllgor i bawb a roddodd dystiolaeth, yn ysgrifenedig ac ar

**Mark Drakeford:** As Chair of the Health and Social Care Committee, I am pleased to contribute to this Stage 1 debate on the Food Hygiene Rating (Wales) Bill. I would like to thank the members of the committee for their work in considering the Bill. I would like to extend the committee's thanks to those who gave evidence, both written and oral. Their


83

lafar. Mae eu cyfraniadau wedi helpu i lywio'r casgliadau a'r argymhellion yn ein hadroddiad. Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog a'i swyddogion am roi tystiolaeth inni ac am y wybodaeth ysgrifenedig ychwanegol a ddarparodd pan oedd ei hangen arnom.

contributions have helped to inform the conclusions and recommendations in our report. I would also like to thank the Minister and her officials for providing us with evidence and with additional written information when we have required it.

Ynglŷn ag egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth, mae cefnogaeth eang i egwyddor gyffredinol y Bil. Roedd nifer o'r tystion o'r farn fod angen deddfu er mwyn sicrhau bod pob busnes sy'n cael ei gynnwys yng nghwmpas y Bil hwn yn arddangos ei sgôr hylendid bwyd. Rydym ni, fel pwyllgor, yn rhannu'r farn hon, gan ein bod yn cydnabod, o dan y cynllun gwirfoddol, nad yw nifer o fusnesau sydd â sgoriau isel yn eu harddangos. Rydym yn credu y bydd cyflwyno cynllun gorfodol yn sicrhau y gall defnyddwyr wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â lle maent yn prynu bwyd. Y peth pwysicaf yw ein bod ni, fel pwyllgor, wedi cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Fodd bynnag, wedi dweud hynny, mae gennym farn ynghylch adrannau penodol yn y Bil, ac rwyf am droi at y rheini yn awr.

Regarding the general principles of the Bill and the need for legislation, there is widespread support for the general principle of the Bill. Many witnesses were of the view that legislation is necessary to ensure that the display of food hygiene ratings is universal across all businesses included within the scope of the Bill. As a committee, we share this view as we recognise that, under the voluntary scheme, many low-scoring businesses are not displaying their ratings. We believe that the introduction of a mandatory scheme will ensure that consumers are able to make informed choices about where to purchase food from. Therefore, the most important thing is that we, as a committee, have agreed with the general principles of the Bill. However, having said this, we have views on specific sections of the Bill, and I wish to turn to these now.

In doing so, I will concentrate on those aspects of the Bill that were either a matter of controversy among witnesses appearing before us or in the discussion that we, as a committee, then went on to engage in.

Wrth wneud hynny, byddaf yn canolbwyntio ar yr agweddau hynny ar y Bil a oedd naill ai yn fater o ddadlau ymhlith tystion oedd yn ymddangos ger ein bron neu yn y drafodaeth yr aethom ni, fel pwyllgor, ymlaen i gymryd rhan ynddi.

Section 2 sets out definitions of food businesses, food business establishments and food authorities for the purposes of the Bill. Some witnesses raised concerns about the need for consistency in the application of the scheme across Wales, but we heard sufficient evidence to assure us that there are sufficient safeguards in place to ensure consistency, provided these are thoroughly implemented in practice. We were also content with definitions set out in this part of the Bill and provisions to give powers to Welsh Ministers to amend the definition of a food business establishment and food authority through regulations. The Minister made us aware that she plans to consult thoroughly on the types of food businesses that may be exempt from the food hygiene rating scheme. We spent quite some time looking at this matter, and

Mae Adran 2 yn nodi diffiniadau o fusnesau bwyd, sefydliadau busnes bwyd ac awdurdodau bwyd at ddibenion y Bil. Cododd rhai tystion bryderon am yr angen am gysondeb mewn defnyddio'r cynllun ar draws Cymru, ond clywsom dystiolaeth sy'n ddigonol i'n sicrhau bod trefniadau diogelu digonol ar waith i sicrhau cysondeb, ar yr amod bod y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn drylwyr yn ymarferol. Roeddem hefyd yn fodlon â'r diffiniadau a nodir yn y rhan hon o'r Bil a darpariaethau i roi pwerau i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r diffiniad o sefydliad busnes bwyd ac awdurdod bwyd drwy reoliadau. Gwnaeth y Gweinidog ni'n ymwybodol ei bod yn bwriadu ymgynghori'n drwyadl ar y mathau o fusnesau bwyd y gellir eu heithrio o'r cynllun sgôr hylendid bwyd. Rydym yn treulio cryn dipyn o amser yn

we look forward to the results of the consultation.

edrych ar y mater hwn, ac edrychwn ymlaen at ganlyniadau’r ymgynghoriad.

Sections 3 and 4 of the Bill deal with procedures and rating criteria. We noted the concerns of witnesses about the level of public understanding of the food hygiene rating criteria, but were comforted by the evidence we received through the public engagement that the committee undertook that, by and large, the public already understands the purpose of the Bill and the broad means by which information will be conveyed. There will be a duty on the Food Standards Agency to go on promoting understanding and awareness and we are satisfied that it will undertake these duties effectively.

Mae adrannau 3 a 4 y Bil yn delio â gweithdrefnau a meini prawf sgorio. Nodwyd pryderon tystion ynglŷn â lefel dealltwriaeth y cyhoedd o’r meini prawf sgorio hylendid bwyd, ond cawsant eu cysuro gan y dystiolaeth a gawsom drwy’r ymgysylltu â’r cyhoedd a gynhaliodd y pwyllgor bod y cyhoedd, ar y cyfan, eisoes yn deall pwrpas y Bil a’r dull cyffredinol a ddefnyddir i gyfleu gwybodaeth. Bydd dyletswydd ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd i barhau i hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ac rydym yn fodlon y bydd yn ymgymryd â’r dyletswyddau hyn yn effeithiol.

Section 5 of the Bill deals with a food operator’s right to appeal to the food authority against a food hygiene rating given to that establishment. We heard what witnesses said about timescales for appeals, but we believe that the existing timescales are a sensible starting point. It was good to hear from the Minister this afternoon that she will take action to make it possible to amend the timescales and introduce flexibility should that become necessary in future without having to amend the primary legislation. You have heard that we received evidence from a number of witnesses about the appeals process and that there were calls for it to be conducted more independently than was originally envisaged in the Bill. Again, the Minister has dealt with that this afternoon and we look forward to seeing where her considerations will lead at the next stage. Certainly, we were convinced that there are ways in which the appeal mechanism could be strengthened and that that would add to confidence in the operation of the scheme.

Mae Adran 5 y Bil yn ymdrin â hawl gweithredydd bwyd i apelio i’r awdurdod bwyd yn erbyn sgôr hylendid bwyd a roddwyd i’r sefydliad hwnnw. Rydym yn clywed yr hyn ddywedodd tystion am amserlenni ar gyfer apeliadau, ond rydym yn credu bod yr amserlenni presennol yn fan cychwyn synhwyrol. Roedd yn dda clywed gan y Gweinidog y prynhawn yma y bydd yn cymryd camau i’w gwneud yn bosibl i ddiwygio’r amserlenni a chyflwyno hyblygrwydd pe byddai hynny’n dod yn angenrheidiol yn y dyfodol heb orfod newid y ddeddfwriaeth sylfaenol. Rydych wedi clywed ein bod wedi derbyn tystiolaeth gan nifer o dystion am y broses apelio a bod galw am iddo gael ei gynnal yn fwy annibynnol nag a ragwelwyd yn wreiddiol yn y Bil. Unwaith eto, mae’r Gweinidog wedi ymdrin â hynny y prynhawn yma ac rydym yn edrych ymlaen at weld i lle y bydd ei ystyriaethau yn arwain yn y cyfnod nesaf. Yn sicr, cawsom ein hargyhoeddi bod yna ffyrdd y gellid cryfhau’r mecanwaith apêl ac y byddai hynny’n ychwanegu at hyder yng ngweithrediad y cynllun.

Section 6 deals with publication and display arrangements. Some witnesses felt that the publication of food hygiene ratings needed to go beyond the publication of ratings on the FSA website. We heard of and saw full inspection reports that are routinely published by some English local authorities. In our minds, we were convinced that an end point in this whole process would be one in which

Mae Adran 6 yn ymdrin â threfniadau cyhoeddi ac arddangos. Roedd rhai tystion o’r farn bod angen gweld cyhoeddi sgoriau hylendid bwyd yn mynd y tu hwnt i gyhoeddi sgoriau ar wefan yr ASB. Rydym wedi clywed am ac wedi gweld adroddiadau arolygu llawn sy’n cael eu cyhoeddi fel mater o drefn gan rai awdurdodau lleol yn Lloegr. Yn ein meddyliau ni, roeddem yn

members of the public had easy and direct access as a matter of routine to those reports. We welcome the Minister's suggestion, as we have heard today, that she will ensure that those inspection reports are made available on request rather than having to go through the freedom of information process. However, when it becomes possible, we would prefer to see reports more routinely published.

argyhoeddedig mai pwynt terfynol yn yr holl broses fyddai un lle mae aelodau'r cyhoedd yn cael mynediad hawdd ac uniongyrchol fel mater o drefn at yr adroddiadau hynny. Rydym yn croesawu awgrym y Gweinidog, fel yr ydym wedi clywed heddiw, y bydd yn sicrhau bod yr adroddiadau arolygu hynny ar gael ar gais yn hytrach na gorfod mynd drwy'r broses rhyddid gwybodaeth. Fodd bynnag, pan ddaw'n bosibl, byddai'n well gennym weld adroddiadau'n cael eu cyhoeddi'n fwy rheolaidd.

Sections 7 and 8 relate to informing the public about food hygiene ratings. We discussed at length the views of some witnesses that the food hygiene ratings should be included on food businesses' promotional material, but we concluded that it would not be a sensible course of action at this time. However, we believe that businesses could easily include that information on their promotional websites, and we welcome the Minister's commitment to us, and which was repeated here this afternoon, that food business establishments will be required to place a statement on their website regarding their food hygiene ratings and that this will be backed up by a hyperlink directing customers to the relevant page on the FSA website.

Mae adrannau 7 ac 8 yn ymwneud â rhoi gwybod i'r cyhoedd am sgoriau hylendid bwyd. Buom yn trafod yn helaeth farn rhai tystion y dylai sgoriau hylendid bwyd gael eu cynnwys ar ddeunydd hyrwyddo busnesau bwyd, ond daethom i'r casgliad na fyddai'n gwrs gweithredu synhwyrol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, credwn y gallai busnesau yn hawdd gynnwys yr wybodaeth honno ar eu gwefannau hyrwyddo, ac rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ni, ac a ailadroddwyd yma'r prynhawn yma, y bydd yn ofynnol i sefydliadau busnes bwyd roi datganiad ar eu gwefan am eu sgoriau hylendid bwyd ac y bydd hyn yn cael ei gefnogi gan hyperddolen yn cyfeirio cwsmeriaid at y dudalen berthnasol ar wefan yr ASB.

We were also grateful in committee for the Minister's endorsement of our view that there should be a requirement on businesses selling food at different locations or events to display their food hygiene rating stickers that had been obtained at the point of sale and where their premises are registered. Such businesses may include those selling food at farmers' markets or mobile catering companies.

Roeddem hefyd yn ddiolchgar yn y pwyllgor am gymeradwyaeth y Gweinidog i'n barn y dylai fod yn ofynnol i fusnesau sy'n gwerthu bwyd mewn lleoliadau neu ddigwyddiadau gwahanol arddangos eu sticeri sgorio hylendid bwyd a gafwyd yn y man gwerthu a lle mae eu safleoedd wedi'u cofrestru. Gall busnesau o'r fath gynnwys y rheiny sy'n gwerthu bwyd mewn marchnadoedd ffermwyr neu gwmnïau arlwyo symudol.

We were broadly assured by the financial implication information that we received, but I will not dwell any further on that.

Cawsom ein sicrhau yn fras gan y wybodaeth goblygiadau ariannol a gawsom, ond nid wyf am ymhelaethu ar hynny.

Those points cover the main issues that were raised with us by witnesses in oral and written evidence, and they summarise the consideration that we gave to these issues as a committee. In the event that the Assembly gives its agreement to the general principles of the Bill today, we look forward to seeing how the discussions that we have had, and

Mae'r pwyntiau hynny'n cynnwys y prif faterion a godwyd gyda ni gan dystion mewn tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig, ac maent yn crynhoi'r ystyriaeth a roesom i'r materion hyn fel pwyllgor. Os digwydd bod y Cynulliad yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil heddiw, rydym yn edrych ymlaen at weld sut y mae'r trafodaethau yr

the Minister's reply to them, bring forward appropriate amendments at Stage 2. Diolch yn fawr.

ydym wedi'u cael, ac ymateb y Gweinidog iddynt, yn cyflwyno gwelliannau priodol yng Ngham 2. Diolch yn fawr.

**Darren Millar:** As you are aware, I am a strong supporter of a mandatory scores-on-the-door scheme. It is something that my party has been calling for for a long time. Food hygiene is basic, but, of course, is very important. Small mistakes with cooking or food preparation can have a devastating effect and cause outbreaks of what can be deadly disease. We are aware of recent outbreaks in Wales where, sometimes, hundreds of people have fallen ill and innocent lives, unfortunately, have been lost. It is the inspiration of those outbreaks that have brought forward the Bill before us today, and quite rightly so, because, each one of those outbreaks could have easily been avoided. We must do what we can to prevent similar situations reoccurring in the future.

**Darren Millar:** Fel yr ydych yn ymwybodol, rwyf yn gefnogwr cryf o gynllun sgoriau-ar-y-drws gorfodol. Mae'n rhywbeth y mae fy mhlaid wedi bod yn galw amdano am amser hir. Mae hylendid bwyd yn sylfaenol, ond, wrth gwrs, mae'n bwysig iawn. Gall camgymeriadau bach gyda choginio neu baratoi bwyd gael effaith ddinistriol ac achosi achosion o rywbeth a all fod yn glefyd marwol. Rydym yn ymwybodol o achosion diweddar yng Nghymru lle, weithiau, mae cannoedd o bobl wedi mynd yn sâl ac mae bywydau diniwed, yn anffodus, wedi cael eu colli. Ysbrydoliaeth o'r achosion hynny sydd wedi dod â'r Bil ymlaen ger ein bron heddiw, a hynny'n gwbl briodol, oherwydd, gellid bod wedi osgoi pob un o'r achosion yn hawdd. Mae'n rhaid i ni wneud yr hyn a allwn i atal sefyllfaoedd tebyg rhag digwydd eto yn y dyfodol.

I was pleased to hear the Minister's opening remarks in today's debate and her response to the Health and Social Care Committee's report and concerns. However, there are some issues, as you would imagine, that still require attention.

Rwyf yn falch o glywed sylwadau agoriadol y Gweinidog yn y ddadl heddiw a'i hymateb i adroddiad a phryderon Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, mae rhai materion, fel y byddech yn dychmygu, sy'n dal i fod angen sylw.

There is no doubt that the voluntary scheme has been extremely successful. It has helped to provide some information to the public in an accessible way, and it has taken steps to improve public health. However, as we know, the voluntary scheme as it currently operates means that only a third of businesses display their scores. It does not take a rocket scientist to work out that those who have poor scores tend to be the ones who do not want to display those ratings within their food premises, given the potential impact on custom. These are the businesses that need to change, and that is why it is important that we get this mandatory scheme off the ground and why my colleagues on the Welsh Conservative benches and I support the need to progress the Bill and its general principles.

Nid oes amheuaeth bod y cynllun gwirfoddol wedi bod yn hynod lwyddiannus. Mae wedi helpu i ddarparu rhywfaint o wybodaeth i'r cyhoedd mewn ffordd hygyrch, ac mae wedi cymryd camau i wella iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, fel y gwyddom, mae'r cynllun gwirfoddol fel y mae'n gweithredu ar hyn o bryd yn golygu mai dim ond traean o fusnesau sy'n arddangos eu sgôr. Nid oes raid cael deallusrwydd eithriadol i ddeall bod y rhai sydd â sgoriau gwael yn tueddu i fod y rhai nad ydynt am arddangos y sgôr yn eu safleoedd bwyd, o ystyried yr effaith bosibl ar fusnes. Rhain yw'r busnesau sydd angen iddynt newid, a dyna pam ei bod yn bwysig ein bod yn cael y cynllun gorfodol ar waith a pham fod fy nghydweithwyr ar feinciau'r Ceidwadwyr Cymreig a fi yn cefnogi'r angen i ddatblygu'r Bil a'i egwyddorion cyffredinol.

4.30 p.m.

16:30

As I said, I still feel that there are some issues that require some attention. The appeals process has already been mentioned. I am pleased that the Minister is looking at regional appeals panels as a potential solution, but I think that perhaps the more cost-effective solution would be the second option that the Minister mentioned, that is, a second local authority somewhere else in Wales looking at the appeals process in order to give people a fair chance of a second hearing when they appeal against their food rating. It is clearly inappropriate that someone should be conducting an appeals process at a desk in the same room as the person who awarded the rating in the first place, and with whom they may be good friends. I am pleased that the Minister recognises that this is an issue and that she will address it.

Fel y dywedais, rwyf yn dal i deimlo bod rhai materion sydd angen rhywfaint o sylw. Mae'r broses apelio wedi ei chrybwyll eisoes. Rwyf yn falch bod y Gweinidog yn edrych ar baneli apeliadau rhanbarthol fel ateb posibl, ond rwyf yn meddwl efallai mai'r ail opsiwn a grybwyllodd y Gweinidog fyddai'r ateb mwy cost-effeithiol, hynny yw, ail awdurdod lleol rywle arall yng Nghymru yn edrych ar y broses apelio er mwyn rhoi cyfle teg i bobl i gael ail wrandawiad pan fyddant yn apelio yn erbyn eu sgôr bwyd. Mae'n amlwg yn amhriodol bod rhywun yn cynnal proses apelio wrth ddesg yn yr un ystafell â'r person a ddyfarnodd y sgôr yn y lle cyntaf, y maent yn ffrindiau da â nhw efallai. Rwy'n falch bod y Gweinidog yn cydnabod bod hwn yn fater ac y bydd yn ymdrin ag ef.

The way that we eat and decide to eat is changing: more and more people are using takeaway menu leaflets and ordering food online. Someone may look at a menu, order their food and take delivery totally oblivious to a bad food hygiene rating for the premises that they may have ordered from. It is nonsense, therefore, that businesses' ratings, under the current scheme, will have to be displayed only at their food premises. It is necessary that we ensure that the rating is easily accessible wherever customers have the opportunity to order food.

Mae'r ffordd yr ydym yn bwyta ac yn penderfynu bwyta yn newid: mae mwy a mwy o bobl yn defnyddio taflenni bwydlenni tecawê ac yn archebu bwyd ar-lein. Efallai y bydd rhywun yn edrych ar fwydlen, archebu eu bwyd a'i dderbyn yn hollol anymwybodol o sgôr hylendid bwyd gwael i'r safle y maent wedi archebu ohono efallai. Nonsens, felly, yw bod sgoriau busnesau, o dan y cynllun presennol, yn gorfod cael eu harddangos ar eu safleoedd bwyd yn unig. Mae'n angenrheidiol ein bod yn sicrhau bod y sgôr yn hygyrch lle bynnag y mae cyfle gan gwsmeriaid i archebu bwyd.

While the Minister has reassured me about the situation with regard to websites—and I know that we had some extensive discussions within the health committee about this—I am still firmly of the opinion that, given the fact that many people simply look at a leaflet and then order over the telephone, there is no reason why a symbol could not be put onto people's takeaway leaflets in order to encourage them to ask the question about a food hygiene rating when they make that telephone call to order their food. That is not onerous, it is not expensive and it does not mean that leaflets have to be updated on a regular basis, but it would give consumers more protection and confidence.

Er bod y Gweinidog wedi tawelu fy meddwl am y sefyllfa ynglŷn â gwefannau—ac rwy'n gwybod ein bod wedi cael trafodaethau helaeth o fewn y pwyllgor iechyd am hyn—rwy'n dal yn gadarn o'r farn, o ystyried y ffaith bod llawer o bobl ddim ond yn edrych ar daflen ac yna'n archebu dros y ffôn, nid oes unrhyw reswm pam na allai symbol gael ei roi ar daflenni tecawê pobl er mwyn eu hannog i ofyn y cwestiwn ynglŷn â sgôr hylendid bwyd pan fyddant yn gwneud yr alwad ffôn i archebu eu bwyd. Nid yw hynny'n feichus, nid yw'n ddrud ac nid yw'n golygu bod raid diweddaru taflenni'n rheolaidd, ond byddai'n rhoi mwy o amddiffyniad a hyder i ddefnyddwyr.

In terms of enforcement arrangements, we clearly need to establish a failure to publish

O ran trefniadau gorfodi, mae'n amlwg bod rhaid inni sefydlu sgoriau methiant i

ratings, not only on premises, but on websites or links to websites, and on leaflets as a criminal offence. I think that there was one issue that the Chair did not fully address, perhaps, in his opening statement: we were also still convinced that some consideration needed to be given to employees that might mistakenly give out an incorrect food hygiene rating. I would be interested to hear, Minister, how you might be able to overcome that.

gyhoeddi, nid yn unig ar safleoedd, ond ar wefannau neu gysylltiadau i wefannau, ac ar daflenni fel trosedd. Credaf fod un mater nad aeth y Cadeirydd i'r afael ag o'n llawn, efallai, yn ei ddatganiad agoriadol: rydym hefyd yn argyhoeddedig o hyd bod angen ystyried rhywfaint ar weithwyr cyflogedig a allai roi allan sgôr hylendid bwyd anghywir mewn camgymeriad. Byddai gennyf ddiddordeb i glywed, Weinidog, sut y gallech chi oresgyn hynny.

As I said, I want to extend my party's support for the general principles of this Bill. I look forward to it progressing to Stage 2 and having the opportunity to table some amendments to it on some of these issues, if the Government does not do so. I am encouraged by the Minister's opening remarks and I look forward to hearing her closing remarks later.

Fel y dywedais, rwyf am ymestyn cefnogaeth fy mhlaid i egwyddorion cyffredinol y Bil hwn. Rwy'n edrych ymlaen at ei weld yn symud ymlaen i Gam 2 a chael y cyfle i gyflwyno rhai newidiadau iddo ar rai o'r materion hyn, os nad yw'r Llywodraeth yn gwneud hynny. Rwyf wedi fy nghalonogi gan sylwadau agoriadol y Gweinidog ac edrychaf ymlaen at glywed ei sylwadau wrth gloi yn hwyrach ymlaen.

**Elin Jones:** Rwyf wedi cefnogi cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon o'r cychwyn, ac mae'r dystiolaeth mae'r pwyllgor wedi'i glywed dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf ond wedi cadarnhau i mi yr angen amdani. Ar y cyfan, rwyf hefyd yn credu bod y Llywodraeth wedi cael manylion y ddeddfwriaeth yn gywir, ac wedi taro'r balans iawn rhwng yr angen i roi gwybodaeth ar hylendid bwyd i bob cwsmer, yr anogaeth i fusnesau wella eu hylendid bwyd a'r angen i beidio â gorlwytho biwrocratiaeth ar fusnesau. Mae symlrwydd y ddeddfwriaeth, felly, fel y'i cyflwynwyd gan y Llywodraeth, i'w groesawu yn fawr. Mae'n syml i'r cwsmer ei deall, yn syml i'r busnes ei gweithredu ac yn syml i'r awdurdodau ei gorfodi.

**Elin Jones:** I have been supportive of the introduction of this legislation from the outset, and the evidence that the committee has heard over the past weeks and months has only confirmed, in my mind, the need for this Bill. On the whole, I also believe that the Government has got the details of the legislation correct and has struck the right balance between the need to provide information on food hygiene to all customers, encouragement for businesses to improve their hygiene standards, and the need not to burden businesses with too much bureaucracy. The simplicity of the legislation, as tabled by the Government, is to be warmly welcomed. It is simple for customers to understand, simple for businesses to implement and simple for the authorities to enforce.

Rwy'n siŵr ein bod i gyd, dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf—mae hyn yn sicr yn wir amdanaf i, wrth fynd drwy'r broses graffu gyda'r pwyllgor—wedi dod yn fwyfwy ymwybodol o'r sticeri hylendid bwyd sy'n ymddangos ar ddrysau caffis a lleoedd bwyd, yn enwedig y rhai sy'n dangos sgôr o 5. Clywsom dystiolaeth yn y pwyllgor gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd mai dim ond 6% o'r busnesau bwyd sydd â sgôr 0, 1 neu 2 sy'n arddangos eu sgôr a'u sticer. Gwnaeth myfyriwr yn fy swyddfa i dros yr

I am sure that we have all, over the past weeks and months—this is certainly true of me, as I have been scrutinising this with the committee—become far more aware of the food hygiene stickers that are appearing on the doors of cafes and restaurants, particularly those that show a score of 5. We heard evidence in committee from the Food Standards Agency that only 6% of food businesses that have a score of 0, 1 or 2 actually display their score and their sticker. A student in my office over the summer did a

haf ddarn o waith ymchwil ar fusnesau bwyd yn Aberystwyth. Dim ond 42% o 80 o fusnesau bwyd a oedd yn arddangos eu sgôr hylendid bwyd, gyda 0%—dim un busnes—oedd â sgôr o 0, 1 neu 2 yn dangos y sticer; roedd gan 24% o'r busnesau a edrychwyd arnynt y sgôr hwnnw o 0, 1 neu 2. Felly, nid oedd un o'r busnesau hynny yn arddangos y sgôr. Mae'n glir, onid yw, fod angen y wybodaeth lawn ar gwsmeriaid am sgôr hylendid bwyd a safon hylendid bwyd pob busnes, nid dim ond lleoedd bwyd gyda sgôr o 5?

piece of research on food businesses in Aberystwyth: only 42% of the 80 food businesses looked at actually displayed their food hygiene scores, and 0%—not a single business—with a score of 0, 1 or 2 actually displayed a sticker; 24% of the businesses surveyed had a score of 0, 1 or 2. Therefore, not one of those businesses displayed the score. It is clear, is it not, that customers need all the information about the food hygiene scores and standards of all businesses, not only food establishments with a score of 5?

Rwy'n cefnogi'r ddau argymhelliad penodol a wnaeth y pwyllgor. Ar yr angen i sicrhau annibyniaeth yn y system apêl, rwy'n croesawu'r hyn a ddywedodd y Gweinidog am y paneli rhanbarthol, ac rwy'n falch y bydd modd i gyflwyno yn y Bil, yn ôl y Gweinidog, hyblygrwydd i newid yr amserlenni ar gyfer yr apeliadau. O bosibl, bydd angen edrych ar fyrhau'r amserlenni fel y maent ar wyneb y Bil ar hyn o bryd ac felly rwy'n sicr yn croesawu'r hyblygrwydd i wneud hynny heb orfod mynd yn ôl i ddiwygio'r Bil yn llawn.

I support the two specific recommendations made by the committee. On the need to ensure the independence of the appeals system, I welcome what the Minister said about regional panels, and I am pleased that it will be possible, according to the Minister, to include flexibility in the Bill to change the timescales for appeals. It will, possibly, be necessary to curtail the timings currently shown on the face of the Bill, so I certainly welcome the flexibility to do that without having to go back to amend the whole Bill.

Fel pwyllgor, ac fel sydd wedi cael ei ddweud eisoes, cawsom dipyn o drafodaeth ynglŷn ag arddangos y sgôr a lle dylid ei arddangos, yn enwedig a ddylid ei arddangos ar ddeunydd hyrwyddo, er enghraifft bwydlen *takeaway*. Yn fy marn i, dylai'r sgôr fod ar gael lle a phryd mae'r cwsmer yn prynu'r bwyd. Mae'r Bil yn gorfodi'r sgôr i fod ar gael i gwsmeriaid sy'n ymweld â lle bwyd i fwyta. Mae'r Bil hefyd yn dweud os yw person yn ffonio i archebu *takeaway*, er enghraifft, bod dyletswydd i roi'r sgôr dros y ffôn os gofynnir amdano, ond mae'r Bil, fel mae'n bodoli ar hyn o bryd, yn dawel am wybodaeth ar safleoedd gwe. Yn gynyddol, mae pobl yn archebu bwyd dros y we, a byddwn yn gweld y ffenomen honno yn datblygu ymhellach, felly roeddwn yn falch o glywed heddiw fod y Gweinidog yn mynd i edrych ar gyflwyno gwelliant gan y Llywodraeth i sicrhau bod y wybodaeth ar y sgôr hylendid bwyd ar gael ar y safle we drwy drosglwyddiad i safle we'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Rwy'n edrych ymlaen at weld manylion y gwelliant hwnnw pan gaiff ei gyflwyno.

As a committee, as has already been mentioned, we held a number of discussions on the issue of displaying the scores and on where they should be displayed—particularly whether they should be displayed on promotional materials, such as takeaway menus. In my opinion, the score should be available where and when the customer purchases the food. The Bill requires the score to be available for those people visiting establishments to eat. The Bill also states that, if a person phones to order a takeaway, for example, there is a duty to give the score over the phone if that is requested, but the Bill, as currently drafted, makes no comment on websites. Increasingly, people order food online, and we will see that phenomenon developing further in the future, so I was pleased to hear that the Minister is going to seek to introduce a Government amendment to ensure that the information on food hygiene ratings is available on websites through a link to the FSA website. I look forward to seeing the details of that amendment when it is tabled.

Yn olaf, rwyf hefyd eisiau gweld yr adroddiadau hylendid bwyd ar gael i'r cyhoedd yn hytrach na'r system ar hyn o bryd lle mae angen mynd drwy'r broses rhyddid gwybodaeth i gael gafael ar yr adroddiadau hynny. Mae hynny'n annerbyniol. Rwy'n cytuno â'r Gweinidog ar yr hyn a ddywedodd y prynhawn yma sef bod gwneud yn siŵr bod yr adroddiadau hynny ar gael yn ôl y gofyn yn ddigonol ac nad oes yn rhaid eu gwneud yn adroddiadau cyhoeddus drwy'r trwch, yn syth, beth bynnag. Felly, mae'r Bil hwn yn bwysig, mae'n syml ac yn glir, a bydd yn cyfrannu at safonau hylendid bwyd uwch ac at ostyngiad cyfatebol mewn afiechydon sy'n deillio o fwyd. Rwy'n falch o weld y Bil hwn yn symud yn ei flaen ac yn cael ei wella yn y broses graffu.

Finally, I too wish to see the food hygiene reports being made available to the public, rather than the current system, where one has to go through the freedom of information process to access those reports. That is unacceptable. I agree with what the Minister has said this afternoon, that ensuring that those reports are available on demand is adequate and that we need not, immediately, make those public documents. Therefore, this Bill is important, it is simple and it is clear, and it will contribute to higher food hygiene standards and to a corresponding reduction in the illnesses related to food hygiene issues. I am pleased to see this Bill progressing and being improved and amended in the scrutiny process.

**Kirsty Williams:** I begin by thanking the Minister for her opening remarks. Like Mark Drakeford, the Chair of the Health and Social Care Committee, I thank everybody who took part in the committee's consultation on the Bill. The Welsh Liberal Democrats support the principle of the Bill, and it was a commitment in our Assembly manifesto in 2011 to make the display of food hygiene ratings mandatory. We believe that it is an important principle that the public has access to this information.

**Kirsty Williams:** Dechreuaf drwy ddiolch i'r Gweinidog am ei sylwadau agoriadol. Fel Mark Drakeford, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran yn ymgynghoriad y pwyllgor ar y Bil. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi egwyddor y Bil, ac roedd yn ymrwymiad yn ein maniffesto Cynulliad yn 2011 i wneud arddangos sgoriau hylendid bwyd yn orfodol. Rydym yn credu ei bod yn egwyddor bwysig bod gan y cyhoedd fynediad at y wybodaeth hon.

As we have already heard from speakers this afternoon, while the voluntary scheme has been successful in some ways, it is severely limited by the fact that it is a voluntary scheme. Perhaps the emphasis on the public looking up the food hygiene score prior to going to the restaurant works if you are planning to make a specific trip out, but I never saw anybody outside a kebab house in Caroline Street after a rugby international with their smart phone checking out the food hygiene score of a particular establishment.

Fel yr ydym wedi clywed eisoes gan siaradwyr y prynhawn yma, er bod y cynllun gwirfoddol wedi bod yn llwyddiannus mewn rhai ffyrdd, mae'n cael ei gyfyngu'n ddifrifol gan y ffaith ei fod yn gynllun gwirfoddol. Efallai bod y pwyslais ar y cyhoedd yn chwilio am y sgôr hylendid bwyd cyn mynd i'r bwyty yn gweithio os ydych chi'n bwriadu gwneud taith benodol allan, ond rwyf byth yn gweld unrhyw un tu allan i siop kebab yn Stryd Caroline ar ôl gêm rygbi rhyngwladol gyda'u ffôn smart yn chwilio am sgôr hylendid bwyd sefydliad penodol.

Interestingly, last Thursday, I had a group of constituents visit me in the Assembly and as we talked about the role of the Assembly, especially now that it has acquired its new law-making powers, we used this proposed legislation as an example of the kinds of laws that the Assembly now has the right to pass. I explained to them the voluntary scheme as

Yn ddiddorol, ddydd Iau diwethaf, ymwelodd grŵp o etholwyr â mi yn y Cynulliad ac wrth i ni siarad am rôl y Cynulliad, yn enwedig nawr ei fod wedi caffael ei bwerau deddfu newydd, roeddem yn defnyddio'r ddeddfwriaeth arfaethedig hon fel enghraifft o'r math o ddeddfau y mae gan y Cynulliad bellach yr hawl i'w pasio. Eglurais iddynt y

opposed to what was being proposed in the legislation. As they left the building, to a woman and a man, each one asked me, 'What did you say the name of that website was?' They clearly all had the intention of going home, looking at the Food Standards Agency website and checking out the scores for the establishments that they eat at in and around the Brecon area. I warned them that some of them were going to have a nasty shock because, as everybody has said, those that have a rating of 3, 4 or 5 tend to display their score, while those with a rating below that do not. I think that some of my constituents were going to have a shock when they got home and checked out the FSA website.

cynllun gwirfoddol o'i gymharu â beth oedd yn cael ei gynnig yn y ddeddfwriaeth. Wrth iddyn nhw adael yr adeilad, gofynnodd pob un ohonynt, 'Beth ddywedoch chi oedd enw'r wefan honno?' Roedd yn amlwg bod bwriad gan bob un ohonynt i fynd adref, edrych ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac edrych ar y sgoriau ar gyfer y sefydliadau y maent yn bwyta ynddynt ac o amgylch ardal Aberhonddu. Rhybuddiais i nhw bod rhai ohonynt yn mynd i gael sioc gas oherwydd, fel y mae pawb wedi'i ddweud, mae'r rhai sydd â sgôr o 3, 4 neu 5 yn tueddu i arddangos eu sgôr, tra nad yw'r rhai sydd â sgôr is yn gwneud. Credaf fod rhai o fy etholwyr yn mynd i gael sioc pan fyddant yn cyrraedd adref ac yn edrych ar wefan yr ASB.

International evidence shows that the introduction of such schemes in different parts of the world has had a dramatic effect on cutting the number of outbreaks of food-borne diseases. At a time when things are difficult, I believe that it is right to look at the implications and costs to businesses before we bring legislation in. However, in this particular instance, I believe the costs and impacts to be proportionate, and we have received assurances from officials that there is not a single business that would not be able capable of achieving a high score.

Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod cyflwyno cynlluniau o'r fath mewn rhannau gwahanol o'r byd wedi cael effaith ddramatig ar leihau nifer yr achosion o glefydau sy'n cael eu cario mewn bwyd. Ar adeg pan fo pethau'n anodd, credaf ei bod yn iawn i edrych ar y goblygiadau a'r costau i fusnesau cyn i ni gyflwyno deddfwriaeth. Fodd bynnag, yn yr achos penodol hwn, rwy'n credu bod y costau ac effeithiau yn gymesur, ac rydym wedi derbyn sicrwydd gan swyddogion nad oes un busnes na fyddai'n gallu cyflawni sgôr uchel.

Indeed, I was somewhat surprised at the evidence the committee received from some representatives of the food industry: they seemed much more interested in defending the rights of those who had scored badly than in defending the rights of those businesses that had taken the time and trouble to get a good rating. It was disappointing to see those representatives taking that particular view.

Yn wir, rwyf yn synnu braidd at y dystiolaeth y mae'r pwyllgor wedi'i derbyn gan rai cynrychiolwyr y diwydiant bwyd: roedd yn ymddangos bod ganddynt lawer mwy o ddiddordeb mewn amddiffyn hawliau'r rhai a oedd wedi sgorio'n wael nag mewn amddiffyn hawliau'r busnesau oedd wedi cymryd yr amser a'r drafferth i gael sgôr da. Roedd yn siomedig i weld y cynrychiolwyr hynny'n cymryd y farn honno.

Like other speakers, I believe that the reports should be routinely available to members of the public. While I welcome the Minister's announcement today that they should be available on request, I still believe that we need to make them routinely available. This has been possible in other parts of the UK, and I do not believe that it is beyond the wit of us here to achieve the same for Welsh residents.

Fel y siaradwyr eraill, rwyf yn credu y dylai'r adroddiadau fod ar gael fel mater o drefn i aelodau'r cyhoedd. Er fy mod yn croesawu cyhoeddiad y Gweinidog heddiw y dylent fod ar gael ar gais, rwyf yn dal i gredu bod angen i ni sicrhau eu bod ar gael fel mater o drefn. Mae hyn wedi bod yn bosibl mewn rhannau eraill o'r DU, ac nid wyf yn credu ei fod y tu hwnt i'n crebwyll ni yma i gyflawni'r un peth ar gyfer trigolion Cymru.

I am greatly encouraged by the Minister's views on the display of food hygiene ratings. I welcome very much the fact that the ratings should be displayed at the point of sale. At committee, I often made a point about farmers' markets, in that there is a difference between where the food is manufactured and where it is sold. I therefore welcome the Minister's commitment to ensuring that it is at the point of sale that the ratings are displayed. It is an important distinction that Elin Jones made with regard to websites versus promotional literature. Increasingly, websites are a point of sale: you can order food from them without having to talk to a human being, whereas with literature and phone sales, you do need to phone up and can have the opportunity to talk to somebody and ask them about their food rating. That marks a crucial difference between websites—and I welcome what the Minister has said—and promotional literature.

Rwyf wedi fy nghalonogi yn fawr gan farn y Gweinidog ar arddangos sgoriau hylendid bwyd. Rwyf yn croesawu'n fawr y ffaith y dylai'r sgoriau gael eu harddangos yn y man gwerthu. Yn y pwyllgor, rwyf yn aml yn gwneud pwynt am farchnadoedd ffermwyr, gan fod gwahaniaeth rhwng lle caiff y bwyd ei gynhyrchu a ble mae'n cael ei werthu. Rwyf felly yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i sicrhau mai ar y pwynt gwerthu y mae'r graddau yn cael eu harddangos. Mae'n wahaniaeth pwysig a wnaeth Elin Jones ynglŷn â gwefannau yn erbyn llenyddiaeth hyrwyddo. Yn gynyddol, gwefannau yw'r man gwerthu: gallwch archebu bwyd oddi wrthynt heb orfod siarad â bod dynol, tra gyda llenyddiaeth gwerthiant dros y ffôn, mae angen i chi ffonio ac fe gewch gyfle i siarad â rhywun a gofyn iddynt am ei statws bwyd. Mae hynny'n nodi gwahaniaeth hanfodol rhwng gwefannau—a chroesawaf yr hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud—a llenyddiaeth hyrwyddo.

Appeals will be crucial in ensuring that there is confidence in the system, so that those who do not like the scheme cannot cry wolf and accuse local authorities of giving low ratings as a means of raising revenue. Independent appeals on a regional basis would indeed be welcome. Equally welcome is the fact that food businesses will be charged for the prospect of a re-examination. That is an important principle, which we also support.

Bydd apeliadau yn hanfodol wrth sicrhau bod hyder yn y system, fel na all y rhai nad ydynt yn hoffi'r cynllun weiddi blaidd a chyhuddo awdurdodau lleol o roi sgoriau isel fel modd o godi refeniw. Byddai apeliadau annibynnol ar sail ranbarthol yn wir yn cael eu croesawu. Mae'r ffaith y codir tâl ar fusnesau bwyd am y posibilrwydd o ail-archwiliad yr un mor dderbyniol. Mae honno'n egwyddor bwysig, yr ydym hefyd yn ei chefnogi.

**Janet Finch-Saunders:** I pay tribute to previous speakers, because I find this to be a really important and worthwhile debate, and all the contributions thus far have been interesting and proactive. It is widely acknowledged that the compulsory food hygiene ratings system has been identified as a relatively proactive way of combating food-related sickness and associated illness, and I endorse the work done thus far.

**Janet Finch-Saunders:** Hoffwn dalu teyrnged i siaradwyr blaenorol, am fy mod yn ystyried bod hon yn ddadl bwysig iawn ac yn werth chweil, ac mae'r holl gyfraniadau hyd yn hyn wedi bod yn ddiddorol ac yn rhagweithiol. Cydnabyddir yn eang bod y system sgoriau hylendid bwyd gorfodol wedi cael ei nodi fel ffordd gymharol ragweithiol o fynd i'r afael â salwch sy'n gysylltiedig â bwyd a salwch cysylltiedig, a chymeradwyaf y gwaith a wnaed hyd yn hyn.

The Food Standards Agency's chief scientist's report for 2010-11 states that, each year in the United Kingdom, around 1 million people suffer from a food-borne illness, for which some 20,000 receive hospital treatment, and there are some 500 deaths. I have some experience: when my children were young, E. coli was present in my

Mae adroddiad prif wyddonydd Yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer 2010-11 yn datgan, bob blwyddyn yn y Deyrnas Unedig, mae tua 1 miliwn o bobl yn dioddef o salwch sy'n cael ei gario mewn bwyd, ac mae tua 20,000 yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty, ac mae tua 500 o farwolaethau. Mae gennyf rywfaint o brofiad: pan oedd fy

constituency, and I can tell you that it was a frightening experience for the many who were involved.

mhlant yn ifanc, roedd E. coli yn bresennol yn fy etholaeth, a gallaf ddweud wrthych ei fod yn brofiad brawychus i'r nifer fawr oedd yn gysylltiedig â hyn.

4.45 p.m.

16:45

All 22 local authorities in Wales are currently participating voluntarily in the FSA's hygiene rating scheme, and, of approximately 30,000 food business establishments in Wales, over 17,500 have so far been rated. However, as mentioned earlier, only 31% of food businesses are voluntarily displaying their food hygiene ratings. We need to look at that more closely. The lowest-scoring businesses with a rate of 0, 1, or 2, performed even worse, with evidence suggesting that only 6% of those businesses display their ratings.

Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ar hyn o bryd yn cymryd rhan yn wirfoddol yng nghynllun sgôr hylendid yr ASB, ac, o oddeutu 30,000 o sefydliadau busnes bwyd yng Nghymru, mae dros 17,500 hyd yn hyn wedi eu sgorio. Fodd bynnag, fel y crybwyllwyd yn gynharach, dim ond 31% o fusnesau bwyd sy'n arddangos eu sgorau hylendid bwyd yn wirfoddol. Mae angen i ni edrych ar hynny yn agosach. Mae'r busnesau sy'n sgorio isaf gyda sgôr o 0, 1, neu 2, yn perfformio hyd yn oed yn waeth, gyda thystiolaeth yn awgrymu mai dim ond 6% o'r busnesau hynny sy'n arddangos eu sgôr.

Research commissioned by the FSA indicated that 95% of the public want mandatory display of food hygiene ratings. Furthermore, Consumer Focus Wales found, in October 2011, that 94% of people in Wales thought it should be compulsory for food businesses to display their hygiene scores. During the formulation of the Health and Social Care Committee's report, the committee found that the majority of witnesses agreed with the general principles of this Bill. It is fair to say that it has major cross-party support here today. Public Health Wales has stated that there is sufficient evidence from countries such as Canada, America and Denmark that not only have hygiene standards risen considerably with the introduction of mandatory schemes, but rates of hospitalisation for food-borne illnesses have decreased quite dramatically in some areas.

Mae ymchwil a gomisiynwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn dangos fod 95% o'r cyhoedd yn dymuno gweld arddangos sgoriau hylendid bwyd gorfodol. Ar ben hynny, canfu Llais Defnyddwyr Cymru, ym mis Hydref 2011, bod 94% o bobl yng Nghymru yn credu y dylai fod yn orfodol i fusnesau bwyd arddangos eu sgôr hylendid. Yn ystod y gwaith o lunio adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, daeth y pwyllgor i'r casgliad bod y rhan fwyaf o'r tystion yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil hwn. Mae'n deg dweud bod ganddo gefnogaeth drawsbleidiol fawr yma heddiw. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datgan bod digon o dystiolaeth o wledydd fel Canada, America a Denmarc bod safonau hylendid nid yn unig wedi codi yn sylweddol gyda chyflwyno cynlluniau gorfodol, ond bod cyfraddau mynd i'r ysbyty oherwydd salwch sy'n cael ei gario mewn bwyd wedi gostwng yn ddramatig mewn rhai ardaloedd .

The Health and Social Care Committee had some concerns about consistency in relation to the Bill. The Pizza, Pasta and Italian Food Association, the British Sandwich Association and the Café Society commented during evidence that there are differences of opinion between inspectors on the interpretation of regulations and on different aspects of practices. I have a concern in

Roedd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol rai pryderon ynghylch cysondeb mewn perthynas â'r Bil. Mae'r Pizza, Pasta and Italian Food Association, y British Sandwich Association a'r Café Society wedi gwneud sylw yn ystod tystiolaeth bod gwahaniaethau barn rhwng arolygwyr ar y dehongliad o'r rheoliadau ac ar wahanol agweddau o arferion. Mae gen i

relation to the provision that states that the Bill will apply only to food businesses registered in Wales. While I appreciate that it is almost impossible to cast such a wide net that you catch everyone who comes into Wales to trade in the distribution of food, I have concerns about that, given the number of transient mobile traders who come into Wales selling food. There is need for further work on that. It could leave a loophole that has the potential to undermine this excellent work.

bryder mewn perthynas â'r ddarpariaeth sy'n nodi y bydd y Bil yn berthnasol i fusnesau bwyd wedi'u cofrestru yng Nghymru. Er fy mod yn sylweddoli ei bod bron yn amhosibl bwrw rhwyd mor bell fel eich bod yn dal pawb sy'n dod i Gymru i fasnachu mewn dosbarthu bwyd, mae gennyf bryderon am hynny, o ystyried y nifer o fasnachwyr symudol dros dro sy'n dod i Gymru i werthu bwyd. Mae angen gwaith pellach ar hynny. Gallai adael bwlch sydd â'r potensial i danseilio'r gwaith ardderchog.

The additional money for training, as set out in the Bill's explanatory memorandum, should be welcomed. However, action must also be taken to monitor developments if consistency is to be ensured. I call on the Minister to heed the committee's advice that safeguards need to be thoroughly implemented in practice to provide reassurance and confidence about consistency in the application of the food hygiene rating scheme.

Dylai'r arian ychwanegol ar gyfer hyfforddiant, fel y nodir ym memorandwm esboniadol y Bil, gael ei groesawu. Fodd bynnag, mae'n rhaid cymryd camau hefyd i fonitro datblygiadau os am sicrhau cysondeb. Galwaf ar y Gweinidog i wrando ar gyngor y pwyllgor bod angen gweithredu mesurau diogelu yn drylwyr yn ymarferol er mwyn rhoi sicrwydd a hyder ynghylch cysondeb mewn gweithredu'r cynllun sgôr hylendid bwyd.

There are financial implications for local authorities in this work: I am only too well aware of those. As a result of their definition as 'food authorities', local authorities in Wales will have a key role to play in the ensuing regulatory regime. At a time when spending on regulatory services by local authorities in Wales is being cut by as much as 24%, the Welsh Government must ensure that local authorities are given the tools to do the job.

Mae goblygiadau ariannol i awdurdodau lleol yn y gwaith hwn: rwyf yn ymwybodol iawn o'r rheiny. O ganlyniad i'w diffiniad fel 'awdurdodau bwyd', bydd gan awdurdodau lleol yng Nghymru ran allweddol i'w chwarae yn y gyfundrefn reoleiddio ddilynol. Ar adeg pan fo gwariant ar wasanaethau rheoleiddio gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael ei dorri gan gymaint â 24%, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael yr offer i wneud y gwaith.

I am pleased that the Welsh Government will allocate additional funding as a result of this legislation, but it might also be necessary for the Minister to make it clear that local authorities will be supported as a result of these changes. I am particularly concerned—in my previous work I was a cabinet member for this particular area—about ethnic minority groups. We used to call them together in seminars and tried to work with them and give them the extra support that they might need to help them understand the implications of the food rating schemes.

Rwy'n falch y bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid ychwanegol o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon, ond gallai hefyd fod angen i'r Gweinidog ei gwneud yn glir y bydd awdurdodau lleol yn cael eu cefnogi o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Rwyf yn arbennig o bryderus—yn fy ngwaith blaenorol roeddwn yn aelod cabinet ar gyfer y maes penodol hwn—ynghylch grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Roeddem yn arfer eu galw at ei gilydd mewn seminarau ac yn ceisio gweithio gyda nhw a rhoi'r gefnogaeth ychwanegol iddynt y gallai fod ei hangen arnynt i'w helpu i ddeall goblygiadau'r cynlluniau sgorio bwyd.

To close, the National Assembly for Wales is

I gloi, gofynnir i Gynulliad Cenedlaethol

today being asked whether or not it consents to the general principles of the Food Hygiene Rating (Wales) Bill. In that regard, I extend my wholehearted support for this. This Bill should and must drive up standards of food hygiene and, in so doing, provide greater assurance. Certainly, it was one of our key pledges in our 2011 manifesto—

Cymru heddiw a yw'n cydsynio ag egwyddorion cyffredinol y Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru). Yn hynny o beth, rwyf yn estyn fy nghefnogaeth lwyr ar gyfer hyn. Dylai'r Bil hwn a rhaid iddo wella safonau hylendid bwyd ac, wrth wneud hynny, roi mwy o sicrwydd. Yn sicr, roedd yn un o'n haddewidion allweddol yn ein maniffesto 2011—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I have been generous. Please give your final sentence.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Rwyf wedi bod yn hael. Rhowch eich brawddeg olaf.

**Janet Finch-Saunders:** I welcome this debate.

**Janet Finch-Saunders:** Croesawaf y ddadl hon.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I thank Members for their comments and support for this very important Bill. I will try to address some of the questions raised with me. Mark Drakeford and other Members recognised that legislation is necessary for us to have universal displaying of food hygiene ratings. The voluntary scheme has been successful, but I was very interested in the research undertaken by Elin Jones's student over the summer. It is what we recognised—if a premises has ratings of 0, 1 and 2, they will not be on display while we have the voluntary scheme.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Diolchaf i'r Aelodau am eu sylwadau a'u cefnogaeth ar gyfer y Bil pwysig iawn hwn. Byddaf yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r cwestiynau a godwyd gyda mi. Roedd Mark Drakeford ac Aelodau eraill yn cydnabod bod deddfwriaeth yn angenrheidiol i ni weld arddangos cyffredinol ar sgoriau hylendid bwyd. Mae'r cynllun gwirfoddol wedi bod yn llwyddiannus, ond roedd gennyf ddiddordeb mawr yn yr ymchwil a wnaed gan fyfyriwr Elin Jones yn ystod yr haf. Dyma'r hyn yr oeddem yn ei gydnabod—os oes gan safle sgôr o 0, 1 a 2, ni fyddant yn cael eu harddangos tra bod y cynllun gwirfoddol gennym.

In relation to the timescales, I am very pleased that Mark Drakeford recognised that I am going to go further and extend provision to cover all timescales that are provided on the face of the Bill.

Mewn perthynas â'r amserlenni, rwyf yn falch iawn bod Mark Drakeford yn cydnabod fy mod am fynd ymhellach ac ymestyn y ddarpariaeth i gynnwys yr holl amserlenni sy'n cael eu darparu ar wyneb y Bil.

Several Members mentioned the publication of inspection reports, and I think that everyone wanted the full reports published. As I said, I accept that in principle, and I will look to table amendments at Stage 2 to address some of the issues raised, but I do not intend to require the publication of full food hygiene inspection reports at this time. However, I will seek to introduce amendments to the Bill to enable this requirement to be introduced via regulations should Welsh Ministers feel there is a need for that in the future. I am pleased that Members welcome the requirement for full

Crybwyllodd nifer o'r Aelodau gyhoeddi adroddiadau arolygu, a chredaf fod pawb eisiau i'r adroddiad llawn gael ei gyhoeddi. Fel y dywedais, rwyf yn derbyn hynny mewn egwyddor, a byddaf yn edrych i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd, ond nid wyf yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi adroddiadau arolygu hylendid bwyd llawn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddaf yn ceisio cyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn galluogi'r gofyniad hwn i gael ei gyflwyno trwy reoliadau pe byddai Gweinidogion Cymru yn teimlo bod angen hynny yn y

food hygiene inspection reports to be made available on request, rather than people having to go through the freedom of information requests route; as Mark Drakeford said, that is totally unacceptable. However, I do want to allow time for the mandatory scheme to bed down and take effect in the first instance.

dyfodol. Rwy’n falch bod yr Aelodau’n croesawu’r gofyniad bod adroddiadau arolygu hylendid bwyd llawn i fod ar gael ar gais, yn hytrach na phobl yn gorfod mynd drwy’r llwybr ceisiadau rhyddid gwybodaeth; fel y dywedodd Mark Drakeford, mae hynny’n gwbl annerbyniol. Fodd bynnag, rwyf yn awyddus i ganiatáu amser i’r cynllun gorfodol ymsefydlu a dod i rym yn y lle cyntaf.

Several Members raised regional appeals panels and whether we should have a neighbouring local authority carry out an appeal. My concern with that is that big authorities such as Cardiff will, one would imagine, have a lot more appeals and so that would be unfair on a neighbouring local authority. I have asked officials to look at the feasibility and affordability of setting up regional panels.

Cododd sawl Aelod baneli apeliadau rhanbarthol ac a ddylai fod gennym awdurdod lleol cyfagos yn cynnal apêl. Fy mhryder gyda hynny yw y bydd awdurdodau mawr fel Caerdydd, y byddai rhywun yn dychmygu, yn cael llawer mwy o apeliadau ac felly byddai hynny’n yn annheg ar awdurdod lleol cyfagos. Rwyf wedi gofyn i swyddogion edrych ar ddichonoldeb a fforddiadwyedd sefydlu paneli rhanbarthol.

The requirement for businesses selling food at different markets or events to display their food hygiene rating stickers at the point of sale is very pertinent. My initial thinking is that that businesses display their ratings at the point of sale is the most important issue. For the benefit of consumers, that is extremely important. I was very interested in what Kirsty Williams said about her constituents, because it is great that they will go back and check the ratings of food establishments that they use. Again, it is about getting the message out to the public that this is something that they can do.

Mae’r gofyniad i fusnesau sy’n gwerthu bwyd mewn gwahanol farchnadoedd neu ddigwyddiadau arddangos eu sticeri sgorio hylendid bwyd yn y man gwerthu yn berthnasol iawn. Fy syniadau cychwynnol yw mai busnesau yn arddangos eu sgôr yn y man gwerthu yw’r mater pwysicaf. Er budd defnyddwyr, mae hynny’n hynod bwysig. Roedd gen i ddiddordeb mawr yn yr hyn a ddywedodd Kirsty Williams am ei hetholwyr, oherwydd mae’n wych y byddant yn mynd yn ôl ac yn archwilio sgoriau sefydliadau bwyd y maent yn eu defnyddio. Unwaith eto, mae’n ymwneud â chyflwyno’r neges i’r cyhoedd bod hyn yn rhywbeth y gallant ei wneud.

Some Members talked about people not providing the correct food hygiene rating verbally, and that was something that I did accept. I am looking to table amendments at Stage 2 to make it clear that it would be an offence for a food business establishment to verbally inform a person of an incorrect food hygiene rating. Somebody mentioned employees, and, again, it will be a requirement to ensure that employees are aware of the correct food hygiene rating so that they can also inform consumers if asked.

Siaradodd rhai Aelodau am bobl nad ydynt yn darparu’r sgôr hylendid bwyd cywir ar lafar, ac roedd hynny’n rhywbeth yr oeddwn yn ei dderbyn. Rwyf yn edrych i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i wneud yn glir y byddai’n drosedd i sefydliad busnes bwyd hysbysu person ar lafar o sgôr hylendid bwyd anghywir. Soniodd rhywun am weithwyr cyflogedig, ac, unwaith eto, bydd yn ofynnol i sicrhau bod gweithwyr cyflogedig yn ymwybodol o’r sgôr hylendid bwyd cywir fel y gallant hefyd roi gwybod i ddefnyddwyr os gofynnir iddynt.

Janet Finch-Saunders mentioned the international experience, and it is good to

Soniodd Janet Finch-Saunders am y profiad rhyngwladol, ac mae’n dda i gael y

have that information and know that there is support for a mandatory scheme, and that one is necessary.

wybodaeth a gwybod bod cefnogaeth ar gyfer cynllun gorfodol, a bod un yn angenrheidiol.

Promotional material, such as flyers, were mentioned, and Members will be aware that I rejected proposals on that. A requirement to include information on promotional material would just place an additional cost on food businesses and would be difficult for local authorities to enforce. It would be better to encourage that on a voluntary basis rather than making it mandatory at this time. I therefore intend that guidance will encourage food businesses to place a statement on their printed publicity material regarding the food hygiene rating scheme, directing consumers to the FSA website for further information.

Soniwyd am ddeunydd hyrwyddo, megis taflenni, a bydd yr Aelodau'n ymwybodol fy mod wedi gwrthod cynigion ar hynny. Byddai gofyniad i gynnwys gwybodaeth ar ddeunydd hyrwyddol yn unig yn gosod cost ychwanegol ar fusnesau bwyd a byddai'n anodd i awdurdodau lleol ei gorfodi. Byddai'n well annog hynny ar sail wirfoddol yn hytrach na'i wneud yn orfodol ar hyn o bryd. Rwyf felly yn bwriadu y bydd canllawiau yn annog busnesau bwyd i roi datganiad ar eu deunydd cyhoeddusrwydd printiedig ynghylch y cynllun sgorio hylendid bwyd, gan gyfeirio defnyddwyr i wefan yr ASB am wybodaeth bellach.

Janet Finch-Saunders also asked about support for local authorities. There could be additional financial pressures and we are funding training for local authority enforcement officers; we have identified £10,000 specifically for that. We anticipate that, in the first year of introduction, the cost to the FSA will be an estimated £101,000 for marketing and the provision of stickers for trade-to-trade businesses, for instance, and that cost will be met from within the agency's current budget.

Roedd Janet Finch-Saunders hefyd yn gofyn am gefnogaeth ar gyfer awdurdodau lleol. Gallai fod pwysau ariannol ychwanegol ac rydym yn ariannu hyfforddiant ar gyfer swyddogion gorfodi awdurdodau lleol; rydym wedi nodi £10,000 yn benodol ar gyfer hynny. Rydym yn rhagweld, yn y flwyddyn gyntaf o gyflwyno, y bydd y gost amcangyfrifiedig i'r ASB yn £101,000 ar gyfer marchnata a darparu sticeri ar gyfer busnesau masnach-i-fasnach, er enghraifft, a bydd y gost yn cael ei thalu o gyllideb bresennol yr asiantaeth.

I am grateful to Members for their support and comments. This Bill will enable consumers in Wales to make much better informed choices about where they eat or shop for food. It will drive up the food hygiene standards of individual food businesses across Wales. Darren Millar mentioned the public health aspect of that, which is crucial to us all. I therefore welcome the support so far and urge Members to vote in favour of the general principles of this Bill.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelodau am eu cefnogaeth a'u sylwadau. Bydd y Bil hwn yn galluogi defnyddwyr yng Nghymru i wneud dewisiadau gwybodus gwell o lawer am ble maent yn bwyta neu'n siopa am fwyd. Bydd yn gwella safonau hylendid bwyd busnesau bwyd unigol ledled Cymru. Soniodd Darren Millar am agwedd iechyd cyhoeddus hynny, sydd yn hanfodol i ni i gyd. Gan hynny, croesawaf y gefnogaeth hyd yn hyn ac rwy'n annog yr Aelodau i bleidleisio o blaid egwyddorion cyffredinol y Bil hwn.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Yr Adroddiad ar Ddinas-Ranbarthau
## The City Regions Report

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Aled Roberts a gwelliannau 4, 5 a 6 yn enw William Graham.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 2 and 3 in the name of Aled Roberts and amendments 4, 5 and 6 in the name of William Graham.

*Cynnig NDM5064 Jane Hutt*

*Motion NDM5064 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi'r adroddiad am y Dinas-ranbarthau.*

*Notes the report on City Regions.*

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I move the motion.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Cynigiaf y cynnig.

When I published the city regions report shortly before the summer recess, a number of Members from across the political parties asked for a Plenary debate on the city regions report. I am therefore pleased that we have that opportunity this afternoon. You will now have had time to reflect on the report's findings and a small number of you have taken the opportunity to engage with the task and finish group directly through attending the briefing session that I organised for Members with Elizabeth Haywood last week, or by responding to the final report. Many have also taken the opportunity to discuss this with businesses, local government and other partners.

Pan gyhoeddais yr adroddiad ar ddinas-ranbarthau ychydig cyn toriad yr haf, gofynnodd nifer o Aelodau o'r holl bleidiau gwleidyddol am ddadl mewn Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad ar ddinas-ranbarthau. Rwyf yn falch felly ein bod yn cael y cyfle hwnnw brynhawn heddiw. Byddwch bellach wedi cael amser i fyfyrio ar ganfyddiadau'r adroddiad ac mae nifer fach ohonoch wedi cymryd y cyfle i ymgysylltu â'r grŵp gorchwyl a gorffen yn uniongyrchol trwy ddod i sesiwn friffio a drefnais ar gyfer Aelodau ag Elizabeth Haywood yr wythnos diwethaf, neu drwy ymateb i'r adroddiad terfynol. Mae llawer hefyd wedi cymryd y cyfle i drafod hyn â busnesau, llywodraeth leol a phartneriaid eraill.

The report sets out a number of key recommendations—principally that two city regions are recognised: in south-east Wales and around Swansea bay. The group did not find sufficient evidence to support a city region in north-east Wales. However, I will say a little more about that shortly, as I know that this is of keen interest to some Members. The report also makes a number of other important recommendations that relate to better collaboration and partnership on a regional basis. These include strategic planning on a region-wide basis, addressing the education and skills issues for the whole region and developing mechanisms to avoid unnecessary rivalry and parochialism.

Mae'r adroddiad yn nodi nifer o argymhellion allweddol—yn bennaf y dylid cydnabod dwy ddinas-ranbarth: yn ne-ddwyrain Cymru ac o amgylch bae Abertawe. Ni ddaeth y grŵp o hyd i ddigon o dystiolaeth i gefnogi dinas-ranbarth yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Fodd bynnag, byddaf yn dweud ychydig mwy am hynny cyn bo hir, gan y gwn fod hyn o ddiddordeb mawr i rai Aelodau. Mae'r adroddiad hefyd yn gwneud nifer o argymhellion pwysig eraill sy'n ymwneud â gwell cydweithio a phartneriaeth ar sail ranbarthol. Mae'r rhain yn cynnwys cynllunio strategol trwy'r rhanbarth gyfan, mynd i'r afael â'r materion addysg a sgiliau ar gyfer y rhanbarth cyfan a datblygu mecanweithiau i osgoi

cystadleuaeth a phlwyfoldeb ddiangen.

The group identified connectivity as an important theme—from digital connectivity to transport. The group also identified European funding as being very important. We are now developing our proposals for a new round of European structural funds, and this is a critical time to get our priorities right. The group has made a recommendation that we should move towards support in regionally significant projects. Both this report and the business rates review have made recommendations on utilising European funding for urban projects that benefit wider areas. I believe that the time to consider how to decide our priorities is now.

Nododd y grŵp fod cysylltedd yn thema bwysig—o gysylltedd digidol i drafnidiaeth. Mae'r grŵp hefyd yn nodi bod cyllid Ewropeaidd yn bwysig iawn. Rydym yn awr yn datblygu ein cynigion ar gyfer rownd newydd o gronfeydd strwythurol Ewrop, ac mae hon yn adeg dyngedfennol i sicrhau bod ein blaenoriaethau'n iawn. Mae'r grŵp wedi gwneud argymhelliad y dylem symud tuag at gefnogaeth ar gyfer prosiectau sy'n arwyddocaol yn rhanbarthol. Mae'r adroddiad hwn a'r adolygiad o ardrethi busnes wedi gwneud argymhellion ynglŷn â defnyddio cyllid Ewropeaidd ar gyfer prosiectau trefol sydd o fudd i ardaloedd ehangach. Credaf mai nawr yw'r adeg i ystyried sut i benderfynu ar ein blaenoriaethau.

The responsibility for the recommendations fall to many. The group set out that national leadership is needed at the Welsh Government level and sets some recommendations on demonstrating this commitment through our policies and programmes. In particular, it recommends that regions take responsibility themselves and many of the recommendations are aimed in their direction. In fact, the report is clear that national Government cannot impose city regions. Therefore, given the significance of the group's findings, I began a programme of extensive engagement to gain the views of others immediately following the publication of the report.

Mae llawer o bobl yn gyfrifol am yr argymhellion. Dangosodd y grŵp fod angen arweinyddiaeth genedlaethol ar lefel Llywodraeth Cymru gan nodi rhai argymhellion ar arddangos yr ymrwymiad hwn drwy ein polisïau a'n rhaglenni. Yn benodol, mae'n argymell y dylai rhanbarthau ysgwyddo cyfrifoldeb eu hunain ac mae llawer o'r argymhellion wedi eu hanelu atynt hwy. Yn wir, mae'r adroddiad yn nodi'n eglur na all y Llywodraeth genedlaethol orfodi dinas-ranbarthau. Felly, o ystyried arwyddocâd canfyddiadau'r grŵp, dechreuais raglen o ymgysylltu helaeth i gael barn pobl eraill yn syth ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.

Dr Haywood and the task and finish group have been talking to a range of partners across Wales. She recently wrote to me to inform me of her progress. She has discussed the findings with local authority leaders in Wales, raised awareness of the city regions approach and the findings of the report through sustained and extensive media coverage, both locally and nationally, provided briefing sessions to key stakeholders, including Assembly Members last Wednesday and stakeholders from south-west Wales on Friday. She met over 100 businesspeople and other key partners in a specially arranged event in Cardiff to discuss the city regions approach. Dr Haywood has also reported to me that our engagement with

Mae'r Dr Haywood a'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi bod yn siarad ag amrywiaeth o bartneriaid ledled Cymru. Ysgrifennodd ataf yn ddiweddar i roi gwybod i mi sut mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen. Mae wedi trafod y canfyddiadau gydag arweinwyr awdurdodau lleol yng Nghymru, wedi codi ymwybyddiaeth o gysyniad y dinas-ranbarthau a chanfyddiadau'r adroddiad trwy sylw parhaus a helaeth yn y cyfryngau, yn lleol ac yn genedlaethol, ac wedi darparu sesiynau briffio i randdeiliaid allweddol, gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad ddydd Mercher diwethaf a rhanddeiliaid o dde-orllewin Cymru ddydd Gwener. Cyfarfu â dros 100 o fusnesau a phartneriaid allweddol eraill mewn digwyddiad a drefnwyd yn


100

people across Wales has affirmed her commitment to the recommendations in the report.

arbennig yng Nghaerdydd i drafod y syniad o ddinas-ranbarthau. Mae'r Dr Haywood hefyd wedi dweud wrthyf bod ein hymgysylltiad â phobl ledled Cymru wedi cadarnhau ei hymrwymiad i'r argymhellion yn yr adroddiad.

5.00 p.m.

17:00

Broad support for the concept has been a key feature of all the feedback that the group and I have received. However, I am aware that a small number of Members have expressed concerns that a city region was not recommended for north-east Wales. The group explained its reasoning in the report but felt, however, that there were real opportunities for the region to focus on encouraging cross-border collaboration through strengthening the Mersey Dee Alliance, the higher education offer, examining approaches to support the development of Wrexham, and developing the new automotive industry that crosses the Wales-England border. However, I am well aware that some Members have expressed concerns that a city region was not recommended for this area. Therefore, I have asked Dr Haywood to begin a specific piece of work in north Wales. It will explore in more depth the issues that were raised in her original report. Dr Haywood will begin immediately. Next week, she will be holding a series of meetings in north Wales.

Mae cefnogaeth eang i'r cysyniad wedi bod yn nodwedd allweddol o'r holl adborth yr wyf i a'r grŵp wedi ei dderbyn. Fodd bynnag, rwyf yn ymwybodol bod nifer fach o Aelodau wedi mynegi pryderon na argymhellwyd dinas-ranbarth ar gyfer gogledd-ddwyrain Cymru. Eglurodd y grŵp ei resymau yn yr adroddiad, ond teimlai, fodd bynnag, bod yna gyfleoedd go iawn i'r rhanbarth ganolbwyntio ar annog cydweithrediad ar draws y ffin trwy gryfhau Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy a'r ddarpariaeth addysg uwch, archwilio dulliau o gefnogi datblygiad Wrecsam, a datblygu diwydiant modurol newydd ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, rwyf yn gwbl ymwybodol bod rhai Aelodau wedi mynegi pryderon na argymhellwyd dinas-ranbarth ar gyfer yr ardal hon. Felly, rwyf wedi gofyn i'r Dr Haywood ddechrau darn penodol o waith yng ngogledd Cymru. Bydd yn archwilio'n fanylach y materion a godwyd yn ei hadroddiad gwreiddiol. Bydd y Dr Haywood yn dechrau ar unwaith. Yr wythnos nesaf, bydd yn cynnal cyfres o gyfarfodydd yng ngogledd Cymru.

Collaboration, partnership and long-term support are consistent features of successful city regions. The view of the Welsh Government is important, and leadership on this issue will send an important signal that support for this at the local level is critical. For example, a city region would be difficult to achieve if one of the local authorities did not participate. A city region must draw together all the relevant partners, all those who have an interest in the economic development of a city region. That is why there is a statement on page 66 of the report that the Welsh Government's commitment to this report should ideally be underpinned by cross-party consensus. Effective city regions have been achieved in other places when everyone came together, and I ask you to keep that in mind today.

Mae cydweithio, partneriaeth a chymorth hirdymor yn nodweddion cyson o ddinas-ranbarthau llwyddiannus. Mae barn Llywodraeth Cymru yn bwysig, a bydd arweiniad ar y mater hwn yn cyfleu neges bwysig bod cefnogaeth i hyn ar lefel leol yn hanfodol. Er enghraifft, byddai'n anodd cyflawni dinas-ranbarth pe na byddai un o'r awdurdodau lleol yn cymryd rhan. Rhaid i ddinas-ranbarth ddwyn ynghyd yr holl bartneriaid perthnasol, pawb sydd â budd yn natblygiad economaidd y ddinas-ranbarth. Dyna pam y ceir datganiad ar dudalen 66 o'r adroddiad y dylai ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn, yn ddelfrydol, gael ei ategu gan gonsensws trawsbleidiol. Cyflawnwyd dinas-ranbarthau effeithiol mewn mannau eraill pan ddaeth pawb at ei gilydd, a gofynnaf i chi gadw hynny mewn

cof heddiw.

Jobs and growth are a priority. Regions are one of the many approaches to addressing that issue. However, my focus on developing relevant economic approaches for different parts of Wales will remain strong. For example, I will soon make an announcement on the Powys local growth zones. The task and finish group has proposed solutions to the issues of rural market towns in Powys. We have also created the seven enterprise zones, which offer specific incentives to attract new business to prime locations in Wales. The engagement on city regions so far has attracted widespread support, and it is clear to me that we should seek to respond positively to the task and finish group's findings.

Mae swyddi a thwf yn flaenoriaeth. Rhanbarthau yw un o'r dulliau amryfal o fynd i'r afael â'r mater hwnnw. Fodd bynnag, byddaf yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar ddatblygu ymdriniaethau economaidd perthnasol ar gyfer gwahanol rannau o Gymru. Er enghraifft, byddaf yn gwneud cyhoeddiad yn fuan ar barthau twf lleol Powys. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi cynnig atebion i broblemau trefi marchnad gwledig ym Mhowys. Rydym hefyd wedi creu'r saith ardal fenter, sy'n cynnig cymhellion penodol i ddenu busnesau newydd i leoliadau o bwys yng Nghymru. Mae'r ymgysylltiad ar ddinas-ranbarthau hyd yma wedi denu cefnogaeth eang, ac mae'n amlwg i mi y dylem geisio ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau'r grŵp gorchwyl a gorffen.

As the report sets out, there are four major city regions close to our border, and I am keen to invite them to Wales to share their experiences and practice with our emerging city regions. There is no need to reinvent the wheel. I have asked officials to work with the Centre for Cities to arrange these events to kick-start this work. City regions are not new, and numerous examples of city region approaches from across the globe are contained in Dr Haywood's report.

Fel y mae'r adroddiad yn nodi, ceir pedair dinas-ranbarth fawr yn agos at ein ffin, ac rwyf yn awyddus i'w gwahodd i Gymru i rannu eu profiadau a'u harferion gwaith gyda'r dinas-ranbarthau sy'n dod i'r amlwg yma yng Nghymru. Nid oes angen inni ailddyfeisio'r olwyn. Rwyf wedi gofyn i swyddogion weithio gyda'r Centre for Cities i drefnu'r digwyddiadau hyn i roi cychwyn ar y gwaith hwn. Nid yw dinas-ranbarthau'n syniad newydd, a rhoddir enghreifftiau niferus ohonynt o bob cwr o'r byd yn adroddiad y Dr Haywood.

A number of amendments have been tabled to this motion this afternoon, and that reflects Members' interest in the subject. I am pleased to say that I can support five of the six amendments today. On amendment 1, transport and digital connectivity will be important to the longer-term success of city regions, and the report reflects that throughout, so I am happy to accept the amendment. I can also support amendments 2 and 4 because local authorities' buy-in and wider stakeholder co-operation will be critical to the success of any city region. On amendment 5, I have stated before that I will continue to pursue other economic development approaches that are bespoke and relevant to particular parts of Wales, and I will make a statement shortly on enterprise zones.

Mae nifer o newidiadau wedi eu cyflwyno i'r cynnig hwn brynhawn heddiw, ac mae hynny'n adlewyrchu diddordeb yr Aelodau yn y pwnc. Rwyf yn falch o ddweud fy mod yn gallu cefnogi pump o'r chwe gwelliant heddiw. O ran gwelliant 1, bydd trafnidiaeth a chysylltedd digidol yn bwysig i lwyddiant dinas-ranbarthau yn y tymor hwy, ac mae'r adroddiad yn adlewyrchu hynny drwyddo draw, felly rwyf yn hapus i dderbyn y gwelliant. Gallaf hefyd gefnogi gwelliannau 2 a 4 oherwydd y bydd cefnogaeth awdurdodau lleol a chydweithrediad rhanddeiliaid ehangach yn hanfodol i lwyddiant unrhyw ddinas-ranbarth. O ran gwelliant 5, rwyf wedi dweud o'r blaen y byddaf yn parhau i fynd ar drywydd dulliau datblygu economaidd eraill sy'n bwrpasol ac yn berthnasol i rannau penodol o Gymru, a

byddaf yn gwneud datganiad yn fuan ar ardaloedd menter.

I cannot support amendment 3, which says that the report does not adequately address the role that industrial centres in north-east Wales can play in leading economic growth in north Wales. I have addressed some of those underlying concerns by commissioning Dr Haywood to do further work. Therefore, I ask the Welsh Liberal Democrats to consider withdrawing that amendment on the basis of my contribution today.

Ni allaf gefnogi gwelliant 3, sy’n dweud nad yw’r adroddiad yn rhoi digon o sylw i’r rhan y gall canolfannau diwydiannol yng ngogledd-ddwyrain Cymru ei chwarae o ran arwain twf economaidd yng ngogledd Cymru. Rwyf wedi mynd i’r afael â rhai o’r pryderon sylfaenol hynny trwy gomisiynu’r Dr Haywood i wneud rhagor o waith. Felly, gofynnaf i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ystyried tynnu’r gwelliant hwnnw’n ôl ar sail fy nghyfraniad heddiw.

The report has also shown that city regions can succeed or fail. I want us to learn lessons, share expertise and start from a sound foundation. I want to open the debate to you. I am keen that we debate solutions rather than barriers. The report sets out how we can achieve what is necessary, and I am keen to keep that emphasis. I look forward to everyone’s contributions, which will be considered in my final response to the city regions recommendations.

Mae’r adroddiad wedi dangos hefyd y gall dinas-ranbarthau lwyddo neu fethu. Rwyf am i ni ddysgu gwersi, rhannu arbenigedd a dechrau o sylfaen gadarn. Rwyf am agor y ddadl i chi. Rwyf yn awyddus inni drafod atebion yn hytrach na rhwystrau. Mae’r adroddiad hwn yn nodi sut y gallwn gyflawni’r hyn sydd ei angen, ac rwyf yn awyddus i gadw’r pwyslais ar hynny. Edrychaf ymlaen at gyfraniadau pawb, a byddaf yn eu hystyried yn fy ymateb terfynol i’r argymhellion ar ddinas-ranbarthau.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu y bydd dinas-ranbarthau yn cyfrannu at dwf economaidd yn y modd mwyaf effeithiol os bydd cysylltedd digidol a thrafnidiaeth yn gwella ar draws y rhanbarth.*

*Believes that city regions will contribute to economic growth most effectively if transport and digital connectivity is improved throughout the region.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o drosolwg democrataidd mewn penderfyniadau a wneir ar lefel y ddinas-ranbarth.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that local authorities have adequate democratic oversight of decisions made at the city region level.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn mynegi pryder nad yw'r adroddiad yn rhoi digon o sylw i'r rôl y gall canolfannau diwydiannol yng ngogledd-ddwyrain Cymru ei chwarae i arwain y twf economaidd yng ngogledd Cymru.*

*Expresses concern that the report does not adequately address the role that industrial centres in the north-east of Wales can play in leading economic growth in north Wales.*

**Eluned Parrott:** I move amendments 1, 2 and 3 in the name of Aled Roberts.

**Eluned Parrott:** Cynigiaf welliannau 1, 2 a 3 yn enw Aled Roberts.

I thank the Minister for giving us this early opportunity to debate the city regions report today. I gave this report a warm welcome when it was introduced last term, although I recognise that it poses a number of challenges for us, some of which are practical and some more political. For example, as you have highlighted, Minister, the proposed creation of the two city regions in south Wales is centred on Cardiff and Swansea. They have been suggested for solid, logical reasons, but they may be difficult to accept if you are outside those areas. As an Assembly, we are tasked with driving economic development for the whole of Wales. I take on board your comments, and I know that my colleague, Aled Roberts, would like to address amendment 3 if he has the opportunity to do so this afternoon.

Diolchaf i'r Gweinidog am roi inni'r cyfle cynnar hwn i drafod adroddiad y dinas-ranbarthau heddiw. Rhoddais groeso cynnes i'r adroddiad hwn pan gafodd ei gyflwyno'r tymor diwethaf, er fy mod yn cydnabod ei fod yn gosod nifer o heriau i ni, rhai ohonynt yn ymarferol ac eraill yn fwy gwleidyddol. Er enghraifft, fel yr amlygwyd gennych, Weinidog, mae'r cynnig i greu'r ddwy ddinas-ranbarth yn ne Cymru yn canolbwyntio ar Gaerdydd ac Abertawe. Maent wedi cael eu hawgrymu am resymau cadarn, rhesymegol, ond gallant fod yn anodd eu derbyn os ydych yn y tu allan i'r ardaloedd hynny. Fel Cynulliad, rydym yn gyfrifol am hybu datblygiad economaidd ar gyfer Cymru gyfan. Rwyf yn derbyn eich sylwadau, a gwn yr hoffai fy nghydweithiwr, Aled Roberts, roi sylw i welliant 3 os bydd cyfle iddo wneud hynny brynhawn heddiw.

**The Deputy Presiding Officer:** You are moving the amendment, but another speaker may speak to it.

**Y Dirprwy Lywydd:** Chi sy'n cynnig y gwelliant, ond gall siaradwr arall siarad yn ei gylch.

**Eluned Parrott:** Thank you, Dirprwy Lywydd. Any move towards a city regions strategy must have a purpose, so I was pleased to see the report highlight improvements to the planning system and to connectivity and include a bid to drive investment as the reasoning behind the recommendations that we see. However, one area on which I do have concern is the challenge of ensuring the democracy of any new city region. This report is a little thin on the subject of governance, and so will the Minister share her preference for the governance models that she has explored and tell us how she would ensure that there is adequate representation of the people's voice in those management structures? I grew up in a city region in England. Therefore, I am aware of some of the difficulties that they have faced in that regard, and it is of great interest to me. How would local authorities

**Eluned Parrott:** Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rhaid bod pwrpas i unrhyw symudiad tuag at strategaeth dinas-ranbarthau, felly roeddwn yn falch o weld bod yr adroddiad yn amlygu mai'r rhesymeg y tu ôl i'r argymhellion a welwn yw gwella'r system gynllunio a chysylltedd a chais i sbarduno buddsoddiad. Fodd bynnag, un maes sy'n peri pryder i mi yw'r her o sicrhau democratiaeth mewn unrhyw ddinas-ranbarth newydd. Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys llawer o fanylion ynglŷn â llywodraethu, ac felly a wnaiff y Gweinidog roi gwybod pa fodelau llywodraethu y byddai'n well ganddi, o blith y rhai y mae wedi ymchwilio iddynt, a dweud wrthym sut y byddai'n sicrhau bod gan lais y bobl gynrychiolaeth ddigonol yn y strwythurau rheoli hynny? Cefais fy magu mewn dinas-ranbarth yn Lloegr. Felly, rwyf yn ymwybodol o rai o'r anawsterau y maent wedi eu hwynebu yn hynny o beth, ac mae o

interact with the management structures? How would those structures work in the event of a disagreement between the local authorities themselves or between local authorities and the city region governance structure? Will those city regions follow existing local authority boundaries, or if there is a clear reason to do so, will you be prepared to cross boundaries, and perhaps to link towns in south Powys with city regions further south? With these concerns in mind, I move amendment 1, which seeks to confirm the important role of our local authorities in delivering any city regions strategy.

ddiddordeb mawr i mi. Sut byddai awdurdodau lleol yn rhyngweithio â'r strwythurau rheoli? Sut byddai'r strwythurau hynny'n gweithio pe byddai anghytundeb rhwng yr awdurdodau lleol eu hunain, neu rhwng awdurdodau lleol a strwythur llywodraethu'r ddinas-ranbarth? A fydd y dinas-ranbarthau hyn yn dilyn ffiniau presennol yr awdurdodau lleol, neu os oes rheswm clir dros wneud hynny, a fyddwch yn barod i groesi ffiniau, ac efallai i gysylltu trefi yn ne Powys â dinas-ranbarthau ymhellach i'r de? O ystyried y pryderon hyn, cynigiaf welliant 1, sy'n ceisio cadarnhau rôl bwysig ein hawdurdodau lleol wrth gyflawni unrhyw strategaeth ar gyfer dinas-ranbarthau.

Any new city regions need good transport links and good connectivity in a virtual sense, both to them and within them. Like you, Minister, I was delighted when the UK Government announced the electrification of the whole Valleys lines network. However, I would like to make a shameless plug at this point for even more expansion and improvement of that network. There are some ideas that this Government could be planning for now. We all know that the former First Minister was a huge rail enthusiast. Under his leadership, we saw a lot of rail expansion in Wales, including the railway line that serves my own home, so I know what the impact of that has been.

Mae ar unrhyw ddinas-ranbarthau newydd angen cysylltiadau trafnidiaeth da a chysylltedd da mewn ystyr rhithwir, â'r tu allan ac oddi mewn iddynt. Fel chi, Weinidog, roeddwn wrth fy modd pan gyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai rhwydwaith cyfan rheilffyrdd y Cymoedd yn cael ei drydaneiddio. Fodd bynnag, nid oes gennyf gywilydd manteisio ar y cyfle hwn i sôn am yr angen i ehangu a gwella mwy fyth ar y rhwydwaith hwnnw. Ceir rhai syniadau y gallai'r Llywodraeth hon fod yn cynllunio ar eu cyfer yn awr. Rydym i gyd yn gwybod bod y cyn Brif Weinidog yn frwd o blaid rheilffyrdd. O dan ei arweiniad, gwelsom lawer o ehangu ar y rheilffyrdd yng Nghymru, gan gynnwys y llinell sy'n gwasanaethu fy nghartref i, felly rwy'n gwybod pa effaith y mae hynny wedi ei chael.

There are some obvious expansion options at the moment, and a short stretch of line to allow trains from Newport to Ebbw Vale is one that is often mentioned in the Chamber. The use of existing track to take trains from Aberdare to Hirwaun is another potential one, as well as the opportunity for new stations to serve new suburbs such as St Mellons in the east of Cardiff. These are projects that this Government needs to scope and investigate soon if they are to become a reality alongside the electrification project. For that reason, I move amendment 1, because we strongly believe that city regions will contribute to economic growth most effectively if those transport and digital connectivity issues are improved throughout the regions in question.

Ceir rhai opsiynau amlwg ar gyfer ehangu ar hyn o bryd, ac mae darn byr o linell i ganiatáu i drenau fynd o Gasnewydd i Lynebwy yn un sy'n cael ei grybwyll yn aml yn y Siambr. Mae'r defnydd o drac presennol i fynd â threnau o Aberdâr i Hirwaun yn bosibilrwydd arall, yn ogystal â'r cyfle ar gyfer gorsafoedd newydd i wasanaethu maestrefi newydd megis Llaneirwg yn nwyrain Caerdydd. Dyma brosiectau y mae angen i'r Llywodraeth hon bennu eu cwmpas ac ymchwilio iddynt yn fuan os ydynt am gael eu gwireddu ochr yn ochr â'r prosiect trydaneiddio. Am y rheswm hwnnw, cynigiaf welliant 1, oherwydd y credwn yn gryf y bydd dinas-ranbarthau yn cyfrannu'n fwyaf effeithiol at dwf economaidd os bydd

materion cludiant a chysylltedd digidol yn cael eu gwella trwy'r rhanbarthau dan sylw.

I thank the Welsh Conservatives for tabling the other three amendments, which I am able to support wholeheartedly. There are opportunities here for all sectors to work together to deliver this strategy. It is important to understand how different Government strategies will work together in practice. As I have already noted, while the city regions strategy gives us exciting ideas to drive economic regeneration in south Wales, of course that should not be at the expense of other parts of Wales.

Diolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r tri gwelliant arall, a gallaf eu cefnogi'n llwyr. Ceir cyfleoedd yma i bob sector weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r strategaeth hon. Mae'n bwysig deall sut y bydd gwahanol strategaethau'r Llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd yn ymarferol. Fel yr wyf eisoes wedi nodi, mae strategaeth y dinas-ranbarthau yn rhoi syniadau cyffrous i ni ar gyfer sbarduno adfywiad economaidd yn y de, ond wrth gwrs, ni ddylai hynny fod ar draul rhannau eraill o Gymru.

*Gwelliant 4—William Graham*

*Amendment 4—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu y bydd llwyddiant dinas-ranbarthau yn dibynnu ar gydweithio rhwng pob haen o lywodraeth; ynghyd â'r sector corfforaethol, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.*

*Believes the success of city regions will depend on co-operation between all tiers of government; together with the corporate, public and third sectors.*

*Gwelliant 5—William Graham*

*Amendment 5—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod na ddylai'r gwaith o weithredu dinas-ranbarthau amharu ar adfywio yng ngweddill ardaloedd Cymru.*

*Acknowledges that the implementation of city regions should not compromise the regeneration of all other parts of Wales.*

*Gwelliant 6—William Graham*

*Amendment 6—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi manylion llawn ynghylch y ffordd orau i'r ardaloedd menter perthnasol gefnogi dinas-ranbarth De-Ddwyrain Cymru.*

*Calls on the Welsh Government to fully detail how the relevant enterprise zones can best complement the South East Wales city region.*

**Nick Ramsay:** I move amendments 4, 5 and 6 in the name of William Graham.

**Nick Ramsay:** Cynigiaf welliannau 4, 5 a 6 yn enw William Graham.

We will be supporting the Liberal Democrats' amendments. Minister, I am pleased to welcome the work that Dr Elizabeth Haywood, chair of the task and finish group, has done in compiling this report, which appears to be a thorough and comprehensive analysis of the urgent

Byddwn yn cefnogi gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol. Weinidog, rwyf yn falch o groesawu'r gwaith y mae'r Dr Elizabeth Haywood, cadeirydd y grŵp gorchwyl a gorffen, wedi ei wneud wrth lunio'r adroddiad hwn. Mae i'w weld yn ddadansoddiad trylwyr a chynhwysfawr o'r

requirement for city regions to be set up, to encourage economic growth in key areas of Wales. The report also appears not to shy away from the challenges that need to be overcome before we can be sure that these city regions will fulfil their potential.

angen brys i sefydlu dinas-ranbarthau, er mwyn annog twf economaidd mewn ardaloedd allweddol o Gymru. Mae'n ymddangos hefyd nad yw'r adroddiad yn osgoi'r heriau y mae angen eu goresgyn cyn y gallwn fod yn sicr y bydd y dinas-ranbarthau yn cyflawni eu potensial.

Having looked through the report and seen the recent reports on the BBC news website, I am concerned that the chief executives of nine—I think I am right in saying—out of 10 councils in south-east Wales say that they are worried about being taken over by Cardiff and have asked what is in it for them. It is that sort of cynicism that we need to work together to overcome—and you spoke in your opening comments about overcoming those challenges. Perhaps the very fact that the report refers to the 'Cardiff city region' is part of the problem, as opposed to a name such as 'the south-east Wales city region', although Cardiff is clearly the main city in that area. Thought needs to be given to how we attract external investors while also giving credence to the view that, without due attention, the region could become a greater Cardiff.

Ar ôl edrych drwy'r adroddiad a gweld yr adroddiadau diweddar ar wefan newyddion y BBC, rwyf yn bryderus bod prif weithredwyr naw—credaf fy mod yn iawn wrth ddweud hynny— o 10 cyngor yn ne-ddwyrain Cymru yn dweud eu bod yn poeni y gallai Caerdydd eu cymryd drosodd ac wedi gofyn beth yw'r fantais iddynt hwy. Dyna'r math o sinigiaeth y mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i'w oresgyn—fe wnaethoch chi sôn yn eich sylwadau agoriadol ynghylch goresgyn yr heriau hynny. Efallai bod y ffaith fod yr adroddiad yn cyfeirio at 'ddinas-ranbarth Caerdydd' yn rhan o'r broblem, yn hytrach na'i galw'n rhywbeth fel 'dinas-ranbarth de-ddwyrain Cymru', er mai Caerdydd yn amlwg yw'r brif ddinas yn yr ardal honno. Mae angen rhoi ystyriaeth i sut y gallwn ddenu buddsoddwyr allanol yn ogystal â rhoi coel ar y farn y gallai'r rhanbarth, heb sylw dyledus, ddod yn estyniad o Gaerdydd.

The city regions strategy is in no way a short-term fix, but a long-term project that makes us look at a slightly different form of economic regeneration, and the whole region needs to feel included in that. I, like you, have no doubt that city regions, if implemented correctly, will have a considerable positive economic impact on the fortunes of the areas in which they are located, and that will hopefully have a knock-on effect on other parts of Wales. I was encouraged to see a call in the report for an overarching city regions strategic planning tier to ensure that city region hinterlands benefit as well. Perhaps in the future, that would remove the need for the plethora of local development plan-type documents that we have scattered around that are not always connected together. Hopefully, therefore, planning will feature significantly in your eventual response to this report.

Yn sicr nid ateb tymor byr yw strategaeth y dinas-ranbarthau. Yn hytrach, mae'n brosiect tymor hir sy'n gwneud i ni edrych ar adfywiad economaidd mewn ffordd ychydig yn wahanol, ac mae angen i'r rhanbarth cyfan deimlo'n rhan o hynny. Fel chithau, nid oes gennyf amheuaeth na fydd dinas-ranbarthau, os cânt eu gweithredu'n gywir, yn cael effaith economaidd gadarnhaol sylweddol ar ffyniant yr ardaloedd lle y cânt eu lleoli, ac y bydd hynny, gobeithio, yn cael effaith ar rannau eraill o Gymru. Roedd yn galonogol gweld bod yr adroddiad yn cynnwys galwad am haen trosfwaol ar gyfer cynllunio strategol yn y dinas-ranbarthau er mwyn sicrhau bod cyrion y dinas-ranbarthau'n elwa yn ogystal. Efallai yn y dyfodol, y byddai hynny'n dileu'r angen am y llu o gynlluniau datblygu lleol a dogfennau tebyg sydd wedi eu gwasgaru o gwmpas nad ydynt bob amser yn gysylltiedig â'i gilydd. Gobeithio, felly, y bydd cynllunio yn cael sylw arwyddocaol yn eich ymateb i'r adroddiad hwn yn y pen draw.

North Wales has been mentioned and will be spoken about more by Aled Roberts. There is, of course, a porous nature to the border in north Wales. North-east Wales is closely linked to, and reliant on, the economies of Chester, Wrexham and Deeside. I heard what the Minister said in her opening remarks about the fact that the research in the report does not necessarily highlight any strong call for a city region in the area, but you have only to look at agencies such as the Mersey Dee Alliance over the border, which seems to be doing a very successful job, to understand why there are calls for some kind of arrangement in north Wales. Even if it is not a fully fledged city region, it could be one that helps to develop the economies in Flintshire and, indeed, across the border, which are closely tied.

Mae gogledd Cymru wedi cael ei grybwyll a bydd Aled Roberts yn siarad mwy am hynny. Wrth gwrs, mae’r ffin yng ngogledd Cymru yn un hydraidd i ryw raddau. Mae gogledd-ddwyrain Cymru wedi’i chysylltu’n agos ag economïau Caer, Wrecsam a Glannau Dyfrdwy, ac yn dibynnu arnynt. Clywais yr hyn a ddywedodd y Gweinidog yn ei sylwadau agoriadol ynghylch y ffaith nad oedd y gwaith ymchwil yn yr adroddiad o reidrwydd yn amlygu unrhyw alwad gref am ddinas-ranbarth yn yr ardal, ond nid oes ond angen edrych ar asiantaethau megis Cynghrair Mersi a’r Ddyfrdwy dros y ffin, sy’n ymddangos yn llwyddiannus iawn, i ddeall pam y ceir galw am ryw fath o drefniant yng ngogledd Cymru. Hyd yn oed os nad yw’n ddinas-ranbarth gyflawn, gallai fod yn un sy’n cynorthwyo i ddatblygu’r economïau yn Sir y Fflint ac, yn wir, ar draws y ffin, gan fod cysylltiad agos rhyngddynt.

Reference has been made to improving the M4 and to the call for a Valleys metro. That would certainly have many additional benefits for those based outside the regions involved. I know that the economic conditions are currently making this difficult, but I strongly believe that such improvements to the transport network could have a really positive impact on the whole of Wales.

Cyfeiriwyd at wella’r M4 ac at y galw am metro ar gyfer y Cymoedd. Byddai hynny’n sicr yn dwyn llawer o fanteision ychwanegol ar gyfer pobl sydd y tu allan i’r rhanbarthau dan sylw. Gwn fod yr amgylchiadau economaidd ar hyn o bryd yn gwneud hyn yn anodd, ond credaf yn gryf y gallai gwelliannau o’r fath i’r rhwydwaith trafnidiaeth gael effaith gadarnhaol iawn ar Gymru gyfan.

I think that we would all agree that a vital ingredient is to ensure that all tiers of Government work together to make a success of this scheme, a point that was made by Eluned Parrott in her comments. Local authorities and other local agencies need to be working together. These city regions will cover particularly large areas, larger than we have seen covered by local authorities and the like before. Therefore, it is important that we use the experience gathered by agencies in different regions of Wales so that that can be fed into the city regions programme to maximise the economic effects.

Credaf y byddem oll yn cytuno mai un elfen hanfodol yw sicrhau bod pob haen o Lywodraeth yn gweithio gyda’i gilydd i sicrhau llwyddiant y cynllun hwn, pwynt a wnaed gan Eluned Parrott yn ei sylwadau. Mae angen i awdurdodau lleol ac asiantaethau lleol eraill weithio gyda’i gilydd. Bydd y dinas-ranbarthau hyn yn cwmpasu ardaloedd arbennig o fawr, mwy nag y mae awdurdodau lleol a’u tebyg wedi eu cwmpasu yn y gorffennol. Felly, mae’n bwysig ein bod yn defnyddio’r profiad a gasglwyd gan asiantaethau mewn gwahanol rannau o Gymru i gyfrannu at raglen y dinas-ranbarthau er mwyn manteisio i’r eithaf ar yr effeithiau economaidd.

I think that you said earlier, Minister, that you will be making a statement on enterprise zones, which I look forward to. We have

Credaf ichi ddweud yn gynharach, Weinidog, y byddwch yn gwneud datganiad ar ardaloedd menter, ac rwyf yn edrych ymlaen

been waiting a number of months for a development in the enterprise zone policy, and perhaps that is down to this programme as well, because I am sure that you would agree that the enterprise zone policy needs to dovetail with the city regions policy. I think that I am right in saying that, in south-east Wales, there are three potential enterprise zone areas that need to be brought together. These are two tools to stimulate economic growth that need to work with each other and not against each other. I would be interested to know how the Minister plans for this to happen, perhaps when she has made the announcement on enterprise zones.

at hynny. Rydym wedi bod yn aros am ddatblygiad ym mholisi'r ardaloedd menter ers nifer o fisoedd, ac efallai bod y rhaglen hon yn gyfrifol am hynny hefyd, oherwydd rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod angen i'r polisi ar ardaloedd menter gyd-fynd â'r polisi ar ddinas-ranbarthau. Credaf fy mod yn iawn wrth ddweud bod tair ardal fenter bosibl y mae angen eu dwyn at ei gilydd yn ne-ddwyrain Cymru. Dyma ddau offeryn i ysgogi twf economaidd y mae angen iddynt weithio gyda'i gilydd ac nid yn erbyn ei gilydd. Byddai'n ddiddorol gwybod sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu i hyn ddigwydd, efallai pan mae hi wedi gwneud y cyhoeddiad ar ardaloedd menter.

We will be supporting the Lib Dem amendments. I am pleased to hear that the Minister is supporting the Welsh Conservatives' amendments. This policy has great potential for the future.

Byddwn yn cefnogi gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol. Rwyf yn falch o glywed bod y Gweinidog yn cefnogi gwelliannau'r Ceidwadwyr Cymreig. Mae gan y polisi hwn botensial mawr ar gyfer y dyfodol.

**Mike Hedges:** I warmly welcome the proposals. The city regions are something that can do a great deal for Wales. I was looking at the Swansea and Cardiff city regions and it was interesting to see how closely they correspond to the area where the majority of football support comes from. Therefore, there is already a feeling of regional identity in those two areas, through football. However, something needs to be done about north Wales. We cannot have two city regions without thinking about the rest. Therefore, there needs to be something for mid and north Wales in the proposals.

**Mike Hedges:** Croesawaf y cynigion yn fawr. Mae'r dinas-ranbarthau yn rhywbeth a all wneud llawer iawn i Gymru. Roeddwn yn edrych ar ddinas-ranbarthau Abertawe a Chaerdydd ac roedd yn ddiddorol gweld pa mor agos y maent yn cyfateb i'r ardal o'r lle y daw'r rhan fwyaf o'r gefnogaeth i'r timau pêl-droed. Felly, ceir teimlad o hunaniaeth ranbarthol eisoes yn y ddwy ardal, trwy bêl-droed. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhywbeth ynghylch gogledd Cymru. Ni allwn gael dwy ddinas-ranbarth heb feddwl am y gweddill. Felly mae angen cael rhywbeth ar gyfer canolbarth a gogledd Cymru yn y cynigion.

I would like to talk about the success of Greater Manchester. I listened to what Nick Ramsay said, and one of the greatest strengths of Greater Manchester is that everyone knows what Greater Manchester is, while places like Bolton, Bury, Salford and Stockport have not lost their individual identities. That really is the key.

Hoffwn siarad am lwyddiant Manceinion Fwyaf. Gwrandewais ar yr hyn a ddywedodd Nick Ramsay, ac un o gryfderau mwyaf Manceinion Fwyaf yw bod pawb yn gwybod beth yw Manceinion Fwyaf, ond nad yw mannau fel Bolton, Bury, Salford a Stockport wedi colli eu hunaniaeth unigol. Dyna sy'n allweddol.

5.15 p.m.

17:15

I am going to talk mainly about Swansea, which will surprise people, but it is really important that, whatever we have, it does not lead to one city taking up all of the

Rwyf yn mynd i siarad yn bennaf am Abertawe, a fydd yn syndod i bobl, ond mae'n bwysig iawn na fydd yr hyn sydd gennym, beth bynnag fydd hynny, yn peri i

hinterland. Every area must keep its own identity. Greater Manchester has achieved it. It is an area far bigger than either of the two city regions that we have put forward. In fact, it is an area not much smaller than the whole of Wales.

un ddinas gymryd yr ardal gyfan drosodd. Mae'n rhaid i bob ardal gadw ei hunaniaeth ei hun. Mae Manceinion Fwyaf wedi cyflawni hyn. Mae'n ardal llawer mwy na'r un o'r ddwy ddinas-ranbarth yr ydym ni wedi eu cynnig. Yn wir, mae'n ardal nad yw'n llawer llai na Chymru gyfan.

With regard to some of the things mentioned in the Haywood commission, such as critical mass, Swansea will be relatively small for a city region, but I think that it has the critical mass to take it forward. In terms of traffic flows, as someone who spends a lot of time on the M4 and lives close to junction 46, I am well aware of the amount of traffic that moves both ways in the area. Carmarthenshire and Neath Port Talbot traffic comes through, and there is traffic coming down the Swansea valley. One of the difficulties that the Minister and others have is that the areas of Ystradgynlais and Abercrave, which are currently in Powys, look very much towards Swansea, the Swansea valley, and Neath, rather than looking to the north.

O ran rhai o'r pethau a grybwyllir yng nghomisiwn Haywood, er enghraifft màs critigol, bydd Abertawe yn gymharol fach fel dinas-ranbarth, ond rwyf yn credu bod ganddi'r màs critigol i fwrw ymlaen â'r syniad. O ran llif traffig, fel rhywun sy'n treulio llawer o amser ar yr M4 ac sy'n byw yn agos at gyffordd 46, rwyf yn ymwybodol iawn o faint o draffig sy'n llifo i'r ddau gyfeiriad yn yr ardal. Mae traffig Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot yn dod trwy'r ardal, ac mae traffig yn dod i lawr cwm Tawe. Un o'r anawsterau sydd gan y Gweinidog ac eraill yw bod ardaloedd Ystradgynlais ac Abercraf, sydd ar hyn o bryd ym Mhowys, yn sicr yn edrych tuag at Abertawe, cwm Tawe, a Chastell-nedd, yn hytrach nag i'r gogledd.

Existing structures of Government are in place. We know that we have the South West Wales Integrated Transport Consortium for transportation, and we have the South West Wales Economic Forum. It is about people believing in a city region. That is one of the great strengths of not putting Cardiff and Swansea together. I do not think that you would have had the belief in either city that they belonged to the same region. We might be only 45 or 42 miles apart, but you need people to believe that they belong to these regions.

Mae strwythurau presennol Llywodraeth yn eu lle. Gwyddom fod gennym Gonsortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru ar gyfer cludiant, ac mae gennym Fforwm Economaidd De-orllewin Cymru. Mae'n ymwneud â sicrhau bod pobl yn credu yn y ddinas-ranbarth. Dyna un o gryfderau mawr peidio â rhoi Caerdydd ac Abertawe gyda'i gilydd. Nid wyf yn meddwl y byddech wedi cael pobl yn y naill ddinas na'r llall i gredu eu bod yn perthyn i'r un rhanbarth. Efallai nad ydym ond 45 neu 42 o filltiroedd i ffwrdd oddi wrth ein gilydd, ond mae angen i bobl gredu eu bod yn perthyn i'r rhanbarthau hyn.

One of the ridiculous things, following local government reorganisation, is that we have 22 planning authorities in Wales, which are making decisions on structure plans that massively affect their neighbours. Parc Trostre, which was built in Llanelli, has had a huge effect on Swansea, just as, I am sure, Fforestfach retail park has had a huge effect on Llanelli. All these developments mean that we need some sort of structure to look at the whole. We have always had minor problems. I remember when the old Lliw

Un o'r pethau chwerthinllyd, ers ad-drefnu llywodraeth leol, yw bod gennym 22 o awdurdodau cynllunio yng Nghymru, sy'n gwneud penderfyniadau ar gynlluniau strwythurol sy'n effeithio'n aruthrol ar eu cymdogion. Mae Parc Trostre, a adeiladwyd yn Llanelli, wedi cael effaith enfawr ar Abertawe, yn union fel y mae parc manwerthu Fforestfach, rwyf yn siŵr, wedi cael effaith enfawr ar Lanelli. Mae'r holl ddatblygiadau hyn yn golygu bod angen rhyw fath o strwythur arnom i edrych ar y darlun

Valley Borough Council put Clydach market at the very edge of what was part of the Lliw valley district. We really need a structure in place. What we do not want, however, is to have the South West Wales Economic Forum and SWWITCH writ large. There has to be more to it than that. It has to be not just collaboration between local authorities, but regional working. It has to sort out regions.

cyfan. Mae mân broblemau wastad wedi bodoli. Cofiaf pan roddwyd marchnad Clydach, gan Gyngor Bwrdeistref Dyffryn Lliw gynt, ar ymyl pellaf yr hyn a oedd yn rhan o ardal dyffryn Lliw. Mae gwir angen strwythur arnom. Yr hyn nad ydym am ei weld, fodd bynnag, yw Fforwm Economaidd De-orllewin Cymru a Chonsortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru ar raddfa fawr. Rhaid bod mwy i'r cynllun na hynny. Mae'n rhaid iddo fod yn fwy na chydweithredu rhwng awdurdodau lleol. Rhaid iddo olygu dull gweithio rhanbarthol. Mae'n rhaid iddo ddatrys mater y rhanbarthau.

I may be out of synch with others on is this, but if you are going to have a city region, you must have a city region for all services. If you look at where I live in Swansea, I belong to the South Wales Police Authority, Mid and West Wales Fire and Rescue Authority, and Swansea council, which is part of south-west Wales. If you go to Llanelli, the people there have different authorities. If you are going to have a structure, then people right the way across, in terms of health authorities and everything else, need one structure. If you want to get a city region into people's minds, it has to be the city. You cannot say, 'Oh well, you belong to a city for economic purposes, but, by the way, when it comes to health or transportation, you are in with someone else.' It has to be one overarching city region and it has to be the city region for everything.

Efallai nad wyf yn cytuno â phobl eraill ynglŷn â hyn, ond os ydych yn mynd i gael dinas-ranbarth, rhaid i chi gael dinas-ranbarth ar gyfer yr holl wasanaethau. Os edrychwch ar ble rydw i'n byw yn Abertawe, rwyf yn perthyn i Awdurdod Heddlu De Cymru, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a chyngor Abertawe, sy'n rhan o dde-orllewin Cymru. Os ewch i Lanelli, mae gan y bobl yno awdurdodau gwahanol. Os ydych yn mynd i gael strwythur, yna mae ar bobl angen un strwythur ar gyfer y cwbl, o ran yr awdurdodau iechyd a phopeth arall. Os ydych am sefydlu dinas-ranbarthau ym meddyliau pobl, mae'n rhaid i bopeth ymwneud â'r ddinas. Ni allwch ddweud, 'O wel, rydych yn perthyn i ddinas at ddibenion economaidd, ond, gyda llaw, pan ddaw'n fater o iechyd neu gludiant, rydych gyda rhywun arall.' Mae'n rhaid cael un ddinas-ranbarth gyffredinol ac mae'n rhaid iddi fod yn ddinas-ranbarth ar gyfer popeth.

Finally, the creation of a Swansea city region is one that offers great opportunity, which we need to take for the benefit of south-west Wales as a whole. It would mean that all communities could start to take themselves forward. This calls for commitment across the region from everybody, including the councils and the Welsh Government.

Yn olaf, mae'r syniad o greu dinas-ranbarth Abertawe yn un sy'n cynnig cyfle gwych—cyfle y mae angen i ni fanteisio arno er budd de-orllewin Cymru yn ei chyfanrwydd. Byddai'n golygu y gallai pob cymuned ddechrau symud ei hun ymlaen. Mae hyn yn galw am ymroddiad ar draws y rhanbarth gan bawb, gan gynnwys y cynghorau a Llywodraeth Cymru.

**Lindsay Whittle:** The Party of Wales—Plaid Cymru very much welcomes this report and is broadly supportive of its aims. There are a number of issues and questions that arise that we believe must be kept in mind as we move forward. You can tell from my accent that I

**Lindsay Whittle:** Mae Plaid Cymru yn croesawu'r adroddiad hwn ac yn cefnogi ei amcanion yn gyffredinol. Mae yna nifer o faterion a chwestiynau sy'n codi y mae'n rhaid eu cadw mewn cof wrth i ni symud ymlaen, yn ein barn ni. Gallwch ddweud yn

am very proud to live in the Valleys, but I am equally proud of my capital city too. It is very important to me. The cities of south Wales owe their existence to the Valleys and we should never forget that. What we must do is ensure an approach to city regions that strengthens Valleys communities, safeguards regeneration and community development projects, including European funds, and delivers affordable integrated public transport. We are clear that any city region approach should have tackling poverty in the Valleys as a key priority. We also believe that there should be an emphasis on two-way traffic in the new city regions. Attention needs to be paid to job creation in the regions themselves. Developing integrated public transport and better transport more generally are key parts of this. We need to consider the best practical solutions to ensure a strategic regional approach to transport in these new regions and, as the Minister has said, that every local authority is included in this and is fully on board.

ôl fy acen fy mod yn falch iawn o fyw yn y Cymoedd, ond rwyf yr un mor falch o’m prifddinas hefyd. Mae’n bwysig iawn i mi. Mae dinasoedd de Cymru’n ddyledus i’r Cymoedd am eu bodolaeth, ac ni ddylem fyth anghofio hynny.  Yr hyn y mae’n rhaid i ni ei wneud yw sicrhau yr ymdrinnir â dinas-ranbarthau mewn modd sy’n cryfhau cymunedau’r Cymoedd, yn diogelu prosiectau adfywiad a datblygiad cymunedol, gan gynnwys cronfeydd Ewropeaidd, ac yn darparu trafnidiaeth gyhoeddus integredig fforddiadwy. Rydym yn glir y dylid rhoi blaenoriaeth allweddol, mewn unrhyw strategaeth ar gyfer dinas-ranbarthau, i fynd i’r afael â thlodi yn y Cymoedd. Rydym hefyd yn credu y dylai fod pwyslais ar draffig dwy-ffordd yn y dinas-ranbarthau newydd. Mae angen rhoi sylw i greu swyddi yn y rhanbarthau eu hunain. Rhannau allweddol o hyn fydd datblygu trafnidiaeth gyhoeddus integredig a gwell trafnidiaeth yn fwy cyffredinol. Mae angen i ni ystyried yr atebion ymarferol gorau i sicrhau agwedd ranbarthol strategol at drafnidiaeth yn y rhanbarthau newydd hyn ac, fel y mae’r Gweinidog wedi dweud, dylai pob awdurdod lleol gael ei gynnwys yn hyn a rhoi ei gefnogaeth lwyr.

Plaid Cymru is clear that, in order to deliver an integrated public transport network in the Wales city regions, new powers over rail will have to be devolved to this Assembly, including, crucially, control over Network Rail. We would also seek the powers to suspend the Transport Act 1985 so that we can integrate and regulate public transport along the lines of Transport for London, ensuring the standardisation of branding and ticketing. Imagine the vast improvements in transport throughout south Wales that this could bring and the opportunities it would open up to communities all over the Valleys. The Party of Wales is clear that, for a successful city regions approach, this must be viewed as a partnership between Cardiff, Newport, Swansea, the Valleys and other urban centres of South Wales. We are calling for an emphasis on two-way traffic in the city regions. We do not believe that the city regions approach will work if the aim is simply to get people out of the Valleys and into the coastal cities. We must ensure that community regeneration and jobs growth are

Mae Plaid Cymru yn bendant y bydd yn rhaid datganoli pwerau newydd dros y rheilffyrdd i’r Cynulliad hwn er mwyn gallu darparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig yn ninas-ranbarthau Cymru, gan gynnwys, yn hollbwysig, rheolaeth dros Network Rail. Byddem hefyd yn ceisio pwerau i atal Deddf Trafnidiaeth 1985 fel y gallwn integreiddio a rheoleiddio trafnidiaeth gyhoeddus yn yr un modd â Transport for London, gan sicrhau bod brandiau a thocynnau yn cael eu safoni. Dychmygwch y gwelliannau enfawr y gellid eu cyflwyno mewn trafnidiaeth ledled de Cymru, a’r cyfleoedd y byddai hyn yn eu cyflwyno i gymunedau ar hyd a lled y Cymoedd. Mae Plaid Cymru’n glir bod yn rhaid gweld dinas-ranbarthau fel partneriaeth rhwng Caerdydd, Casnewydd, Abertawe, y Cymoedd a chanolfannau trefol eraill de Cymru er mwyn iddynt fod yn llwyddiannus. Rydym yn galw am bwyslais ar draffig dwy-ffordd yn y dinas-ranbarthau. Nid ydym yn credu y byddant yn gweithio os mai’r nod yn syml yw cael pobl allan o’r Cymoedd ac i

encouraged in the Valleys and that the Valleys are not put in further danger. If you ignore the Valleys, they will march down here with flags flying and drums beating, I can assure you. However, there are exciting opportunities for the Valleys that need to be exploited, particularly in tourism and leisure.

mewn i'r dinasoedd arfordirol. Rhaid inni sicrhau bod adfywiad cymunedol a thwf mewn swyddi yn cael eu hannog yn y Cymoedd ac na roddir y Cymoedd mewn mwy o berygl. Os byddwch yn anwybyddu'r Cymoedd, byddant yn gorymdeithio yma gyda'u baneri'n hedfan a'u drymiau'n curo, gallaf eich sicrhau. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd cyffrous i'r Cymoedd y mae angen manteisio arnynt, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.

Further to this, the city regions approach will have implications for housing. Many Valleys towns are already commuter towns, but if we improve transport links, which we strongly support, families will be enabled to live in Valleys towns and access job opportunities in Cardiff and Swansea without having to move. However, the reverse is also true, and the report recommends that the growth of Cardiff be shared throughout the region rather than just in Cardiff. That is something that could have implications for Cardiff council's recent moves to allow the building of tens of thousands of new homes. At the same time, the bulk of the Valleys population will need services in the Valleys themselves. We need to keep in mind throughout all of this that not everyone will be able to commute out of the Valleys, and that should not be the aim of any Government policy.

Yn ogystal â hyn, bydd gan y dinas-ranbarthau oblygiadau ym maes tai. Mae llawer o drefi'r Cymoedd eisoes yn drefi ar gyfer cymudwyr, ond os ydym yn gwella cysylltiadau trafnidiaeth, sef rhywbeth yr ydym yn ei gefnogi'n gryf, bydd teuluoedd yn cael eu galluogi i fyw mewn trefi yn y Cymoedd a manteisio ar gyfleoedd gwaith yng Nghaerdydd ac Abertawe heb orfod symud. Fodd bynnag, mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir, ac mae'r adroddiad yn argymell y dylai twf Caerdydd gael ei rannu ar draws y rhanbarth yn hytrach na dim ond yng Nghaerdydd. Mae hynny'n rhywbeth a allai fod â goblygiadau i'r camau a gymerodd cyngor Caerdydd yn ddiweddar i ganiatáu i ddegau o filoedd o gartrefi newydd gael eu hadeiladu. Ar yr un pryd, bydd ar y rhan fwyaf o boblogaeth y Cymoedd angen gwasanaethau yn y Cymoedd eu hunain. Mae angen i ni gadw mewn cof drwy hyn i gyd na fydd pawb yn gallu cymudo allan o'r Cymoedd, ac ni ddylai hynny fod yn nod i unrhyw un o bolisïau'r Llywodraeth.

The Party of Wales's vision is therefore of an interdependent two-way relationship between the Valleys and cities aimed at securing viable communities with a regional approach to transport that links these communities with each other and with cities, with enhanced economic development in the cities. If the city regions approach does not focus on strong partnership with every community in south Wales and our regional cities, it will not be successful. The lessons of Cardiff's failed bid for European City of Culture status should be remembered. The lack of involvement with the town and communities of the wider south-east Wales region was a key reason in its failure to secure the bid. Cardiff and Newport were not included in the first round of Objective 1 funding. Would the

Gweledigaeth Plaid Cymru felly yw un o berthynas gyd-ddibynnol dwy-ffordd rhwng y Cymoedd a'r dinasoedd gyda'r nod o sicrhau cymunedau hyfyw, ac agwedd ranbarthol at drafnidiaeth sy'n cysylltu'r cymunedau hyn gyda'i gilydd a chyda dinasoedd, gyda gwell datblygiad economaidd yn y dinasoedd. Os nad yw'r agwedd at y dinas-ranbarthau yn canolbwyntio ar bartneriaeth gref gyda phob cymuned yn ne Cymru a'n dinasoedd rhanbarthol, ni fydd yn llwyddiannus. Dylid cofio gwersi cais aflwyddiannus Caerdydd i fod yn Ddinas Diwylliant Ewrop. Roedd y ffaith na lwyddwyd i ymgysylltu â threfi a chymunedau ehangach rhanbarth y de-ddwyrain yn rheswm allweddol dros fethiant y cynnig. Ni chafodd Caerdydd a

creation of city regions, with poor areas of the Valleys more formally linked to Cardiff and Newport, affect the regional specifications and potentially jeopardise EU funding? This is something that needs to be clarified.

Chasnewydd eu cynnwys yn rownd gyntaf cyllid Amcan 1. Pe byddem yn creu dinas-ranbarthau, gan gysylltu ardaloedd tlawd y Cymoedd yn fwy ffurfiol â Chaerdydd a Chasnewydd, a fyddai hynny'n effeithio ar y manylebau rhanbarthol ac o bosibl yn peryglu ein gallu i sicrhau cyllid yr UE? Mae hyn yn rhywbeth y mae angen ei egluro.

The report raises the issue of governance and recommends that, in order for a city region approach to be successful, formal structures would have to be implemented to oversee regional transport co-ordination. What would the structure look like? What involvement would local authorities have? The status of the city of Newport is a concern in any implementation of a Cardiff city region. There is no doubt that Newport is under pressure from its neighbours, Cardiff and Bristol, and serious consideration must now be given to how Newport, the third-largest city, can be fully included and not undermined by being placed in a region with Cardiff as it is focus. The same issue is relevant to other small but significant urban centres throughout the two regions.

Mae'r adroddiad yn codi pwnc llywodraethu ac yn argymell y byddai'n rhaid gweithredu strwythurau ffurfiol i oruchwylio'r gwaith o gydgysylltu cludiant rhanbarthol, er mwyn i ddinas-ranbarthau fod yn llwyddiannus. Sut byddai'r strwythur yn edrych? Beth fyddai rhan yr awdurdodau lleol? Mae statws dinas Casnewydd yn peri pryder pe byddid yn gweithredu dinas-ranbarth Caerdydd. Nid oes amheuaeth bod Casnewydd o dan bwysau gan ei chymdogion, Caerdydd a Bryste, a rhaid rhoi ystyriaeth ddifrifol bellach i sut y gellir cynnwys Casnewydd, y drydedd ddinas fwyaf, yn llawn a pheidio â'i thanseilio trwy ei rhoi mewn rhanbarth sydd â Chaerdydd yn ffocws iddi. Mae'r un mater yn berthnasol i ganolfannau trefol eraill bach ond sylweddol ar draws y ddwy ranbarth.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Conclude now please.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Dewch i ben yn awr, os gwelwch yn dda.

**Lindsay Whittle:** I will. Finally, the report does not recommend a city region in north-east Wales, and we support that. We do not believe that it would benefit the north-east of Wales to be placed across the border in metropolitan regions.

**Lindsay Whittle:** Gwnaf. Yn olaf, nid yw'r adroddiad yn argymell dinas-ranbarth yng ngogledd-ddwyrain Cymru, ac rydym yn cefnogi hynny. Nid ydym yn credu y byddai o fudd i ogledd-ddwyrain Cymru gael ei roi mewn rhanbarthau metropolitan ar draws y ffin.

**Kenneth Skates:** May I begin by thanking the task and finish group for a report that makes a most compelling case for the establishment of city regions? Of course, the report is also very timely. Moves are afoot in the EU to top-slice 5% of the next round of structural funds for the purpose of city regions. Derek Vaughan MEP is working hard to ensure that the definition of city regions is left to regional governments rather than national governments or the EU to ensure that we can maximise the benefits. I would urge the Government to support the MEP's attempt to ensure that we get the best from those structural funds.

**Kenneth Skates:** A gaf ddechrau trwy ddiolch i'r grŵp gorchwyl a gorffen am adroddiad sy'n cyflwyno achos grymus iawn dros sefydlu dinas-ranbarthau? Wrth gwrs, mae'r adroddiad hefyd yn amserol iawn. Mae cynlluniau ar y gweill yn yr UE i frigdorri 5% o gylch nesaf y cronfeydd strwythurol ar gyfer dinas-ranbarthau. Mae Derek Vaughan ASE yn gweithio'n galed i sicrhau y caniateir i lywodraethau rhanbarthol yn hytrach na llywodraethau cenedlaethol neu'r UE ddiffinio dinas-ranbarthau er mwyn sicrhau y gallwn wneud y gorau o'r manteision. Byddwn yn annog y Llywodraeth i gefnogi ymgais yr ASE i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cronfeydd strwythurol hynny.

The task and finish group's appraisals define city regions as a place where most of the population conduct most of their lives as

Mae gwerthusiadau'r grŵp gorchwyl a gorffen yn diffinio dinas-ranbarthau fel rhywle lle mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn byw'r rhan fwyaf o'u bywydau, fel

'a network of urban communities, linked by functional economic and social ties to a hinterland.'

rhwydwaith o gymunedau trefol, wedi eu cysylltu ag ardal o'u cwmpas gan gysylltiadau economaidd a chymdeithasol swyddogaethol.

It looked at criminal mass, traffic flows, community identification and existing structures of governance as determining factors for the formation of city regions. The task and finish group stressed repeatedly that city region boundaries must reflect economic reality, not political or administrative boundaries. Therefore, I was disappointed that the task and finish group failed to recommend a city region for north-east Wales, but I am delighted today by the Minister's statement.

Edrychodd ar fàs critigol, llif traffig, hunaniaeth gymunedol a strwythurau llywodraethu presennol fel ffactorau a fydd yn llywio'r broses o ffurfio dinas-ranbarthau. Pwysleisiodd y grŵp gorchwyl a gorffen dro ar ôl tro bod yn rhaid i ffiniau dinas-ranbarth adlewyrchu realiti economaidd yn hytrach na ffiniau gwleidyddol neu weinyddol. Felly, roeddwn yn siomedig na wnaeth y grŵp gorchwyl a gorffen argymell dinas-ranbarth ar gyfer gogledd-ddwyrain Cymru, ond roeddwn wrth fy modd yn clywed datganiad y Gweinidog heddiw.

The report states clearly that the area driving economic activity spans the border into England and that the Federation of Small Businesses, the north Wales economic forum, the creative industries panels and local authorities on both sides of the border all support the creation of a city region or another such model. The area reaches the critical mass of 0.5 million people. With regard to traffic flows, our airports are Liverpool and Manchester ,and our main arteries of economic activity are the M56, the A55 and the A483. There is no doubt that the majority of people work, trade, shop and live in the proposed Dee city region.

Mae'r adroddiad yn datgan yn glir bod yr ardal sy'n sbarduno gweithgarwch economaidd yn croesi'r ffin â Lloegr, a bod y Ffederasiwn Busnesau Bach, Fforwm Economaidd Gogledd Cymru, paneli'r diwydiannau creadigol ac awdurdodau lleol ar ddwy ochr y ffin i gyd yn cefnogi'r syniad o greu dinas-ranbarth neu fodel arall o'r fath. Mae'r ardal yn cyrraedd y màs critigol, sef 0.5 miliwn o bobl. O ran llif traffig, ein meysydd awyr yw Lerpwl a Manceinion, a'r M56, yr A55 a'r A483 yw prif wythiennau ein gweithgarwch economaidd. Nid oes amheuaeth bod y rhan fwyaf o bobl yn gweithio, masnachu, siopa ac yn byw yn ninas-ranbarth arfaethedig Dyfrdwy.

Just as important are the social and cultural connections that bind us. Mapping of communications proves the strongest ties the people of north-east Wales have are with their friends and families in the north-west of England. This is supported by the fact that the majority of people in my friend Carl Sargeant's constituency are English born, many from the north-west. In Cheshire and Merseyside, you will find a plethora of Welsh names and families.

Mae'r cysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol sy'n ein huno yr un mor bwysig. Trwy fapio llinellau cyfathrebu, profir mai gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd yng ngogledd-orllewin Lloegr y mae cysylltiadau cryfaf pobl gogledd-ddwyrain Cymru. Caiff hyn ei gefnogi gan y ffaith bod y rhan fwyaf o bobl yn etholaeth fy ffrind Carl Sargeant wedi eu geni yn Lloegr, a llawer o'r rheiny o'r gogledd-orllewin. Yn Swydd Gaer a Glannau Mersi, fe ddewch o hyd i lu o enwau a theuluoedd Cymreig.

In sport, the people of north-east Wales, I am afraid, would never conceive of supporting Swansea or Cardiff. However, we congregate in our thousands every weekend at Anfield, Goodison Park, the Racecourse ground and, sadly, some at Old Trafford. [*Interruption*.]

Mewn chwaraeon, mae arnaf ofn na fyddai pobl gogledd-ddwyrain Cymru fyth yn ystyried cefnogi Abertawe neu Gaerdydd. Fodd bynnag, rydym yn ymgynnull yn ein miloedd bob penwythnos yn Anfield, Goodison Park, y Cae Ras a rhai, yn anffodus, yn Old Trafford. [*Ymyriad*.]

**Ann Jones:** What about Rhyl?

**Ann Jones:** Beth am y Rhyl?

**Kenneth Skates:** Yes, and Rhyl. I realise the reality of our interdependence may be to the distaste of some, but I believe that it is time that we turned our insecurities, fears and suspicions into confidence, friendship and boldness. Three concerns most often expressed in regard to cross-border collaboration are that it benefits primarily our English cousins, that housing policy will result in an influx of people from England and that our cultural identity will be diluted.

**Kenneth Skates:** Ie, a'r Rhyl. Rwyf yn sylweddoli efallai y bydd realiti ein cyd-ddibyniaeth yn atgas gan rai, ond rwyf yn credu ei bod yn bryd inni droi ein hansicrwydd, ofnau ac amheuon yn hyder, cyfeillgarwch a beiddgarwch. Y tri phryder a fynegir amlaf o ran cydweithredu ar draws y ffin yw mai ein cefndryd yn Lloegr fyddai'n elwa fwyaf, y byddai'r polisi tai yn arwain at fewnlifiad o bobl o Loegr, ac y byddai ein hunaniaeth ddiwylliannol yn cael ei gwanhau.

With regard to housing, city regions are proven to deliver significant improvements to the planning process. They ensure that housing planning, such as spatial planning, is organised at a city region level. Therefore, in fact, through a Dee city region, we could massively ease tensions over housebuilding and prevent any excessive developments on either side of the border.

O ran tai, profwyd bod dinas-ranbarthau yn sicrhau gwelliannau sylweddol i'r broses gynllunio. Maent yn sicrhau bod y broses cynllunio tai, megis cynllunio gofodol, yn cael ei threfnu ar lefel dinas-ranbarth. Felly, mewn gwirionedd, trwy sefydlu rhanbarth dinas Dyfrdwy, gallem leddfu tensiynau ym maes adeiladu tai yn aruthrol, ac atal unrhyw ddatblygiadau gormodol ar y ddwy ochr i'r ffin.

With regard to who benefits from cross-border collaboration, it is a reality that business and commerce do not respect geographical boundaries. In the global world in which we live, there is no room to withdraw and to live in splendid isolation. Instead, we need to be bold, confident and secure in who we are and what we have to offer as a city region. Indeed, Wrexham's greatest attribute is that it is on the edge of the border, giving it unique strength as one of the biggest towns in Wales and an opportunity for which many English towns just over the border have to compete with one another.

O ran pwy sy'n elwa ar gydweithrediad ar draws y ffin, y gwirionedd yw nad yw busnes a masnach yn parchu ffiniau daearyddol. Yn y byd cydgysylltiedig lle'r ydym yn byw, nid oes lle i dynnu'n ôl a bod yn ynysig. Yn hytrach, mae angen i ni fod yn feiddgar, yn hyderus ac yn sicr yn ein hunaniaeth a'r hyn sydd gennym i'w gynnig fel dinas-ranbarth. Yn wir, nodwedd bwysicaf Wrecsam yw ei bod ar ymyl y ffin, sy'n rhoi mantais unigryw iddi fel un o'r trefi mwyaf yng Nghymru. Mae'n rhaid i lawer o drefi Lloegr yr ochr arall i'r ffin gystadlu â'i gilydd i ennill yr un cyfle.

We can and should export our cultural identity to the world. However, if we are too insecure to attempt this with our closest relatives, how on earth can we hope to retain who we are when striving to work with

Gallwn a dylem allforio ein hunaniaeth ddiwylliannol i'r byd. Fodd bynnag, os ydym yn rhy ansicr i geisio gwneud hyn gyda'n perthnasau agosaf, sut ar y ddaear gallwn ni obeithio cadw ein hunaniaeth wrth ymdrechu

different people around the globe? As the chair of the task and finish group has stressed, if we do not collaborate, our home-grown growth will shrivel. Economic stagnation represents a far greater threat to our culture and identity than seeking growth with our neighbours. In my view, good local governance would protect our respective cultures.

i weithio gyda gwahanol bobl o gwmpas y byd? Fel y mae cadeirydd y grŵp gorchwyl a gorffen wedi pwysleisio, os nad ydym yn cydweithio, bydd ein twf brodorol yn crebachu. Mae diffyg twf economaidd yn fygythiad llawer mwy i'n diwylliant a'n hunaniaeth na cheisio twf gyda'n cymdogion. Yn fy marn i, byddai trefniadau llywodraethu da yn lleol yn diogelu ein diwylliannau.

In closing, I thank the Minister for requesting that exploratory work is continued in north-east Wales. We have people in local government, business, education and culture who can take the region not just to the north-west of England, but to the world.

Wrth gloi, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ofyn i'r gwaith ymchwilio barhau yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Mae gennym bobl mewn llywodraeth leol, busnes, addysg a diwylliant a all fynd â'r rhanbarth nid yn unig i ogledd-orllewin Lloegr, ond i'r byd.

5.30 p.m.

17:30

**Byron Davies:** I am pleased to contribute to this debate, which is welcome, and, even more welcome is the change in policy if the Welsh Government takes this report to the heart of Government and acts. I want to welcome and highlight some of the key issues for me in this report and the city region concept. I welcome the First Minister's indication that his Government will implement this new approach to economic development, but we need formal clarification, sooner rather than later, on what that means, what resources you will bring to bear and, importantly, what improvements you will make to our transport infrastructure. If we are to make the city region concept work, the key is transport, transport, transport.

**Byron Davies:** Rwyf yn falch o gyfrannu at y ddadl hon, sy'n ddadl i'w chroesawu, ac mae mwy fyth o groeso i'r newid mewn polisi pe bai Llywodraeth Cymru yn cymryd yr adroddiad hwn i'w chalon ac yn gweithredu. Rwyf am groesawu a thynnu sylw at rai o'r materion allweddol, yn fy marn i, yn yr adroddiad hwn ac yng nghysyniad y dinas-ranbarthau. Rwyf yn croesawu awgrym y Prif Weinidog y bydd ei Lywodraeth yn rhoi'r agwedd newydd hon tuag at ddatblygiad economaidd ar waith, ond mae angen eglurhad ffurfiol, a gorau po gyntaf, o'r hyn y mae hynny'n ei olygu, pa adnoddau a fydd ar gael ac, yn bwysig, pa welliannau y byddwch yn eu gwneud i'n seilwaith trafnidiaeth. Os ydym am wneud i gysyniad y dinas-ranbarthau weithio, yr allwedd yw trafnidiaeth, trafnidiaeth, trafnidiaeth.

Our regions need to be accessible in terms of access to investment and support for businesses, but also in terms of the workforce. It is all well and good to acknowledge that if you draw a circle on a map, within that circle there is a potential workforce of 400,000 people, but that must be followed up by serious investment in transport infrastructure, which would mean—and I am sure that the Minister will appreciate this—that you could get easily from one end of Gower to the east side of Swansea, and back, during working hours. This is not rocket science, as I am sure that your Government is aware, but it means

Mae angen i'n rhanbarthau fod yn hygyrch o ran y buddsoddiad a'r gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau, ond hefyd o ran y gweithlu. Un peth yw cydnabod y gallwch dynnu llun cylch ar fap ac y bydd gennych weithlu posibl o 400,000 o bobl o fewn y cylch hwnnw, ond mae'n rhaid dilyn hynny â buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith trafnidiaeth, a fyddai'n golygu—ac rwyf yn yn siŵr y bydd y Gweinidog yn gwerthfawrogi hyn—y gallech gael o un pen o Benrhyn Gŵyr i ochr ddwyreiniol Abertawe, ac yn ôl, yn hawdd yn ystod oriau gwaith. Nid yw hyn y tu hwnt i ni, fel y mae eich Llywodraeth yn ymwybodol rwyf yn

serious investment. It means that, on the back of this report, we need this Government to put its money where its mouth is. That is needed when you clarify your Government's position formally later this month.

siŵr, ond mae'n golygu buddsoddiad sylweddol. Mae'n golygu bod arnom angen i'r Llywodraeth hon, yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, weithredu yn hytrach na siarad. Mae angen hynny pan fyddwch yn egluro sefyllfa eich Llywodraeth yn ffurfiol yn ddiweddarach y mis hwn.

Therefore, Minister, in picking up your challenge for solutions, I believe that the Swansea bay city region concept could deliver huge investment and jobs, and rekindle the economy locally, in and around Swansea. I hope that we all recognise, and the evidence seems pretty conclusive, that cities are the engine rooms of economies all over the world, with few exceptions, if any.

Felly, Weinidog, wrth dderbyn eich her i ddod o hyd i atebion, rwyf yn credu y gallai cysyniad dinas-ranbarth Bae Abertawe sicrhau buddsoddiad enfawr a swyddi, a rhoi hwb o'r newydd i'r economi yn lleol, yn Abertawe a'r cyffiniau. Rwyf yn gobeithio ein bod i gyd yn cydnabod, ac mae'r dystiolaeth yn ymddangos yn eithaf pendant, mai dinasoedd sy'n gyrru economïau ledled y byd, gydag ychydig eithriadau, os o gwbl.

There is a caveat to their success, however, and that is the level of investment and political will. We need local authorities to buy into this model and acknowledge that the governance arrangements are key. The Electoral Reform Society Wales has raised several interesting questions surrounding the governance. It has also pointed us to the potential danger that important decisions, like where to site new transport links or where to locate large waste facilities, could get bogged down in local tribalism and fall foul of horse trading behind closed doors. We need to ensure that the city regions are not mere quangos, with unelected commissioners muddying the water between the Welsh Government and local authorities. We need to build a partnership. Those are the key issues that I would like to see addressed in the Minister's clarification. We need serious infrastructure investment and sensible governance. In short, I generally welcome and commend this report.

Mae cafeat i'w llwyddiant, fodd bynnag, sef lefel y buddsoddiad a'r ewyllys wleidyddol. Mae arnom angen i awdurdodau lleol roi eu cefnogaeth i'r model hwn a chydnabod bod y trefniadau llywodraethu yn allweddol. Mae Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru wedi codi nifer o gwestiynau diddorol ynglŷn â llywodraethu. Mae hefyd wedi tynnu ein sylw at y perygl posibl y gallai penderfyniadau pwysig, megis lle i leoli cysylltiadau trafnidiaeth newydd neu gyfleusterau gwastraff mawr, gael eu llethu gan blwyfoldeb lleol a thramgwyddo trwy fargeinio â phleidleisiau y tu ôl i ddrysau caeedig. Mae angen i ni sicrhau bod dinas-ranbarthau yn fwy na dim ond cwangos, gyda chomisiynwyr anetholedig yn cymhlethu'r sefyllfa rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae angen i ni adeiladu partneriaeth. Dyna'r materion allweddol y byddwn yn hoffi iddynt gael sylw yn eglurhad y Gweinidog. Mae angen buddsoddiad sylweddol arnom ym maes seilwaith, a threfniadau llywodraethu synhwyrol. Yn gryno, rwyf yn gyffredinol yn croesawu ac yn cymeradwyo'r adroddiad hwn.

**Aled Roberts:** In view of the Minister's announcement this afternoon, it would be churlish for us to proceed with amendment 3. Under the circumstances, as I understand that the amendment has been moved, I make it clear, before expanding on our thoughts behind the amendment, that subject to the Assembly's agreement, we ask that that

**Aled Roberts:** O ystyried cyhoeddiad y Gweinidog brynhawn heddiw, byddai'n anfoesgar ohonom i fwrw ymlaen â gwelliant 3. O dan yr amgylchiadau, gan fy mod yn deall bod y gwelliant wedi ei gynnig, rwyf yn ei gwneud yn glir, cyn ehangu ar y syniadau a oedd wrth wraidd y gwelliant, ein bod yn gofyn, yn amodol ar gytundeb y Cynulliad,

amendment is withdrawn, Deputy Presiding Officer.

The opportunity afforded by the Minister's announcement this afternoon means that perhaps we can ensure that thought is given to some of the friction that arose out of the scenario that I experienced when I chaired the Mersey-Dee Alliance. It was the feeling of the local authorities in north-east Wales that it had to be recognised that all the travel-to-work arrangements, the communication links et cetera, in effect, were with the north-west of England. The fact that it had moved on from the spatial plan arrangements meant that there was some nervousness with regard to the planning implications of what we were being asked to buy into.

Some of the comments by the Electoral Reform Society with regard to the concept of city regions and their governance arrangements probably need to be thought out more clearly with regard to a situation in which there are differing arrangements on both sides of the border. Even some of the economic development opportunities were made more complex by the fact that we had the Northwest Regional Development Agency on one side of the border and the Welsh Government on the other, with totally different priorities for their key areas of business.

However, in the main, the nervousness in north-east Wales is not about the close proximity of, or the dependence upon, the economic drivers in England, but the planning policies of certain English authorities, which have very restrictive housing allocation policies and that means that Welsh authorities are being asked to pick up all the burden of planning. Therefore, we need to understand clearly what the governance arrangements are if we do go to a different model from city regions in north-east Wales.

I am certainly pleased that the Minister has felt able to indicate this afternoon that further work can be carried out. We need to encourage that cross-border participation because, if nothing else, it is nonsensical in

i'r gwelliant gael ei dynnu'n ôl, Ddirprwy Lywydd.

Mae'r cyfle a gynigir gan gyhoeddiad y Gweinidog brynhawn heddiw yn golygu efallai y gallwn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i beth o'r gwrthdaro a gododd o'r sefyllfa a brofais wrth gadeirio Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy. Teimlad awdurdodau lleol gogledd-ddwyrain Cymru oedd bod yn rhaid cydnabod mai gyda gogledd-orllewin Lloegr, mewn gwirionedd, yr oedd yr holl drefniadau teithio i'r gwaith, y cysylltiadau cyfathrebu ac ati. Roedd y ffaith ei fod wedi symud ymlaen o drefniadau'r cynllun gofodol yn golygu bod rhywfaint o nerfusrwydd ynghylch goblygiadau, o ran cynllunio, yr hyn yr oedd gofyn i ni roi ein cefnogaeth iddo.

Mae'n debyg bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i rai o sylwadau'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol ynglŷn â chysyniad y dinas-ranbarthau a'u trefniadau llywodraethu, yng nghyd-destun sefyllfa lle ceir gwahanol drefniadau ar ddwy ochr y ffin. Roedd hyd yn oed rhai o'r cyfleoedd datblygu economaidd yn fwy cymhleth oherwydd bod gennym Asiantaeth Datblygu Rhanbarthol y Gogledd-orllewin ar un ochr i'r ffin a Llywodraeth Cymru ar yr ochr arall, gyda blaenoriaethau hollol wahanol ar gyfer eu meysydd busnes allweddol.

Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw'r nerfusrwydd yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn ymwneud ag agosrwydd at Loegr, na dibyniaeth ar y ffactorau sy'n sbarduno'r economi yn Lloegr, ond yn hytrach â pholisïau cynllunio rhai awdurdodau yn Lloegr, gan fod ganddynt bolisïau cyfyngol iawn ar gyfer dyrannu tai sy'n golygu bod gofyn i awdurdodau Cymru ysgwyddo'r baich cynllunio i gyd. Felly, mae angen i ni ddeall yn glir beth yw'r trefniadau llywodraethu os byddwn yn troi at fodel gwahanol yn hytrach na dinas-ranbarthau yng ngogledd-ddwyrain Cymru.

Rwyf yn sicr yn falch bod y Gweinidog wedi teimlo y gallai nodi brynhawn heddiw y gellir gwneud gwaith pellach. Mae angen i ni annog y cyfranogiad traws-ffiniol hwnnw oherwydd ei bod yn hurt ym maes

road and rail communications, for example, not to have a tie-in on both sides of the border. It would make no sense, for example, for the Welsh Government to finance improvements to the A483 that stop at Pulford. I am therefore content not to lengthen the debate this afternoon, and I look forward to having the opportunity to address the concerns of north-east Wales in particular when we get the report back.

cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd, er enghraifft, os nad mewn unrhyw faes arall, i beidio â chydlynu trefniadau ar ddwy ochr y ffin. Ni fyddai'n gwneud synnwyr, er enghraifft, i Lywodraeth Cymru ariannu gwelliannau i'r A483 sy'n dod i ben yn Pulford. Rwyf felly yn fodlon peidio ag ymestyn y ddadl y prynhawn yma, ac edrychaf ymlaen at gael y cyfle i fynd i'r afael â phryderon gogledd-ddwyrain Cymru yn benodol pan gawn yr adroddiad yn ôl.

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I really welcome the opportunity provided by today's debate, because a number of the issues on which I shall be reflecting will probably come forward when I make my formal response to Elizabeth Haywood's report.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Rwyf wir yn croesawu'r cyfle a gawsom gan y ddadl heddiw, oherwydd y bydd nifer o'r materion y byddaf yn myfyrio arnynt yn codi wrth i mi wneud fy ymateb ffurfiol i adroddiad Elizabeth Haywood, mae'n debyg.

When Eluned Parrott made her initial contribution, I thought to myself that there is no doubt that supporting the report and its recommendations presents challenges. I feel as though I have opened Pandora's box in many ways, but it is important, particularly if we can get political consensus here, for us to drive through on the city regions. One of the most important aspects, of course, is the immediate issue of European structural funds, as referred to by Lindsay Whittle in his contribution. There is also the need for us to have clarity with regard to joined-up projects and what is required, and the city region concept allows us to do that within the European context.

Pan wnaeth Eluned Parrott ei chyfraniad cyntaf, meddyliais wrthyf fy hun nad oes unrhyw amheuaeth bod cefnogi'r adroddiad a'i argymhellion yn cyflwyno heriau. Rwy'n teimlo fel pe bawn wedi agor blwch Pandora mewn sawl ffordd, ond mae'n bwysig bwrw ymlaen â'r dinas-ranbarthau, yn enwedig os gallwn gael consensws gwleidyddol yma. Un o'r agweddau mwyaf pwysig, wrth gwrs, yw mater y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, fel y cyfeiriwyd atynt gan Lindsay Whittle yn ei gyfraniad. Mae hefyd angen i ni gael eglurder o ran prosiectau cydgysylltiedig a'r hyn sydd ei angen, ac mae cysyniad y dinas-ranbarthau yn caniatáu i ni wneud hynny o fewn y cyd-destun Ewropeaidd.

Eluned Parrott referred to governance models, as did Aled Roberts. There are going to be issues of governance models. It is very easy when they are totally within our borders, but if we are looking for anything in north Wales, it will be far more difficult. I suggest that what we could do, particularly on the comments that you made, Aled, and in the light of Ken Skates' comments as well, is to ask Dr Haywood whether she will convene a meeting with north Wales Members to discuss some of the issues arising, where they feel there are gaps in the discussion and what the future arrangements might be. That, therefore, might not enable me to reply fully to the next stage in respect of north Wales, but I think that it is important that we get

Cyfeiriodd Eluned Parrott, yn ogystal ag Aled Roberts, at fodelau llywodraethu. Bydd materion yn codi o ran modelau llywodraethu. Mae'n hawdd iawn pan fyddant yn llwyr o fewn ein ffiniau, ond os ydym yn ystyried rhywbeth yng ngogledd Cymru, bydd yn llawer mwy anodd. Rwyf yn awgrymu mai'r hyn y gallem ei wneud, yn enwedig ynglŷn â'r sylwadau a wnaethoch chi, Aled, ac yng ngoleuni sylwadau Ken Skates yn ogystal, yw gofyn i'r Dr Haywood a wnaiff hi drefnu cyfarfod gydag Aelodau'r gogledd i drafod rhai o'r materion sy'n codi, lle maent yn teimlo bod bylchau yn y drafodaeth a beth allai'r trefniadau yn y dyfodol fod. Mae'n bosibl, felly, na fyddaf yn gallu rhoi ymateb ynglŷn â'r cam nesaf ar

these discussions absolutely correct.

gyfer gogledd Cymru, ond credaf ei bod yn bwysig inni gael y trafodaethau hyn yn hollol gywir.

There has also been a lot said about transport links and so on by Byron Davies, Eluned Parrott and others. Let us be quite clear: the Minister for transport has been clear about the metro project. This is not a Cardiff metro; it is a south Wales metro project. We have to see these conversations and discussions in the light of what we are already doing in linking up transport requirements, be that with electrification or what we are doing in terms of funding. I have a clear understanding with my colleague Carl Sargeant of how these matters can be taken forward in what is, I must say, a very staged way, because there will be immediate priorities that emerge for city regions, such as how you deal with European structural funds and the economic fora that we will no longer have at the end of March—it is about how the structures play in.

Mae llawer wedi ei ddweud hefyd am gysylltiadau trafnidiaeth ac ati gan Byron Davies, Eluned Parrott ac eraill. Gadewch inni fod yn hollol glir: mae’r Gweinidog dros drafnidiaeth wedi bod yn glir ynglŷn â’r prosiect metro. Prosiect metro ar gyfer de Cymru yw hwn, ac nid metro Caerdydd. Mae’n rhaid i ni weld y sgyrsiau a’r trafodaethau hyn yng ngoleuni’r hyn yr ydym eisoes yn ei wneud o ran cysylltu gofynion trafnidiaeth, boed ym maes trydaneiddio neu’r hyn rydym yn ei wneud o ran cyllid. Mae gennyf ddealltwriaeth glir gyda’m cydweithiwr Carl Sargeant o ran sut y gellir bwrw ymlaen â’r materion hyn mewn ffordd sydd, mae’n rhaid dweud, yn un graddol fesul cam, oherwydd y bydd blaenoriaethau uniongyrchol yn dod i’r amlwg ar gyfer dinas-ranbarthau, megis sut rydych yn delio â chronfeydd strwythurol Ewropeaidd a’r fforymau economaidd na fydd yn bodoli mwyach ar ddiwedd mis Mawrth—mae’n ymwneud â sut bydd y strwythurau’n datblygu.

Nick is quite right; there is a real issue here about how we deal with local authorities and lead authorities and the names of things. I will have to consider very carefully what I am to call this city region in the south east and, in some ways, what I shall call Swansea. It is important that we recognise that when we do have leadership with local government—this is a matter that I have also discussed with the Minister for local government—it is highly likely that other authorities will be the lead convening authorities, and not the two city authorities. I think that that will give confidence to other authorities that they are part and parcel of this discussion.

Mae Nick yn hollol iawn, mae yma bwynt pwysig ynghylch sut yr ydym yn delio ag awdurdodau lleol ac awdurdodau arweiniol ac enwau pethau. Bydd yn rhaid i mi ystyried yn ofalus iawn beth i alw’r ddinas-ranbarth hon yn y de-ddwyrain ac, mewn rhai ffyrdd, beth i alw Abertawe. Mae’n bwysig ein bod yn cydnabod, pan fydd gennym arweinyddiaeth gyda llywodraeth leol—mae hwn yn fater yr wyf hefyd wedi ei drafod gyda’r Gweinidog dros lywodraeth leol—ei bod yn debygol iawn y bydd awdurdodau eraill yn cymryd yr awenau, ac nid awdurdodau’r ddwy ddinas. Rwyf yn credu y bydd hynny’n rhoi hyder i awdurdodau eraill eu bod yn rhan annatod o’r drafodaeth hon.

Mike Hedges alluded to the importance of identity. Identity is key. Even if you are in a city region, and the city is seen as the driver, the identity of the towns and areas where things are happening is very important. One of the other issues brought up by Mike Hedges was that of planning. This is an area that city regions will clearly have to look at,

Crybwyllodd Mike Hedges bwysigrwydd hunaniaeth. Mae hunaniaeth yn allweddol. Hyd yn oed os ydych mewn dinas-ranbarth, a bod y ddinas yn cael ei gweld fel y sbardun, mae hunaniaeth y trefi a’r ardaloedd lle mae pethau’n digwydd yn bwysig iawn. Un o’r materion eraill a godwyd gan Mike Hedges oedd cynllunio. Mae hwn yn faes y bydd yn

and I know that my colleague John Griffiths is aware of the planning issues for city regions. We see this as an opportunity to look at issues in the long run, because you are quite right that decisions that are made close to the border in one authority can impact indirectly on a whole host of people.

rhaid i ddinas-ranbarthau yn amlwg edrych arno, a gwn fod fy nghydweithiwr John Griffiths yn ymwybodol o'r materion yn ymwneud â chynllunio ar gyfer dinas-ranbarthau. Rydym yn gweld hyn fel cyfle i edrych ar faterion yn y tymor hir, oherwydd eich bod yn iawn bod penderfyniadau a wneir yn agos at y ffin mewn un awdurdod yn gallu effeithio'n anuniongyrchol ar lu o bobl.

It is also important that we look at the housing agenda as part of these wider issues, to see what we can do about that. I have to say that the Minister for housing and I are of one mind about how we can utilise the city region structure to deal with some of the wider housing issues.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn edrych ar yr agenda tai fel rhan o'r materion ehangach hyn, i weld beth gallwn ei wneud ynglŷn â hynny. Rhaid i mi ddweud bod y Gweinidog ar gyfer tai a minnau yn cytuno'n llwyr ynglŷn â sut y gallwn ddefnyddio strwythur y ddinas-ranbarth i ymdrin â rhai o'r materion tai ehangach.

Obviously, it is important for us to recognise that areas outside the city regions, including rural Wales, are also very important. The report identifies the point that areas outside city regions can experience benefits from the adoption of the city region approach. It looked at the case of Stuttgart, where the focus on growth in the city has kept the green, rural corridors outside intact, helped by a redistribution of funding. A study from north-east England found increasing and better provision in the city region forced improvements in the surrounding rural areas as well, so we have to bear that in mind. A Scottish study found that the severity of city growth constraints can aid local success outside the city, and that is important with regard to how we develop areas outside. I certainly concur with the Minister for Housing, Regeneration and Heritage, who reminded Assembly Members in June of the Welsh Government's commitment to rural Wales, in terms of what we are doing with the rural development plan, using European resources to tackle specific problems within rural Wales.

Yn amlwg, mae'n bwysig i ni gydnabod bod ardaloedd y tu allan i'r dinas-ranbarthau, gan gynnwys cefn gwlad Cymru, hefyd yn bwysig iawn. Mae'r adroddiad yn nodi'r pwynt y gall ardaloedd y tu allan i'r dinas-ranbarthau brofi manteision yn sgil mabwysiadu'r dinas-ranbarthau. Edrychodd ar achos Stuttgart, lle mae'r pwyslais ar dwf yn y ddinas wedi cadw'r coridorau gwyrdd, gwledig y tu allan yn gyfan, gyda chymorth proses o ailddosbarthu cyllid. Mae astudiaeth o ogledd-ddwyrain Lloegr wedi dangos bod darpariaeth well a chynyddol yn y ddinas-ranbarth wedi gorfodi gwelliannau yn yr ardaloedd gwledig cyfagos yn ogystal, felly mae'n rhaid cadw hynny mewn cof. Canfu astudiaeth yn yr Alban y gall cyfyngiadau llym ar dwf y ddinas gynorthwyo llwyddiant ardaloedd lleol y tu allan i'r ddinas, ac mae hynny'n bwysig o ran sut rydym yn datblygu ardaloedd y tu allan. Rwyf yn sicr yn cytuno â'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, a atgoffodd Aelodau'r Cynulliad ym mis Mehefin o ymroddiad Llywodraeth Cymru i gefn gwlad Cymru, o ran yr hyn yr ydym yn ei wneud gyda'r cynllun datblygu gwledig, gan ddefnyddio adnoddau Ewropeaidd i fynd i'r afael â phroblemau penodol yn ardaloedd gwledig Cymru.

The spatial plan has been mentioned, and it is also important in terms of the hinterland that we recognise that managing pressures on city regions is not just about urban centres. For instance, in south-east Wales we are directing resources towards selected growth centres in

Mae'r cynllun gofodol wedi cael ei grybwyll, ac mae hefyd yn bwysig o ran yr ardal o gwmpas y ddinas ein bod yn cydnabod nad rhywbeth sy'n ymwneud â chanolfannau trefol yn unig yw rheoli pwysau ar ddinas-ranbarthau. Er enghraifft, yn ne-ddwyrain

the Valleys as well as Cardiff, while implementing measures to improve connectivity, which are important.

Cymru, rydym yn cyfeirio adnoddau tuag at ganolfannau twf a ddewiswyd yn y Cymoedd yn ogystal â Chaerdydd, gan weithredu mesurau i wella cysylltedd, sy’n bwysig.

We get a whole range of issues arising from the city region report. We also need to realise that different parts of the city region have different contributions to make. Space requirements can help new manufacturing outside the city, which is an important point that Lindsay Whittle made in reference to the economy. Outlying areas of city regions need transport corridors, which can also be an attraction. We also have to look at what the citizen feels about city regions—whether they find them attractive where they live, and where services can be.

Mae ystod eang o faterion yn codi o’r adroddiad ar y dinas-ranbarthau. Mae angen i ni hefyd sylweddoli bod gan wahanol rannau o’r ddinas-ranbarth gyfraniadau gwahanol i’w gwneud. Gall gofynion o ran lle gynorthwyo mentrau gweithgynhyrchu newydd y tu allan i’r ddinas, sydd yn bwynt pwysig a wnaeth Lindsay Whittle wrth gyfeirio at yr economi. Mae ar ardaloedd ar gyrion y dinas-ranbarthau angen coridorau trafnidiaeth, a all hefyd fod yn atyniad. Mae rhaid i ni hefyd edrych ar yr hyn y mae’r dinesydd yn ei deimlo am y ddinas-ranbarth—a ydynt yn eu gweld yn ddeniadol lle maent yn byw, a lle y mae’r gwasanaethau o bosibl.

I am pleased that we have such a consensus in terms of the debate, but I think that you will recognise that the next point on this will be how we actually start to implement some of the issues within the report, and how we get the partnerships together. I am not sure who alluded to the comments of some local authority chief executives about what they did not like in the city regions report, which was disappointing, but at the end of the day it is our duty to get the economy of Wales going. It is not about artificial boundaries, or your view of your fiefdom or empire—these are not city states. It is about getting everyone working together in a consensual manner to look at common good.

Rwyf yn falch bod gennym gymaint o gonsensws o ran y ddadl, ond credaf y byddwch yn cydnabod mai’r pwynt nesaf yn hyn o beth fydd sut yr ydym yn dechrau gweithredu rhai o’r materion yn yr adroddiad, a sut yr ydym yn dod â’r partneriaethau at ei gilydd. Nid wyf yn siŵr pwy gyfeiriodd at sylwadau prif weithredwyr rhai awdurdodau lleol am yr hyn nad oeddent yn ei hoffi yn yr adroddiad ar ddinas-ranbarthau. Roedd hyn yn destun siom, ond ar ddiwedd y dydd, mae’n ddyletswydd arnom i hybu economi Cymru. Nid yw’n ymwneud â ffiniau artiffisial, neu eich barn am eich ymerodraeth neu eich tiriogaeth eich hun—nid dinas-wladwriaethau mohonynt. Mae’n ymwneud â chael pawb i weithio gyda’i gilydd mewn modd cytûn i edrych ar les pawb.

Hopefully, within the next couple of weeks I will be making a statement in terms of how I intend to take some of these matters forward, but not necessarily all, in light of my announcement on north Wales. I need to put some more flesh on that. I also need to look carefully at the governance arrangements that would apply in the south. It is important. It will also be important for me to have sign-up not just from local government, but from further education, higher education and strategic partners in industry to see how we can develop and take this forward. Also, if there is to be any conflict about development,

Y gobaith yw, o fewn yr ychydig wythnosau nesaf y byddaf yn gwneud datganiad ynglŷn â sut rwyf yn bwriadu bwrw ymlaen â rhai o’r materion hyn, ond nid o reidrwydd pob un ohonynt, yng ngoleuni fy nghyhoeddiad ar ogledd Cymru. Mae angen i mi roi mwy o gnawd ar yr esgyrn yn hynny o beth. Mae hefyd angen i mi edrych yn ofalus ar y trefniadau llywodraethu a fyddai’n berthnasol yn y de. Mae’n bwysig. Bydd hefyd yn bwysig i mi gael cefnogaeth, nid yn unig gan lywodraeth leol, ond hefyd gan addysg bellach, addysg uwch a phartneriaid strategol ym maes diwydiant i weld sut y gallwn

who will adjudicate on that will be important in the context of the city region.

ddatblygu hyn a'i symud ymlaen. Hefyd, os bydd unrhyw wrthdaro yn codi ynglŷn â datblygiad, bydd yn bwysig gwybod, yng nghyd-destun y ddinas-ranbarth, pwy fydd yn dyfarnu ar hynny.

It has been a good discussion and I place on record my thanks to Dr Elizabeth Haywood for the work she and her group have undertaken to date, and the further work that they will do in terms of north Wales. It is important to recognise that, at the end of the day, it will be support across the piece here that will be crucial to the development and the outcomes of the city regions. We must not be frightened of city regions; we must embrace the concept and take it forward.

Mae wedi bod yn drafodaeth dda a hoffwn gofnodi fy niolch i'r Dr Elizabeth Haywood am y gwaith y mae hi a'i grŵp wedi ei wneud hyd yn hyn, a'r gwaith pellach y byddant yn ei wneud o ran gogledd Cymru. Mae'n bwysig cydnabod, ar ddiwedd y dydd, mai cael cefnogaeth gyffredinol yma a fydd yn hanfodol i ddatblygiad a chanlyniadau'r dinas-ranbarthau. Rhaid i ni beidio â bod ofn dinas-ranbarthau, rhaid i ni groesawu'r cysyniad a'i symud yn ei flaen.

**The Deputy Presiding Officer:** Before I put amendment 1 to the Assembly, the proposer of amendment 3 wishes to withdraw amendment 3. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, I deem that amendment 3 has been withdrawn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Cyn imi roi gwelliant 1 gerbron y Cynulliad, mae cynigydd gwelliant 3 yn dymuno tynnu gwelliant 3 yn ôl. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, rwyf yn ystyried bod gwelliant 3 wedi ei dynnu'n ôl.

*Tynnwyd gwelliant 3 yn ôl drwy ganiatâd y Cynulliad.*
*Amendment 3 withdrawn by leave of the Assembly.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is no objection. Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1.*
*Amendment 1 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? I see that there is no objection. Amendment 2 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 2.*
*Amendment 2 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 4. Does any Member object? I see that there is no objection. Amendment 4 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 4.*
*Amendment 4 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** The

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn

proposal is to agree amendment 5. Does any Member object? I see that there is no objection. Amendment 5 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 5.*
*Amendment 5 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 6. Does any Member object? I see that there is no objection. Amendment 6 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn gwelliant 6. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, derbyniwyd gwelliant 6 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 6.*
*Amendment 6 agreed.*

Cynnig NDM5064 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5064 as amended:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi'r adroddiad ar y Dinas-ranbarthau.*

*Notes the report on City Regions.*

*Yn credu y bydd dinas-ranbarthau yn cyfrannu at dwf economaidd yn y modd mwyaf effeithiol os bydd cysylltedd digidol a thrafnidiaeth yn gwella ar draws y rhanbarth.*

*Believes that city regions will contribute to economic growth most effectively if transport and digital connectivity is improved throughout the region.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o drosolwg democrataidd mewn penderfyniadau a wneir ar lefel y ddinas-ranbarth.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that local authorities have adequate democratic oversight of decisions made at the city region level.*

*Yn credu y bydd llwyddiant dinas-ranbarthau yn dibynnu ar gydweithio rhwng pob haen o lywodraeth; ynghyd â'r sector corfforaethol, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.*

*Believes the success of city regions will depend on co-operation between all tiers of government; together with the corporate, public and third sectors.*

*Yn cydnabod na ddylai'r gwaith o weithredu dinas-ranbarthau amharu ar adfywio yng ngweddill ardaloedd Cymru.*

*Acknowledges that the implementation of city regions should not compromise the regeneration of all other parts of Wales.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi manylion llawn ynghylch y ffordd orau i'r ardaloedd menter perthnasol gefnogi dinas-ranbarth De-Ddwyrain Cymru*

*Calls on the Welsh Government to fully detail how the relevant enterprise zones can best complement the South East Wales city region.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion as amended. Does any Member object? I see that there is no objection. The motion as amended is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn ar y cynnig fel y'i diwygiwyd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd felly, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd cynnig NDM5064 fel y'i ddiwygiwyd.*
*Motion NDM5064 as amended agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** That concludes today's business.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.44 p.m.*
*The meeting ended at 5.44 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru Annibynnol – Independent Plaid Cymru)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)

Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)